Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

# Canllawiau statudol

## ar system gwynion yr heddlu

# Cynnwys

**Pennod 1 – Cyflwyniad** ........ **6**
Deddf *Plismona a Throsedd 2017*: newidiadau i system gwynion yr heddlu ........ 6
I bwy mae'r cyfarwyddyd hwn yn berthnasol ........ 8
Cyfarwyddyd a deddfwriaeth arall ........ 8
Y cyfarwyddyd hwn a rolau allweddol yn system gwynion yr heddlu - dirprwyaeth a chyfrifoldebau ........ 9
Sut y trefnwyd y cyfarwyddyd ........ 11

## Egwyddorion y system gwynion

**Pennod 2 – Cael mynediad i'r system gwynion** ........ **14**
Pwysigrwydd system hygyrch ........ 14
Hyrwyddo mynediad ........ 14
Dynodi a goresgyn rhwystrau ........ 16
Achwynwyr all fod angen cymorth ychwanegol ........ 17
Cwynion a wneir gan bobl ifanc dan 18 ........ 18

**Pennod 3 – Egwyddorion ymdriniaeth resymol a chymesur** ........ **19**
Pwysigrwydd ymdriniaeth resymol a chymesur ........ 19
Beth yw ystyr 'rhesymol a chymesur'? ........ 19
Egwyddorion ymdriniaeth resymol a chymesur ........ 20

**Pennod 4 – Dysgu a Gwella** ........ **23**
Llunio diwylliant o ddysgu ........ 23
Dysgu oddi wrth gwynion, ymchwiliadau ac adolygiadau ........ 24
Dysgu o ffynonellau ehangach ........ 24
Defnyddio data fel sail i welliant ........ 25
Sicrhau bod data ar gael yn lleol ........ 26
Cyfleu effaith dysgu ........ 27

## Ymdrin â chwynion ar y dechrau

**Pennod 5 – Cwynion** ........ **29**
Diffiniad o gŵyn ........ 29
Am beth y gellir cwyno? ........ 29
Pwy all gyflwyno cwyn? ........ 30
Cwynion sy'n cael eu gwneud ar ran rhywun arall ........ 33

Cwynion sydd tu allan i system gwynion yr heddlu ........................................................ 34
**Pennod 6 – Cofnodi ac ymdrin â chwynion ar y dechrau .......................................... 35**
Cofnodi ac ymdrin â chwynion ar y dechrau ..................................................................... 36
Camau gweithredu wrth dderbyn cwyn ............................................................................. 37
Trin cwynion tu allan i Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* .................................. *39*
Cofnodi cwynion ............................................................................................................... 41

## **Ymdrin â chwynion, materion ymddygiad cofnodadwy a materion marwolaeth neu anaf difrifol dan Atodlen 3** *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

**Pennod 7 – Materion marwolaeth neu anaf difrifol ..................................................... 45**
Diffiniad o fater marwolaeth neu anaf difrifol ..................................................................... 45
Cofnodi mater marwolaeth neu anaf difrifol ........................................................................ 46

**Pennod 8 – Mater ymddygiad cofnodadwy ..................................................................... 47** Y
diffiniad o fater ymddygiad ............................................................................................. 47
Adnabod materion ymddygiad ............................................................................................ 48
Cofnodi materion ymddygiad ............................................................................................. 49
Cofnodi materion ymddygiad ............................................................................................. 50
Materion ymddygiad sy'n ymwneud â honiadau o wahaniaethu ....................................... 53
Atgyfeirio mater ymddygiad ................................................................................................ 53

**Pennod 9 – Atgyfeiriadau ................................................................................................ 54**
Cwynion y mae'n rhaid eu cyfeirio at yr IOPC .................................................................. 54
Materion ymddygiad y mae'n rhaid eu hatgyfeirio at yr IOPC ........................................... 55
Atgyfeirio materion marwolaeth neu anaf difrifol (DSI) ....................................................... 55
Meini prawf atgyfeirio gorfodol .......................................................................................... 56
Diffiniadau o feini prawf atgyfeirio ..................................................................................... 57
Atgyfeiriadau gwirfoddol .................................................................................................... 61
Materion sydd angen atgyfeiriad gofynnol i'r IOPC ('galw i mewn') ................................... 62
Pŵer yr IOPC i ddelio â materion sydd wedi eu hatgyfeirio (pŵer mentergarwch')............. 62
Dyddiadau cau ar gyfer atgyfeirio ...................................................................................... 63
Hysbysiad o atgyfeiriad ..................................................................................................... 65
Penderfynu sut ac a ddylid ymchwilio mater ..................................................................... 65
Hysbysiad o benderfyniadau'r dull o ymchwilio ................................................................. 66

**Pennod 10 – Penderfynu sut i drin mater o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*............................................................................................................................ 67**
Y gofynion er mwyn ymgymryd â dull rhesymol a chymesur ............................................. 67

Materion sy'n rhaid eu hymchwilio ........................................................................... 67
Eithriadau i'r ddyletswydd i ymchwilio i gwynion ................................................................ 70
Asesu beth sy'n rhesymol a chymesur ...................................................................... 71

**Pennod 11 – Dyletswyddau ac ystyriaethau sy'n berthnasol i bob ymdriniaeth o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* ......................................................................... 72**
Penodi unigolyn i ddelio â'r mater ......................................................................... 72
Tystion yr heddlu ......................................................................................... 73
Cyfathrebu gyda'r achwynydd a phartïon eraill ........................................................ 73
Eithriadau i'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth ..................................................... 74
Cadw trywydd archwilio .................................................................................. 76
Ymddiheuro pryd a phan mae hynny'n briodol ........................................................... 76
Beirniadaeth ............................................................................................. 77

**Pennod 12 – Ymdrin â chwynion o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* heblaw trwy ymchwiliad ......................................................................... 78**
Gweithredu mewn modd hyblyg ......................................................................... 78
Penderfynu peidio cymryd unrhyw gamau pellach ...................................................... 79

**Pennod 13 – Gofynion wrth ymchwilio ......................................................................... 81**
Ymchwiliadau ............................................................................................. 81
Penodi unigolyn i gynnal yr ymchwiliad ................................................................ 81
Cylch gorchwyl ........................................................................................... 83
Cwynion yn gysylltiedig ag ymchwiliadau marwolaethau neu anafiadau difrifol ................. 83
Materion o farwolaeth neu anaf difrifol yn datblygu'n faterion o ymddygiad ...................... 84
Gweithdrefnau arbennig .................................................................................. 85
Asesiadau difrifoldeb .................................................................................... 86
Hysbysiadau am ymchwiliadau a darparu cylch gorchwyl ............................................. 89
Sylwadau i'r ymchwilydd ................................................................................. 90
Gweithdrefnau carlam .................................................................................... 91
Gwahardd swyddogion yr heddlu a chwnstabliaid rhan amser ........................................ 93
Cynnal ymchwiliad ........................................................................................ 93
Atgyfeiriadau cynnar at Wasanaeth Erlyn y Goron ..................................................... 95
Prydlondeb ymchwiliadau ................................................................................. 96

**Pennod 14 – Cwblhau Ymchwiliad ......................................................................... 99**
Adroddiad yr ymchwiliad ................................................................................. 99
Pwy sy'n berchen yr adroddiad .......................................................................... 99
Cynnwys adroddiad ymchwiliad ......................................................................... 100
Cyflwyno'r adroddiad ..................................................................................... 102

**Pennod 15 – Atal ac ail-ddechrau ymdrin ag achos ......................................................................... 104**

Grym i ohirio ymchwiliad neu ymdriniaeth arall ........ 104
Ailddechrau ar ôl achos troseddol ........ 106

**Pennod 16 – Delio gyda chwynion sydd wedi eu tynnu'n ôl ........ 108**
Hysbysiad gofynnol ........ 108
Os dylid trin y gŵyn fel mater ymddygiad cofnodadwy ........ 108

**Deilliannau ymdrin â chwynion**

**Pennod 17 – Canlyniadau yn dilyn ymchwiliad neu ymdriniaeth arall o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* ........ 111**
Canlyniadau rhesymol a chymesur ........ 111
Camau gweithredu ar ôl derbyn adroddiad ymchwiliad ar fater DSI - ymchwiliadau lleol, cyfeiriedig ac annibynnol ........ 118
Gweithredu ar dderbyn adroddiad ymchwiliad ar gŵyn neu fater ymddygiad cofnodadwy – ymchwiliadau lleol ........ 119
Gweithredu ar dderbyn adroddiad ymchwiliad ar gŵyn neu fater ymddygiad cofnodadwy – ymchwiliadau dan gyfarwyddyd ........ 122
Cyfathrebu'r canlyniad ........ 125

**Pennod 18 – Adolygiadau ........ 129**
Yr hawl i adolygiad ........ 129
Pwy yw'r 'corff adolygu perthnasol'? ........ 130
Dirprwyo gan y corff plismona lleol ar gyfer ystyried adolygiadau ........ 131
Derbyn cais am adolygiad ........ 131
Dilysrwydd ........ 132
Cynnal yr adolygiad ........ 135
Canlyniad yr adolygiad ........ 137

**Atodiadau**

**Atodiad A – Canllawiau atodol ar drin materion yn ymwneud â gweithredoedd prif swyddogion ........ 144**
Awdurdod priodol ........ 144
Cofnodi ac ymdrin â chwynion ar y dechrau ........ 145
Cofnodi materion ymddygiad ........ 145
Atgyfeiriadau ........ 146
Ymdrin â materion o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*........ *147*
Adolygiadau a'r corff adolygu perthnasol ........ 148

**Atodiad B – Canllawiau atodol ar ymdrin â materion sy'n ymwneud ag unigolion nad ydynt bellach yn gwasanaethu gyda'r heddlu ........ 149**
Ymdrin â materion lle mae'r unigolyn wedi rhoi'r gorau i wasanaethu ar neu ar ôl 15 Rhagfyr 2017 ........ 149
Ymdrin â materion lle mae'r unigolyn wedi rhoi'r gorau i wasanaethu cyn 15 Rhagfyr 2017 ........ 163
Pan fydd unigolyn yn rhoi'r gorau i wasanaethu yn ystod y broses o ymdrin â'r mater ...... 163
**Siartiau llif ........ 165**
Cwynion ........ 165
Mater ymddygiad cofnodadwy ........ 166
Materion DSI ........ 167
Prawf y corff adolygu perthnasol ........ 168
Adolygiadau gan gyrff plismona lleol ........ 169

**Geirfa ........ 170**

# Pennod 1

## Cyflwyniad

1.1 Mae gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) ddyletswydd statudol i sicrhau a chynnal hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr ac i sicrhau ei fod yn effeithlon ac effeithiol. Ein nod yw gwella hyder y cyhoedd mewn plismona trwy sicrhau bod yr heddlu yn atebol am eu gweithredoedd a bod gwersi yn cael eu dysgu.

1.2 Y cyfarwyddyd hwn yw un o'r ffyrdd y bydd yr IOPC yn helpu cyrff plismona lleol a lluoedd heddlu i gyrraedd safonau uchel wrth ymdrin â chwynion, materion ymddygiad a materion marwolaethau ac anafiadau difrifol (DSI), ac i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol.

1.3 Mae system gwynion yr heddlu effeithiol yn hanfodol. Mae'r ffordd y mae cwynion, materion ymddygiad a marwolaethau ac anafiadau difrifol yn cael eu trin yn cael effaith anferth ar hyder yn yr heddlu. Pan fyddant yn cael eu trin yn dda, mae'n helpu i adfer ymddiriedaeth, sicrhau gwelliannau mewn plismona a sicrhau na fydd rhywbeth sydd wedi mynd o'i le yn digwydd eto. Pan fydd y rhain yn cael eu trin yn wael, mae'n niweidio ymddiriedaeth yn yr heddlu a system gwynion yr heddlu fel ei gilydd. Dylai'r broses o ymdrin â phob mater anelu at wella'r gwasanaeth heddlu a pherfformiad unigol trwy ddysgu, a chywiro pethau pan fyddant wedi mynd o chwith. Dylid gwneud hyn wrth sicrhau bod atebolrwydd priodol ar lefel unigolyn a heddlu.

### Newidiadau i system gwynion yr heddlu

1.4 Gwnaeth *Deddf Plismona a Throseddu 2017* a'r rheoliadau i'w chefnogi newidiadau arwyddocaol i systemau cwynion a disgyblu'r heddlu. Gwnaethant gyflwyno nifer o newidiadau a fwriadwyd i greu system gwynion sy'n rhoi mwy o bwyslais ar y cwsmer.

1.5 Mae newidiadau dilynol wedi'u gwneud i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, sydd wedi'u cynllunio i wella ymhellach effeithlonrwydd systemau cwynion a disgyblu'r heddlu, ynghyd â hyder y cyhoedd ynddynt.

1.6 Mae'r adolygiad hwn o'r canllawiau yn 2026 wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan:

- Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) (Diwygio) 2024

- Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad, Perfformiad ac Ymddygiad Anaddas a Chwynion) (Diwygio) 2025
- Rheoliadau'r Heddlu (Fetio) 2025
- Deddf Trosedd ac Blismona 2026
- Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad a Fetio ac ati) (Diwygio) 2026
- Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) (Diwygio) 2026

**1.7** Ceir hefyd nifer fach o ddiwygiadau lle mae adborth neu ein profiad dros y chwe blynedd diwethaf wedi awgrymu y byddai ychydig o ganllawiau ychwanegol yn cynorthwyo ymarferwyr, neu lle'r oedd angen egluro'r canllawiau presennol.

## I bwy mae'r cyfarwyddyd hwn yn berthnasol

**1.12** Cyhoeddir y cyfarwyddyd hwn dan Adran 22 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Mae'n berthnasol i bob corff plismona lleol a phob un o 43 llu heddlu'r Swyddfa Gartref yng Nghymru a Lloegr. Mae'n rhaid i'r holl gyrff plismona lleol, swyddogion heddlu, aelodau o staff yr heddlu, cwnstabliaid rhan amser a phawb sy'n gweithio mewn plismona ystyried y cyfarwyddyd hwn. Mae'n berthnasol hefyd i'r asiantaethau hynny a'r lluoedd nad ydynt yn rhai'r Swyddfa Gartref sydd wedi llunio cytundebau gyda'r IOPC dan Adran 26 neu Adran 26BA, yn amodol ar unrhyw ddarpariaethau neilltuol a gynhwysir o fewn y cytundebau hynny.

**1.13** Os na fydd y bobl a restrir uchod yn dilyn y cyfarwyddyd, bydd angen bod ganddynt sail resymegol gadarn dros wyro oddi wrtho neu redeg y risg o wynebu her gyfreithiol. Mae methiant i ystyried y cyfarwyddyd yn dderbyniadwy fel tystiolaeth mewn unrhyw achos cyfreithiol, gan gynnwys unrhyw weithdrefnau disgyblu ac unrhyw weithdrefnau apelio yn dilyn penderfyniad disgyblaethol.

**1.14** Ysgrifennwyd y cyfarwyddyd hwn gydag anghenion gweithwyr proffesiynol yn y gwasanaeth heddlu a chyrff plismona lleol dan sylw. Mae ar gael i'r cyhoedd hefyd ac unigolion eraill a grwpiau sydd â diddordeb yn y system. Yn ychwanegol at hyn, mae'r IOPC wedi cyhoeddi amrywiaeth o ddeunyddiau eraill i ategu'r cyfarwyddyd hwn ac i gynorthwyo gwahanol gynulleidfaoedd.

## Cyfarwyddyd a deddfwriaeth arall

**1.15** Dylai'r cyfarwyddyd hwn gael ei ddarllen ar y cyd â:

- *canllawiau ar ymdrin â honiadau o ymddygiad gwahaniaethol* yr IOPC

- *canllaw ar gipio data ynglŷn â chwynion yr heddlu* yr IOPC
- cyfarwyddyd y Swyddfa Gartref ar *Ymddygiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd: cyfarwyddyd statudol ar safonau proffesiynol, perfformiad a didwylledd plismona*
- Cyfarwyddyd ar ddeilliannau mewn gwrandawiadau camymddygiad yr heddlu'r Coleg Plismona

**1.16** Yn ogystal â'r ddeddfwriaeth a'r canllaw sy'n llywodraethu system gwynion yr heddlu a systemau disgyblu, rhaid i'r heddlu a chyrff plismona lleol roi ystyriaeth hefyd i ddeddfwriaeth arall sydd â goblygiadau o ran sut y maent yn arfer eu rolau a'u cyfrifoldebau o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Yn benodol:

- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'u dyletswyddau i[1]:

  i. i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
  ii. hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu; a
  iii. meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu[2]
- *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* a *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011* gan gynnwys Safonau sy'n berthnasol i sefydliadau priodol.
- deddfwriaeth diogelu data, a chanllawiau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Er enghraifft, dylai'r heddlu a chyrff plismona lleol ystyried sut y gallant gyfeirio eu gwybodaeth preifatrwydd at achwynwyr ar ddechrau'r broses o ymdrin â chŵyn. Gellid tanseilio hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu os bydd toriadau diogelu data yn digwydd wrth ymdrin â chwynion, neu os oes gan achwynwyr ddiffyg ymddiriedaeth yn y modd yr ymdrinnir â'u data personol.
- Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau yng Nghymru a Lloegr (Cod y Dioddefwyr), lle mae hyn yn briodol

## Y cyfarwyddyd hwn a rolau allweddol yn system gwynion yr heddlu - dirprwyaeth a chyfrifoldebau

### IOPC

**1.17** Mae'r canllaw hwn ar gyfer gwasanaeth yr heddlu a chyrff plismona lleol ar ymdrin â chwynion, felly, nid yw'n manylu ar holl gyfrifoldebau'r IOPC ei hun o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, na sut y bydd yn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny. Fodd bynnag, cyfeirir at y rhain lle mae angen egluro'r hyn a ddisgwylir gan yr heddlu a chyrff plismona lleol.

**1.18** Yn y cyfarwyddyd hwn, cyfeirir at y pwerau a'r cyfrifoldebau a roddir neu a orfodir ar Gyfarwyddwr Cyffredinol yr IOPC fel rhai sy'n cael eu hymgymryd gan yr IOPC.

### Awdurdodau priodol

**1.19** Yr awdurdod priodol ar gyfer cwyn yw prif swyddog y llu heddlu y mynegir anfodlonrwydd amdano, neu, pan fydd cwyn yn ymwneud ag ymddygiad unigolyn, y prif swyddog sydd â rheolaeth dros yr unigolyn hwnnw[3].

**1.20** Ond, os bydd cwyn yn ymwneud ag ymddygiad prif swyddog neu brif swyddog dros dro, yr awdurdod priodol yw'r corff plismona sydd â chyfrifoldeb am ardal y llu heddlu hwnnw[4].

**1.21** Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at yr awdurdod priodol lle mae deddfwriaeth yn rhoi pŵer neu gyfrifoldeb arnynt yn benodol.

**Prif swyddogion**

**1.22** I'r mwyafrif o heddluoedd, y prif swyddog yw'r Prif Gwnstabl. Ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan a Heddlu Dinas Llundain y Comisiynydd yw'r prif swyddog.

**1.23** Gall y prif swyddog ddirprwyo ei gyfrifoldebau o dan Ran 2 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* (gan gynnwys y rhai a gyflawnir fel rhan o'i rôl fel awdurdod priodol) i[5]:

- yn achos cwyn neu fater ymddygiad sy'n ymwneud ag ymddygiad uwch swyddog:
  - uwch swyddog, neu
  - aelod o staff yr heddlu sydd, ym marn y prif swyddog, o lefel debyg o statws o leiaf
- yn unrhyw achos arall:
  - aelod o heddlu sydd o safle arolygydd o leiaf, neu
  - aelod o staff yr heddlu sydd, ym marn y prif swyddog, o lefel debyg o statws o leiaf

Fodd bynnag, pan fo'r gŵyn yn gŵyn wedi'i chofnodi sy'n cael ei thrin heblaw trwy ymchwiliad, neu'n cael ei thrin y tu allan i Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, gall y prif swyddog ddirprwyo ei gyfrifoldebau o dan Ran 2 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* (gan gynnwys y rhai yr ymgymerir â hwy fel rhan o'u rôl fel awdurdod priodol) i:

- unrhyw berson sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu

**1.24** Rhaid i brif swyddog beidio â dirprwyo ymarfer neu berfformiad unrhyw bŵer neu ddyletswydd i berson pe gallai gwneud hynny beri pryder yn rhesymol ynghylch a allai'r person weithredu'n ddiduedd.

**1.25** Dylai prif swyddogion bob amser gofio bod angen hyder y cyhoedd yn y trefniadau a wnânt. Mae'n bwysig bod y rhai a allai gael eu heffeithio gan benderfyniadau a wneir o dan bwerau dirprwyedig yn gallu bod yn hyderus bod yr unigolyn y dirprwyir y pŵer iddo yn gallu gweithredu'n ddiduedd.

**Cyrff plismona lleol**

**1.26** Yn y rhan fwyaf o ardaloedd y corff plismona lleol yw'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (gweler yr eirfa)[6]. Mae gan y corff plismona lleol ddyletswydd gyffredinol i graffu ar, cefnogi a herio perfformiad cyffredinol heddluoedd, monitro cwynion a dwyn prif swyddogion i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff[7]. Gallant hefyd, lle maent o'r farn nad cydymffurfir ag agweddau ar Ran 2 i *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, i gyfarwyddo prif swyddogion i gymryd camau i unioni hyn[8].

**1.27** Mae gan bob corff plismona lleol rai dyletswyddau yng nghyswllt ymdrin â chwynion. Gallant hefyd ddewis cymryd cyfrifoldeb am rai swyddogaethau penodol ychwanegol a fyddai fel arall yn aros gyda'r prif swyddog:

- Model 1 (gorfodol): mae gan bob corff plismona lleol gyfrifoldeb am gynnal adolygiadau pan fyddant hwy yn gorff adolygu perthnasol.

- Model 2 (dewisol): yn ychwanegol at y cyfrifoldebau o dan fodel 1, gall corff plismona lleol ddewis cymryd cyfrifoldeb am wneud cyswllt cychwynnol ag achwynwyr, delio â chwynion y tu allan i Atodlen 3 i *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, a chofnodi cwynion.
- Model 3 (dewisol): gall corff plismona lleol sydd wedi mabwysiadu model 2 ddewis, yn ychwanegol, gymryd cyfrifoldeb am roi gwybodaeth briodol i achwynwyr ac unigolion â diddordeb am gynnydd trin y gŵyn a chanlyniad y gŵyn.

Nid yw cyrff plismona lleol yn dod yn awdurdod priodol ar gyfer y gŵyn dan unrhyw un o'r modelau uchod. Yn hytrach, o ran modelau 2 a 3, maent yn cyflawni rhai o'r swyddogaethau y byddai'r prif swyddog yn eu cyflawni fel arall fel yr awdurdod priodol.

**1.28** Gall corff plismona lleol ddirprwyo ei gyfrifoldebau, ond ni all eu dirprwyo i[1]:

- cwnstabl heddlu
- corff plismona lleol arall neu Faer Llundain
- unrhyw berson arall sy'n cynnal heddlu
- aelod o staff rhywun sy'n syrthio o fewn unrhyw un o'r categorïau uchod
- unrhyw berson y gallai ei ymwneud yn y rôl honno beri pryder rhesymol o ran a allai weithredu'n ddiduedd

## Sut y trefnwyd y cyfarwyddyd

**1.29** Trefnwyd y cyfarwyddyd mewn pedair prif adran:

**Egwyddorion y system gwynion**
Mae'r adran hon yn amlinellu'r egwyddorion sy'n allweddol i gyflawni system gwynion deg ac effeithiol – hygyrchedd i bawb, defnyddio dull rhesymol a chymesur, a defnyddio'r system i adnabod a gweithredu ar yr hyn a ddysgwyd i sicrhau gwelliant parhaus.

**Ymdrin â chwynion ar y dechrau**
Mae'r adran hon yn amlinellu'r ystyriaethau a chamau cychwynnol wrth dderbyn cwyn, gan gynnwys diffinio cwyn a pha gamau y gellir eu cymryd cyn cofnodi cwyn dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*.

**Ymdrin â chwynion, materion ymddygiad cofnodadwy a materion marwolaeth neu anaf difrifol dan Atodlen 3 *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002***
Mae'r adran hon yn amlinellu'r gofynion ac ystyriaethau wrth ymchwilio neu drin materion fel arall dan Atodlen 3 *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.* Mae hyn yn cynnwys gofynion yn ymwneud ag atgyfeirio at yr IOPC, rhoi gwybodaeth i bobl, asesiadau difrifoldeb, gweithdrefnau arbennig a rhoi adroddiadau.

[1]Rheoliad 50, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

**Deilliannau ymdrin â chwynion**

Mae'r adran hon yn amlinellu'r camau wrth dderbyn adroddiad ymchwiliad, y deilliannau sydd ar gael, cyfleu deilliannau a chyfrifoldebau yn ymwneud ag adolygiadau.

**1.30** Mae siartiau llif yn nodi'r prosesau ar gyfer ymdrin â chwynion, materion ymddygiad cofnodadwy, materion marwolaeth neu anaf difrifol ac adolygiadau yn cael eu cyflwyno yn yr atodiad.

**1.31** Mae'r Atodiadau hefyd yn amlinellu sut mae *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* yn cael ei haddasu i fod yn berthnasol i rai mathau o gwynion.

**1.32** Yn hytrach na chynnwys diffiniadau (gan gynnwys diffiniadau cyfreithiol) trwy'r cyfarwyddyd ei hun, diffinnir y termau a'r cysyniadau allweddol yn yr eirfa.

OFFICIAL SENSITIVE



OFFICIAL SENSITIVE

# Egwyddorion y system gwynion

# Pennod 2

## Cael mynediad i'r system gwynion

**2.1** Mae'r bennod hon yn cynnwys:

- pwysigrwydd system hygyrch
- hyrwyddo mynediad
- dynodi a goresgyn rhwystrau
- achwynwyr all fod angen cymorth ychwanegol
- cwynion a wneir gan bobl ifanc dan 18

## Pwysigrwydd system hygyrch

**2.2** Mae gallu defnyddio system gwynion yr heddlu yn rhwydd yn hanfodol i helpu i sicrhau ac arddangos bod y gwasanaeth yr heddlu yn dryloyw, atebol ac ymatebol. Mae’r system gwynion yn galluogi aelodau o’r cyhoedd i fynegi pryderon. Gall eu helpu i ddeall pam bod penderfyniad neu weithred wedi cael eu cyflawni ac i geisio cael iawn. Mae cwynion hefyd yn rhoi adborth gwerthfawr ac yn ffynhonnell bwysig o wersi i’w dysgu i helpu lluoedd heddlu, neu unigolion i wella’r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu.

**2.3** Mae pawb sydd yn y gwasanaeth heddlu a’r rhai sy’n ei oruchwylio yn rhannu cyfrifoldeb am gynyddu ymwybyddiaeth o system gwynion yr heddlu a hyrwyddo mynediad ati. Rhaid iddynt sicrhau eu bod yn gwneud darpariaethau ar gyfer mynediad i'r system sy'n adlewyrchu anghenion, disgwyliadau a hawliau achwynwyr, ac nad yw'r darpariaethau hynny'n atal aelodau'r cyhoedd rhag gwneud cwynion.

## Hyrwyddo mynediad

**2.4** Dylai’r holl sefydliadau sy’n gyfrifol am ymdrin â chwynion yr heddlu sicrhau bod aelodau o’r cyhoedd yn gallu cael gafael ar wybodaeth am sut i wneud cwyn yn gyflym ac yn hawdd. Dylai’r wybodaeth ddweud wrth bobl beth y gallant ac na allant ei ddisgwyl gan y system gwynion. Dylai fod yn glir, yn gywir ac yn hawdd ei deall. Dylai gwybodaeth gael ei chyhoeddi mewn amrywiaeth o ffyrdd, a dylai fod ar gael pryd bynnag a lle bynnag y bo’i hangen. Er enghraifft:

- ar-lein - dylai fod gan heddluoedd a chyrff plismona lleol cysylltiadau clir ar hafanau eu gwefannau i wybodaeth am sut i wneud cwyn.

- y cyfryngau cymdeithasol - dylai gwybodaeth am sut i wneud cwyn fod ar gael yn rhwydd ar gyfrifon a thudalennau cyfryngau cymdeithasol. Dylai heddluoedd a chyrff plismona lleol gydnabod, i rai achwynwyr, mai’r cyfryngau cymdeithasol fyddai'r dull a ffafrir ar gyfer gwneud cwynion, a dylent gymryd camau i reoli hyn. Nid oes disgwyl i’r heddlu chwilota’r cyfryngau cymdeithasol am fynegiadau o anfodlonrwydd, fodd bynnag, pan fydd rhywun yn cyfeirio postiad at yr heddlu, lle maent yn bwriadu gwneud cwyn, ac ymddengys eu bod yn cwrdd â’r diffiniad o achwynydd (gweler Pennod 5), dylai'r heddlu sicrhau bod systemau ar waith i ddwyn y postiad hwnnw i sylw'r adran/ corff sy'n gyfrifol am drin cwynion yn y lle cyntaf, ar gyfer cofnodi a thrafod.
- mewn gorsafoedd heddlu a dalfeydd - dylai posteri a thaflenni am y system gwynion gael eu harddangos hefyd mewn rhannau cyhoeddus o adeiladau’r heddlu, gan gynnwys ardal y ddalfa a’r ddesg flaen. Rhaid i’r rhai sydd yn y ddalfa gan yr heddlu allu cyflwyno cwyn tra byddant yn y ddalfa, os dymunant wneud hynny.

**2.5** Dylai gwefannau gynnwys:

- manylion cyswllt a ffurflenni perthnasol ar gyfer gwneud cwynion a gwneud cais am adolygiad o ganlyniad cwyn
- gwybodaeth glir, gywir a chyfoes am weithdrefnau cwyno gan gynnwys hawl achwynydd i wneud cais am adolygiad o ganlyniad y gŵyn ar ddiwedd y broses o ymdrin â chŵyn wedi'i chofnodi, gan adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol
- cwestiynau cyffredin i faterion cyffredin a gwybodaeth i achwynwyr, gan gynnwys am adrannau safonau proffesiynol ac, er enghraifft, comisiynwyr heddlu a throseddu

**2.6** Dylai heddluoedd a chyrff plismona lleol hefyd hyrwyddo system gwynion yr heddlu i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, yn enwedig i'r grwpiau a chymunedau hynny sy'n teimlo'n llai hyderus ynglŷn â'i defnyddio. Dylent weithio gyda sefydliadau eraill i ledaenu gwybodaeth ac asesu pa gymorth y gallai fod ei angen ar wahanol rannau o'r gymuned i gael mynediad i'r system gwynion - er enghraifft, llyfrgelloedd, Cyngor ar Bopeth, ysgolion neu sefydliadau'r sector gwirfoddol.

**2.7** Dylai lluoedd heddlu a chyrff plismona lleol sicrhau eu bod yn rhoi lle amlwg i wybodaeth am sut i gwyno yn uniongyrchol i'r llu heddlu perthnasol neu gorff plismona lleol, yn hytrach na'r IOPC. Dylai ddangos yn glir y bydd cwynion a gyflwynir i'r IOPC yn cael eu trosglwyddo yn awtomatig i'r llu heddlu neu gorff plismona lleol i'w cofnodi, oni bai bod amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau peidio â'u trosglwyddo ymlaen[2].

**2.8** Rhaid i luoedd heddlu a chyrff plismona sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno cwyno yn gallu gwneud hynny mewn amrywiaeth o ffyrdd. Dylai hyn gynnwys mynediad

at ffurflenni papur, ffurflenni ar-lein, cyfeiriad e-bost, llinellau ffôn ac, pan fydd yn ymarferol, cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

**2.9** Mae'r IOPC yn cydnabod efallai y bydd adegau pan fydd angen rheoli cyswllt ag achwynwyr yr ystyrir bod eu gweithredoedd neu ymddygiad yn cael effaith niweidiol sylweddol ar les staff neu adnoddau. Dan yr amgylchiadau hyn dylai'r mynediad gael ei reoli yn briodol. Ond, rhaid i achwynwr fedru gallu defnyddio'r system trwy ryw fodd bob amser[3].

## Dynodi a goresgyn rhwystrau

**2.10** Mae'n hanfodol bod pawb sy'n dymuno cyflwyno cwyn yn gallu defnyddio'r system. Dangosodd arolygon hyder y cyhoedd yr IOPC yn gyson bod rhai grwpiau, pobl ifanc a

[2] Paragraff 2, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

[3] Mae'r IOPC wedi cynhyrchu gwybodaeth bellach ar ddelio ag ymddygiad annerbyniol ac afresymol gan achwynydd, sydd ar gael ar ein gwefan.

phobl o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig yn benodol, heb hyder yn y system gwynion ac yn llai tebygol o'i defnyddio[4].

**2.11** Mae'n bwysig i luoedd heddlu a chyrff plismona lleol gydnabod y gall anghenion neu amgylchiadau penodol unigolyn gael effaith ar ei hyder a'i allu i gyflwyno cwyn. Er enghraifft, gall achwynydd deimlo yn llai parod neu abl i gyflwyno cwyn oherwydd ei oedran, problemau iechyd corfforol neu feddyliol, gwahaniaethau diwylliannol, anawsterau dysgu, neu ei sgiliau iaith neu lythrennedd. Gall achwynydd hefyd deimlo'n arbennig o anfodlon neu'n ansicr oherwydd cyfuniad o ffactorau croestoriadol sy'n rhan o'i hunaniaeth, fel rhyw, rhywedd neu hil; neu oherwydd natur ei ryngweithio blaenorol â'r heddlu neu ei brofiadau personol fel dioddefwr troseddau. Dylai lluoedd heddlu a chyrff plismona lleol gydnabod y gall cyflwyno cwyn am yr heddlu, ac amgylchedd yr heddlu, fod yn frawychus i rai.

**2.12** Rhaid i luoedd heddlu a chyrff plismona lleol ystyried rhwystrau posibl sy'n atal cysylltu a bod â strategaethau cadarn i hyrwyddo mynediad. Dylent sicrhau bod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i gael gwared ar rwystrau a all atal unrhyw un o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu rhag ymwneud â'r system gwynion. Dylent hefyd gofio, os na fydd cwyn yn cael ei thrin yn effeithiol o'r eiliad pan fydd yn cael ei chyflwyno, y gall arwain at weld yr achwynydd yn colli cyswllt â'r broses heb ddatrys y mater a godwyd a cholli hyder yn yr heddlu.

## Achwynwyr all fod angen cymorth ychwanegol

**2.13** Gall rhai pobl fod angen addasiadau i'r gweithdrefnau arferol i'w galluogi i gael mynediad at y system gwynion. Efallai, er enghraifft, bod achwynydd yn ei chael hi'n anodd cyfathrebu yn Saesneg, neu trwy'r gair ysgrifenedig, neu ei fod dan anfantais mewn rhyw ffordd arall. Mae'n bwysig nad oes unrhyw un yn cael ei annog i beidio â defnyddio system gwynion yr heddlu.

**2.14** Rhaid i'r heddlu a chyrff plismona lleol ystyried eu hymrwymiadau dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* gan gynnwys sicrhau nad yw eu gweithredoedd yn wahaniaethol. Rhaid iddynt hefyd sicrhau bod eu gweithredoedd yn adlewyrchu nodau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau.

**2.15** Rhaid i luoedd heddlu a chyrff plismona lleol fod yn ymwybodol y gall yr hyn sy'n arferol i bobl heb anabledd fod yn anodd i rywun sydd â nam neu gyflwr iechyd. Dan Adran 20 *Deddf Cydraddoldeb 2010* mae dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau na fydd unigolyn anabl yn dioddef unrhyw anfantais arwyddocaol wrth ddefnyddio gwasanaeth.

**2.16** Rhaid tybio bob amser bod gan unigolyn sy'n dymuno cyflwyno cwyn y gallu i wneud hynny (h.y. y gallu i wneud penderfyniadau) oni bai ei fod yn cael ei sefydlu nad oes ganddo ef neu hi'r gallu hwnnw[5].

**2.17** Yna efallai y bydd angen cymorth perthynas, gofalwr neu gynrychiolydd arall i helpu achwynydd i oresgyn unrhyw rwystrau sy'n ei atal rhag cyflwyno cwyn. Gallant helpu

[4] IPCC (2016) *Public confidence in the police complaints system: 2016 report prepared for the IPCC by IPSOS MORI*

[5] Adran 1, *Deddf Galluedd Meddyliol 2005*.

achwynydd hefyd i fynegi ei ddymuniadau a manylion ei gŵyn yn fwy clir. Ond, mewn rhai achosion, efallai y bydd yn ofynnol cael cefnogaeth ychwanegol o hyd. Er enghraifft, gall fod yn addas cyfeirio at neu hwyluso mynediad at wasanaethau cefnogi eraill. Rhaid i luoedd heddlu a chyrff plismona lleol ystyried bob amser pa addasiadau rhesymol all fod yn addas dan yr amgylchiadau.

**2.18** Mae'r cyfarwyddyd hwn yn tanlinellu bod angen i luoedd heddlu a chyrff plismona lleol roi gwybodaeth benodol yn ysgrifenedig. Efallai nad adlewyrchu gofyn statudol yn unig y bydd hyn, ond hefyd sicrhau bod cofnod ffurfiol yn bodoli o'r wybodaeth a roddwyd neu'r camau a gymerwyd. Mae cyfathrebu ysgrifenedig yn osgoi ansicrwydd petai anghydfod yn codi am yr hyn sydd wedi digwydd neu yr hyn a ddywedwyd. Fodd bynnag, gallai fod yn briodol darparu gwybodaeth yn ysgrifenedig a thrwy ddull arall.

**2.19** Dylai lluoedd heddlu a chyrff plismona lleol sicrhau bod cyfathrebu yn cael ei deilwrio i fodloni anghenion unigol yr achwynydd. Dylent ystyried dewis a fynegwyd gan yr achwynydd neu unigolyn â diddordeb o ran y dull cyfathrebu wrth roi gwybodaeth iddynt.

**2.20** Dylid darparu hefyd ar gyfer pobl sy'n dymuno cyflwyno cwyn, neu angen gwybodaeth am y system gwynion, mewn iaith arall neu ar fformat gwahanol. Mae hyn yn cynnwys iaith arwyddion, mynediad i gyfieithwyr ar y pryd a fformatau eraill fel Braille, sain neu hawdd ei ddeall.

## Cwynion a wneir gan bobl ifanc dan 18

**2.21** Mewn llawer o achosion bydd unigolyn ifanc sy'n cyflwyno cwyn yn erbyn unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu yn cael ei gefnogi gan riant, gwarcheidwad neu oedolyn addas arall. Mewn sefyllfaoedd pan fydd person ifanc yn gwneud cwyn ar ei ben ei hun, dylai'r heddlu neu'r corff plismona lleol weithredu ar eu cwyn o hyd. Dylai'r llu heddlu neu gorff plismona lleol ofyn i'r unigolyn ifanc a fyddai'n hoffi i'w riant neu warcheidwad gael ei hysbysu, a dylid dilyn ei ddymuniadau. Dylai'r llu neu gorff plismona lleol hefyd ystyried a ddylid cynnig cefnogaeth o fath gwahanol, megis eiriolwr.

**2.22** Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai y bydd unigolyn ifanc am gyflwyno ei gŵyn trwy riant, gwarcheidwad neu oedolyn arall. Rhaid i luoedd heddlu a chyrff plismona lleol dderbyn cwynion pan fydd unigolyn ifanc wedi rhoi caniatâd i'w riant, gwarcheidwad neu oedolyn enwebedig arall i gyflwyno'r gŵyn ar ei ran.

**2.23** Fel arfer ni ddylai unigolyn ifanc dan 16 oed orfod rhoi caniatâd ysgrifenedig i riant neu warcheidwad weithredu drosto yn y modd hwn. Ond, os daw'n amlwg bod barn yr unigolyn ifanc am gyflwyno cwyn yn wahanol i un ei riant, gwarcheidwad neu eiriolwr, dylid ystyried barn yr unigolyn ifanc, gan roi pwyslais addas ar ei oedran a'i aeddfedrwydd.

**2.24** Pan fydd unigolyn ifanc yn cyflwyno cwyn, y llu neu gorff plismona lleol sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn deall y broses a'r deilliannau posibl. Dylai pobl ifanc gael cefnogaeth nid yn unig pan fyddant yn cael mynediad i system gwynion yr heddlu gyntaf, ond trwy gydol y gwaith o ymdrin â'u cwyn, gan gynnwys sicrhau eu bod yn deall y broses a darparu cefnogaeth briodol iddynt.

# Pennod 3

## Egwyddorion ymdriniaeth resymol a chymesur

3.1 Mae'r bennod hon yn egluro'r canlynol:

- pwysigrwydd trin rhesymol a chymesur
- beth mae 'rhesymol a chymesur' yn ei olygu • egwyddorion trin rhesymol a chymesur: o pwyslais ar wasanaeth cwsmeriaid o dull dibynnol ar achos unigol o ystyried y cyd-destun ehangach o penderfyniadau teg ac effeithiol

### Pwysigrwydd ymdriniaeth resymol a chymesur

3.2 Mae angen trin cwynion a materion eraill yn rhesymol ac yn gymesur er mwyn sicrhau hyder y cyhoedd yn y system gwynion, a gweithrediad effeithlon ac effeithiol y system.

3.3 Rhaid i bob cwyn a gofnodir dan Atodlen 3 *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* gael ei thrin mewn ffordd y mae'r awdurdod priodol yn ystyried sy'n rhesymol a chymesur. Er bod y bennod hon felly'n cyfeirio at gwynion, dylid defnyddio'r egwyddorion a amlinellir yma hefyd wrth ymdrin ag ymddygiad cofnodadwy a materion marwolaeth ac anafiadau difrifol (DSI), lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

3.4 Mae egwyddorion ymdriniaeth resymol a chymesur yn berthnasol i benderfyniadau ynghylch sut y dylid ymdrin â chŵyn, ac, fel rhan o'r ymdriniaeth honno, pa gamau sy'n ofynnol i'w datrys. Mae ymdrin ag achos yn rhesymol ac yn gymesur yn cynnwys darparu canlyniad rhesymol a chymesur. Mae'r bennod hon yn cyfleu egwyddorion ymdriniaeth rhesymol a chymesur a'r hyn y mae'r rhain yn ei olygu yng nghyd-destun system gwynion yr heddlu. Nid yw'n amlinellu'r gofynion deddfwriaethol, sydd wedi'u cynnwys yn y lleoedd perthnasol yn adrannau eraill y canllaw hwn.

### Beth yw ystyr 'rhesymol a chymesur'?

3.5 Golyga hyn wneud beth sy'n briodol dan yr amgylchiadau, gan ystyried y ffeithiau a chyd-destun wneud y gŵyn, o fewn y fframwaith o ddeddfwriaeth a chanllaw. Mae'n golygu pwyso a mesur difrifoldeb y mater a'i botensial i ddysgu, yn erbyn defnyddio adnoddau plismona yn effeithlon, i bennu maint a natur y modd y mae'r mater yn cael

ei drin a'i ganlyniad. Dylai ystyried difrifoldeb y mater gynnwys rhoi sylw dyledus i natur y digwyddiad, unrhyw effaith wirioneddol neu effaith bosibl ar, neu niwed i, unigolyn/unigolion, cymunedau neu'r cyhoedd yn ehangach a'r effaith bosibl ar hyder yn yr heddlu ac yn system gwynion yr heddlu. Mae ymateb rhesymol a chymesur yn cynnwys darparu rhesymeg glir sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer unrhyw benderfyniadau a wneir.

## Egwyddorion ymdriniaeth resymol a chymesur

**Ffocws ar wasanaeth cwsmeriaid – dylai cyflawni gwasanaeth cwsmeriaid da fod yn agwedd ganolog o ymdrin â phob cwyn. Dylai pawb sy'n ymwneud â chŵyn gael eu trin yn ystyriol trwy gydol y broses.**

**3.6** Dylai'r rhai sy'n ymdrin â chwynion geisio archwilio safbwynt yr achwynydd. Dylai achwynwyr deimlo yn hyderus bod eu cwyn yn cael ei deall yn briodol. Bydd angen i'r rhai sy'n trin cwynion ddeall y gŵyn yn llawn, pam bod yr achwynydd wedi ei chyflwyno, a'r deilliant y maent yn chwilio amdano. Ar y dechrau, rhaid cysylltu â'r achwynydd a rhoi cyfle iddo roi ei farn ar sut y dylid ymdrin â'i gŵyn, a dylai'r sawl sy'n trin y gŵyn ystyried hyn (gweler Pennod 6). Gall archwilio'r gŵyn yn llawn gydag achwynydd ac egluro cylch gwaith system gwynion yr heddlu iddynt, helpu i osod ffiniau a sicrhau na chollir unrhyw elfen o'r gŵyn ar ddamwain.

**3.7** Mae'n bwysig i ddisgwyliadau gael eu rheoli trwy gydol y broses, fel bod yr achwynydd yn gwybod pa fath o ymateb y dylai ddisgwyl ei dderbyn a'r materion y bydd yn ymdrin â nhw. Pan ac os y daw'n amlwg na fydd deilliant cwyn yn debygol o fodloni disgwyliadau'r achwynydd, dylai'r un sy'n trin y gŵyn esbonio'r rheswm am hyn i'r achwynydd.

**3.8** Dylai achwynwyr, ac unrhyw unigolyn y cwynir amdano, fedru dilyn cynnydd y gŵyn trwy gydol y cyfnod y mae'n cael ei thrin. Dylai'r cyfathrebu fod mor agored a thryloyw â phosibl (gan ystyried unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol) a'i deilwrio i fodloni anghenion unigol o'r dechrau.

**3.9** Mae hefyd yn bwysig, i bawb sy'n gysylltiedig, bod cwynion yn cael eu trin mewn modd amserol.

**3.10** Ni ddylai'r ymateb y mae achwynydd yn ei gael fod yn amddiffynnol. Dylai fynd i'r afael â phob agwedd ar y gŵyn y cytunwyd arni gyda'r achwynydd, cydnabod unrhyw niwed posibl neu wirioneddol a achoswyd (ac effaith hynny), a dangos atebolrwydd sefydliadol yn barod lle bo hynny'n briodol.

**Dull dibynnol ar achos unigol – rhaid i'r hyn sy'n rhesymol a chymesur gael ei asesu ar sail yr achos unigol.**

**3.11** Dylai'r ffordd y mae cwyn yn cael ei thrin gael ei theilwrio yn ôl amgylchiadau'r gŵyn cyn belled ag y mae'n bosibl.

**3.12** Dylai pob cwyn gael ei thrin mewn ffordd sy'n ystyried difrifoldeb yr honiad ac unrhyw effaith posibl neu niwed a achosir, a'r potensial ar gyfer dysgu a gwella. Mwyaf difrifol fydd cwyn, mwyaf yn y byd fydd yr angen am atebolrwydd a chraffu. Ar gyfer cwynion mwy difrifol, gall hyn olygu bod angen cynnal ymholiadau mwy eang, neu fod angen gwneud ymdrech i gadarnhau gwybodaeth, pan na fyddai, fel arall, yn cael ei ystyried yn rhesymol neu'n gymesur o dan yr amgylchiadau. Mae mwy o ganllawiau ar sut i asesu difrifoldeb cwyn i'w gweld ym mharagraff 10.12.

**3.13** Dylai'r rhai sy'n trin cwynion hefyd:

- ystyried y ffordd orau o gyfathrebu gyda phawb sy’n ymwneud â’r gŵyn, gan gynnwys, ond heb gael ei gyfyngu i, unrhyw addasiadau rhesymol a all fod yn ofynnol (gweler Pennod 2) ac a oes unrhyw ofynion perthnasol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (sy’n ymgorffori’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith y DU)
- ystyried a fyddai o gymorth i’r gŵyn gael ei thrin gan unigolyn penodol oherwydd y pwnc neu amgylchiadau’r gŵyn, neu eu harbenigedd. Pan fo testun y gŵyn yn arbennig o ddifrifol neu sensitif, dylai'r sawl sy'n ymdrin â’r gŵyn hefyd ystyried rhoi sylw i'r hawliau a nodir yng *Nghod Ymarfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer Dioddefwyr Trosedd* - er enghraifft, cynnig y cyfle i gael person o'r un rhyw yn delio â rhai mathau o gwynion
- archwilio pa gamau a allai roi datrysiad addas i'r achwynydd neu fynd i'r afael â'i bryderon fel arall, gan ystyried amgylchiadau'r gŵyn ac unrhyw ofynion deddfwriaethol, gan gynnwys gofynion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

**3.14** Weithiau bydd yn briodol peidio â chymryd unrhyw gamau i ddatrys cwyn (gweler paragraffau 12.11 - 12.13). Dylai'r sawl sy'n trin y gŵyn roi rhesymeg gadarn i'r achwynydd ynghylch pam ei fod wedi penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau, a chynghori'r achwynydd o’i hawl i wneud cais i adolygu canlyniad y gŵyn. Ni ddylai unrhyw gŵyn gael dim ymateb o gwbl.

**Ystyriwch y cyd-destun ehangach – dylai’r rhai sy’n ymdrin â chwynion ddefnyddio dull holistaidd wrth drin cwynion a gweithredu ar unrhyw bryderon ehangach. Dylent fod yn effro i gyfleoedd i adnabod cyfleoedd dysgu a gwella'r modd y darperir gwasanaethau.**

**3.15** Ni ddylai trin cwyn gael ei gyfyngu yn gaeth i’r materion y mae’r achwynydd wedi eu codi, os dynodir bod meysydd eraill sy’n peri pryder. Weithiau gall cwyn godi pryderon ychwanegol i’r rhai a honnir gan yr achwynydd neu ddynodi cyfleoedd ar gyfer dysgu ehangach neu welliant. Er enghraifft, gall ddatgelu agwedd o wasanaeth neu driniaeth

wael nad oedd yr achwynydd yn ymwybodol ohoni, neu ddynodi methiant systematig neu sefydliadol. Os dynodir pryderon neu gyfleoedd i ddysgu o’r fath, dylid eu dogfennu a’u harchwilio yn ychwanegol at ymateb i bwyntiau gwreiddiol y gŵyn.

**3.16** Yn ogystal, gall fod diddordeb cyhoeddus penodol mewn cwyn ynghylch cymhwyso pwerau neu dechnegau heddlu newydd, neu feysydd y gwyddys eu bod yn ddadleuol. Gall cwynion o'r fath roi cyfle i ddysgu'n ehangach neu nodi arfer gorau.

**3.17** Dylai unrhyw ddysgu a nodwyd o ganlyniad i gŵyn gael ei rannu gyda'r achwynydd, gan gynnwys manylion ynghylch sut, a phryd, y bydd unrhyw welliannau'n cael eu gweithredu.

**Penderfyniadau teg ac effeithiol – dylai camau a gymerir i ymdrin â chŵyn fod, a dylent gael eu gweld fel eu bod, yn gyfiawn a dylai unrhyw gasgliadau a lunnir fod yn rhai all wrthsefyll craffu priodol.**

**3.18** Dylai'r rhai sy'n trin cwynion ystyried tegwch eu gweithredoedd i bawb sy'n ymwneud â'r gŵyn. Dylent sicrhau bod y penderfyniadau y maent yn eu gwneud yn:

- ddiduedd – heb duedd (neu duedd ymddangosiadol) na gwahaniaethu, wedi ystyried y safbwyntiau a roddwyd gan bawb
- yn rhesymegol ac yn gyfiawnadwy gan gyfeirio at y dystiolaeth berthnasol sydd ar gael
- ddim yn rhoi pwysau gormodol ar unrhyw ystyriaeth benodol
- cynnwys rhesymeg glir sy'n seiliedig ar dystiolaeth

**3.19** Er mwyn bod yn deg ac effeithiol, rhaid i benderfyniadau hefyd gael eu gwneud yn dryloyw (cyn belled ag y bo modd) ac yn brydlon. Lle bynnag y bo modd (yn ddarostyngedig i'r eithriadau a amlinellir ym mharagraffau 11.16 - 11.20) dylid eu cyfleu i bawb sy'n gysylltiedig â'u cefnogi gan resymeg glir sy'n caniatáu i bawb dan sylw eu deall.

**3.20** Dylai trinwyr cwynion hyrwyddo triniaeth deg a chyfartal yr holl bartïon. Er mwyn gwneud hyn, lle mae cwyn yn ymwneud â digwyddiad penodol, neu weithredoedd unigolyn penodol, dylai'r rhai dan sylw gael y cyfle a chael eu hannog, lle bo hynny'n briodol, i gymryd rhan wrth ymdrin â chŵyn (nid dim ond lle bo hynny'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth) ac i drafod eu barn ac unrhyw bryderon.

# Pennod 4

## Dysgu a Gwella

**4.1** Mae'r bennod hon yn cynnwys:

- llunio diwylliant o ddysgu
- dysgu oddi wrth gwynion, ymchwiliadau ac adolygiadau
- dysgu o ffynonellau ehangach
- defnyddio data fel sail i welliant
- sicrhau bod data ar gael yn lleol
- cyfleu effaith dysgu

### Llunio diwylliant o ddysgu

**4.2** Un o swyddogaethau pwysicaf system gwynion yr heddlu yw cefnogi unigolion, lluoedd heddlu a'r gwasanaeth heddlu i fyfyrio ar a dysgu oddi wrth gwynion a digwyddiadau pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le. Mae'n cynnig ffynhonnell allweddol o dystiolaeth i helpu prif swyddogion a chyrff plismona lleol i wneud gwelliannau mewn plismona.

**4.3** Mae diwylliant dysgu cryf yn hynod bwysig i sicrhau a chynnal hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth heddlu. Rhaid i brif swyddogion, cyrff plismona lleol a phawb sy'n

gwasanaethu'r heddlu fod yn agored i ystyried a chydnabod pan allai rhywbeth gael, neu fod wedi cael, ei wneud yn well. Gwasanaeth sy'n rhoi gwerth ar ddysgu:

- yn dilyn diwylliant o welliant parhaus a myfyrio, gan chwilio yn weithredol am gyfleoedd i ddatblygu a gwella arferion cyn i wendid, methiant neu fwlch gael eu dynodi
- yn annog blaengaredd, ac yn agored i archwilio ffyrdd newydd a gwahanol o weithio
- yn dysgu o brofiad, yn cadw cof corfforaethol o'r hyn wnaeth weithio a beth na wnaeth weithio, yn agored i ddysgu gan eraill ac yn barod i rannu ei brofiad ag eraill
- yn adnabod ac yn rhannu arfer gorau
- yn chwilio yn weithredol am adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a staff ar bob lefel i helpu i wella arferion, ac yn dweud wrth bobl sut y defnyddiwyd eu mewnbwn

**4.4** Rhaid i brif swyddogion a chyrff plismona lleol sicrhau bod gwybodaeth am gwynion, materion ymddygiad a materion marwolaeth ac anaf difrifol (DSI) yn cael eu defnyddio fel ffynhonnell dysgu gwersi ac, yn bwysig iawn, bod yr hyn a ddysgir yn cael ei ddefnyddio i wneud gwelliannau pan fydd hynny'n addas.

## Dysgu oddi wrth gwynion, ymchwiliadau ac adolygiadau

**4.5** Mae'r IOPC yn disgwyl i luoedd heddlu a chyrff plismona lleol ystyried fel mater o drefn a oes unrhyw wersi i'w dysgu pan fyddant yn ymdrin â phob cwyn, ymchwiliad neu adolygiad.

**4.6** Dylai prif swyddogion a chyrff plismona lleol sicrhau bod gweithdrefnau cadarn yn eu lle i ddynodi a gweithredu ar wersi i'w dysgu. Dylent:

- Ddatblygu cylch gorchwyl neu weithdrefnau gweithredu arferol sy'n hybu'r rhai sy'n ymdrin â chwynion, ymchwiliadau ac adolygiadau i ystyried a oes unrhyw gyfleoedd i wella polisi neu arferion
- Sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i weithredu unrhyw ddysgu, gan gynnwys unrhyw argymhellion dysgu a dderbynnir gan yr IOPC, cyn gynted â phosibl. Pan fydd dysgu sefydliadol yn cael ei nodi wrth ymdrin â mater, nid oes angen aros tan ddiwedd yr ymdriniaeth honno cyn rhoi unrhyw newidiadau a gwelliannau ar waith.
- Sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi, monitro a rhoi adroddiad am y cynnydd ar bob cam a gymerwyd o ganlyniad i unrhyw wersi.
- Sicrhau bod unrhyw wersi neu arfer da yn cael eu rhannu gyda swyddogion heddlu a staff yn lleol, pan fydd yn berthnasol, a'i ymgorffori mewn hyfforddiant a chyfarwyddyd fel sy'n briodol.
- Sicrhau bod unrhyw wersi neu arfer da yn cael ei rannu gyda lluoedd eraill neu bartneriaid sy'n gweithio yn genedlaethol, fel y Coleg Plismona, pan fydd hynny'n addas.
- Sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn cael gwybod pan fydd newidiadau arwyddocaol i bolisïau neu arferion wedi digwydd o ganlyniad i'r gwersi.

**4.7** Mae'r IOPC hefyd yn disgwyl i gyrff plismona lleol fonitro perfformiad eu llu yn y cyswllt hwn.

**4.8** Gall yr IOPC wneud argymhellion pan fydd yn dynodi maes posibl o wersi sefydliadol i lu heddlu, y gwasanaeth heddlu neu gorff arall. Fe all, er enghraifft, argymell newid i bolisi, cyfarwyddyd, hyfforddiant neu arfer lleol neu genedlaethol pan fydd yn credu y gall wella arferion plismona neu atal i rywbeth aeth o'i le ddigwydd eto. Gweler paragraffau 17.33 – 17.37 am ragor o wybodaeth am y prosesau y mae'n rhaid eu dilyn pan wneir argymhelliad.

## Dysgu o ffynonellau ehangach

**4.9** Ar wahân i system gwynion yr heddlu, dylid ystyried nifer o ffynonellau gwybodaeth eraill. Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys, ond heb gael eu cyfyngu iddynt:

- Ymchwil IOPC a chyhoeddiadau dysgu gwersi
- Arolygiadau ac adroddiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS)

- adborth a roddwyd gan aelodau o'r cyhoedd neu swyddogion/staff yr heddlu
- achosion sifil a ddygir yn erbyn y prif swyddog neu'r corff plismona lleol
- adolygiadau a gomisiynwyd gan y llu heddlu neu gorff plismona lleol
- adolygiadau neu ymchwil a gynhaliwyd gan gyrff statudol eraill, arbenigwyr annibynnol, academyddion, grwpiau sector cymunedol a gwirfoddol, neu sefydliadau diddordeb arbennig
- dysgu o gwestau, gan gynnwys adroddiadau atal marwolaethau yn y dyfodol
- adolygiadau achosion difrifol, adolygiadau lladdiadau domestig neu adolygiadau eraill a gomisiynwyd i ddynodi gwersi i'w dysgu • data ystadegol lleol a/neu genedlaethol

**4.10** Dylai fod gan brif swyddogion a chyrff plismona lleol brosesau ar waith i grwpiau cymunedol godi materion, nad ydynt efallai'n gyfystyr â chwyn o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, ond lle mae ganddynt, neu maent yn ymwybodol o, bryderon gyda'r gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu yn eu hardal. Bydd hyn yn cynorthwyo i leihau effaith unrhyw rwystrau posibl rhag cyrchu system gwynion yr heddlu (gweler Pennod 2).

**4.11** Gellir ystyried y ffynonellau gwybodaeth hyn ochr yn ochr â gwybodaeth cwynion yr heddlu er mwyn deall mater a nodwyd a'i gyd-destun yn llawn. Gellir eu hystyried hefyd ar eu pen eu hunain i nodi meysydd dysgu i'r heddlu, ac unrhyw gamau priodol i'w cymryd (gan gynnwys newidiadau cyflym i atal sefyllfa rhag gwaethygu o bosibl).

## Defnyddio data fel sail i welliant

**4.12** Yn ogystal â gwersi o achosion unigol, dylai prif swyddogion a chyrff plismona lleol ddefnyddio data lleol a chenedlaethol ehangach o system gwynion yr heddlu i fonitro eu perfformiad ac i ddynodi cyfleoedd ar gyfer dysgu a gwella[14]. Mae gan gyrff plismona lleol rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod lluoedd heddlu yn deall ac yn monitro eu perfformiad.

**4.13** Mae'r data a gesglir trwy fframwaith perfformiad yr IOPC yn ffynhonnell wybodaeth allweddol ar gyfer yr heddlu a chyrff plismona lleol. Mae'r IOPC yn defnyddio'r fframwaith perfformiad i gasglu data am gwynion. Mae'n ofynnol i brif swyddogion a chyrff plismona lleol roi'r data hwn i'r IOPC. Yng nghyfarwyddyd yr IOPC ar *gipio data am gwynion am yr heddlu* mae mwy o fanylion am sut i gofnodi gwybodaeth ar systemau a sut y bydd yn cael ei chasglu, ei dadansoddi a'i rhannu gyda'r cyhoedd.

**4.14** Dylai prif swyddogion a chyrff plismona lleol ddefnyddio data o'u fframwaith perfformiad a ffynonellau eraill i:

- gymharu eu perfformiad ag un pobl eraill
- gael dealltwriaeth o sut y mae perfformiad da yn edrych a dynodi cyfleoedd i wella perfformiad
- ddeall sut y mae gwahanol rannau o'r system gwynion yn perfformio
- roi adroddiad am berfformiad
- dynodi arfer da wrth ymdrin â chwynion neu feysydd eraill, y gellid adeiladu arnynt a/neu eu rhannu yn fwy eang
- adnabod themâu mewn cwynion - gan gynnwys o fewn timau, adrannau, neu ardaloedd daearyddol - a all fod yn arwydd o angen i newid proses, neu ymdrin â bwlch mewn polisi neu hyfforddiant
- ddynodi unigolion, grwpiau neu gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli yn y system gwynion, gan danlinellu angen i godi ymwybyddiaeth, datblygu hyder neu wella mynediad
- ddynodi materion sy'n codi dro ar ôl tro neu batrymau mewn materion sy'n effeithio ar unigolion, grwpiau neu gymunedau penodol, a all ei gwneud yn ofynnol i luoedd heddlu neu gyrff plismona lleol edrych yn fwy manwl ar y materion dan sylw a phrofiadau pobl i ddynodi'r hyn sy'n achosi'r cwynion a'r pryderon, a chymryd camau priodol i helpu i ail sefydlu ymddiriedaeth a hyder

**4.15** Mae'r IOPC yn annog prif swyddogion a chyrff plismona lleol i geisio gwybodaeth sy'n rhoi golwg ar sut yr oedd unigolion a fu'n ymwneud â chwynion, ymchwiliadau ac adolygiadau wedi gweld y profiad. Gall y math hwn o adborth fod yn ddefnyddiol i helpu i adnabod cyfleoedd i wella'r modd y mae cwynion yn cael eu trin.

**4.16** Efallai y bydd prif swyddogion a chyrff plismona lleol hefyd yn dymuno casglu data am berfformiad y system gwynion yn eu llu heddlu, gan gynnwys data ynghylch cwynion sy'n cael eu trin y tu allan i Atodlen 3, a gwella'r cyfleoedd i ddysgu gwersi, trwy gynnal archwiliadau ansawdd. Gall samplo ffeiliau fod yn ffordd ddefnyddiol o ddynodi problemau, i weld a yw gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn ac a yw materion yn cael eu trin yn rhesymol a chymesur.

## Sicrhau bod data ar gael yn lleol

**4.17** Bydd gan y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill fel y Swyddfa Gartref, HMICFRS, y Coleg Plismona, grwpiau ymgynghorol annibynnol, grwpiau monitro cymunedol a sefydliadau â diddordebau arbenigol ddiddordeb mewn data o system gwynion yr heddlu. Mae gan rai o'r rhanddeiliaid hyn rôl bwysig wrth fonitro perfformiad a dynodi cyfleoedd i ddysgu.

**4.18** Er mwyn helpu i sicrhau bod pob rhanddeiliad yn gallu gwneud y defnydd gorau o'r data sydd ar gael, dylai prif swyddogion a chyrff plismona lleol geisio codi ymwybyddiaeth ohono, er enghraifft trwy safleoedd mewnrwyd y llu heddlu, gwefannau allanol, cyfryngau cymdeithasol neu ymgyrchoedd e-bost wedi eu targedu. Dylent roi gwybodaeth ychwanegol, cyd-destun a chyfarwyddyd pan fydd yn addas i helpu aelodau o'r cyhoedd ddeall beth mae'r data yn ei ddangos. Dan rai amgylchiadau, gall hefyd fod yn ddefnyddiol cyflwyno data mewn ffordd sy'n cyfleu nodweddion unigolion wedi eu cyfuno, yn hytrach nag, er enghraifft, cyflwyno ffigyrau ar wahân am oedran, rhyw neu ethnigrwydd. Gall hyn helpu i roi darlun sy'n rhoi mwy o wybodaeth o'r rhyngweithio a'r profiadau y mae unigolion, grwpiau a chymunedau yn eu cael gyda system gwynion yr heddlu.

**4.19** Cred yr IOPC ei bod yn arfer da hefyd i brif swyddogion a chyrff plismona lleol ymgynghori yn gyson â rhanddeiliaid i ddynodi anghenion data posibl ac i geisio adborth ar sut y mae'r data sydd wedi ei gyhoeddi yn cael ei ddefnyddio. Gallai hyn helpu i ddynodi ble y gellid rhoi mwy o wybodaeth, neu y gellid gwneud newidiadau i fformat y wybodaeth i'w gwneud yn fwy tryloyw.

## Cyfleu effaith dysgu

**4.20** Pan fydd gwelliannau i bolisi neu arferion yn cael eu gweithredu o ganlyniad i broblemau a ddynodwyd trwy system gwynion yr heddlu, dylai prif swyddogion a chyrff plismona lleol gyfleu'r newidiadau i'r rhai sy'n ymwneud â chŵyn neu ymchwiliad neu adolygiad[15].

**4.21** Dylai prif swyddogion a chyrff plismona lleol hefyd roi cyhoeddusrwydd i welliannau, pan fydd yn addas, i'r cyhoedd yn ehangach ac unrhyw grwpiau a chymunedau sy'n debygol o fod â diddordeb yn y newidiadau.

**4.22** Gall gweld tystiolaeth bod camau yn cael eu cymryd i wella polisi neu arfer chwarae rhan bwysig wrth helpu i gynyddu hyder yn y system gwynion ac adfer ymddiriedaeth mewn plismona pan all hynny fod wedi ei niweidio.

# Ymdrin â chwynion ar y dechrau

# Pennod 5

## Cwynion

**5.1** Mae'r bennod hon yn egluro'r canlynol:

- y diffiniad o gŵyn
- am beth y gellir cwyno
- pwy all gyflwyno cwyn
- cwynion sy'n cael eu gwneud ar ran rhywun arall
- cwynion sydd tu allan i system gwynion yr heddlu

### Diffiniad o gŵyn

**5.2** Cwyn yw unrhyw fynegiant o anfodlonrwydd am lu heddlu sy'n cael ei mynegi gan neu ar ran aelod o'r cyhoedd[6]. Rhaid iddo gael ei wneud gan berson sy'n cwrdd â'r diffiniad o achwynydd (gweler paragraff 5.6, a'r tabl, isod). Rhaid bod rhywfaint o fwriad hefyd gan yr achwynydd i ddwyn ei anfodlonrwydd i sylw'r heddlu neu'r corff plismona lleol. Nid oes raid i gŵyn gael ei chyflwyno yn ysgrifenedig, ac nid oes raid iddi ddatgan yn glir ei bod yn gŵyn iddi gael ei hystyried fel un[7].

### Am beth y gellir cwyno?

**5.3** Gellir cyflwyno cwyn am unrhyw fater sydd wedi cael effaith niweidiol ar yr unigolyn sy'n cyflwyno'r gŵyn (neu, os yw'r gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad unigolyn, ei fod wedi bod yn dyst iddo neu a ddigwyddodd iddynt, gweler y tabl isod). Gall cwynion, er enghraifft, ymwneud â mentrau troseddau ledled yr heddlu, trefnu adnoddau plismona a safonau plismona cyffredinol.

**5.4** Ond, gellir cwyno hefyd am ymddygiad unrhyw unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu, h.y. swyddog heddlu, aelod o staff yr heddlu, cwnstabl arbennig, gwirfoddolwr dynodedig neu unigolyn ar gontract i ddarparu gwasanaethau i brif swyddog[8]. Mae ymddygiad yn cynnwys unrhyw weithredoedd, diffyg gweithredu, datganiadau a phenderfyniadau, boed yn rhai gwirioneddol, honedig neu a awgrymwyd[9].

---

[6]Adran 12, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*
[7]Adran 12, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*
[8] Fodd bynnag, nid yw Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020 yn ymdrin â materion yn ymwneud â chontractwyr ac, felly, nid ydynt yn dod o dan y canllaw hwn.
[9]Adran 29, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.*

OFFICIAL SENSITIVE

5.5 Nid oes unrhyw waharddiad ar gwynion ynghylch ymddygiad unigolyn nad yw bellach yn gwasanaethu gyda'r heddlu, cyn belled â'i fod yn ymwneud â materion a ddigwyddodd tra roeddent yn gwasanaethu. Yn ogystal, gall cwyn ymwneud â gweithredoedd swyddog a oedd oddi ar ddyletswydd ar adeg y digwyddiad (gweler paragraff 12.10 hefyd).

## Pwy all gyflwyno cwyn?

5.6 Mae pwy all gwyno yn dibynnu ar a yw'r gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, neu am faterion eraill.

| | Cwynion nad ydynt am ymddygiad unigolion | Cwynion am ymddygiad unigolion |
|---|---|---|
| **Pwy all gwyno?** | Rhaid i'r achwynydd fod yn aelod o'r cyhoedd:<br>a effeithiwyd yn niweidiol arno gan y mater y cwynir amdano, neu<br>sy'n gweithredu ar ran rhywun a effeithiwyd yn niweidiol arno gan y mater y cwynir amdano. | Rhaid i'r achwynydd fod yn aelod o'r cyhoedd:<br>sy'n honni mai ef/hi yw'r unigolyn y digwyddodd yr ymddygiad mewn cysylltiad ag ef/hi<br>sy'n honni bod yr ymddygiad wedi effeithio yn niweidiol arno/arni;<br>sy'n honni ei fod wedi gweld yr ymddygiad; neu<br>sy'n gweithredu ar ran rhywun sy'n bodloni un o'r meini prawf uchod.[10] |
| **Pwy na all gwyno?** | Ni all person wneud cwyn os yw'n berson sy'n gwasanaethu gyda'r llu heddlu y cwynir amdano, oni bai ei fod yn wirfoddolwr cymorth cymunedol dynodedig neu'n wirfoddolwr cymorth heddlu[11]. | |
| | **Cwynion nad ydynt am ymddygiad unigolion** | **Cwynion am ymddygiad unigolion** |

[10] Adran 12, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*
[11] Adran 29, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.*

OFFICIAL SENSITIVE

| | | |
|---|---|---|
| | | Ni all unigolyn wneud cwyn os:<br>oedd, ar adeg yr ymddygiad honedig, dan gyfarwyddyd a rheolaeth yr un prif swyddog â'r unigolyn a gyflawnodd yr ymddygiad; neu<br>os yw'n unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, yn swyddog i'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol neu yn unigolyn ar wasanaeth perthnasol (yn ystyr adran 97(1)(a) neu (d) *Deddf Heddlu*1996) ac ar ddyletswydd ar yr adeg pan:<br>- ddigwyddodd yr ymddygiad honedig mewn perthynas ag ef neu hi;<br>- honnir iddo ef/iddi hi gael ei (h) effeithio'n niweidiol ganddo, neu<br>- honnir ei b(f)od wedi bod yn dyst iddo[22] |
| **Diffiniad o effaith niweidiol** | Ystyrir bod unigolyn wedi ei effeithio yn niweidiol os bydd wedi dioddef unrhyw ffurf ar golled, difrod, gofid neu anghyfleustra o ganlyniad i'r mater y cwynwyd amdano, os bydd wedi ei roi mewn perygl neu fel arall mewn risg o gael ei effeithio yn niweidiol yn ddiangen[23]. | |

22 Adran 29, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.* 23 Adran 29, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.*

| | Cwynion nad ydynt am ymddygiad unigolion | Cwynion am ymddygiad unigolion |
|---|---|---|

OFFICIAL SENSITIVE

| | | |
|---|---|---|
| | | Ni ystyrir bod unigolyn wedi cael ei effeithio yn niweidiol yn syml trwy weld neu glywed am yr ymddygiad neu ei effeithiau (er enghraifft, ar y newyddion neu glywed amdano gan drydydd parti[12]) oni bai ei fod:<br>yn bresennol yn gorfforol neu yn ddigon agos pan ddigwyddodd yr ymddygiad neu y digwyddodd yr effeithiau, a'i fod wedi gweld neu glywed yr ymddygiad neu ei effeithiau; neu<br>ei fod wedi cael ei effeithio yn niweidiol oherwydd (neu os cafodd ei sbarduno gan y ffaith) eu bod eisoes yn nabod y person lle digwyddodd yr ymddygiad mewn perthynas â nhw.[13] |
| **Diffiniad o dyst** | Ddim yn berthnasol | Gellir dweud bod rhywun yn dyst i'r ymddygiad os, a dim ond os:<br>yw wedi caffael ei wybodaeth am yr ymddygiad mewn modd a fyddai'n ei wneud yn dyst cymwys sy'n gallu rhoi tystiolaeth dderbyniadwy o'r ymddygiad hwnnw mewn achos troseddol, neu<br>mae ganddo yn ei feddiant neu reolaeth unrhyw beth y gellid ei ddefnyddio fel tystiolaeth dderbyniadwy mewn achos o'r fath[14] |

## Pryderon a godwyd gan bobl sy'n gwasanaethu'r heddlu

5.7 Er nad yw unigolion sy'n gwasanaethu'r heddlu, dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, yn gallu defnyddio system gwynion yr heddlu i gyflwyno cwyn am eu llu heddlu eu hunain, nid yw hyn yn golygu na allant godi pryderon. Ond, nid oes gan yr unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu sy'n codi'r pryderon yr un hawliau statudol ag achwynydd.

5.8 Dylai lluoedd heddlu a chyrff plismona lleol sicrhau bod ganddynt systemau digonol yn eu lle i gefnogi ac amddiffyn unigolion sy'n gwasanaethu'r heddlu sydd am godi pryderon. Gall hyn gynnwys ymestyn cyfrinachedd i unrhyw un sy'n codi pryder o'r fath, cyn belled â bod hyn yn bosibl ac yn addas.

[12] Adran 12, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*
[13] Adran 12, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*
[14] Adran 12, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

OFFICIAL SENSITIVE

**5.9** Dylai unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu ystyried codi eu pryderon o fewn eu llu heddlu eu hunain yn gyntaf. Ond, yn ychwanegol at y llwybrau a gynigir gan luoedd heddlu, mae'r IOPC yn darparu 'llinell rhoi adroddiadau'. Mae hon yn llinell ffôn a chyfeiriad e-bost penodol i unigolion sy'n gwasanaethu'r heddlu ei defnyddio i roi adroddiad y gall rhywun sy'n gwasanaethu'r heddlu fod wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd fyddai'n cyfiawnhau camau disgyblu. Gall pobl sy'n gwasanaethu'r heddlu gael manylion cyswllt Llinell Adroddiadau'r IOPC o wefan yr IOPC neu eu hadran safonau proffesiynol, cymdeithas staff neu undeb llafur.

### Pryderon a godir gan swyddogion sy'n gweithio mewn cynghreiriau neu drefniadau gweithio ar y cyd

**5.10** Bydd pa un a yw unigolion sy'n gweithio mewn cynghrair neu drefniant gweithio ar y cyd (lle, er enghraifft, mae swyddogion o fwy nag un llu heddlu'n gweithio gyda'i gilydd) yn gallu gwneud cwyn o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* yn dibynnu ar fanylion unrhyw gytundebau cydweithredu perthnasol ac o dan gyfeiriad a rheolaeth pwy y maen nhw'n gweithio[15]. Hyd yn oed os yw unigolion sy'n gweithio o dan drefniant gweithio ar y cyd yn dechnegol yn gallu gwneud cwyn o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, efallai y bydd yna weithdrefnau mewnol mwy priodol i'w defnyddio, gan nad yw system gwynion yr heddlu wedi'i bwriadu i ddelio â materion cyflogaeth mewnol.

## Cwynion sy'n cael eu gwneud ar ran rhywun arall

**5.11** Gall unigolyn benodi rhywun i weithredu ar ei ran wrth gyflwyno cwyn. Gall yr unigolyn a benodir fod yn aelod o'r teulu, ffrind, cynrychiolydd cyfreithiol neu unrhyw unigolyn arall y byddant yn ei ddewis. Rhaid i'r unigolyn a benodir fod â chaniatâd ysgrifenedig yr unigolyn y mae'n gweithredu ar ei ran, a gallu ei gyflwyno. Fodd bynnag, fel arfer ni ddylai unigolyn ifanc dan 16 oed orfod rhoi caniatâd ysgrifenedig i riant neu warcheidwad weithredu drosto yn y modd hwn (gweler paragraffau 2.21 i 2.24). Dylai'r caniatâd ysgrifenedig fod yn glir a diamwys ac nid oes rhaid iddo fod yn Saesneg.

## Cwynion sydd tu allan i system gwynion yr heddlu

**5.12** Efallai ei bod yn ymddangos bod cwyn yn disgyn tu hwnt i *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Er enghraifft, efallai nad yw'n glir sut mae'r pryderon a godwyd yn ymwneud â phlismona neu a yw'r unigolyn sy'n cyflwyno'r gŵyn yn gymwys i wneud cwyn dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Yn y sefyllfaoedd hyn, dylai'r heddlu neu'r corff plismona lleol ystyried gadarnhau natur ac amgylchiadau'r gŵyn gyda'r person sydd am wneud cwyn.

---

[15] I gael arweiniad pellach ar drefniadau cyfeiriad a rheolaeth gweler canllawiau statudol y Swyddfa Gartref ar weithio ar y cyd rhwng heddluoedd.

OFFICIAL SENSITIVE

**5.13** Pan ystyrir bod cwyn yn disgyn tu hwnt i system gwynion yr heddlu, dylai'r unigolyn sy'n cyflwyno'r gŵyn gael gwybod hyn a pham, cyn gynted â phosibl. Dylid cadw cofnod o'r penderfyniad ac unrhyw gamau eraill a gymerwyd.

**5.14** Os yw'n ymddangos y gallai'r pryder gael ei godi'n fwy priodol gyda sefydliad arall, gallai fod yn ddefnyddiol egluro hyn i'r sawl sy'n gwneud y gŵyn. Pan fo cwyn yn ymwneud â mater nad oedd yn effeithio'n niweidiol ar unigolyn, efallai y bydd yr heddlu neu'r corff plismona lleol yn dal eisiau ei gofrestru fel adborth i helpu i wella eu gwasanaeth, neu, er enghraifft, ystyried a yw'n gyfystyr ag ymddygiad cofnodadwy (gweler Pennod 8).

OFFICIAL SENSITIVE

# Pennod 6

## Cofnodi ac ymdrin â chwynion ar y dechrau

**6.1** Mae'r bennod hon yn egluro'r canlynol:

- pa gamau i'w cymryd wrth dderbyn cwyn
- beth a olygir wrth drin cwynion tu hwnt i Atodlen 3 *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*
- pryd y mae'n rhaid i gwynion gael eu cofnodi dan Atodlen 3 *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*


**6.2** Rhaid casglu gwybodaeth am yr holl faterion sy'n cwrdd â'r diffiniad o gŵyn (gweler pennod 5) a dderbynnir gan, neu sy'n cael eu dwyn i sylw, corff plismona lleol, llu heddlu neu'r IOPC, fel mynegiant o anfodlonrwydd gyda'r heddlu. Mae *canllawiau'r IOPC ar gasglu data am gwynion yr heddlu* yn darparu manylion am y materion y dylid eu cofnodi mewn ffordd y gellir ei dethol ac adrodd arni, a pha fanylion y dylid eu cipio.

**6.3** Mae'r wybodaeth hon yn bwysig i sicrhau bod adborth am blismona yn cael ei gipio ac y gellir ei ddefnyddio i adnabod materion, tueddiadau a chyfleoedd ar gyfer dysgu a gwella.

**6.4** Gall rhai cwynion wedyn gael eu datrys yn gyflym ac mewn modd sy'n foddhaol i'r achwynydd, heb gael eu cofnodi dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Ond rhaid i gwynion eraill, fodd bynnag, gael eu cofnodi a'u trin yn unol ag Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* (gweler paragraffau 6.26-6.34).

OFFICIAL SENSITIVE

## Cofnodi ac ymdrin â chwynion ar y dechrau




OFFICIAL SENSITIVE

## Camau gweithredu wrth dderbyn cwyn

### Cyfeirio cwynion at y corff cywir

6.5 Mae *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* yn nodi, pan wneir y gŵyn i lu heddlu neu gorff plismona lleol sydd ddim yn yr awdurdod priodol ar gyfer y gŵyn, bod yn rhaid i'r corff sydd wedi derbyn y gŵyn roi gwybod i'r awdurdod priodol[16]. Pan wnaed y gŵyn i'r prif swyddog a nhw yw'r awdurdod priodol, ond mae'r corff plismona lleol wedi cymryd y cyfrifoldeb am drin cwynion yn y lle cyntaf, dylai'r awdurdod priodol hefyd roi gwybod iddynt am y gŵyn. Er mwyn i'r corff cywir gael digon o wybodaeth iddo ddelio â'r gŵyn, mae'r IOPC yn argymell bod y gŵyn ei hun yn cael ei hanfon ymlaen. Dylai lluoedd heddlu a'r cyrff plismona lleol fod â phrosesau yn eu lle i sicrhau bod cwynion yn cael eu hanfon i'r corff cywir mor gyflym ag sy'n ymarferol, er mwyn osgoi oedi.

6.6 Weithiau gall cwyn gynnwys mwy nag un awdurdod priodol. Er enghraifft, gall ymwneud â heddluoedd ychwanegol, neu gynnwys honiadau a gyfeiriwyd at y prif swyddog a safleoedd neu bersonél eraill yn yr un heddlu. Dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r rhannau perthnasol o'r gŵyn gael eu hanfon at y corff cywir i'w trin.

6.7 Nid oes gofyn yn *Neddf Diwygio'r Heddlu 2002* am ganiatâd gan yr achwynydd cyn anfon cwyn ymlaen. Ond, rhaid i'r achwynydd gael gwybod bob amser os anfonwyd ei gŵyn at gorff arall. Dylai hefyd gael gwybod am gynnwys yr hyn a anfonwyd ac enw'r corff yr anfonwyd y wybodaeth ato[17]. Mewn rhai achosion, er enghraifft, lle mae cwyn yn cynnwys data arbennig o sensitif a bod yr achwynydd wedi ei hanfon yn fwriadol at gorff penodol, neu os yw'r achwynydd wedi mynegi pryder ynghylch rhannu gwybodaeth sensitif yn ei gŵyn, gellid ystyried hysbysu'r achwynydd ymlaen llaw y bydd hyn yn digwydd.

### Triniaeth gychwynnol gan y corff perthnasol

6.8 Prif swyddogion sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl swyddogion a staff yr heddlu sydd â dyletswyddau sy'n wynebu'r cyhoedd yn gwybod am, ac yn gallu cynghori'r cyhoedd am, sut i gyflwyno cwyn. Mae'r un peth yn berthnasol i gyrff plismona lleol mewn perthynas â'u staff nhw.

6.9 O'r eiliad pan fydd cwyn yn cael ei derbyn, mae'n bwysig i bryderon yr achwynydd gael eu cydnabod a bod camau prydlon ac effeithiol yn cael eu cymryd i ddechrau ymdrin â'r mater. Gall y ffordd y mae cwyn yn cael ei thrin ar y dechrau gael dylanwad sylweddol ar hyder yr achwynydd yn system gwynion yr heddlu ac i ba raddau y bydd yn cymryd rhan ynddi.

6.10 Ar ôl i gŵyn gael ei derbyn gan y corff sy'n gyfrifol am ei thrin i gychwyn, dylai gael ei chofrestru ar ei systemau (gweler *canllawiau ar gipio data am gwynion yr heddlu*) yr IOPC.

6.11 Pan fydd corff plismona lleol wedi mabwysiadu model 2 neu 3 (gweler paragraff 1.27), ac yn delio â chŵyn lle mai'r prif swyddog yw'r awdurdod priodol y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef, dylent hysbysu'r awdurdod priodol pan fydd cwyn wedi'i gwneud. Dylid gwneud hyn ni

[16] Paragraff 2, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*
[17] Paragraff 2, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

waeth a yw'r gŵyn wedi'i chofnodi o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Lle nad oes unrhyw gamau pellach i'r awdurdod priodol eu cymryd - h.y. mae'r gŵyn wedi'i datrys y tu allan i Atodlen 3 - gellir gwneud hyn trwy rannu data yn systematig, yn hytrach nag ar ôl pob achos yn unigol.

**6.12** Rhaid i'r corff sy'n gyfrifol am drin y gŵyn ar y dechrau gysylltu â'r achwynydd a gofyn am ei farn am y ffordd y dylai'r gŵyn gael ei thrin[18]. Dylid gwneud hyn mor fuan â phosibl ar ôl derbyn y gŵyn[19]. Mae cyswllt cynnar â'r achwynydd yn ganolog i lwyddiant datrys y gŵyn er boddhad yr achwynydd, ac mewn llawer o achosion, lle gwneir hyn yn brydlon, a bod y gŵyn yn addas i'w datrys y tu allan i Atodlen 3, gellir datrys y gŵyn yn llawn yn ystod y cyswllt cychwynnol hwn.

**6.13** Pan fydd yn amlwg ar unwaith bod y gŵyn yn un y mae'n rhaid ei chofnodi, yn hytrach na'i thrin y tu allan i Atodlen 3 (gweler paragraffau 6.26 - 6.31), gall y corff sy'n gyfrifol am drin y gŵyn yn y lle cyntaf gofnodi'r gŵyn cyn cysylltu â'r achwynydd. Ar ôl cofnodi'r gŵyn, mae rhaid cysylltu â'r achwynydd o hyd. Fodd bynnag, ni ddylai ymdrechion i gysylltu â'r achwynydd achosi oedi cyn atgyfeirio'r gŵyn i'r IOPC, lle mae hyn yn ofynnol neu fel arall yn briodol[20].

**6.14** Dylai'r achwynydd hefyd gael enw a manylion cyswllt yr unigolyn a fydd yn delio â'i gŵyn i ddechrau, cyn gynted ag y bydd hyn wedi'i nodi.

**6.15** Dylai rhai sy'n ymdrin â chwynion ystyried a oes gan achwynydd unrhyw anghenion ychwanegol i'w alluogi i gymryd rhan yn effeithiol yn y broses (gweler Pennod 2), a dylent, lle bo hynny'n bosibl, wneud unrhyw addasiadau sy'n ofynnol yn rhesymol.

### Deall y gŵyn

**6.16** Mae system gwynion yr heddlu yn caniatáu i gwynion gael eu datrys o dan a thu allan i Atodlen 3. Ond rhaid i rai mathau o gwynion gael eu cofnodi a'u trin dan Atodlen 3 (gweler paragraffau 6.26 - 6.31). Mae'n hanfodol sicrhau bod cwyn yn cael ei deall yn iawn, nid yn unig gan ei bod yn effeithio ar y ffaith a ddylai gael ei chofnodi dan Atodlen 3, ond hefyd i sicrhau y gall y pryderon sy'n cael eu codi gael eu hystyried a'u trin yn iawn.

**6.17** Dylai'r rhai sy'n trin y cwynion archwilio natur y gŵyn gyda'r achwynydd, i sicrhau ei bod yn cael ei deall yn llawn. Efallai na fydd anfodlonrwydd achwynydd yn cael ei ddeall yn llawn ar y cyswllt cyntaf i gyflwyno cwyn, yn arbennig os yw'r achwynydd yn agored i niwed neu yn cael anhawster mynegi natur ei bryderon a'u heffaith arno yn llawn. Gall rhai mathau o gwynion fod angen eu harchwilio yn fwy manwl na'i gilydd. Er enghraifft, lle mae cwyn yn cynnwys honiadau a allai fod yn gyfystyr â gwahaniaethu, dylai'r rhai sy'n trin cwynion

[18] Paragraff 2, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

[19] Mae'r IOPC yn cydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl ym mhob amgylchiad, gan gynnwys, er enghraifft, lle mae gan heddlu bolisi ar waith i reoli cyswllt â'r achwynydd penodol hwnnw. Rhaid cysylltu â'r achwynydd cyn gynted â phosibl o hyd, ond gall y dull a'r amseru fod yn ddarostyngedig i'r polisi hwnnw.

[20] Rhaid gwneud atgyfeiriadau i'r IOPC heb fod yn hwyrach na diwedd y diwrnod ar ôl y diwrnod y daw'n amlwg yn gyntaf i'r awdurdod priodol ei fod yn fater y mae'n rhaid ei atgyfeirio (gweler Pennod 9).

archwilio gyda'r achwynydd pam eu bod yn teimlo y gwahaniaethwyd yn eu herbyn (gweler *Ganllawiau'r IOPC ar drin honiadau o wahaniaethu*).

### Esbonio beth all yr achwynydd ei ddisgwyl

**6.18** Dylai'r rhai sy'n trin cwynion geisio deall pa ddeilliant y mae'r achwynydd yn ei ddymuno. Ond, dylent fod yn agored a thryloyw wrth reoli disgwyliadau achwynydd os bydd yn ymddangos ei fod yn disgwyl rhywbeth sydd naill ai yn amhosibl neu yn hynod o annhebygol o fod yn rhesymol neu gymesur i'w ddarparu.

**6.19** Rhaid i achwynwyr gael gwybod a yw eu cwyn yn mynd i gael ei chofnodi a'i thrin dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* neu a yw wedi (neu a yw wrthi'n) cael ei datrys y tu allan i Atodlen 3[21]. Ond, dylai'r rhai sy'n trin cwynion ystyried y termau y maent yn eu defnyddio wrth drafod trin y gŵyn. Er enghraifft, gall cyfeirio at y gŵyn yn unig o ran cael ei thrin tu mewn neu du allan i ofynion Atodlen 3 fod yn ddryslyd. Gall y system gael ei hesbonio yn fwy effeithiol a chlir i achwynwyr trwy eu hysbysu o'r camau sy'n rhan o'r broses a sicrhau eu bod yn deall beth mae hyn yn ei olygu i'w cwyn.

## Trin cwynion tu allan i Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*

**6.20** Rhaid i gwynion sy'n cael eu trin tu allan i ofynion Atodlen 3 gael eu trin gyda golwg ar eu datrys mewn modd fydd yn bodloni'r achwynydd[22]. Mae trin cwyn tu allan i ofynion Atodlen 3 yn rhoi cyfle i ymdrin â phryderon y mae achwynydd wedi eu codi yn brydlon. Nid yw rhai cwynion angen ymholiadau manwl er mwyn mynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, efallai mai dim ond esboniad y bydd yr achwynydd ei eisiau, neu i'w bryderon gael eu nodi neu eu pasio ymlaen. Efallai mai delio â chwynion o'r fath y tu allan i Atodlen 3, yn brydlon, fydd y ffordd fwyaf effeithlon, effeithiol a buddiol o ddatrys y gŵyn. Gall sicrhau'r achwynydd bod rhywun wedi gwrando ar ei bryderon ac wedi rhoi sylw iddynt, a hefyd ddarparu cyfle dysgu posib i'r heddlu (ac, os yw'n briodol, unrhyw unigolion dan sylw).

**6.21** Nid oes unrhyw weithdrefn benodol i'w dilyn wrth drin cwyn y tu allan i ofynion Atodlen 3. Yr ystyriaeth allweddol yw a yw'r camau gweithredu yn addas ac yn gallu ymateb yn effeithiol i gŵyn, a fydd yn bodloni'r achwynydd. Gallai'r camau gweithredu gynnwys:

- darparu gwybodaeth ac eglurhad - naill ai dros y ffôn neu'n ysgrifenedig
- rhoi diweddariad i'r achwynydd ar y materion sy'n weddill
- ateb unrhyw gwestiynau sydd gan yr achwynydd
- trefnu i eiddo gael ei ddychwelyd
- cynnig ymddiheuriad am wasanaeth gwael
- cadarnhau bod camau wedi'u cymryd i atal camgymeriad rhag digwydd eto
- cyfeirio'r achwynydd at brosesau priodol - er enghraifft, proses gwynion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth neu Hawl Dioddefwr i Adolygiad

[21]Paragraff 2, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*
[22]Paragraff 2, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

- cofnodi pryderon yr achwynydd i'w hystyried pan fydd polisi neu weithdrefn i gael ei (h)adolygu nesaf

**6.22** Mae'r IOPC yn disgwyl i gwynion sy'n cael eu trin tu allan i Atodlen 3 gael eu trin yn brydlon. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid datrys cwyn ar unwaith, os yw'r sawl sy'n trin y gŵyn yn credu y bydd oedi byr yn golygu bod y wybodaeth angenrheidiol i ddatrys y gŵyn ar gael. Nid yw ychwaith yn atal cymryd camau ychwanegol i ddatrys mater yn dilyn ymgais aflwyddiannus i ddechrau, os yw'r achwynydd yn cytuno y gallai'r camau hynny fod yn ddigonol i unioni'r mater i'w foddhad. Fodd bynnag, os yw'n ymddangos i'r sawl sy'n trin y gŵyn ar unrhyw adeg na ellir adfer y mater i foddhad yr achwynydd mewn modd amserol neu heb gymryd camau ychwanegol sylweddol, mae hyn yn debygol o ddynodi y dylid cofnodi'r mater. Rhaid hysbysu'r achwynydd yn iawn am gynnydd y broses o drin y gŵyn, yn unol â'r dyletswyddau a amlinellir ym mharagraffau 11.7 - 11.20[23].

**6.23** Ni fydd cwyn yn addas i'w thrin y tu allan i Atodlen 3 lle mae angen cymryd adroddiadau gan swyddogion, neu mae angen cymryd camau ymchwilio eraill i ddarparu canlyniad boddhaol.

**6.24** Rhaid i ganlyniad ymdrin â chŵyn y tu allan i Atodlen 3 gael ei gyfleu i'r achwynydd cyn pen pum niwrnod gwaith ar ôl penderfynu ar y canlyniad, ac yn ddarostyngedig i'r eithriadau ym mharagraffau 11.16 - 11.20[24]. Dylid ei drafod gyda nhw, oni bai nad yw'n briodol neu'n bosibl gwneud hynny. Nid oes angen cyfleu'r canlyniad yn ysgrifenedig, oni bai bod y gŵyn gychwynnol wedi'i gwneud yn ysgrifenedig[37].

**6.25** Os bydd achwynydd yn anfodlon ar y ffordd y mae ei gŵyn wedi cael ei thrin, dylai'r rhai sy'n trin cwynion geisio atgoffa achwynwyr:

- y gallant ofyn i'w cwyn gael ei chofnodi; a
- os caiff ei chofnodi, y bydd hawl i wneud cais i adolygu canlyniad eu cwyn (oni bai ei bod yn destun ymchwiliad cyfeiriedig neu annibynnol)

Pan fydd hynny'n addas, dylai disgwyliadau'r achwynydd o ran pa gamau pellach allai ddeillio o gofnodi gael eu rheoli. Ond, ni ddylid darbwyllo achwynwyr i beidio â gofyn i'w cwyn gael ei chofnodi os mai dyna maent yn ei ddymuno.

## Cofnodi cwynion

**6.26** Rhaid i gŵyn gael ei chofnodi dan Atodlen 3 *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*, a'i thrin yn unol â darpariaethau'r Atodlen honno, os bydd yr un sy'n cyflwyno'r gŵyn, ar unrhyw bwynt, yn

[23] Adran 20, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*; Rheoliad 34, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.
[24] Adran 20, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*; Rheoliadau 34 a 35 (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 37 Rheoliad 34, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

dymuno iddi gael ei chofnodi[25]. Mae hyn yn wir hyd yn oed os bydd ymdrechion blaenorol wedi eu gwneud i drin y gŵyn tu allan i ofynion Atodlen 3. Pan fo dymuniadau achwynydd yn aneglur, dylid cymryd camau rhesymol i gadarnhau beth ydyn nhw[26].

**6.27** Rhaid i gŵyn gael ei chofnodi hefyd a'i thrin dan Atodlen 3 os bydd y prif swyddog neu gorff plismona lleol (lle mai ef yw'r awdurdod priodol neu ei fod wedi cymryd cyfrifoldeb am drin cwynion yn y lle cyntaf) yn penderfynu bod hynny'n briodol neu os bydd y gŵyn[27]:

- yn cynnwys honiad bod yr ymddygiad neu fater arall y cwynir amdano wedi arwain at farwolaeth neu anaf difrifol
- yn honiad, os caiff ei brofi, y gallai gyfateb i drosedd gan unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu neu yn cyfiawnhau dwyn camau disgyblu[28]
- yn ymwneud ag ymddygiad neu unrhyw fater arall a allai, os caiff ei brofi, fod wedi cynnwys torri hawliau rhywun o dan Erthyglau 2 neu 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (gweler yr eirfa) neu
- yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf atgyfeirio gorfodol (gweler pennod 9)[29]

**6.28** Rhaid i'r meini prawf hyn gael eu hasesu ar sail yr honiadau yn unig, nid eu dilysrwydd ymddangosiadol. Felly, nid oes angen cwmpasu cyn gwneud y penderfyniad hwn, ac eithrio sicrhau bod honiadau'r achwynydd yn cael eu deall yn llawn.

**6.29** Yr unig adeg pan na fydd angen i gŵyn sy'n bodloni'r meini prawf hyn gael ei chofnodi yw pan fydd wedi ei thynnu yn ôl (gweler Pennod 16).

**6.30** Wrth ystyried a yw'n briodol cofnodi cwyn nad yw fel arall yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cofnodi, mae'r ffactorau eraill i'w hystyried yn cynnwys:

- maint a natur yr ymholiadau sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r gŵyn
- pa un a yw'r honiadau'n cynnwys honiad o dorri unrhyw un o erthyglau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ac eithrio'r rhai a grybwyllir ym mharagraff 6.27)

---

[25] Paragraff 2, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.*
[26] Paragraff 2, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.*
[27] Paragraff 2, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.*
[28] Gweler yr eirfa am ddiffiniad o gamau disgyblu - o dan yr amgylchiadau hyn, mae'r diffiniad, ar gyfer aelodau'r heddlu neu gwnstabliaid rhan amser, yn cynnwys achos o dan Reoliadau (Perfformiad) yr Heddlu 2020, yn ogystal ag unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 (ar wahân i'r Broses Adolygu Arfer Myfyriol, yn unol â Rhan 6 o'r rheoliadau hynny). Ar gyfer unrhyw berson arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, mae'n cynnwys unrhyw achos neu broses reoli pan ystyrir bod ymddygiad yr unigolyn hwnnw ac unrhyw achos neu broses reoli pan ystyrir perfformiad yr unigolyn hwnnw. Er nad yw achos o dan Reoliadau (Perfformiad) yr Heddlu 2020 yn berthnasol i uwch swyddogion, lle mae'r gŵyn yn cynnwys honiadau am berfformiad uwch swyddog, mae'r IOPC o'r farn y byddai'n briodol cofnodi materion a fyddai fel arall wedi cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cofnodi, pe na bai'r swyddog dan sylw wedi bod yn uwch swyddog.
[29] Rhaid i awdurdodau priodol hefyd gofnodi unrhyw gŵyn y mae'r IOPC yn ei thrin fel pe bai wedi'i chyfeirio, gweler paragraffau 9.36 - 9.39.

- pa un a yw cwynion tebyg blaenorol wedi'u cofnodi (naill ai am yr un mater, neu, lle bo hynny'n briodol, am yr un swyddog neu adran)

**6.31** Dylai cwynion sy'n cynnwys honiadau sydd, os ydynt yn cael eu profi, yn debygol o gael eu hystyried yn 'arfer sydd angen ei gwella' a'u hatgyfeirio at y Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol, gael eu cofnodi[30].

**6.32** Unwaith y bydd yn amlwg bod raid cofnodi cwyn, mae'r IOPC yn disgwyl iddi gael ei chofnodi cyn gynted â phosibl. Fel y nodwyd ym mharagraff 6.13, lle mae'n amlwg o'r gŵyn gychwynnol bod y gŵyn yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cofnodi, nid oes angen aros i gysylltu â'r achwynydd cyn gwneud y penderfyniad hwnnw. Mae rhaid cysylltu â'r achwynydd o hyd i drafod ei gŵyn (gweler paragraff 6.12).

**6.33** Dylai cwynion gael eu cofnodi ar ffurf y gellir ei agor a'i archwilio yn rhwydd. Dylid cofnodi digon o wybodaeth am bob cwyn er mwyn galluogi monitro ac adrodd ar gamau gweithredu a chanlyniadau a allai ddeillio ohoni (gweler canllawiau'r IOPC ar *gipio data am gwynion yr heddlu*). Pan fo'r corff plismona lleol wedi cymryd cyfrifoldeb am drin cwynion yn y lle cyntaf, rhaid iddynt hwy a'r awdurdod priodol sicrhau bod ganddynt brosesau priodol ar waith i drosglwyddo manylion am gwynion a gofnodwyd i'r awdurdod priodol cyn gynted â phosibl, fel nad yw'r broses o ymdrin â'r gŵyn yn cael ei oedi.

**6.34** Rhaid i luoedd heddlu a chyrff plismona lleol hysbysu'r achwynydd cyn gynted ag sy'n ymarferol bod ei gŵyn wedi ei chofnodi a rhoi copi iddo o'r cofnod a wnaed. Rhaid i gopi o'r gŵyn hefyd gael ei roi i'r unigolyn y cwynir amdano (os o gwbl), oni bai bod y llu heddlu neu gorff plismona lleol yn ystyried y bydd gwneud hynny yn peryglu unrhyw ymchwiliad troseddol neu erlyniad sydd yn yr arfaeth, neu fyddai yn groes i fudd y cyhoedd mewn ffordd arall[31]. Rhaid i'r penderfyniad hwn gael ei adolygu yn gyson. Gall hunaniaeth unrhyw unigolyn gael ei guddio yn y copi a roddir.

[30] Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ar 'arfer sydd angen ei wella' a'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol yng nghanllawiau'r Swyddfa Gartref, *Ymddygiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd: canllawiau statudol ar safonau proffesiynol, perfformiad ac uniondeb mewn plismona.*

[31] Rheoliad 3, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

OFFICIAL SENSITIVE

# Ymdrin â chwynion, materion ymddygiad cofnodadwy a materion marwolaeth neu anaf difrifol dan Atodlen 3 *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

OFFICIAL SENSITIVE

# Pennod 7

## Materion marwolaeth neu anaf difrifol

**7.1** Mae'r bennod hon yn cynnwys:

- y diffiniad o fater marwolaeth neu anaf difrifol (DSI)
- cofnodi mater marwolaeth neu anaf difrifol

### Diffiniad o fater marwolaeth neu anaf difrifol

Mae mater marwolaeth neu anaf difrifol yn golygu unrhyw amgylchiadau (oni bai bod yr amgylchiadau yn neu wedi bod yn destun cwyn neu yn cyfateb i fater ymddygiad), lle mae unigolyn wedi marw neu gael anaf difrifol dan yr amgylchiadau neu o ganlyniad iddynt ac:

- ar adeg y farwolaeth neu anaf difrifol roedd yr unigolyn wedi ei arestio gan unigolyn yn gwasanaethu'r heddlu ac nid oedd wedi ei ryddhau neu ei fod wedi ei gadw yn gaeth gan unigolyn yn gwasanaethu'r heddlu mewn modd arall; neu
- ar neu cyn amser y farwolaeth neu anaf difrifol roedd yr unigolyn wedi cael cyswllt o unrhyw fath – boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – gydag unigolyn yn gwasanaethu gyda'r heddlu oedd yn gweithredu i gyflawni ei ddyletswyddau a bod awgrym y gallai'r cyswllt – boed yn uniongyrchol neu anuniongyrchol – wedi achosi neu gyfrannu at y farwolaeth neu anaf difrifol. Ond, nid yw'r is-gategori hwn yn cynnwys cyswllt a gafodd yr unigolyn a fu farw neu a ddioddefodd anaf difrifol wrth weithredu i gyflawni ei ddyletswyddau fel unigolyn yn gwasanaethu'r heddlu.

Adran 12, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

Mae 'anaf difrifol' yn golygu torri asgwrn, toriad dwfn, rhwygiad neu anaf sy'n achosi difrod i organ fewnol neu atal unrhyw swyddogaeth gorfforol.

Adran 29, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

**7.2** Os bydd marwolaeth neu anaf difrifol yn digwydd tra bydd unigolyn wedi ei arestio neu wedi ei gadw yn gaeth mewn modd arall gan unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu, mae hyn yn bodloni'r diffiniad o fater marwolaeth neu anaf difrifol. Dan yr amgylchiadau hyn nid oes raid cael unrhyw awgrym o gysylltiad damweiniol rhwng y cyswllt gydag unigolyn yn gwasanaethu'r heddlu a'r farwolaeth neu anaf difrifol i fodloni'r diffiniad.

**7.3** Os bydd marwolaeth neu anaf difrifol yn digwydd yn dilyn cyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol ag unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu, ac nad oedd yr unigolyn a fu farw neu â ddioddefodd anaf difrifol wedi ei arestio neu yn gaeth mewn ffordd arall gan yr unigolyn yn gwasanaethu'r heddlu ar y pryd, bydd angen i'r awdurdod priodol asesu a oes unrhyw awgrym y gallai'r cyswllt fod wedi achosi neu gyfrannu at y farwolaeth neu anaf difrifol. Er enghraifft, trwy weithredu, neu ddiffyg gweithredu. Os oes awgrym o hynny, mae hyn yn bodloni'r diffiniad o fater marwolaeth neu anaf difrifol (DSI).

## Cofnodi mater marwolaeth neu anaf difrifol

Pan ddaw mater marwolaeth neu anaf difrifol i sylw prif swyddog neu gorff plismona lleol, a hwy yw'r awdurdod priodol perthnasol, rhaid iddynt gofnodi'r mater hwnnw.

Paragraff 14A, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

7.4 Rhaid i awdurdodau priodol sicrhau bod ganddynt brosesau yn eu lle i sicrhau bod materion marwolaeth ac anaf difrifol yn cael eu hadnabod a'u hatgyfeirio heb unrhyw oedi. Felly rhaid i'r holl swyddogion ac aelodau staff fedru adnabod yr amgylchiadau a all gyfateb i fater marwolaeth neu anaf difrifol a phryd a sut i'w codi gyda'r personél priodol.

7.5 Dylai materion marwolaeth neu anaf difrifol gael eu cofnodi cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl eu dynodi, gan ystyried yr amserlen ar gyfer atgyfeirio a nodir yn y blwch uwchben paragraff 9.40.

7.6 Mae'r holl faterion marwolaeth neu anaf difrifol yn rhai y mae'n orfodol eu hatgyfeirio at yr IOPC (gweler pennod 9).

# Pennod 8

## Mater ymddygiad cofnodadwy

8.1 Mae'r bennod hon yn cynnwys:

- y diffiniad o fater ymddygiad
- adnabod materion ymddygiad
- cofnodi materion ymddygiad
- materion ymddygiad sy'n ymwneud â honiadau o wahaniaethu

8.2 Bydd y mwyafrif o 'materion ymddygiad' yn cael eu hymdrin â nhw o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, fodd bynnag, mae *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* yn nodi bod yn rhaid (neu y gellir) cofnodi rhai materion. Mae 'cofnodi' yn y cyd-destun hwn yn golygu bod y mater ymddygiad yn cael statws ffurfiol a bod yn rhaid ei drin o dan

*Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*.

8.3 Mae yna feini prawf amrywiol y mae'n rhaid eu defnyddio i sefydlu a oes rhaid cofnodi mater ymddygiad ai peidio. Mae'r meini prawf hyn yn amrywio yn dibynnu a yw'r mater wedi codi o achos sifil neu fel arall. Mae'r bennod hon yn esbonio'r broses, yn ogystal â'r penderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud.

### Y diffiniad o fater ymddygiad

Mater ymddygiad yw unrhyw fater nad yw neu na fu yn destun cwyn, pan fydd awgrym (boed o'r amgylchiadau neu fel arall) y gall unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu fod

> wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau camau disgyblu[32].
>
> Adran 12, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

8.4 Pan fydd problemau yn ymwneud ag ymddygiad unigolyn, mae'n bwysig i'r materion hynny gael eu cydnabod a'u trin mewn modd priodol, hyd yn oed pan na fydd cwyn wedi ei chyflwyno. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau atebolrwydd unigol ac i gefnogi dysgu gwersi a gwella i'r unigolyn a'r llu heddlu.

8.5 Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am adnabod a thrin materion ymddygiad yng nghanllawiau'r Swyddfa Gartref, *Ymddygiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd: canllawiau statudol ar safonau proffesiynol, perfformiad ac uniondeb mewn plismona*.

## Adnabod materion ymddygiad

8.6 Dylai awdurdodau priodol fod yn rhagweithiol ac yn effro i'r potensial o faterion ymddygiad yn codi. Cyfarwyddyd y Swyddfa Gartref ar *Ymddygiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd: cyfarwyddyd statudol ar safonau proffesiynol, perfformiad ac uniondeb mewn plismona*

### Materion ymddygiad yn deillio o gamau sifil

8.7 Mae dyletswydd gyfreithiol benodol, barhaus, i brif swyddogion a chyrff plismona lleol i adnabod a delio â materion ymddygiad sy'n dod i'w sylw o ganlyniad i achosion sifil[33].

8.8 Pan fydd prif swyddog neu gorff plismona lleol yn derbyn hysbysiad bod camau sifil yn ymwneud ag unrhyw fater yn cael eu dwyn neu yn debygol o gael eu dwyn yn eu herbyn gan aelod o'r cyhoedd, dylent wneud asesiad cychwynnol a gyflwynwyd unrhyw gŵyn am yr un ymddygiad. Os felly, dylent ymdrin â'r gŵyn honno yn unol â'r canllawiau ar ymdrin â chwynion.

8.9 Os na chyflwynwyd cwyn, rhaid i'r prif swyddog neu gorff plismona lleol asesu a yw'r camau hynny yn cynnwys, neu y byddent yn cynnwys, mater ymddygiad. Rhaid iddynt adolygu unrhyw gamau sifil yn gyson i sicrhau bod unrhyw faterion ymddygiad yn cael eu hadnabod.

---

[32] Gweler yr eirfa am y diffiniad o achos disgyblu - yn yr achos hwn, ar gyfer aelodau'r heddlu neu gwnstabliaid rhan amser, mae achos disgyblu yn golygu unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol (yn unol â Rhan 6 o'r rheoliadau hynny). Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol. Ar gyfer unrhyw berson arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, golyga unrhyw achosion neu broses rheoli ble ystyrir ymddygiad yr unigolyn hwnnw, yn hytrach na'i berfformiad, at ddibenion penderfynu a ddylid cyflwyno unrhyw sancsiwn neu fesur cosbol yn ei erbyn oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

[33] Paragraff 10, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

OFFICIAL SENSITIVE

**8.10** Os bydd mater ymddygiad yn bodoli, rhaid i'r prif swyddog neu gorff plismona lleol benderfynu yn gyntaf os mai hwy yw'r awdurdod priodol. Os nad hwy yw'r awdurdod priodol perthnasol, rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod priodol perthnasol am y camau a'r amgylchiadau sy'n awgrymu ei bod yn cynnwys neu y byddai'n cynnwys mater ymddygiad.


## Cofnodi materion ymddygiad

**8.11** Os bydd mater ymddygiad wedi dod i sylw'r awdurdod priodol, rhaid iddo wedyn ystyried a yw'n fater ymddygiad y mae'n rhaid, neu y gellir, ei gofnodi yn ffurfiol a'i drin o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Dylai materion ymddygiad y dylid eu cofnodi gael eu cofnodi cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl iddynt ddod i'r golwg. Dylid dal i gofnodi mater ymddygiad hyd yn oed os oes cyfnod hir rhwng y digwyddiadau'n digwydd a'r mater yn dod i'r amlwg.

**8.12** Amlinellir y broses ar gyfer ystyried a ddylid cofnodi mater ymddygiad fel mater ymddygiad cofnodedig yn y siart llif a ganlyn, ac eglurir y termau allweddol ymhellach ym mharagraffau 8.13 i 8.19.

OFFICIAL SENSITIVE

## Cofnodi materion ymddygiad




**8.13** Pan gofnodwyd y mater ymddygiad o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* ond nad oes unrhyw ofyniad i'w atgyfeirio, caiff yr awdurdod priodol ddelio â'r mater yn y fath fodd (os o gwbl) ag y mae'r awdurdod priodol yn ei benderfynu. Os yw'r awdurdod priodol yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol ymchwilio i'r mater, rhaid i'r awdurdod priodol gynnal ymchwiliad lleol o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*[34]. Os yw'r awdurdod priodol yn penderfynu nad oes angen ymchwilio i'r mater, gellir ymdrin â'r mater o dan Reoliadau

[34]Paragraff 16, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

(Ymddygiad) yr Heddlu 2020 (gan gynnwys o dan y Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol), neu'r gweithdrefnau disgyblu priodol ar gyfer staff yr heddlu.

**8.14** Pan fo'r IOPC wedi penderfynu trin mater ymddygiad fel mater sydd wedi'i atgyfeirio, a elwir hefyd yn 'pŵer mentergarwch' (gweler paragraff 9.36 - 9.39), rhaid cofnodi'r mater ymddygiad.

### Beth mae 'cofnodadwy' yn ei olygu?

**8.15** Fel y dangosir yn y siart llif uchod, lle nad yw mater ymddygiad wedi codi o achos sifil, rhaid i'r awdurdod priodol ystyried yn gyntaf a yw'r mater yn fater 'cofnodadwy'. Mae mater yn gofnodadwy os yw'n cynnwys honiadau o ymddygiad, os tybiwyd iddo ddigwydd[35]:

- sy'n ymddangos fel pe bai wedi arwain at farwolaeth neu anaf difrifol i unrhyw unigolyn;
- sydd wedi cael effaith niweidiol ar unrhyw aelod o'r cyhoedd; neu • sy'n cwrdd ag unrhyw o'r meini prawf canlynol[36]:

i. ymosodiad difrifol, fel sy'n cael ei ddiffinio ym mharagraffau 9.7 a 9.11 o'r cyfarwyddyd hwn;
ii. trosedd rywiol ddifrifol, fel sy'n cael ei ddiffinio ym mharagraffau 9.12 - 9.14 o'r cyfarwyddyd hwn;
iii. llygredd difrifol, gan gynnwys camddefnyddio swydd er mwyn dibenion rhywiol neu er mwyn ceisio perthynas emosiynol amhriodol, fel sy'n cael ei ddiffinio ym mharagraffau 9.15 - 9.23 o'r cyfarwyddyd hwn;
iv. trosedd neu ymddygiad a fyddai'n arwain at gamau disgyblu[37] ac sydd, beth bynnag, wedi ei waethygu gan ymddygiad gwahaniaethol ar sail hil, rhyw, crefydd neu statws arall unigolyn yn unol â pharagraff 9.24 o'r cyfarwyddyd hwn;

v. trosedd berthnasol (gweler paragraff 9.28);
vi. ymddygiad yr honnir ei fod wedi digwydd yn yr un digwyddiad ag un lle'r honnir bod yr ymddygiad yn is-baragraff (i) i (v) wedi digwydd; neu
vii. ymddygiad y mae ei ddifrifoldeb neu amgylchiadau eithriadol eraill yn ei gwneud yn addas i gofnodi'r mater y digwyddodd yr ymddygiad ynddo;

---

[35] Paragraff 11, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*; Rheoliad 7, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

[36] Rheoliad 7, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

[37] Gweler yr eirfa am y diffiniad o achos disgyblu - yn yr achos hwn, ar gyfer aelodau'r heddlu neu gwnstabliaid rhan amser, mae achos disgyblu yn golygu unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol (yn unol â Rhan 6 o'r rheoliadau hynny). Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol. Ar gyfer unrhyw berson arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, golyga unrhyw achosion neu broses rheoli ble ystyrir ymddygiad yr unigolyn hwnnw, yn hytrach na'i berfformiad, at ddibenion penderfynu a ddylid cyflwyno unrhyw sancsiwn neu fesur cosbol yn ei erbyn oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

viii. ymddygiad prif swyddog neu Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu Metropolitan.

**8.16** Os na fydd unrhyw un o'r meini prawf hyn yn berthnasol, yna ni ellir cofnodi'r mater. Mae pwynt vii yn caniatáu elfen o ddisgresiwn pan fydd yr awdurdod priodol o'r farn y dylid cofnodi mater, ond fel arall nid yw'n dod o dan y meini prawf hyn.

## Beth yw ystyr 'a oes rhaid atgyfeirio'r mater, neu a ddylid ei atgyfeirio'?

**8.17** Mae'r blwch hwn yn y siart lif yn cyfeirio at ystyried a yw[38]:

- a yw'r mater yn ymwneud ag unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiadau pan fu unigolyn farw neu y dioddefodd anaf difrifol neu y digwyddodd hynny o ganlyniad iddynt
- ei fod yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio mater at yr IOPC (gweler pennod 9)
- a yw difrifoldeb y mater ymddygiad neu unrhyw amgylchiadau eithriadol yn ei gwneud yn addas i atgyfeirio'r mater i'r IOPC yn wirfoddol.
- mae'r awdurdod priodol wedi cael ei hysbysu gan yr IOPC ei bod yn ofynnol iddo atgyfeirio'r mater (a elwir hefyd yn 'galw i mewn', gweler paragraffau 9.34 - 9.35)

**8.18** Fodd bynnag, ni ellir cyfeirio mater ymddygiad a gyfeiriwyd at yr IOPC yn flaenorol (neu y mae'r IOPC wedi'i drin fel pe bai wedi'i atgyfeirio) eto, oni bai bod yr IOPC yn cyfarwyddo'r awdurdod priodol i wneud hynny neu'n cydsynio i'r atgyfeiriad gael ei wneud. Felly, nid yw mater ymddygiad a gyfeiriwyd yn flaenorol yn cwrdd â'r diffiniad o 'a oes rhaid atgyfeirio'r mater, neu a ddylid ei atgyfeirio'.

## Beth mae 'ailadroddus' yn ei olygu?

**8.19** At ddibenion y penderfyniadau yn y siart lif uchod, mae mater ailadroddus yn un[39]:

- sy'n ymwneud yn sylweddol â'r un ymddygiad â chŵyn flaenorol neu fater ymddygiad a gofnodwyd

- pan nad oes unrhyw awgrym o'r newydd y gall unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu fod wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau dwyn camau disgyblu[40]

[38] Paragraff 10, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*; Paragraff 11, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*; Paragraff 13, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.*

[39] Rheoliad 7, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

[40] Gweler yr eirfa am y diffiniad o achos disgyblu - yn yr achos hwn, ar gyfer aelodau'r heddlu neu gwnstabliaid rhan amser, mae achos disgyblu yn golygu unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol. Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol. Ar gyfer unrhyw berson arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, golyga unrhyw achosion neu broses rheoli ble ystyrir ymddygiad yr unigolyn hwnnw, yn hytrach na'i berfformiad, at ddibenion penderfynu a ddylid cyflwyno unrhyw sancsiwn neu fesur cosbol yn ei erbyn oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

- pan nad oes tystiolaeth newydd[41] sylweddol, nad oedd ar gael yn rhesymol ar adeg y gŵyn flaenorol neu pan gofnodwyd y mater ymddygiad; ac
- mae'r gŵyn flaenorol neu'r mater ymddygiad wedi, neu yn, cael ei hymchwilio neu (yn achos cwyn) ei thrin fel arall yn unol ag Atodlen 3

### Materion ymddygiad sy'n ymwneud â honiadau o wahaniaethu

**8.20** Wrth ystyried a ddylid cofnodi materion ymddygiad sy'n cynnwys honiadau o wahaniaethu, bydd angen i awdurdodau priodol ystyried difrifoldeb yr ymddygiad honedig a dylent roi ystyriaeth i *Canllawiau ar ymdrin â honiadau o wahaniaethu* yr IOPC.

### Atgyfeirio mater ymddygiad

**8.21** Am wybodaeth am atgyfeirio materion ymddygiad, gweler pennod 9.

# Pennod 9

## Atgyfeiriadau

**9.1** Mae'r bennod hon yn cynnwys:

- cwynion y mae'n rhaid eu cyfeirio at yr IOPC
- materion ymddygiad y mae'n rhaid eu hatgyfeirio at yr IOPC
- atgyfeirio materion marwolaeth neu anaf difrifol (DSI)
- meini prawf atgyfeirio gorfodol
- diffiniadau o feini prawf atgyfeirio
- atgyfeiriadau gwirfoddol
- materion sydd angen atgyfeiriad gofynnol i'r IOPC ('galw i mewn')
- Pŵer yr IOPC i ddelio â materion sydd wedi eu hatgyfeirio (pŵer mentergarwch')
- dyddiadau cau ar gyfer atgyfeirio
- hysbysiad o atgyfeiriad
- penderfynu sut ac a ddylid ymchwilio mater
- hysbysiad o benderfyniadau'r dull o ymchwilio

[41] Mae tystiolaeth 'sylweddol' yn golygu, er enghraifft, tystiolaeth o ffaith berthnasol sy'n destun dadl neu a allai effeithio ar ganlyniad y mater ymddygiad, ar wahân i dystiolaeth o faterion sy'n ymylol i'r mater ymddygiad ac yn annhebygol iawn o gael unrhyw effaith ar y canlyniad.

## Cwynion y mae'n rhaid eu cyfeirio at yr IOPC

Rhaid i awdurdodau priodol atgyfeirio cwynion at yr IOPC sydd:

- yn honni bod yr ymddygiad neu fater arall y cwynir amdano wedi arwain at farwolaeth neu anaf difrifol;
- yn syrthio o fewn y meini prawf atgyfeirio gofynnol (gweler isod); neu
- os yw'r IOPC yn hysbysu'r awdurdod priodol bod yn rhaid iddo atgyfeirio

Fodd bynnag, ni ellir cyfeirio mater ymddygiad a gyfeiriwyd at yr IOPC yn flaenorol (neu y mae'r IOPC wedi'i drin fel pe bai wedi'i atgyfeirio) eto, oni bai bod yr IOPC yn cyfarwyddo'r awdurdod priodol i wneud hynny neu'n cydsynio i'r atgyfeiriad gael ei wneud.

Paragraff 4, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

9.2 Pan fydd cyrff plismona lleol wedi cymryd cyfrifoldeb dros ddyletswyddau cofnodi cwynion, mae'r gwaith o atgyfeirio i'r IOPC yn parhau'n gyfrifoldeb yr awdurdod priodol. Rhaid cofnodi cwyn cyn gellir ei hatgyfeirio. Mae'n hanfodol, lle mae cyrff plismona lleol

yn cael cwynion neu wedi cymryd cyfrifoldeb am drin cwynion yn y lle cyntaf, bod prif swyddogion a chyrff plismona lleol yn cytuno ar weithdrefnau clir i adnabod cwynion sydd angen eu hatgyfeirio a sicrhau eu bod yn cael eu hatgyfeirio at yr IOPC yn ddi-oed ac yn unol â'r amserlenni statudol ar gyfer atgyfeirio (gweler blwch 9.40 uchod).

9.3 Dylai awdurdodau priodol hysbysu'r IOPC pan gyfyd pryderon neu broblemau eto ar ôl yr atgyfeiriad cychwynnol sy'n dynodi y dylid atgyfeirio'r mater unwaith eto.

## Materion ymddygiad y mae'n rhaid eu hatgyfeirio at yr IOPC

Rhaid i awdurdodau priodol atgyfeirio cwynion at yr IOPC faterion ymddygiad i'w cofnodi sydd:

- yn cysylltu unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiadau ble y lladdwyd neu y niweidiwyd unigolyn yn ddifrifol, neu fel canlyniad i hynny;
- yn syrthio o fewn y meini prawf atgyfeirio gofynnol (gweler isod); neu • os yw'r IOPC yn hysbysu'r awdurdod priodol bod yn rhaid iddo atgyfeirio.

Fodd bynnag, ni ellir cyfeirio mater ymddygiad a gyfeiriwyd at yr IOPC yn flaenorol (neu y mae'r IOPC wedi'i drin fel pe bai wedi'i atgyfeirio) eto, oni bai bod yr IOPC yn

OFFICIAL SENSITIVE

cyfarwyddo'r awdurdod priodol i wneud hynny neu'n cydsynio i'r atgyfeiriad gael ei wneud.

Paragraff 13, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

9.4 Dylai awdurdodau priodol hysbysu'r IOPC pan gyfyd pryderon neu broblemau eto ar ôl yr atgyfeiriad cychwynnol sy'n dynodi y dylid atgyfeirio'r mater unwaith eto.

## Atgyfeirio materion marwolaeth neu anaf difrifol (DSI)

Rhaid i awdurdodau priodol atgyfeirio holl faterion DSI at yr IOPC.

Fodd bynnag, ni ellir cyfeirio mater DSI a gyfeiriwyd at yr IOPC yn flaenorol (neu y mae'r IOPC wedi'i drin fel pe bai wedi'i atgyfeirio) eto, oni bai bod yr IOPC yn cyfarwyddo'r awdurdod priodol i wneud hynny neu'n cydsynio i'r atgyfeiriad gael ei wneud.

Paragraff 14C, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

## Meini prawf atgyfeirio gorfodol

Rhaid i'r awdurdod priodol atgyfeirio cwynion a materion ymddygiad a gofnodir sy'n cynnwys honiadau o ymddygiad yn ymwneud ag:

- ymosodiad difrifol
- trosedd rywiol ddifrifol
- llygredd difrifol, gan gynnwys camddefnyddio swydd er dibenion rhywiol neu er dibenion ceisio perthynas emosiynol amhriodol
- trosedd neu ymddygiad a fyddai'n debygol o arwain at achos disgyblu ac sydd, yn y naill achos, yn cael ei waethygu gan ymddygiad gwahaniaethol ar sail hil, rhyw, crefydd neu statws arall unigolyn yn unol â pharagraff 9.24 o'r canllaw hwn
- trosedd berthnasol
- cwynion neu faterion o ymddygiad yn deillio o'r un digwyddiad ag un ble honnir bod yr ymddygiad yn berthnasol i'r meini prawf uchod; neu
- unrhyw fater ymddygiad sy'n ymwneud â phrif swyddog (neu Ddirprwy Gomisiynydd y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan) ac unrhyw gŵyn sy'n ymwneud â phrif swyddog (neu Ddirprwy Gomisiynydd y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan) lle nad yw'r awdurdod priodol yn gallu bodloni ei hun, gan y cwyn yn unig, na fyddai'r ymddygiad y cwynir yn ei gylch, pe bai'n cael ei brofi, yn cyfiawnhau dwyn achos troseddol neu gamau disgyblu

OFFICIAL SENSITIVE

Rhaid i awdurdod priodol atgyfeirio unrhyw gwynion hefyd a gyfyd o'r un digwyddiad ble honnir bod yr ymddygiad y cwynir amdano wedi arwain at farwolaeth neu anaf difrifol.

Rheoliad 4 a 7 Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

**9.5** Gall yr awdurdod priodol geisio cyngor gan yr IOPC ynglŷn ag a ddylid atgyfeirio digwyddiad neu honiad neilltuol. Pan fydd amheuaeth a ddylid atgyfeirio cwyn neu fater o ymddygiad i'w gofnodi, mae'r IOPC yn annog atgyfeiriad.

**9.6** Os ceir rhagor o wybodaeth neu dystiolaeth, yn dynodi bod digwyddiad yn fwy difrifol nag a feddyliwyd i gychwyn, ac os yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio, yna dylid atgyfeirio'r mater at yr IOPC. Dylai'r awdurdod priodol hefyd gofio y gallai ailatgyfeiriad fod yn briodol os ceir gwybodaeth neu dystiolaeth bellach sy'n golygu y gallai'r IOPC fod eisiau adolygu'r dull ymchwilio. Pan fydd yr awdurdod priodol yn gwneud atgyfeiriad beth amser ar ôl y digwyddiad gwreiddiol, dylid rhoi esboniad am y rhesymau dros yr oedi a'r dystiolaeth neu wybodaeth newydd sydd wedi dod i'r amlwg ac wedi arwain at atgyfeirio'r mater.

## Diffiniadau o feini prawf atgyfeirio

### Ymosodiad difrifol

**9.7** Mae 'ymosodiad difrifol' yn ymddygiad sy'n achosi anaf o wir niwed corfforol neu anaf mwy difrifol.

**9.8** Mae'r term 'ymosodiad difrifol' yn cael ei ddehongli yn unol â'r gyfraith ar yr hyn a ddiffinnir fel ymosodiad yn achodi gwir niwed corfforol yn groes i adran 47 o'r *Ddeddf Troseddau yn Erbyn yr Unigolyn 1861*. Mae'r drosedd yn cael ei chyflawni pan fydd unigolyn yn ymosod ar un arall yn fwriadol neu'n ddiofal, a thrwy hynny yn achosi niwed corfforol gwirioneddol i'r unigolyn hwnnw. Gall hyn gynnwys niwed seicolegol sy'n fwy nag ofn, gofid neu banig.

**9.9** Dylai canllaw cyfreithiol Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ar y safon cyhuddo yn sgil trosedd o ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol, gael ei ddefnyddio wrth benderfynu a yw'r honiad yn un o ymosodiad a achosodd wir niwed corfforol yn hytrach nag ymosodiad cyffredin.

**9.10** Rhaid cyfeirio honiad o ymgais, ysgogi, cynllwyn, cymorth neu anogaeth i ymosod gan achosi gwir niwed corfforol neu drosedd fwy difrifol yn erbyn person at yr IOPC.

**9.11** Pan fydd unigolyn yn cael ei anafu yn sgil ymddygiad rhywun sy'n gweithio i'r heddlu, dylai heddluoedd yn gyntaf ystyried a yw'r anaf yn un difrifol (sy'n gyfystyr â DSI) neu'n un y dylid ei atgyfeirio fel arall. Os nad felly, dylent ofyn y cwestiwn yn bersonol a oes unrhyw beth ynglŷn â'r ymddygiad neu'r amgylchiadau ble achoswyd yr anaf sy'n amlygu'r angen am atgyfeiriad gwirfoddol.

### Troseddau rhywiol difrifol

**9.12** Mae'r IOPC yn ystyried honiad bod unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu wedi cyflawni unrhyw drosedd rywiol, yng ngoleuni ei rôl gyhoeddus, yn debygol o fod yn ddifrifol. Mae'r term 'troseddau rhywiol difrifol' yn cyfeirio at ymddygiad gan berson sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu sy'n cael ei ystyried yn drosedd rywiol o dan *Ddeddfau Troseddau Rhywiol 1956* i *2003*, oni bai ei fod yn drosedd diannod, a gyflawnwyd tra bo'r person oddi ar ddyletswydd.

**9.13** Er enghraifft, ni fyddai'r IOPC yn disgwyl atgyfeiriad am honiad o lithio (adran 51A o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*) neu 'weithgaredd rhywiol mewn toiled cyhoeddus' (adran 71 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003)* tra oddi ar ddyletswydd. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl atgyfeiriad am honiad o 'achosi neu annog puteindra er budd' (adran 52 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*), pa un a honnir iddo gael ei gyflawni ar ddyletswydd neu oddi ar ddyletswydd.

**9.14** Rhaid i unrhyw ymgais, anogaeth, cynllwyn neu gymorth i gyflawni unrhyw drosedd y cyfeirir ati uchod gael ei hatgyfeirio at yr IOPC.

### Llygredd difrifol

**9.15** Mae'r term llygredd difrifol yn cyfeirio at ymddygiad swyddogion heddlu ac aelodau o staff heddlu sy'n cynnwys:

- unrhyw ymddygiad a fyddai'n cael ei gynnwys yn niffiniad y drosedd statudol o 'lygredd neu ymarfer amhriodol arall o bwerau neu freintiau eraill sydd gan yr heddlu' (gweler paragraff 9.16 isod)
- gwyrdroi cwrs cyfiawnder neu ymddygiad arall sy'n debygol o niweidio gweinyddiaeth cyfiawnder yn ddifrifol, yn arbennig y system gyfiawnder troseddol
- taliadau neu fuddion neu gymwynasau eraill yn gysylltiedig â chwblhau dyletswyddau sydd yn drosedd y byddai'r honedig, petai'n cael ei ddedfrydu, yn debygol o gael ei garcharu amdani am fwy na chwe mis
- camddefnyddio swydd er dibenion rhywiol neu er dibenion ceisio perthynas emosiynol amhriodol
- cysylltiadau llwgr rhwng rheolwyr, ymdrinwyr neu ffynonellau cuddwybodaeth ddynol (CHIS)
- darparu gwybodaeth gyfrinachol yn gyfnewid am daliad neu fuddion eraill neu gymwynasau lle gallai'r ymddygiad arwain at erlyniad posibl am drosedd dan Adran 170 o *Ddeddf Diogelu Data 2018*, neu drosedd mwy difrifol
- echdynnu a chyflenwi cyffuriau a reolir, arfau neu ddeunyddiau eraill a atafaelwyd
- unrhyw gamddefnydd arall mewn swydd, neu
- ymdrechion, cynllwynion, ysgogiadau, cymorth neu anogaeth i gyflawni unrhyw un o'r uchod

**9.16** Mae cwnstabl heddlu yn cyflawni trosedd statudol drwy 'lygredd neu ymarfer amhriodol arall o bwerau neu freintiau eraill sydd gan yr heddlu' os bydd yn[42]:

- defnyddio pwerau a breintiau cwnstabl yn amhriodol (h.y. er dibenion cael budd iddyn nhw eu hunain neu fudd neu anfantais i rywun arall ac ni fyddai unigolyn rhesymol yn disgwyl i'r pŵer neu'r fraint gael eu defnyddio i'r diben hwnnw), a
- mae'n gwybod neu fe ddylai wybod bod y weithred honno'n amhriodol

Mae arfer pwerau a breintiau cwnstabl yn amhriodol yn cynnwys methiant i, neu fygythiad i, arfer pŵer neu fraint.

**9.17** Mae camddefnydd o swydd yn unrhyw ymdrech gan unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu, ar ddyletswydd neu oddi ar ddyletswydd, i gymryd mantais yn amhriodol neu'n anghyfreithlon:

- o'i swydd fel unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu
- yn sgil yr awdurdod a roddir iddo mewn swydd fel unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu, neu
- unrhyw bwerau a roddir iddo oherwydd ei swydd fel unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu

**9.18** Dylid dehongli'r term 'diben rhywiol' yn eang a bydd yn cynnwys unrhyw berthynas, cyfathrebu, gweithred neu foddhad rhywiol gydag aelod o'r cyhoedd.

**9.19** Perthynas emosiynol neu bersonol yw perthynas emosiynol amhriodol rhwng unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu ac aelod o'r cyhoedd, y byddai unrhyw unigolyn rhesymol yn ei hystyried fel un sy'n croesi ffiniau proffesiynol priodol.

**9.20** Nid yw'n angenrheidiol i'r diben rhywiol neu'r berthynas emosiynol amhriodol a geisir fod wedi ei gyflawni. Mae honiad bod unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu wedi ceisio camddefnyddio ei swydd er dibenion o'r fath yn ddigon o sail ar gyfer atgyfeiriad gorfodol.

**9.21** Yn unol â phob mater sy'n bodloni'r meini prawf atgyfeirio gorfodol, rhaid atgyfeirio honiadau o lygredd difrifol at yr IOPC heb oedi. Nid yw'n briodol felly disgwyl hyd nes i ddigon o wybodaeth ddod i'r amlwg cyn arestio.

**9.22** Pan wneir honiad o lygredd difrifol, neu phan amlygir llygredd difrifol posib, gallai hynny olygu ymchwiliad cudd. Ni ddylai hynny atal neu oedi'r atgyfeiriad i'r IOPC.

**9.23** Dylid trafod yr achos hwn gyda'r IOPC os oes ansicrwydd ynglŷn â'r angen am atgyfeiriad.

---

[42] Adran 26, *Deddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015.*

## Troseddau ac ymddygiad sy’n debygol o arwain at gosb disgyblu ac sydd yn y naill achos neu’r llall wedi eu gwaethygu gan ymddygiad gwahaniaethol

**9.24** Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw drosedd neu ymddygiad arall sy’n debygol o arwain at gamau disgyblu[43] sy'n cael ei waethygu gan wahaniaethu ar sail:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw, neu
- cyfeiriadedd rhywiol

**9.25** Bodlonir y meini prawf pe byddai'r ymddygiad honedig, heb yr elfen wahaniaethol, yn drosedd neu ymddygiad sy'n debygol o arwain at achos o ddisgyblu a honnir mai gwahaniaethu oedd y rheswm am yr ymddygiad hwnnw.

**9.26** Mae'r sail dros atgyfeirio angen asesiad o ddifrifoldeb yr ymddygiad sylfaenol, heb yr elfen wahaniaethol (i benderfynu a ydyw'n honiad o drosedd neu ymddygiad sy'n debygol o arwain at achos o ddisgyblu). Ni fydd hi'n angenrheidiol asesu difrifoldeb yr elfen wahaniaethu; dim ond bod gwahaniaethu yn ffactor gwaethygu honedig.

**9.27** Gall y gwahaniaethu honedig fod ar ffurf uniongyrchol trwy iaith neu ymddygiad, er enghraifft, defnyddio geiriau sarhaus a gwahaniaethol neu ddefnyddio stereoteipiau i ddisgrifio unigolion. Gallai'r achwynydd neu'r sawl sy'n gysylltiedig honni yr ysgogwyd yr ymddygiad gan wahaniaethu. Gallai honni triniaeth sy'n destun gwahaniaethu wrth gymharu gyda'r driniaeth a roddwyd i eraill. Er nad cyfrifoldeb yr achwynydd yw profi bod yr unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu wedi gwahaniaethu yn ei erbyn, mae'n bwysig ei fod yn medru nodi (os yw'n bosib) ym mha ffordd y bu'r driniaeth yn ei erbyn yn wahaniaethol. Dylai'r unigolyn sy'n delio â'r mater annog yr achwynydd neu'r unigolyn cysylltiedig i ddarparu cymaint o wybodaeth â phosib ynglŷn â'i reswm dros honni y gwahaniaethwyd yn ei erbyn. Mae’n bosibl na fydd yr achwynydd neu'r unigolyn cysylltiedig yn honni gwahaniaethu, ond bydd yr unigolyn sy'n delio â'r mater yn credu bod

[43] Gweler yr eirfa am y diffiniad o achos disgyblu - yn yr achos hwn, ar gyfer aelodau’r heddlu neu gwnstabliaid rhan amser, mae achos disgyblu yn golygu unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol (yn unol â Rhan 6 o'r rheoliadau hynny). Nid yw’n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol. Ar gyfer unrhyw berson arall sy’n gwasanaethu gyda’r heddlu, golyga unrhyw achosion neu broses rheoli ble ystyrir ymddygiad yr unigolyn hwnnw, yn hytrach na’i berfformiad, at ddibenion penderfynu a ddylid cyflwyno unrhyw sancsiwn neu fesur cosbol yn ei erbyn oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

gwahaniaethu yn ffactor. I gael arweiniad pellach, gweler *Canllawiau ar ymdrin â honiadau o ymddygiad gwahaniaethol* yr IOPC.

### Trosedd berthnasol

Diffinnir 'trosedd berthnasol' fel unrhyw drosedd y mae'r ddedfryd ar ei chyfer wedi ei gosod gan y gyfraith neu unrhyw drosedd y gall unigolyn 18 oed a hŷn (heb euogfarn flaenorol) gael ei ddedfrydu i garchar am saith mlynedd neu fwy amdani (ac eithrio unrhyw gyfyngiadau a osodir gan adran 33 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980).

Rheoliad 1, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

**9.28** Er mwyn asesu a yw trosedd yn bodloni'r diffiniad hwn, dylid cymryd arweiniad o ganllawiau dedfrydu'r CPS ar gyfer y drosedd dan sylw. Ni ddylai'r asesiad hwn ystyried beth fydd y ddedfryd debygol, yn hytrach dylai ond ystyried a oes posibilrwydd y bydd y drosedd yn arwain at ddedfryd o garchar am saith mlynedd neu fwy.

### Cwynion a materion ymddygiadol yn ymwneud â phrif swyddogion

**9.29** Rhaid i awdurdod priodol atgyfeirio i'r IOPC unrhyw fater o ymddygiad sy'n ymwneud â phrif swyddog (neu Ddirprwy Gomisiynydd Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitanaidd).

**9.30** Rhaid i awdurdod priodol hefyd atgyfeirio at yr IOPC unrhyw gŵyn sy'n ymwneud ag ymddygiad prif swyddog (neu Ddirprwy Gomisiynydd y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan) lle nad yw'r awdurdod priodol yn gallu bodloni ei hun, o'r gŵyn yn unig, na fyddai'r ymddygiad y cwynwyd amdano, pe bai'n cael ei brofi, yn cyfiawnhau dwyn achos troseddol neu gamau disgyblu[44]. Dylai'r prawf hwn fod yn seiliedig ar y gŵyn yn unig.

## Atgyfeiriadau gwirfoddol

**9.31** Mae'r IOPC yn annog awdurdodau priodol i ddefnyddio eu gallu i atgyfeirio cwynion neu faterion ymddygiad a gofnodir nad oes angen eu hatgyfeirio, ond pan fydd difrifoldeb y testun neu amgylchiadau eithriadol yn cyfiawnhau eu hatgyfeirio[45]. Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, oherwydd bod y gŵyn neu fater ymddygiad a gofnodir, wedi cael effaith sylweddol ar hyder y cyhoedd, neu hyder cymunedau neilltuol, neu bod yr awdurdod priodol o'r farn bod angen cyfraniad annibynnol at yr ymchwiliad.

**9.32** Dylai awdurdodau priodol ystyried atgyfeirio cwynion a materion ymddygiad cofnodadwy sy'n cynnwys gweithredoedd prif swyddog a gweithredoedd unigolion eraill sy'n gwasanaethu

---

[44] Gweler yr eirfa am y diffiniad o achos disgyblu - yn yr achos hwn, ar gyfer aelodau'r heddlu neu gwnstabliaid rhan amser, mae achos disgyblu yn golygu unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol. Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol (yn unol â Rhan 6 o'r rheoliadau hynny).

[45] Paragraff 4 ac 13, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

gyda'r heddlu yn wirfoddol, lle na fyddai angen atgyfeirio materion am yr unigolion eraill sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu fel rheol, ond maent wedi'u cysylltu'n gynhenid â'r materion sy'n ymwneud â'r prif swyddog.

**9.33** Gall cyrff plismona lleol hefyd atgyfeirio cwynion neu faterion ymddygiad a gofnodir nad ydynt wedi eu hatgyfeirio at yr awdurdod priodol a dim angen iddynt ychwaith, os yw'r corff plismona lleol yn ystyried y byddai atgyfeiriad yn briodol yn sgil difrifoldeb y pwnc dan sylw neu unrhyw amgylchiadau eithriadol eraill[46]. Gall cyrff plismona lleol ond atgyfeirio materion sy'n ymwneud â'r heddlu y maent hwythau yn gweithredu fel corff plismona lleol drostynt.

## Materion sydd angen atgyfeiriad gofynnol i'r IOPC ('galw i mewn')[47]

**9.34** Gallai'r IOPC fynnu unrhyw gŵyn neu fater ymddygiad a gofnodir gael ei atgyfeirio ato gan yr awdurdod priodol. Gall yr IOPC ddefnyddio'r pŵer i 'alw mater i mewn' hyd yn oed os yw'r mater yn cael ei ymchwilio eisoes neu wedi ei ystyried eisoes gan yr IOPC.

**9.35** Os bydd yr IOPC yn galw mater i mewn, dylai'r awdurdod priodol ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol ar adeg yr atgyfeiriad neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.

## Pŵer yr IOPC i ddelio â materion sydd wedi eu hatgyfeirio (pŵer mentergarwch')[48]

**9.36** Gall yr IOPC drin unrhyw gŵyn, mater ymddygiad neu fater DSI a ddaw i'w sylw heblaw trwy gael ei atgyfeirio gan yr awdurdod priodol, fel un sydd wedi'i atgyfeirio, pa un a yw'r mater hwnnw wedi'i gofnodi ai peidio.

**9.37** Mewn cyferbyniad â'r pŵer 'galw i mewn', mae'r pŵer hwn yn galluogi'r IOPC i ystyried y mater at ddibenion penderfynu a oes angen ymchwiliad a gwneud penderfyniad ar y dull ymchwilio heb dderbyn atgyfeiriad gan yr awdurdod priodol. Gall yr IOPC wneud hyn yn absenoldeb cofnodi'r mater.

**9.38** Pan fydd yr IOPC yn delio â mater fel un a atgyfeiriwyd, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod priodol a'r achwynydd (os oes un). Rhaid i'r IOPC hysbysu unrhyw unigolion y cyflwynwyd cwyn yn eu herbyn hefyd, neu i'r sawl sy'n destun y gŵyn, oni bai ei bod hi'n amlwg i'r IOPC y gallai'r hysbysiad achosi rhagfarn mewn ymchwiliad neu ymchwiliad posib i'r mater yn y dyfodol.

**9.39** Pan fydd awdurdod priodol yn cael hysbysiad bod mater wedi ei ymdrin fel un a atgyfeiriwyd, rhaid iddo gofnodi'r mater os nad yw wedi gwneud hynny eisoes. Dylai'r awdurdod priodol

[46] Paragraff 4 ac 13, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*
[47] Paragraff 4 ac 13, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*
[48] Paragraffau 4A, 13A ac 14A, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.*

ddarparu i'r IOPC, cyn gynted â phosibl ar ôl yr hysbysiad, yr holl wybodaeth berthnasol nad yw eisoes wedi'i darparu.

## Dyddiadau cau ar gyfer atgyfeirio

> Rhaid cyflwyno atgyfeiriad gorfodol yn ddi-oed ac yn sicr dim hwyrach na diwedd y dydd ar ôl y diwrnod pan ddaw yn amlwg i'r awdurdod priodol bod rhaid atgyfeirio'r mater.
>
> Pan fydd yr IOPC yn galw mater i mewn, rhaid ei atgyfeirio yn ddi-oed ac yn sicr dim hwyrach na diwedd y dydd ar ôl y diwrnod pan fydd yr IOPC yn hysbysu'r awdurdod priodol bod rhaid atgyfeirio'r mater.
>
> Rheoliadau 4, 7 a 9 Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

**9.40** Dylid cyflwyno atgyfeiriadau gwirfoddol cyn gynted â phosibl ar ôl i'r awdurdod priodol benderfynu y dylid atgyfeirio'r mater at yr IOPC.

**9.41** Er mwyn gallu gwneud atgyfeiriadau cyn gynted â phosibl, rhaid i awdurdodau priodol a chyrff plismona lleol sicrhau bod hyfforddiant a phrosesau priodol ar waith i sicrhau bod materion cyfeiriadwy yn cael eu hadnabod a'r bobl briodol (yn fewnol neu'r IOPC) yn cael gwybod heb oedi.

**9.42** Mae'n bwysig bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i'r IOPC cyn gynted â phosibl fel nad oes unrhyw oedi cyn delio â materion. Pan fo'r mater yn gŵyn, ni ddylai'r prosesau a amlinellir ym mharagraff 6.12 arafu'r atgyfeiriad. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae posibilrwydd y bydd Erthygl 2 neu 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn berthnasol.

**9.43** Lle bo angen, dylid cysylltu â'r IOPC yn ddi-oed, gan gynnwys, pan fydd y digwyddiad yn digwydd y tu allan i oriau gwaith arferol, trwy'r rhif ar-alwad. Ymhlith y digwyddiadau lle mae hyn yn angenrheidiol mae:

- unrhyw farwolaeth yn y ddalfa
- unrhyw anafiadau sy'n peryglu bywyd neu'n newid bywyd a ddigwyddodd yn y ddalfa
- marwolaeth yn dilyn cyswllt â'r heddlu, lle mae digwyddiad/safle barhaus neu efallai y bydd gweithdrefn ar ôl digwyddiad (PIP) yn cael ei chynnal
- anafiadau a allai fygwth bywyd neu newid bywyd yn dilyn cyswllt â'r heddlu, lle mae digwyddiad/safle barhaus neu gellir cynnal PIP
- gall amgylchiadau DSI ofyn am gyhoeddi digwyddiad difrifol[49] neu mae potensial i gael effaith gymunedol

[49] Gweler Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona ar reoli digwyddiadau difrifol.

- mae'r digwyddiad yn cwrdd â'r meini prawf atgyfeirio gorfodol neu atgyfeirio gwirfoddol ac mae PIP yn cael ei ystyried

- mae amgylchiadau'r digwyddiad yn arwain at y posibilrwydd o gynnwys Erthygl 2

**9.44** Pan fydd galwad ffôn wedi'i gwneud i'r IOPC ynghylch mater, bydd angen atgyfeiriad wedi'i ddogfennu o hyd. Lle bu ystyriaeth o'r ffactorau ym mharagraff 9.43 a phenderfynwyd nad oes angen galwad ffôn ar unwaith i'r IOPC, ond bod angen ei atgyfeirio, dylid dogfennu'r rhesymeg hon a'i chynnwys yn yr atgyfeiriad. Gellir atgyfeirio mater at yr IOPC trwy e-bost ar y penwythnos neu wyliau banc, fodd bynnag, ni fydd yr IOPC yn ystyried yr atgyfeiriad tan y diwrnod gwaith nesaf.

**9.45** Ni ddylai'r broses atgyfeirio oedi unrhyw weithred gychwynnol gan awdurdod priodol i ddiogelu neu gadw tystiolaeth yn enwedig mewn perthynas â rheoli safle'r digwyddiad. Am ragor o wybodaeth, gweler *Canllaw statudol i'r heddlu ynglŷn â chyflawni'r dystiolaeth orau mewn materion o farwolaeth neu anaf difrifol* yr IOPC.

**9.46** Wrth atgyfeirio mater, dylai awdurdod priodol ddarparu cymaint o wybodaeth berthnasol â phosib i'r IOPC i'w alluogi i wneud penderfyniad ynghylch a oes angen ymchwiliad ac, os felly, y dull mwyaf priodol o ymchwilio. Dylid cydbwyso'r angen i ddarparu gwybodaeth gyda phrydlondeb yr atgyfeiriad. Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi rhai enghreifftiau o'r wybodaeth, os yw ar gael ac yn berthnasol, a fyddai o gymorth i'r sawl sy'n asesu'r atgyfeiriad:

- copi o'r gŵyn
- ffurflenni defnyddio grym corfforol, lle ceir honiad o rym gormodol neu anaf
- cofnodion meddygol yn ymwneud ag unrhyw anafiadau a achoswyd neu a honnwyd felly
- cofnod y ddalfa, lle mae'r atgyfeiriad yn ymwneud â mater a ddigwyddodd yn y ddalfa neu pan fydd yr amser a dreuliwyd yn y ddalfa yn bwysig
- lluniau teledu cylch cyfyng, camerâu a wisgir ar y corff neu a roddir mewn car, neu gadarnhad a yw'r lluniau hynny'n bodoli
- nodiadau gan heddwas yn ymwneud â'r digwyddiad

**9.47** Dylai'r awdurdod priodol hysbysu'r IOPC adeg yr atgyfeiriad os yw gwybodaeth bellach yn debygol o fod ar gael yn fuan wedi hynny.

## Hysbysiad o atgyfeiriad

Pa bryd bynnag y bydd corff plismona lleol neu brif swyddog yn atgyfeirio cwyn neu fater ymddygiad at yr IOPC, rhaid iddo hysbysu'r:

- achwynydd (os oes un); a'r

- unigolyn y cyflwynwyd cwyn yn ei erbyn, neu'r sawl sy'n destun y gŵyn, oni bai ei bod hi'n amlwg i'r IOPC y gallai'r hysbysiad achosi rhagfarn mewn ymchwiliad neu ymchwiliad posib i'r dyfodol o'r gŵyn neu'r mater.

Rhaid i gorff plismona lleol hysbysu'r awdurdod priodol o unrhyw atgyfeiriad gwirfoddol a wna os mai'r prif swyddog yw'r awdurdod priodol.

Paragraff 4 ac 13, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

## Penderfynu sut ac a ddylid ymchwilio mater

Unwaith y cyflwynir atgyfeiriad at yr IOPC (neu os bydd yr IOPC yn delio â mater fel un a atgyfeiriwyd), rhaid i'r IOPC benderfynu a ddylid ymchwilio'r mater neu beidio. Os bydd yr IOPC yn penderfynu y dylid ei ymchwilio, yna rhaid iddo ddewis y dull o ymchwilio. I wneud hynny, bydd yn ystyried difrifoldeb yr achos a budd y cyhoedd.

Paragraff 5, 14, 14D ac 15, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

**9.48** Os bydd yr IOPC yn penderfynu nad oes angen ymchwilio mater yna gallai gyfeirio'r mater hwnnw'n ôl i'r awdurdod priodol. Os yw'r awdurdod priodol eisoes yn ymchwilio'r mater, rhaid iddo gwblhau'r ymchwiliad[50]. Os nad oes ymchwiliad eisoes ar waith, rhaid i'r awdurdod priodol ddelio â'r mater yn y ffordd fwyaf resymol a chymesur yn eu barn nhw. Os bydd hyn yn golygu cynnal ymchwiliad, rhaid ei gynnal yn unol â pharagraff 16 o Atodlen 3 *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* ('ymchwiliadau lleol').

**9.49** Os bydd yr IOPC yn penderfynu y dylid ymchwilio mater, yna bydd yn dewis ai'r dull o ymchwilio fydd:

- ymchwiliad lleol
- ymchwiliad dan gyfarwyddyd, neu
- ymchwiliad annibynnol

**9.50** Gall yr IOPC ail edrych ar benderfyniad dull o ymchwilio ar unrhyw adeg a'i newid. Gall ddymuno gwneud hynny os, er enghraifft, daw rhagor o wybodaeth i'r amlwg. Mewn achos

[50] Pan fydd mater yn cael ei gofnodi, rhaid i'r awdurdod priodol benderfynu beth i'w wneud ag ef: ymchwilio, ei drin heblaw trwy ymchwiliad neu beidio â chymryd unrhyw gamau pellach. O'r pwynt pan wneir penderfyniad i ymchwilio, (ac, er enghraifft, bod ymchwilydd yn cael ei benodi) dylai'r ymchwiliad gael ei ystyried fel un sydd wedi dechrau. Os penodir rhywun i drin y mater heblaw trwy ymchwiliad o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002,* yna gallant gasglu gwybodaeth mewn perthynas â'r mater. Nid yw hyn yn golygu bod ymchwiliad wedi cychwyn.

o ymchwiliad dan gyfarwyddyd, mae'n ofynnol i'r IOPC gadw'r dull o ymchwiliad dan adolygiad.

### Hysbysiad o benderfyniadau'r dull o ymchwilio

**9.51** Bydd yr IOPC yn hysbysu'r awdurdod priodol ynglŷn â phenderfyniad y dull o ymchwilio a'r rheswm am hynny. Bydd hefyd yn hysbysu'r canlynol, oni bai bod rhai amodau penodol yn berthnasol[51]:

- yr achwynydd (os oes un);
- unrhyw unigolyn sydd â diddordeb (o fewn diffiniad *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*);
- unrhyw unigolyn y cyflwynir cwyn amdano neu ei ymddygiad sydd ynghlwm â'r mater (gall hyn fod drwy'r awdurdod priodol os bydd angen).

# Pennod 10

## Penderfynu sut i drin mater o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*

**10.1** Mae'r bennod hon yn egluro'r canlynol:

- y gofynion er mwyn ymgymryd â dull rhesymol a chymesur
- materion sy'n rhaid eu hymchwilio
- eithriadau i'r ddyletswydd i ymchwilio i gwynion
- asesu beth sy'n rhesymol a chymesur

### Y gofynion er mwyn ymgymryd â dull rhesymol a chymesur

**10.2** Rhaid i bob cwyn a gofnodir dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* gael ei thrin mewn ffordd resymol a chymesur (gweler Pennod 3). Yn ddibynnol ar yr amgylchiadau, gallai hynny olygu:

- ymchwiliad i'r mater
- ymateb fel arall i bryderon a godwyd a cheisio'u datrys, neu
- yn achlysurol, hysbysu achwynydd na fydd unrhyw weithredu pellach

[51] Paragraff 15, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*; Rheoliad 11, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

**10.3** Er bod y gofyniad deddfwriaethol i drin yn rhesymol ac yn gymesur yn ymwneud â chwynion, dylid cymhwyso egwyddorion trin rhesymol a chymesur hefyd wrth drin ymddygiad cofnodadwy a materion DSI i'r graddau y mae hynny'n bosibl.

**10.4** Dylid gwneud penderfyniadau ar ddelio'n briodol ar sail pob achos yn unigol. Fodd bynnag, mae yna rai materion sy'n rhaid eu hymchwilio (gweler paragraffau 10.5 i 10.9) a rhai gofynion penodol ar gyfer delio â materion, hyd yn oed os ydynt yn cael eu hymchwilio neu beidio neu'n cael eu trin dan Atodlen 3 (gweler pennod 11).

## Materion sy'n rhaid eu hymchwilio

**10.5** Mae'n rhaid ymchwilio cwyn pan fydd yr awdurdod priodol yn penderfynu mai hynny yw'r ffordd resymol a chymesur i ddelio â hi.

**10.6** Yn ogystal, yn amodol ar yr eithriadau a amlinellir yn y blwch uwchben paragraff 10.10, rhaid ymchwilio i'r canlynol:

- unrhyw gŵyn ble mae arwydd, un ai gan y gŵyn ei hun neu o'r gwaith delio hyd yma:
  - unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau dwyn camau disgyblu[52], neu
  - y torrwyd hawliau unigolyn dan Erthygl 2 neu 3 o'r Confensiwn Hawliau Dynol Ewropeaidd (gweler yr eirfa)[53]
- unrhyw gŵyn, mater DSI neu fater ymddygiad cofnodadwy y mae'r IOPC wedi penderfynu bod yn rhaid ymchwilio iddo, yn dilyn atgyfeiriad o'r mater i'r IOPC neu'r IOPC yn delio â'r mater fel un a atgyfeiriwyd[67]
- unrhyw gŵyn a bennwyd gan yr IOPC fel un sy'n rhaid ei hymchwilio neu ei hailymchwilio yn dilyn ei benderfyniad mewn perthynas ag adolygiad[54]

**10.7** Cymerir bod gan 'Arwydd' ei ddiffiniad Cymraeg plaen. Wrth wneud y penderfyniad ynghylch a oes 'arwydd', dylai'r awdurdod priodol ystyried a yw'r amgylchiadau, a'r dystiolaeth sydd ar gael yn rhwydd, yn dangos neu'n awgrymu yn rhesymol y gallai

---

[52] Gweler yr eirfa am y diffiniad o achos disgyblu - yn yr achos hwn, ar gyfer aelodau'r heddlu neu gwnstabliaid rhan amser, mae achos disgyblu yn golygu unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol (yn unol â Rhan 6 o'r rheoliadau hynny). Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol. Felly, byddai hyn yn golygu ymddwyn mewn modd sy'n cyfiawnhau cyfarfod camymddwyn o leiaf (ac, felly, trwy ddiffiniad, rhybudd ysgrifenedig - gweler canllawiau'r Coleg Plismona ar ganlyniadau i gael manylion pellach). Ar gyfer unrhyw berson arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, golyga unrhyw achosion neu broses rheoli ble ystyrir ymddygiad yr unigolyn hwnnw, yn hytrach na'i berfformiad, at ddibenion penderfynu a ddylid cyflwyno unrhyw sancsiwn neu fesur cosbol yn ei erbyn oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

[53] Paragraff 6, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* 67

Paragraff 16, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.*

[54] Gall corff plismona lleol hefyd argymell y dylid ymchwilio neu ail-ymchwilio cŵyn yn dilyn ei benderfyniad mewn perthynas ag adolygiad (gweler Pennod 18).

 OFFICIAL SENSITIVE

unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu fod wedi cyflawni trosedd neu wedi ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau dwyn camau disgyblu, neu'r posibilrwydd fod hawliau rhywun o dan Erthygl 2 neu 3 wedi'u torri. Dylai'r penderfyniad hwn ystyried y ffeithiau sy'n cael eu honni gan yr achwynydd, ochr yn ochr ag unrhyw dystiolaeth sydd ar gael yn rhwydd, a pheidio â chanolbwyntio'n llwyr ar yr hyn y mae'r achwynydd yn ei ddweud y mae'r ffeithiau'n ei olygu[55]. Pan fo achwynydd yn honni, er enghraifft, bod trosedd wedi'i chyflawni heb egluro'r hyn y credant sy'n gyfystyr â throsedd, dylai'r awdurdod priodol ofyn am wybodaeth bellach ac eglurhad gan yr achwynydd cyn gwneud y penderfyniad ynghylch a oes arwydd.

**10.8** Wrth wneud y penderfyniad ynghylch a oes 'arwydd' gall yr awdurdod priodol adolygu tystiolaeth sydd ar gael yn rhwydd, ond ni ddylai gymryd camau ymchwilio rhagarweiniol er mwyn gwneud y penderfyniad hwn[56]. Felly, ni ddylai'r awdurdod priodol, er enghraifft, gael cyfrifon gan swyddogion neu dystion eraill, na chyfarwyddo arbenigwr. Os yw'r hyn a honnir mewn cwyn yn cael ei danseilio gan dystiolaeth wrthrychol go iawn gyfoes (h.y. tystiolaeth o bethau sy'n wahanol i bersonau, megis teledu cylch cyfyng/camera corff), neu'n annhebygol yn ei hanfod, mae'n annhebygol y bydd yna arwydd.

**10.9** Lle mae amheuaeth a oes 'arwydd' ai peidio, gall hyn awgrymu ei bod yn rhesymol ac yn gymesur i ymchwilio. Pan wneir penderfyniad nad oes unrhyw arwydd, ond wrth ei drin wedi hynny, mae'r sawl sy'n trin y gŵyn o'r farn y gellir cyflawni'r prawf arwydd yn awr, dylai'r sawl sy'n trin y gŵyn roi gwybod i'r awdurdod priodol i ystyried a oes rhaid ymchwilio i'r gŵyn yn awr.

[55] Fodd bynnag, nid oes angen i honiad gael tystiolaeth ategol er mwyn cael arwydd.

[56] Fodd bynnag, rhaid iddynt fod yn ymwybodol o ddyletswyddau'r prif swyddog i gadw tystiolaeth a nodir ym Mharagraffau 1, 12 a 14B, o Atodlen 3 o, *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, a *chanllawiau statudol i'r heddlu ar gyflawni'r dystiolaeth orau mewn materion o farwolaeth neu anaf difrifol* yr IOPC.

## Eithriadau i'r ddyletswydd i ymchwilio i gwynion

Nid yw'r ddyletswydd i ymchwilio i gŵyn yn berthnasol os yw'r awdurdod priodol yn penderfynu:

- bod y gŵyn yn bennaf yn cynnwys yr un: o ymddygiad neu fater arall fel cwyn a wnaed yn flaenorol, neu o ymddygiad fel mater o ymddygiad a gofnodwyd eisoes
- nid oes arwydd o'r newydd mewn perthynas â'r ymddygiad hwnnw neu fater arall bod:
  - unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau dwyn camau disgyblu[57], neu
  - y torrwyd hawliau unigolyn dan Erthyglau 2 a 3 o'r Confensiwn Hawliau Dynol Ewropeaidd;
- pan nad oes tystiolaeth newydd sylweddol, nad oedd ar gael yn rhesymol ar adeg y gŵyn flaenorol neu pan gofnodwyd y mater ymddygiad; ac
- mae'r gŵyn neu fater ymddygiad (f)blaenorol: o wedi cael ei (h)ymchwilio, neu wrthi'n cael ei (h)ymchwilio
  - (yn achos cwyn) mae wedi cael ei thrin, neu wrthi'n cael ei thrin fel arall yn unol ag Atodlen 3
  - (yn achos cwyn) wedi cael ei thynnu'n ôl yn flaenorol (gweler Pennod 16) ac, felly, peidiodd darpariaethau Rhan 2 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* â bod yn berthnasol i'r gŵyn flaenorol honno

Rheoliad 6, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

**10.10** Mae tystiolaeth 'sylweddol' yn golygu, er enghraifft, tystiolaeth o ffaith berthnasol sy'n destun dadl neu a allai effeithio ar ganlyniad y gŵyn, ar wahân i dystiolaeth o faterion sy'n ymylol i'r gŵyn ac yn annhebygol iawn o gael unrhyw effaith ar y canlyniad.

**10.11** Fodd bynnag, dylid parhau i ddelio â'r mater mewn ffordd resymol a chymesur (gweler Pennod 12). Mae hyn yn ofynnol os yw'r mater yn gŵyn.

## Asesu beth sy'n rhesymol a chymesur

**10.12** Fel y nodwyd, rhaid i'r awdurdod priodol ystyried ai trwy ymchwiliad neu heblaw trwy ymchwiliad yw'r ffordd resymol a chymesur i ddelio â chwyn. Rhaid i'r sawl sy'n trin cwynion ystyried pa gamau sy'n rhesymol ac yn gymesur i'w cymryd er mwyn delio â chŵyn. Wrth wneud y penderfyniadau hyn am yr hyn sy'n rhesymol ac yn gymesur, dylai'r

[57] Gweler yr eirfa am y diffiniad o achos disgyblu - yn yr achos hwn, ar gyfer aelodau'r heddlu neu gwnstabliaid rhan amser, mae achos disgyblu yn golygu unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol. Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol (yn unol â Rhan 6 o'r rheoliadau hynny). Ar gyfer unrhyw berson arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, golyga unrhyw achosion neu broses rheoli ble ystyrir ymddygiad yr unigolyn hwnnw, yn hytrach na'i berfformiad, at ddibenion penderfynu a ddylid cyflwyno unrhyw sancsiwn neu fesur cosbol yn ei erbyn oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

awdurdod priodol a'r sawl sy'n trin cwynion ystyried nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ddifrifoldeb y mater, gan gynnwys o yr hyn a honnir o yr effaith a/neu'r niwed sydd wedi'i achosi, neu a allai fod wedi'i achosi o budd y cyhoedd
    - a yw unrhyw erthyglau o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn berthnasol
    - y cyd-destun ehangach ac a yw'r mater yn arwain at bryderon sy'n ychwanegol at y rhai a honnir gan yr achwynydd
    - pa un a yw nifer o gwynion tebyg blaenorol wedi'u cofnodi (naill ai am yr un mater, neu, lle bo hynny'n briodol, am yr un swyddog neu adran)
    - y potensial ar gyfer dysgu i unigolion, neu blismona lleol neu genedlaethol o pa un a yw'n ymddangos bod arwydd, er nad yw'r mater o bosibl yn camymddwyn neu'n camymddwyn difrifol, mae'n ymddangos ei fod yn 'anghymhwysedd difrifol[58]'
- pa ffeithiau sydd angen eu sefydlu ac a ydynt dan amheuaeth
- pa mor bell yn ôl y digwyddodd unrhyw ddigwyddiad ac a yw tystiolaeth yn dal i fod yn debygol o fod ar gael
- beth ellid ei wneud i adfer unrhyw broblemau
- pa ganlyniad y gallai'r achwynydd fod wedi nodi ei fod yn ei geisio

**10.13** Mewn rhai amgylchiadau, gall yr ymateb rhesymol a chymesur i gŵyn fod yn anorfod yn gyfyngedig - er enghraifft, lle mae treigl amser yn golygu nad yw rhywfaint o dystiolaeth ar gael bellach. Fodd bynnag, mae bob amser yn bwysig cydbwyso hyn â'r ffactorau a amlinellir ym mharagraff 10.12 uchod. Dylai'r sawl sy'n trin cwynion ystyried yr hyn y gellir ei wneud i fynd i'r afael ag anfodlonrwydd, i ddysgu ac osgoi ailadrodd unrhyw gamgymeriadau, ac i ddarparu canlyniad rhesymol a chymesur, yn enwedig pan fydd gan y materion yr honnir y potensial i fod wedi cael effeithiau difrifol - naill ai i'r achwynydd neu i'r gwasanaeth heddlu cyfan.

**10.14** Wrth ddelio ag unrhyw fater y mae gwahaniaethu yn ffactor ynddo neu y gallai fod yn ffactor dylid dilyn canllawiau'r IOPC *ar drin honiadau o wahaniaethu*.

**10.15** Dylai'r rhai sy'n delio â chwynion adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod eu dull cychwynnol yn parhau'n briodol.

[58] Gweler Cyfarwyddyd y Swyddfa Gartref *Ymddygiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd: cyfarwyddyd statudol ar safonau proffesiynol, perfformiad a didwylledd plismona* Byddai hyn hefyd yn berthnasol lle ymddengys bod arwydd y byddai mater ynghylch uwch swyddog yn gyfystyr ag 'anghymhwysedd difrifol' pe na bai'r swyddog dan sylw wedi bod yn uwch swyddog.

# Pennod 11

## Dyletswyddau ac ystyriaethau sy'n berthnasol i bob ymdriniaeth o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*

**11.1** Mae'r bennod hon yn egluro'r dyletswyddau a'r ystyriaethau perthnasol hyd yn oed os yw mater yn cael ei archwilio neu'n cael ei drin dan Atodlen 3, yn cynnwys:

- penodi unigolyn i ddelio â'r mater
- tystion yr heddlu
- cyfathrebu gyda'r achwynydd a phartïon eraill
- eithriadau i'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth
- cadw trywydd archwilio
- ymddiheuro pryd a phan mae hynny'n briodol
- beirniadaeth
- fetio

**11.2** Dylid darllen y bennod hon ochr yn ochr â Phennod 12 neu 13, sy'n amlinellu dyletswyddau sy'n benodol i faterion sy'n cael eu trin heblaw trwy ymchwiliad, neu trwy ymchwiliad. Rhaid ymdrin â chwyn mewn modd rhesymol a chymesur, yn unol â'r egwyddorion a nodir ym Mhennod 3.

### Penodi unigolyn i ddelio â'r mater

**11.3** Rhaid i'r person a benodir i drin mater beidio â bod yn rhywun y gallai ei gysylltiad â'r rôl honno beri pryder yn rhesymol ynghylch ei allu i weithredu'n ddiduedd. Efallai yr hoffai'r awdurdod priodol ystyried, er enghraifft, a yw rhywun wedi bod yn gysylltiedig â'r mater o'r blaen, ac a yw'r ymglymiad blaenorol hwnnw'n golygu ei fod bellach yn anaddas i drin yr achos. Wrth benodi person, dylai'r awdurdod priodol ystyried yr amgylchiadau, gan gynnwys testun cwyn, er mwyn sicrhau ei fod yn penodi rhywun priodol.

**11.4** Mae gofynion penodol o ran penodi ymchwilydd (gweler paragraffau 13.3 i 13.8).

### Tystion yr heddlu

**11.5** O dan y Safonau Ymddygiad Proffesiynol, mae disgwyl i swyddogion heddlu sy'n dystion gydweithredu ag ymchwiliadau, ymholiadau ac achosion ffurfiol. Rhaid iddynt gymryd rhan yn agored ac yn broffesiynol yn unol â disgwyliadau o swyddog heddlu pan gânt eu hadnabod fel tyst. Gellir trin methiant i wneud hynny fel gweithredu'n groes i'r safonau.

OFFICIAL SENSITIVE

**11.6** Mewn ymchwiliad annibynnol neu gyfeiriedig, gellir gorfodi unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu sy'n dyst i fynychu cyfweliad ag ymchwilwyr os oes angen[59].

## Cyfathrebu gyda'r achwynydd a phartïon eraill

**11.7** Rhaid i'r awdurdod priodol, y corff plismona lleol (ble cymerwyd cyfrifoldeb ganddynt am ddiweddaru achwynwyr) neu'r IOPC (mewn achosion cyfeiriedig ac annibynnol) ddiweddaru'r achwynydd a/neu'r unigolion cysylltiedig yn iawn ynglŷn â chynnydd a chanlyniad y gwaith o ddelio â'r gŵyn, y mater ymddygiad cofnodedig neu'r mater DSI[60]. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt ystyried yr eithriadau ym mharagraff 11.16 - 11.20. Rhaid iddynt sicrhau eu bod mewn sefyllfa i ymateb i unrhyw gwestiynau neu geisiadau am wybodaeth. Mae hyn yn cynnwys, lle mae'r corff plismona lleol wedi cymryd cyfrifoldeb am ddiweddaru achwynwyr, sicrhau bod prosesau priodol ar waith i sicrhau bod gan y corff plismona lleol wybodaeth gywir a chyfoes.

**11.8** Dylai lluoedd heddlu a chyrff plismona lleol sicrhau bod cyfathrebu yn cael ei deilwra i fodloni anghenion yr unigolyn, cyn belled ag y bo modd. Dylent ofyn i'r achwynydd a'r unigolyn cysylltiedig sut yr hoffent dderbyn gwybodaeth ynglŷn â chynnydd, a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau hynny. Rhaid iddynt hefyd wneud unrhyw addasiadau rhesymol sy'n ofynnol dan *Ddeddf Gydraddoldeb 2010.*

**11.9** Dylai'r diweddariadau a ddarperir i achwynwyr a/neu bobl â diddordeb fod yn rheolaidd ac yn ystyrlon. Rhaid darparu’r diweddariad cyntaf yn brydlon, yn ysgrifenedig, ac, fan bellaf, cyn pen pedair wythnos ar ôl dechrau delio â’r mater o dan Atodlen 3[61]. Rhaid rhoi diweddariadau dilynol bob pedair wythnos o leiaf wedi hynny. Os methir â rhoi diweddariadau rheolaidd, amserol, neu roi diweddariadau gwael, mae hynny'n debygol iawn o niweidio ymddiriedaeth yr achwynydd a/neu'r unigolyn cysylltiedig yn y broses. Bydd diweddariadau effeithiol hefyd yn lleihau'r achwynydd yn teimlo ei bod yn angenrheidiol holi am ddiweddariadau er mwyn teimlo ei fod yn cael y wybodaeth gywir.

**11.10** Dylai’r diweddariadau ar gynnydd y gwaith ymdrin gynnwys, er enghraifft, wybodaeth am y cymal a gyrhaeddwyd, beth a gwblhawyd, beth sydd yn weddill i'w gwblhau ac, os yw'n berthnasol, unrhyw dystiolaeth sylweddol a gafwyd (neu grynodeb). Dylai diweddariadau hefyd gynnwys yr amserlen debygol ar gyfer cwblhau'r ymchwiliad neu unrhyw waith ymdrin arall neu ddiwygiadau eraill i'r amserlen honno. Os bydd unrhyw ddiwygiadau i'r amserlenni, dylid egluro pam. Pan fydd achosion yn ymwneud â’r posibilrwydd y bydd Erthyglau 2 neu 3 o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn berthnasol, dylid rhoi

[59] Paragraff 19F, Atodlen 3, *Deddf Diwygio’r Heddlu 2002* a Rheoliad 2, Rheoliadau (Cwynion ac Ymddygiad) yr Heddlu 2013.

[60] Adrannau 20 a 21, *Deddf Diwygio’r Heddlu 2002*; Rheoliad 33, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020. Sylwer: mae Adran 20 hefyd yn berthnasol pan ymdrinnir â chwynion y tu allan i Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio’r Heddlu 2002.*

[61] Rheoliad 34, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020. Pan fydd cwyn yn cael ei thrin y tu allan i Atodlen 3, ac na ddaeth i law yn ysgrifenedig, nid oes angen darparu diweddariadau yn ysgrifenedig.

OFFICIAL SENSITIVE

sylw arbennig o ofalus i'r canllawiau hyn, ac i'r gofynion deddfwriaethol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r achwynydd ac i bersonau â buddiant.

**11.11** Efallai y bydd adegau pan na fu llawer o gynnydd o ran trin y gŵyn ers y diweddariad diwethaf - er enghraifft, mae'r sawl sy'n trin y gŵyn yn aros am wybodaeth gan barti allanol. Yn yr amgylchiadau hyn, rhaid darparu diweddariad o hyd. Er enghraifft, dylai'r diweddariad esbonio pam mae oedi, a pha gamau sydd wedi'u cymryd i liniaru effaith unrhyw oedi.

**11.12** Yn ddibynnol ar ddymuniadau'r achwynydd a/neu'r unigolyn cysylltiedig, gall fod yn briodol i ddarparu diweddariadau yn ysgrifenedig a thrwy ddull arall.

**11.13** Dan unrhyw amgylchiadau, dylai'r awdurdod priodol benderfynu a yw'r briodol i gynnig, neu gymeradwyo cais i gynnal cyfarfod gydag achwynydd a/neu unigolyn cysylltiedig er mwyn cydymffurfio â'i ddyletswyddau i ddiweddaru'r unigolyn yn iawn[62]. Cyn gynted â phosib ar ôl cyfarfod o'r fath, rhaid i'r awdurdod priodol anfon cofnod ysgrifenedig o'r cyfarfod at yr achwynydd neu'r unigolyn cysylltiedig ac egluro sut y bydd unrhyw bryderon a godwyd yn cael eu trin.

**11.14** Mae'r IOPC hefyd yn disgwyl i unrhyw berson y cwynir amdano (os oes un), neu y mae'r mater ymddygiad yn ymwneud ag ef, gael diweddariadau mewn modd tebyg, gan ystyried yr eithriadau ym mharagraffau 11.16 - 11.20.

**11.15** Pan fo ymchwiliad yn ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig, mae gofynion penodol o ran darparu gwybodaeth i'r person y cwynir amdano, neu y mae'r mater yn ymwneud ag ef (gweler Pennod 13).

## Eithriadau i'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth

**11.16** Nid yw'r ddyletswydd i ddiweddaru'r achwynydd neu'r unigolyn cysylltiedig yn berthnasol dan amgylchiadau pan fydd angen peidio â datgelu[63]:

- i atal datgelu cynamserol neu amhriodol ar wybodaeth sy'n berthnasol i gamau troseddol gwirioneddol neu arfaethedig neu y gellid eu defnyddio mewn unrhyw gamau o'r fath
- er budd diogelwch cenedlaethol
- er dibenion atal neu ddatgelu troseddau, neu ddal neu erlyn troseddwyr
- ar sail cymesuredd, a/neu
- fel arall er budd y cyhoedd

[62] Rheoliad 34, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.
[63] Rheoliad 35, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

**11.17** Rhaid i'r awdurdod priodol ystyried a oes modd cyfiawnhau peidio â datgelu gwybodaeth ar sail unrhyw un o'r uchod:

- os yw'r wybodaeth honno yn berthnasol i, neu y gellid ei defnyddio mewn, unrhyw wir neu ddarpar weithdrefnau disgyblu[64] (neu apêl yn erbyn canlyniad gweithdrefn o'r fath)
- os gallai datgelu'r wybodaeth honno arwain at lygru tystiolaeth tystion yn ystod gweithdrefn o'r fath (neu apêl)
- gallai datgelu'r wybodaeth honno niweidio lles neu ddiogelwch unrhyw drydydd parti, a/neu
- os yw'r wybodaeth honno yn cyfateb i gudd-wybodaeth droseddol

**11.18** Ni ddylid dal gwybodaeth yn ôl ar un o'r seiliau hyn oni bai bod yr awdurdod priodol yn dod i'r casgliad bod risg gwirioneddol wrth ddatgelu'r wybodaeth gan achosi effaith niweidiol sylweddol[65]. Wrth ystyried a all darparu gwybodaeth gael effaith niweidiol sylweddol, rhaid cadw mewn cof y gall y risg beidio bod yn amlwg wrth edrych ar un ddogfen, ond gallai gael ei hawgrymu pan gymerir sawl dogfen gyda'i gilydd. Er enghraifft, efallai na fydd hysbysydd yn cael ei enwi yn glir, ond fe all fod yn bosibl ei adnabod o'r cyd-destun pan ystyrir sawl dogfen gyda'i gilydd.

**11.19** Weithiau gellir osgoi niwed posibl neu ei leihau trwy olygu'r deunydd sy'n niweidiol o'r ddogfen neu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Bydd yr hyn sydd angen ei dynnu yn dibynnu ar ba wybodaeth y gofynnir amdani a pha niwed all ddeillio o'i datgelu. Dylai'r rhai sy'n delio ystyried pa wybodaeth a ellir ei ddarparu'n rhesymol a chymesur i'r achwynydd neu unigolyn cysylltiedig heb dramgwyddo'r eithriadau uchod. Lle, er enghraifft, na ellir rhannu'r dystiolaeth ei hun, dylai'r awdurdodau priodol a'r rhai sy'n ymdrin â chwynion ystyried a ellir darparu crynodeb ohono.

**11.20** Mae yna eithriadau penodol hefyd o ran darparu gwybodaeth wrth drin mater:

- i'r person y cwynir amdano, neu y mae'r mater ymddygiad yn ymwneud ag ef, fel y nodir ar y pwyntiau priodol yn y canllaw hwn
- mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd, pan fydd y wybodaeth o natur benodol dan Adran 21A o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* (gweler yr eirfa)

[64] Gweler yr eirfa am y diffiniad o achos disgyblu - yn yr achos hwn, ar gyfer aelodau'r heddlu neu gwnstabliaid rhan amser, mae achos disgyblu yn golygu unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol (yn unol â Rhan 6 o'r rheoliadau hynny). Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol. Ar gyfer unrhyw berson arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, golyga unrhyw achosion neu broses rheoli ble ystyrir ymddygiad yr unigolyn hwnnw, yn hytrach na'i berfformiad, at ddibenion penderfynu a ddylid cyflwyno unrhyw sancsiwn neu fesur cosbol yn ei erbyn oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

[65] Rheoliad 35, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

Lle bo hynny'n berthnasol i'r eithriadau hyn, mae gofyniad i ystyried y risg o ragfarn i unrhyw ymchwiliad yn cynnwys y risg o ragfarn i unrhyw achos a allai godi o'r ymchwiliad hwnnw.

## Cadw trywydd archwilio

**11.21** Rhaid i'r unigolyn sy'n delio â'r mater fedru dangos beth sydd wedi'i wneud, gan gynnwys pa benderfyniadau a wnaed a pham. Mae hyn yn cynnwys sefyllfa pan wnaed penderfyniad i beidio â gwneud rhywbeth. Dylent fedru dangos iddynt gymryd camau i ddeall y mater a barn unrhyw achwynydd neu unigolyn cysylltiedig os yw hynny'n briodol.

**11.22** Dylai unrhyw ddogfennau neu dystiolaeth a welwyd neu a grëwyd gael eu casglu a'u cadw. Mae'r IOPC yn disgwyl gweld y trywydd archwilio hwn i fod ar gael ar gyfer pob mater, waeth pa mor gymhleth ydynt. Bydd gwybodaeth o'r fath yn cynorthwyo os yw trin cwyn yn destun adolygiad, a rhaid ei darparu i'r corff adolygu perthnasol.

## Ymddiheuro pryd a phan mae hynny'n briodol

**11.23** Mae'r IOPC yn disgwyl i ymddiheuriad gael ei wneud lle mae ymdrin â mater yn awgrymu bod rhywbeth wedi mynd o'i le. Gall ymddiheuriad diffuant ac amserol gael effaith arwyddocaol gan ddangos parodrwydd i dderbyn cyfrifoldeb. Gall oedi gydag ymddiheuriad yn ddiangen leihau effaith yr ymddiheuriad hwnnw pan ddaw ymhen amser.

**11.24** Os daw hi'n amlwg bod ymddiheuriad yn briodol cyn i'r gwaith ymdrin ddod i ben, dylai'r awdurdod priodol geisio sicrhau y rhoddir ymddiheuriad ar y cyfle cyntaf. Nid oes angen aros tan ddiwedd y broses o ddelio â chŵyn cyn rhoi ymddiheuriad. Fodd bynnag, pan fydd posibilrwydd y gallai camau disgyblu ddilyn a bod yr ymddiheuriad yn ymwneud ag unrhyw weithred, ffaith neu amgylchiad sy'n berthnasol i honiad o gamymddwyn, bydd yn briodol peidio â rhoi ymddiheuriad hyd nes i'r camau perthnasol gael eu cynnal, neu nes ei bod yn amlwg na fyddant yn cael eu cynnal.

**11.25** Ni ddylid cynnig ymddiheuriad ar ran rhywun, oni bai ei fod wedi cytuno i'r ymddiheuriad.

## Beirniadaeth

**11.26** Ni ddylai unrhyw feirniadaeth na sylw andwyol ynghylch rhywun a adnabyddir, neu y gellir ei adnabod, ymddangos mewn adroddiad neu ganlyniad ysgrifenedig arall oni bai bod yr unigolyn hwnnw wedi cael cyfle i ymateb i'r feirniadaeth neu'r sylw anffafriol. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i bobl sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, ond i unrhyw un sy'n cael ei adnabod, neu y gellir ei adnabod. Fel arfer, os yw'r mater wedi ei ymchwilio, bydd beirniadaeth neu sylwadau andwyol yn cael eu cyflwyno i'r person perthnasol yn ystod cyfweliad neu trwy roi rhybudd o ymchwiliad iddynt. Mewn materion nad ydynt yn cael eu

hymchwilio, gellid dod â beirniadaeth neu sylwadau andwyol i sylw unigolyn mewn ffyrdd eraill – er enghraifft, trwy ddarparu copi neu grynodeb o'r gŵyn.

**11.27** Wrth ddrafftio adroddiad neu ganlyniad ysgrifenedig arall, os yw'n ymddangos i'r sawl sy'n delio â'r mater nad yw'r person a feirniadwyd neu sy'n destun sylwadau andwyol wedi cael cyfle i ymateb, yna naill ai:

- dylid dileu'r feirniadaeth neu sylw andwyol o'r adroddiad neu ymateb (oni bai y byddai gwneud hynny yn tanseilio casgliadau neu ddigonolrwydd yr esboniad); neu
- dylid anfon llythyr neu e-bost at y person perthnasol yn ei hysbysu o beth yw'r feirniadaeth neu'r sylw anffafriol a'r ffeithiau neu'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r feirniadaeth neu'r sylw anffafriol[66]. Yna rhaid rhoi cyfle rhesymol i'r derbynnydd ymateb i'r feirniadaeth neu'r sylw anffafriol. Dylai'r sawl sy'n delio â'r mater ystyried unrhyw ymateb a phenderfynu os dylid addasu neu ddileu'r feirniadaeth neu sylw andwyol o'r adroddiad. Efallai y byddai hefyd yn briodol cynnwys yr ymateb yn yr adroddiad neu'r canlyniad ysgrifenedig.

## Fetio

11.28 Mae'r safonau ymddygiad proffesiynol yn berthnasol i faterion fetio, a dylai trefniadau priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth fod ar waith gyda'r Awdurdod Fetio. Fodd bynnag, rhaid rhoi blaenoriaeth i ymchwiliadau i gwynion, materion ymddygiad neu ymchwiliadau arbennig annibynnol (DSI), ynghyd â'r holl achosion troseddol, perfformiad ac ymddygiad cysylltiedig, a rhaid eu cwblhau cyn bwrw ymlaen ag unrhyw broses o dynnu cliriad fetio yn ôl. Gweler Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar *Dynnu Cliriad Fetio'r Heddlu yn Ôl*.

# Pennod 12

## Ymdrin â chwynion o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* heblaw trwy ymchwiliad

**12.1** Mae'r bennod hon yn egluro'r canlynol:

- gweithredu mewn modd hyblyg
- penderfynu peidio cymryd unrhyw gamau pellach

[66] Lle bo hynny'n briodol i anghenion yr unigolyn dan sylw, efallai y bydd angen gwneud addasiadau rhesymol a'i hysbysu mewn ffordd arall.

## Gweithredu mewn modd hyblyg

**12.2** Pan fydd yr awdurdod priodol yn penderfynu nad yw'n rhesymol ac yn gymesur ymchwilio i gŵyn gofnodedig, ac nad yw'n ofynnol iddo ymchwilio (gweler paragraffau 10.5 - 10.9), rhaid ymdrin â'r gŵyn o dan Atodlen 3 heblaw trwy ymchwiliad.

**12.3** Dylai awdurdodau priodol gymhwyso'r egwyddorion a amlinellir ym Mhennod 3 ac ystyried y materion a amlinellir ym mharagraffau 10.12 - 10.15, a defnyddio dull achos wrth achos wrth ymdrin â phob cwyn yn rhesymol ac yn gymesur.

**12.4** Dylai rhai sy'n trin cwynion feddwl yn greadigol ynglŷn â pha weithred fyddai fwyaf defnyddiol i roi atebion ystyrlon i faterion neu broblemau a godwyd, unioni anfodlonrwydd yr achwynydd ac adnabod gwaith dysgu neu newidiadau sydd eu hangen i bolisïau a gweithdrefnau. Er bod y ddeddfwriaeth yn gwahaniaethu rhwng y materion hynny sy'n cael eu 'hymchwilio' a'r rhai nad ydynt, yn ymarferol, gall rhai camau ymchwilio fod yn rhesymol ac yn gymesur hyd yn oed pan nad ydy ymchwiliad yn cael ei gynnal o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Gall hyn fod, er enghraifft, lle na ellir cysoni gwybodaeth sy'n gwrthdaro heb gymryd cyfrifon.

**12.5** Gall y camau i ddelio â'r gŵyn gynnwys y rhai a awgrymir ym mharagraff 6.21 i fynd i'r afael â chwynion sydd heb gael eu cofnodi. Gall cyfryngu gael ei ystyried hefyd. Gall proses gyfryngu, sydd fel arfer yn golygu trydydd parti i wneud hynny, fod yn ffordd ddefnyddiol o geisio datrysiad os bydd y naill barti yn cytuno i hynny. Mae cyfryngu yn cynnig cyfle i'r achwynydd a'r unigolyn y cwynwyd amdano (os o gwbl) ddisgrifio eu profiadau a deall barn y llall.

**12.6** Yn gynnar yn y broses, dylai'r rhai sy'n delio â chwynion ystyried egluro hyd a lled yr hyn a fwriedir ganddynt i ddatrys y gŵyn. Dylent rannu hyn gyda'r achwynydd, unigolion sydd â diddordeb neu bobl y mae eu gweithredoedd yn cael eu hystyried (os oes rhai), gan ystyried unrhyw ystyriaethau ym mharagraffau 11.16 - 11.20. Gall hyn helpu i

sicrhau bod yr holl faterion yn cael sylw a helpu achwynydd i ddeall beth i'w ddisgwyl o'r cychwyn cyntaf.

**12.7** Pan fydd y gŵyn yn cynnwys pryderon ynghylch gweithredoedd unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, dylid annog yr unigolyn hwnnw i gymryd rhan yn y broses o drin y gŵyn. Yn gyffredinol dylid disgwyl y byddant, o leiaf, yn gwneud sylwadau ar y gŵyn. Pan nad yw achwynydd yn cael ei ymchwilio, nid yw unrhyw gyfrif a gymerir fel rhan o'r gwaith o ddelio â'r gŵyn yn dderbyniol mewn unrhyw achos troseddol, sifil neu ddisgyblaethol dilynol[67] (ar

[67] Gweler yr eirfa am ddiffiniad o gamau disgyblu - o dan yr amgylchiadau hyn, mae'r diffiniad, ar gyfer aelodau'r heddlu neu gwnstabliaid rhan amser, yn cynnwys achos o dan Reoliadau (Perfformiad) yr Heddlu 2020, yn ogystal ag unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 (ar wahân i'r Broses Adolygu Arfer Myfyriol, yn unol â Rhan 6 o'r rheoliadau hynny). Ar gyfer unrhyw berson arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, mae'n cynnwys unrhyw achos neu broses reoli pan ystyrir bod ymddygiad yr unigolyn hwnnw ac unrhyw achos neu broses reoli pan ystyrir perfformiad yr unigolyn hwnnw.

OFFICIAL SENSITIVE

wahân i'r ffaith ei fod yn cynnwys cyfaddefiad yn ymwneud â mater gwahanol nad yw dan ystyriaeth fel rhan o'r gwaith ymdrin)[68].

**12.8** Wrth ystyried cwynion sy'n cynnwys pryder am bolisi neu weithdrefn a nodwyd oherwydd digwyddiad penodol, dylai'r rhai sy'n trin cwynion ystyried cynnwys y rhai a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad (yr achwynydd, ac unrhyw swyddogion neu staff) mewn unrhyw ystyriaeth o'r polisi ei hun. Efallai y gallant gynnig mewnwelediad gwerthfawr i gymhwysiad y polisi, neu gallant gyfeirio'r sawl sy'n trin y gŵyn at arbenigedd perthnasol.

**12.9** Rhaid i ymdriniaeth resymol a chymesur arwain at ganlyniad rhesymol a chymesur. Dylai rhai sy’n trin cwynion ystyried y canllawiau ar ganlyniadau a geir ym Mhennod 17.

## Penderfynu peidio cymryd unrhyw gamau pellach

**12.10** Dylai rhai sy’n trin cwynion geisio datrys pryderon achwynydd lle bynnag y bo’n rhesymol ac yn gymesur i wneud hynny - hyd yn oed os mai dim ond cymryd camau cyfyngedig sy’n rhesymol a chymesur (gweler paragraff 10.13). Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd yn rhesymol ac yn gymesur i gymryd camau pellach gyda chwyn ar ôl ei chofnodi. Mae’r amgylchiadau lle na fydd yn rhesymol gweithredu ar gŵyn yn cynnwys (ond ddim yn gyfyngedig i):

- Cwyn sy’n ymwneud ag ymddygiad rhywun sy'n gwasanaethu'r heddlu a ddigwyddodd yn ei amser ei hun gyda dim perthnasedd i'w rôl yn yr heddlu a, petai’n cael ei brofi, na fyddai'n dod â gwarth ar y gwasanaeth heddlu nac yn tanseilio hyder y cyhoedd ynddo.
- Os yw'r gŵyn yn ffansïol - mae hyn yn golygu ei bod o natur na allai unrhyw berson rhesymol roi unrhyw goel arni. Mae'n bwysig ystyried y gŵyn ei hun, yn hytrach na'r digwyddiad honedig a arweiniodd at y gŵyn.
- Pe bai'r gŵyn yn cael ei thrin yn well gan broses arall, er enghraifft, cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- Os yw'r gŵyn yn cynnwys rhy ychydig o wybodaeth i allu bwrw ymlaen ag unrhyw ymholiadau, ac mae ymdrechion i gadarnhau gwybodaeth gyda'r achwynydd wedi bod yn aflwyddiannus.

**12.11** Efallai y bydd amgylchiadau lle mae angen rhai ymholiadau cyn y gellir sefydlu ei bod yn rhesymol ac yn gymesur i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach i ddelio â'r gŵyn ar ôl ei chofnodi. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys, er enghraifft, lle:

- Sefydlwyd bod y gŵyn eisoes wedi cael ymateb ac nid oes unrhyw dystiolaeth neu bryderon newydd yn amlwg. Fodd bynnag, os yw achwynydd yn codi materion tebyg

[68] Paragraff 6, *Atodlen 3, Deddf Diwygio’r Heddlu 2002*

OFFICIAL SENSITIVE

i'r rhai y maent wedi'u codi o'r blaen, nid yw hyn o reidrwydd yn rheswm ynddo'i hun i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach. Gall y ffaith bod yr un pryderon yn cael eu codi am yr eildro awgrymu y gellir gwneud mwy i ddelio â'r mater ac ymateb i anfodlonrwydd yr achwynydd. Dylid penderfynu a fyddai gweithredu ymhellach yn rhesymol a chymesur. Serch hynny, ni ddylid ailedrych ar gwynion lle nad yw'n briodol gwneud hynny, a lle gallai hynny godi disgwyliadau afrealistig o wahanol ganlyniadau.

- Mae tystiolaeth yn dangos bod yr achwynydd yn defnyddio'r system gwynion i blagio, poeni, cythruddo neu godi cywilydd yn unig ac nid oes sail i'r gŵyn.

**12.12** Ni ddylid byth gymryd penderfyniad i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach oherwydd, er enghraifft, ystyrir bod y gŵyn yn 'anodd' delio â hi. Dylai rhai sy'n trin cwynion bob amser geisio cymryd camau cadarnhaol tuag at ddatrys cwyn lle bynnag y mae'n rhesymol ac yn gymesur i wneud hynny (gweler paragraff 10.13).

**12.13** Pan benderfynir na ellir cymryd unrhyw gamau pellach fel rhan o'r broses o drin cwyn yn rhesymol ac yn gymesur, dylid darparu rhesymeg fanwl dros hyn i'r achwynydd (yn unol â'r dyletswyddau ynghylch cyfleu canlyniad cwyn, a'r hawl i wneud cais am adolygiad a nodir ym mharagraffau 17.67 - 17.74).

# Pennod 13

## Gofynion wrth ymchwilio

**13.1** Mae'r bennod hon yn egluro'r canlynol:

- penodi unigolyn i ddelio â'r mater
- cylch gorchwyl
- materion marwolaeth neu anaf difrifol yn datblygu'n faterion o ymddygiad
- gweithdrefnau arbennig
- asesu difrifoldeb
- hysbysiadau am ymchwiliadau a darparu cylch gorchwyl
- cyflwyniadau i'r ymchwilydd
- gweithdrefnau carlam
- gwahardd swyddogion yr heddlu a chwnstabliaid rhan-amser
- cynnal ymchwiliad
- prydlondeb ymchwiliadau

### Ymchwiliadau

**13.2** Rhaid i ymchwiliad fod yn effeithiol ac arwain at sefydlu ffeithiau'r achos, unrhyw wersi i'w dysgu, a, lle bo hynny'n briodol, atebolrwydd i'r rhai sy'n gyfrifol. Er bod rhai gofynion penodol ar gyfer ymchwiliadau, yn enwedig lle maent yn ddarostyngedig i weithdrefnau

arbennig, dylai'r holl ymchwiliadau fod yn rhesymol ac yn gymesur (gweler Pennod 3), eu cynnal yn brydlon a chaniatáu i achwynwyr neu bobl â diddordeb (os oes rhai) gymryd rhan yn effeithiol[69].

## Penodi unigolyn i gynnal yr ymchwiliad

**13.3** Yr awdurdod priodol sy'n gyfrifol am benodi'r ymchwilydd mewn ymchwiliad lleol neu un a gyfarwyddir. Fodd bynnag, mewn ymchwiliad a gyfarwyddir, gall yr IOPC:

- fynnu na ddylid penodi hyd nes i'r IOPC gadarnhau ei fod yn cymeradwyo'r sawl a gynigir
- ar unrhyw adeg, os nad yw'n fodlon â'r unigolyn sy'n ymchwilio, fynnu bod yr awdurdod priodol yn dewis rhywun arall i ymchwilio ac i hysbysu'r IOPC ynglŷn â phwy a ddewiswyd

**13.4** Pan fydd yr IOPC wedi mynnu bod yr awdurdod priodol yn dewis rhywun gwahanol i ymchwilio, rhaid i'r awdurdod priodol benodi rhywun a gymeradwyir gan yr IOPC. Os nad yw'r IOPC yn cymeradwyo'r unigolyn, yna rhaid i'r awdurdod priodol ddewis rhywun arall[70].

Gall awdurdod priodol benodi unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu neu swyddog o'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol fel ymchwilydd. Fodd bynnag, mae'r penodiad yn amodol ar amryw o gymwysterau pwysig. Sef:

- rhaid i'r ymchwilydd fod â digon o wybodaeth, sgiliau a phrofiad i gynllunio a rheoli'r ymchwiliad
- ni chaiff yr ymchwilydd weithio, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, dan yr unigolyn sy'n cael ei ymchwilio
- ni chaniateir i unigolyn gael ei benodi pe gallai ei ran yn y rôl honno godi pryderon ynglŷn â'i allu i weithredu'n ddiduedd.
- pan fydd ymchwiliad yn ymwneud ag uwch swyddog, rhaid i'r ymchwilydd beidio â bod yn berson sy'n gwasanaethu gyda'r un llu heddlu â'r uwch swyddog

Paragraff 16 ac 18, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*.
Rheoliad 12, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

**13.5** Dylid cofnodi penodiad ymchwilydd yn ysgrifenedig. Pan fydd unrhyw bryderon wedi cael eu codi ynglŷn â'r apwyntiad (gan gynnwys ynglŷn ag unrhyw wrthdaro

[69] Mae cyfranogiad effeithiol yn arbennig o bwysig pan fydd materion efallai yn ymwneud ag Erthyglau 2 neu 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
[70] Paragraff 18, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

buddiannau gwirioneddol, canfyddedig neu honedig), dylai'r awdurdod priodol hefyd gofnodi'n ysgrifenedig ei benderfyniad ynghylch a ddylid penodi'r ymchwilydd ai peidio, ynghyd â'i resymeg.

**13.6** Ar ddechrau pob ymchwiliad, dylai'r ymchwilydd wneud nodyn ysgrifenedig i ddatgan a oes yna unrhyw beth a allai godi pryderon ynglŷn â'i allu ef neu unrhyw aelod o'r tîm ymchwilio, i weithredu'n ddiduedd.

**13.7** Hyd yn oed os na chaiff unrhyw bryderon eu hamlygu, dylid nodi hynny er dibenion tryloywder. Os bydd pryderon, dylai'r ymchwilydd godi hynny gyda'r awdurdod priodol (a'r IOPC mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd) cyn iddo ef neu unrhyw aelod o'r tîm ymchwilio gymryd unrhyw gamau ar wahân i gadw tystiolaeth mewn perthynas â'r ymchwiliad.

**13.8** Yna dylai'r awdurdod priodol (neu'r IOPC mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd) benderfynu a ddylid penodi rhywun arall yn lle'r ymchwilydd. Os codir unrhyw bryderon ynglŷn ag unrhyw aelod arall o'r tîm ymchwilio, dylent gynghori'r ymchwilydd ynglŷn ag a ddylid t cael rhywun arall yn lle'r aelod hwnnw o'r tîm. Dylid cofnodi unrhyw benderfyniad a wneir, ynghyd â'r rhesymau, yn ysgrifenedig.

## Cylch gorchwyl

**13.9** Er bod y rheoliadau yn gorfodi cael cylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliadau sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig yn unig, mae'r IOPC yn disgwyl y bydd gan bob ymchwiliad gylch gorchwyl. Bydd cylch gorchwyl yn amrywio yn ddibynnol ar gymhlethdod yr ymchwiliad. Mewn ymchwiliadau syml nad ydynt yn destun unrhyw weithdrefnau arbennig, gall y cylch gorchwyl fod mor syml â chrynodeb am y gŵyn sy'n cael ei hymchwilio. Bydd ymchwiliadau eraill yn mynnu cylch gorchwyl mwy manwl i sicrhau y ceir eglurder o'r camau cyntaf ynglŷn â'r hyn a gaiff sylw neu beidio.

**13.10** Dylai cylch gorchwyl:

- roi ffocws a chyfeiriad i'r ymchwiliad
- fod yn glir, yn ddiamwys ac wedi ei lunio'n dynn
- ddisgrifio hyd a lled yr ymchwiliad a ymgymerir gan gynnwys y cyfnod amser a/neu yr hyn na fydd yn cael ei ymchwilio, os yw hynny'n briodol
- gynnwys crynodeb o unrhyw bryderon, cwynion neu honiadau
- beidio â bod yn rhestr o'r holl waith i'w gwblhau
- cynnwys adnabod gwaith dysgu - ar gyfer unigolion neu sefydliadau
- egluro'n glir, os bydd ymchwiliad cyfochrog, beth yw'r berthynas rhwng y ddau ymchwiliad

**13.11** Yn ddarostyngedig i'r eithriadau yn Rheoliad 35 o Reoliadau (Cwynion a

Chamymddwyn) yr Heddlu 2020 (lle bo hynny'n briodol), dylid anfon copi o'r cylch gorchwyl a hefyd unrhyw ddiwygiadau iddynt at achwynwyr, pobl â diddordeb a hefyd unrhyw berson y mae eu gweithredoedd yn destun ymchwiliad (gweler paragraffau 13.38 - 13.41 ynghylch darparu cylch gorchwyl i'r person sy'n destun ymchwiliad, mewn ymchwiliad sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig). Gall hefyd fod o fudd cynnig i gyfarfod yr achwynydd ac unrhyw unigolion cysylltiedig i drafod y rhain ymhellach os bydd ganddynt unrhyw gwestiynau amdanynt.

## Cwynion yn gysylltiedig ag ymchwiliadau marwolaethau neu anafiadau difrifol

**13.12** Pan gyflwynir cwyn sy'n ymwneud â mater dan ymchwiliad fel DSI, dylid ystyried manylion y gŵyn, a gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid cofnodi hynny neu beidio, a ddylid ei ymchwilio ac a ddylid ei atgyfeirio. Os yw'r gŵyn yn cwmpasu'r digwyddiad DSI cyfan, nid oes angen parhau â'r mater DSI (gan nad yw'r diffiniad o fater DSI yn cael ei fodloni mwyach) a bydd yr ymchwiliad cyfan yn cael ei newid i ymchwiliad i gŵyn. Dylai'r ymchwilydd ar gyfer y DSI benderfynu a oes yna unrhyw faterion sy'n ffurfio rhan o'r ymchwiliad DSI nad ydynt yn rhan o'r ymchwiliad i'r gŵyn. Os oes, yna dylai'r ymchwiliad DSI barhau i ymdrin â'r materion hyn.

## Materion o farwolaeth neu anaf difrifol yn datblygu'n faterion o ymddygiad

**13.13** Os daw'n amlwg i'r ymchwilydd yn ystod ymchwiliad DSI, y gallai unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu fod wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd sy'n cyfiawnhau camau disgyblu, yna mae'n rhaid i'r ymchwilydd wneud cyflwyniad yn dweud hynny[71]. Dylai hwn fod yn ysgrifenedig a dylai nodi rhesymau'r ymchwilydd dros ddod i'r casgliad hwn.

**13.14** Mewn ymchwiliad lleol rhaid i'r ymchwilydd gyflwyno'r wybodaeth i'r awdurdod priodol ar gyfer y mater DSI. Mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd, rhaid cyflwyno'r wybodaeth i'r IOPC.

**13.15** Mewn ymchwiliad lleol, os bydd yr awdurdod priodol yn cytuno gyda'r cyflwyniad, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod priodol perthnasol ar gyfer yr unigolyn sydd â'i ymddygiad dan sylw (os nad yr awdurdod perthnasol ei hun ydyw) a'r IOPC. Rhaid iddo anfon copi o gyflwyniad yr ymchwilydd i'r ddau. Yna, rhaid i'r awdurdod priodol gofnodi'r mater fel mater o

[71] Paragraff 21A, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.* Gweler yr eirfa am y diffiniad o achos disgyblu - yn yr achos hwn, ar gyfer aelodau'r heddlu neu gwnstabliaid rhan amser, mae achos disgyblu yn golygu unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol (yn unol â Rhan 6 o'r rheoliadau hynny). Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol. Ar gyfer unrhyw berson arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, golyga unrhyw achosion neu broses rheoli ble ystyrir ymddygiad yr unigolyn hwnnw, yn hytrach na'i berfformiad, at ddibenion penderfynu a ddylid cyflwyno unrhyw sancsiwn neu fesur cosbol yn ei erbyn oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

ymddygiad a gofnodir ac ystyried a ddylid ei atgyfeirio i'r IOPC[72]. Beth bynnag, gall yr IOPC ail-ystyried y dull ymchwilio.

**13.16** Mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd, os bydd yr IOPC yn cytuno bod arwydd o'r fath, bydd yn anfon copi o'r cyflwyniad i'r awdurdod priodol ar gyfer y mater DSI (a'r awdurdod priodol ar gyfer yr unigolyn sydd â'i ymddygiad dan sylw, os yw'n wahanol). Rhaid i'r awdurdod priodol ar gyfer yr unigolyn sydd â'i ymddygiad dan sylw, gofnodi'r mater fel mater ymddygiad cofnodedig. Efallai bydd yr IOPC hefyd yn ail-ystyried y dull ymchwilio.

**13.17** Ar unrhyw adeg mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd, gall yr IOPC ei hun bennu bod arwydd o'r fath, hyd yn oed os na chafwyd cyflwyniad gan yr ymchwilydd. Os felly, bydd yn hysbysu'r awdurdod priodol ar gyfer y mater DSI (a'r awdurdod priodol ar gyfer yr unigolyn sydd â'i ymddygiad dan sylw, os yw'n wahanol) o'i benderfyniad. Yna rhaid i'r awdurdod priodol gofnodi'r mater fel mater ymddygiad cofnodadwy.

**13.18** Ar ôl i'r mater gael ei gofnodi, rhaid i'r person a oedd yn ymchwilio i'r mater DSI ymchwilio i'r mater fel mater ymddygiad (oni bai bod yr IOPC wedi penderfynu ailystyried y dull ymchwilio). Rhaid i'r ymchwilydd wneud asesiad o ddifrifoldeb mewn perthynas ag ymddygiad yr unigolyn dan sylw, os bydd yr unigolyn hwnnw'n aelod o'r heddlu neu'n gwnstabl rhan amser.

**13.19** Dylid parhau i adolygu ymchwiliad DSI i ganfod a oes, ar unrhyw adeg, unrhyw arwydd o'r materion a nodwyd ym mharagraff 13.13.

## Gweithdrefnau arbennig

**13.20** Mae gweithdrefnau arbennig yn bodoli i ddiogelu hawliau'r rhai sydd yn cael eu hymchwilio am faterion mwy difrifol. Mae'r gweithdrefnau'n berthnasol yn unig i ymchwiliadau i gwynion a materion ymddygiad cofnodadwy sy'n ymwneud ag aelod o’r heddlu neu gwnstabl rhan amser. Mewn achosion yn ymwneud ag unrhyw unigolyn arall (fel aelod o staff yr heddlu), rhaid i'r ymchwilydd lynu at y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol ar gyfer ymchwilio honiadau a wnaed yn erbyn unigolion o'r fath.

**13.21** Rhaid dilyn gweithdrefnau:

- os yw'r ymchwiliad yn ymwneud â mater o ymddygiad cofnodadwy; neu
- ar unrhyw adeg yn ystod ymchwiliad i gŵyn, y mae'n ymddangos i'r ymchwilydd (neu'r IOPC mewn ymchwiliad cyfeiriedig) bod arwydd y gallai aelod o’r heddlu neu

[72] Rhaid cyfeirio mater ymddygiad cofnodadwy at yr IOPC os yw’n ymwneud ag unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiadau lle mae unrhyw berson wedi marw neu wedi dioddef anaf difrifol (gweler pennod 9 a pharagraff 13, Atodlen 3, *Deddf Diwygio’r Heddlu 2002*).

gwnstabl rhan amser y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef fod wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau dwyn achos disgyblu[73]

**13.22** Wrth ystyried a oes arwydd y gallai'r unigolyn fod wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd sy'n cyfiawnhau dwyn achos disgyblu, dylid defnyddio'r un ystyriaethau a nodir ym mharagraffau 10.7 - 10.8.

**13.23** Rhaid i ymchwilydd gofnodi'r rhesymeg wrth wraidd ei benderfyniad ynglŷn ag a ddylai ymchwiliad fod yn destun gweithdrefnau arbennig. Wedi i'r penderfyniad gael ei wneud bod yr ymchwiliad yn destun gweithdrefnau arbennig, rhaid cynnal asesiad o ddifrifoldeb (gweler paragraffau 13.25 i 13.37).

**13.24** Mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd, yr IOPC fydd yn penderfynu a ddylai ymchwiliad fod yn destun gweithdrefnau arbennig. Ar unrhyw adeg yn ystod ymchwiliad, os bydd yr IOPC yn penderfynu y dylai ymchwiliad fod yn destun gweithdrefnau arbennig, yna rhaid i'r ymchwilydd ddilyn y gweithdrefnau arbennig.

## Asesiadau difrifoldeb

**13.25** Mae asesiadau difrifoldeb yn rhoi arwydd i'r unigolyn sy'n destun ymchwiliad (os oes un) o farn yr ymchwilydd (neu farn yr IOPC mewn ymchwiliadau cyfeiriedig neu annibynnol) o lefel difrifoldeb yr ymddygiad, os yw'n cael ei brofi ac, os byddai unrhyw achos disgyblu yn dilyn, ffurf debygol yr achos hwnnw.

**13.26** Mae asesiadau difrifoldeb, fel yr amlinellir isod, yn berthnasol i ymchwiliadau o swyddogion yr heddlu neu gwnstabliaid gwirfoddol sy'n destun gweithdrefnau arbennig yn unig. Yn achos unrhyw berson arall, rhaid i ymchwilydd gadw at y polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar gyfer ymchwilio i honiadau yn erbyn personau o'r fath.

Mae Rheoliadau (Cwynion a Chamymddwyn) yr Heddlu 2020 yn diffinio'r asesiad difrifoldeb fel asesiad o:

- a fyddai ymddygiad y person dan sylw, pe bai'n cael ei brofi, yn gyfystyr â chamymddwyn sydd mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau camau disgyblu neu gamymddwyn difrifol; a
- os byddai'r ymddygiad yn dod yn destun gweithdrefnau disgyblu[74], ar ba ffurf fyddai'r gweithrediadau hynny yn debygol o fod.

[73] Paragraff 19A, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* Gweler yr eirfa am y diffiniad o achos disgyblu - yn yr achos hwn, mae achos disgyblu yn golygu unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol. Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol.

[74] Gweler yr eirfa am y diffiniad o achos disgyblu - yn yr achos hwn, mae achos disgyblu yn golygu unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol (yn unol â Rhan 6 o'r rheoliadau hynny). Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol.

Rheoliad 1, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

**13.27** 'Camymddwyn sydd mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau camau disgyblu' yw unrhyw ymddygiad a fyddai, pe bai'n cael ei brofi, yn gyfystyr â thorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau:

- rhybudd ysgrifenedig
- rhybudd ysgrifenedig terfynol
- gostyngiad mewn rheng, neu
- ddiswyddo heb rybudd[75]

Diffinnir camymddwyn difrifol fel:

- gweithredu sydd mor groes i'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol fel y gellid cyfiawnhau diswyddo.

Paragraff 29, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

**13.28** Mewn ymchwiliad lleol, unwaith y bydd yr ymchwilydd yn penderfynu fod ymchwiliad yn destun gweithdrefnau arbennig, rhaid i'r ymchwilydd cyflawni asesiad difrifoldeb cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol[76].

**13.29** Mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd, unwaith y bydd yr IOPC wedi penderfynu fod ymchwiliad yn destun gweithdrefnau arbennig, rhaid i'r ymchwilydd, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, lunio barn ar[77]:

- a fyddai ymddygiad y person sy'n destun ymchwiliad, pe bai'n cael ei brofi, yn gyfystyr â chamymddwyn sydd mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau camau disgyblu neu gamymddwyn difrifol; a
- ffurf debygol unrhyw weithdrefnau disgyblu pe byddai'r ymddygiad yn dod yn destun gweithdrefnau

**13.30** Mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd, rhaid i'r ymchwilydd wedyn hysbysu'r IOPC o'r farn honno ac anfon yr achos at yr IOPC er mwyn i'r IOPC wneud asesiad difrifoldeb parthed ymddygiad yr unigolyn dan sylw.

**13.31** Rhaid i'r ymchwilydd (neu'r IOPC mewn ymchwiliadau cyfeiriedig neu annibynnol) ymgynghori â'r awdurdod priodol cyn gwneud yr asesiad difrifoldeb. Fodd bynnag, yr

[75] Gweler canllawiau'r Coleg Plismona ar ganlyniadau i gael arweiniad pellach.
[76] Rheoliad 16, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.
[77] Rheoliad 16, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

ymchwilydd (neu'r IOPC mewn ymchwiliadau cyfeiriedig neu annibynnol) sy'n gwneud y penderfyniad terfynol.

**13.32** Rhaid gwneud yr asesiad difrifoldeb ar sail beth fyddai'n digwydd pe profwyd yr ymddygiad honedig. Rhaid ystyried a fyddai'r ymddygiad, pe bai'n cael ei brofi, yn gyfystyr â chamymddwyn sydd mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau camau disgyblu (gan gynnwys rhywfaint o asesiad o pam nad yw'n addas i gael ei drin o dan y gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol neu'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol) - neu'n gyfystyr â chamymddwyn difrifol. Er mwyn cynorthwyo gyda hyn, dylai'r rhai sy'n gwneud yr asesiad difrifoldeb roi sylw i ganllawiau'r Coleg Plismona ar ganlyniadau disgyblu. Ni ddylent ystyried y tebygolrwydd y profir yr ymddygiad.

**13.33** Ar ôl penderfynu a fyddai'r ymddygiad, pe bai'n cael ei brofi, yn gyfystyr â chamymddwyn sydd mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau camau disgyblu neu'n gyfystyr â chamymddwyn difrifol, rhaid i'r ymchwilydd benderfynu pa ffurf y byddai unrhyw achos disgyblu yn debygol o'i gymryd.

**13.34** Fel rheol, byddai asesiad bod yr ymddygiad yn gyfystyr â chamymddwyn sydd mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau camau disgyblu yn arwain at gyfarfod camymddwyn ac asesiad y byddai'r ymddygiad yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol yn arwain at wrandawiad camymddwyn. Fodd bynnag, dylid gwneud gwiriadau ar gofnod disgyblu swyddog i bennu os yw:

- yn destun rhybudd ysgrifenedig olaf byw ar adeg yr asesiad difrifoldeb cychwynnol, neu
- wedi cael lleihau ei reng dan Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2004 neu Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 lai na dwy flynedd cyn yr asesiad difrifoldeb cychwynnol.

**13.35** Os yw'r naill amod neu'r llall yn berthnasol, yna bydd yr achos yn wrandawiad camymddwyn, hyd yn oed os na chafodd yr ymddygiad ei asesu i ddechrau fel camymddwyn difrifol[78].

**13.36** Ar ôl ymgynghori â'r awdurdod priodol, gellir adolygu'r asesiad difrifoldeb os yw'r ymchwilydd (neu'r IOPC mewn ymchwiliad cyfeiriedig) yn credu bod hynny'n briodol[79]. Mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd, os yw'r ymchwilydd o'r farn y dylid adolygu'r asesiad difrifoldeb, yna dylai hysbysu'r IOPC o'i farn. Gall yr IOPC hefyd ddynodi ei bod yn briodol i adolygu'r asesiad. Os felly, rhaid i'r ymchwilydd gyfeirio'r achos at yr IOPC er mwyn i'r IOPC adolygu'r asesiad.

**13.37** Dylai unrhyw asesiad difrifoldeb gynnwys rhesymeg a dogfennaeth lawn.

[78] Rheoliad 23, Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020.
[79] Rheoliad 19, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

## Hysbysiadau am ymchwiliadau a darparu cylch gorchwyl

**13.38** Ar ôl cwblhau asesiad difrifoldeb, rhaid i'r ymchwilydd roi rhybudd ysgrifenedig i'r person dan sylw yn eu hysbysu ei fod yn destun ymchwiliad.

Rhaid i'r hysbysiad ddatgan:

- yr ymddygiad sy'n destun y cyhuddiad a sut yr honnir i'r ymddygiad hwnnw fod islaw'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol
- y bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r mater a phwy yw'r sawl sy'n ymchwilio
- canlyniad yr asesiad difrifoldeb
- pan yn berthnasol, os bydd swyddog, ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad ysgrifenedig iddo, yn cael ei gyhuddo o drosedd a restrir yn Atodlen 3 i Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 mewn cysylltiad â'r ymddygiad sy'n destun yr honiad, neu o geisio cyflawni trosedd o'r fath neu gynllwynio i gyflawni trosedd o'r fath, y bydd y swyddog yn cael ei atal dros dro yn awtomatig pan gaiff ei hysbysu o'r cyhuddiad.
- os yw'r person dan sylw yn cael ei ddiswyddo mewn gweithdrefnau disgyblu, y bydd gwybodaeth yn cynnwys enw llawn yr unigolyn a disgrifiad o'r ymddygiad a arweiniodd at ddiswyddo yn cael eu hychwanegu at restr wahardd yr heddlu (y cyfeirir ato yn adran 88B(2) *Deddf yr Heddlu 1996*) ac y gall fod yn amodol i gyhoeddiad am gyfnod o hyd at bum mlynedd
- fod gan y person dan sylw hawl i ofyn am gyngor gan gymdeithas staff yr unigolyn neu unrhyw gorff arall;
- effaith rheoleiddiad 18 - Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 (gweithdrefn arbennig: cyfaill i'r heddlu)
- effaith rheoleiddiad 20 Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 (gweithdrefn arbennig: sylwadau i'r sawl sy'n ymchwilio) a rheoleiddiad 8 Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 (cynrychiolaeth gyfreithiol ac arall); a
- tra nad oes rhaid i'r person dan sylw ddweud unrhyw beth, fe allai niweidio achos yr unigolyn os nad yw'n crybwyll wrth ei gyfweld neu wrth ddarparu unrhyw wybodaeth dan reoliad 20 Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddygiad) 2020 neu reoliad 31 Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 (gweithdrefn ar dderbyn hysbysiad) rhywbeth ac mae'n dibynnu arno'n ddiweddarach mewn unrhyw weithdrefnau disgyblu (neu apêl yn erbyn canlyniad gweithrediadau o'r fath).

Rheoliad 17, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

**13.39** Rhaid i'r ymchwilydd hefyd ddarparu copi i'r person dan sylw o gylch gorchwyl yr ymchwiliad ac unrhyw gylch gorchwyl diwygiedig dilynol. Lle bo hynny'n ymarferol, ac yn ddarostyngedig i baragraff 13.41, dylid darparu'r rhain ar adeg rhoi'r rhybudd ysgrifenedig neu, os na, yna, cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl hyn (gan ddechrau gyda'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad).

**13.40** Rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig a'r cylch gorchwyl[80]:

- gael eu rhoi i'r person dan sylw yn bersonol
- gael ei anfon at y person dan sylw trwy e-bost neu ddull electronig arall
- gael ei roi i'r person dan sylw yn bersonol gan gyfaill yr heddlu'r person hwnnw, ble mae cyfaill yr heddlu (wedi cytuno gyda'r awdurdod priodol i ddanfon yr hysbysiad) neu
- gael ei roi i'r person dan sylw mewn unrhyw fodd arall a gytunwyd rhwng yr ymchwilydd a'r person dan sylw

13.XX Pan nad yw'n rhesymol ymarferol rhoi'r hysbysiad a'r cylch gorchwyl yn bersonol nac yn electronig, ac nad oes unrhyw drefniant arall wedi'i gytuno, rhaid iddynt gael eu:

- gadael gyda rhywun yng nghyfeiriad hysbys diwethaf yr unigolyn dan sylw; neu
- anfon i gyfeiriad hysbys diwethaf yr unigolyn dan sylw drwy ddosbarth cyntaf gyda chadarnhad o ddanfon (neu drwy ddull dosbarthu arall sy'n darparu ar gyfer danfon ar y diwrnod gwaith nesaf).

**13.41** Fodd bynnag, nid oes rhaid i'r hysbysiad a'r cylch gorchwyl gael eu rhoi i'r person dan sylw os yw'r ymchwilydd (neu'r IOPC mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd) yn ystyried y byddai gwneud hynny yn peryglu'r ymchwiliad neu unrhyw ymchwiliad arall[81]. Os darperir hysbysiad ond na ddarperir cylch gorchwyl, rhaid i'r ymchwilydd ddarparu (o fewn yr un amserlen ag ym mharagraff 13.39) hysbysiad pellach yn esbonio nad yw'r cylch gorchwyl yn cael ei ddarparu a pham.

**13.42** Os adolygir yr asesiad difrifoldeb, yn ystod yr ymchwiliad, rhaid i'r ymchwilydd roi rhybudd ysgrifenedig pellach i'r person dan sylw cyn gynted ag sy'n ymarferol, oni bai ei fod (neu'r IOPC mewn ymchwiliad cyfeiriedig) yn ystyried y gallai gwneud hynny niweidio'r ymchwiliad, neu unrhyw ymchwiliad arall. Rhaid i'r ymchwilydd hefyd hysbysu'r awdurdod priodol o'r adolygiad.

**13.43** Pan anfonir hysbysiad neu ddogfen ysgrifenedig drwy e-bost neu ddull electronig arall, bernir ei bod wedi'i rhoi neu ei darparu i'r unigolyn dan sylw[82]

- ar y diwrnod hwnnw, os anfonir yr e-bost neu'r neges electronig arall ar ddiwrnod gwaith cyn 4.30pm; neu
- mewn unrhyw achos arall, ar y diwrnod gwaith nesaf ar ôl y diwrnod y'i hanfonwyd.

---

[80] Rheoliad 17, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

[81] Mae'r gofyniad i ystyried y risg o ragfarn i unrhyw ymchwiliad yn cynnwys y risg o ragfarn i unrhyw achos a allai godi o'r ymchwiliad hwnnw.

[82] Rheoliad 51, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion ac Camymddwyn) 2020.

OFFICIAL SENSITIVE

**13.44** Pan anfonir hysbysiad neu ddogfen ysgrifenedig drwy'r post, bernir ei bod wedi'i rhoi neu ei darparu i'r unigolyn dan sylw[83]

- ar yr ail ddiwrnod ar ôl iddi gael ei phostio, ei gadael gyda, ei danfon i neu ei chasglu gan y darparwr gwasanaeth perthnasol, ar yr amod bod y diwrnod hwnnw'n ddiwrnod gwaith; neu
- os nad yw'r ail ddiwrnod yn ddiwrnod gwaith, ar y diwrnod gwaith nesaf ar ôl yr ail ddiwrnod hwnnw.

## Sylwadau i'r ymchwilydd

**13.43** Yn ystod ymchwiliad sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig, rhaid i'r ymchwilydd (mewn ymchwiliad lleol) neu'r IOPC (mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd) ystyried unrhyw ddatganiad neu ddogfen berthnasol (gweler yr eirfa) a ddarperir gan yr unigolyn dan sylw, neu gan ei gyfaill heddlu. Mae hyn yn berthnasol pan ddarparwyd y ddogfen neu'r datganiad cyn pen deg diwrnod gwaith (oni bai bod yr ymchwilydd wedi ymestyn y cyfnod hwn), gan ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae copi o'r cylch gorchwyl (neu hysbysiad yn egluro pam nad yw copi o'r cylch gorchwyl yn cael ei anfon) yn cael ei anfon[84].

**13.44** Pan fo'r ymchwiliad yn ymchwiliad cyfeiriedig rhaid i'r ymchwilydd anfon copi o unrhyw ddatganiad neu ddogfen berthnasol (gweler yr eirfa) a dderbynnir gan yr IOPC i'w hystyried.

**13.45** Dylai'r ymchwilydd wneud cofnod o unrhyw ddatganiad neu ymateb llafar. Dylid gofyn i'r person dan sylw lofnodi'r cofnod fel adlewyrchiad cywir o'r hyn a ddywedwyd.

## Gweithdrefnau carlam

**13.46** Os, ar unrhyw adeg cyn cwblhau ymchwiliad i gŵyn neu fater ymddygiad cofnodadwy, bydd yr ymchwilydd (mewn ymchwiliad lleol neu ymchwiliad cyfeiriedig) neu IOPC (mewn ymchwiliad cyfeiriedig) yn credu y byddai'r awdurdod priodol yn debygol o ystyried hynny[85]:

- bod yna ddigon o dystiolaeth, ar ffurf datganiadau ysgrifenedig neu ddogfennau eraill, i sefydlu yn ôl pwysau tebygolrwydd fod yr ymddygiad y mae'r ymchwiliad yn edrych arno yn cyfateb i gamymddwyn difrifol, ac
- ei bod er lles y cyhoedd i'r sawl y mae ei ymddygiad yn cael ei ymchwilio yn rhoi'r gorau i fod yn aelod o heddlu neu'n gwnstabl gwirfoddol yn ddi-oed.

---

[83] Rheoliad 51, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion ac Camymddwyn) 2020.
[84] Rheoliad 20, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.
[85]Paragraff 20A, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

OFFICIAL SENSITIVE

Rhaid dilyn y weithdrefn garlam a nodir yn Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020.

**13.47** Ble fo hyn yn wir, rhaid cyflwyno'r dogfennau canlynol i'r awdurdod priodol[86]:

- datganiad yn amlinellu pam yr ystyrir y byddai'r awdurdod priodol yn cytuno y bodlonir yr amodau a sefydlir ym mharagraff 13.46, ac
- adroddiad ysgrifenedig o'r ymchwiliad hyd yma[87]

**13.48** Mewn ymchwiliad lleol, rhaid i'r ymchwilydd gyflwyno'r dogfennau hyn i'r awdurdod priodol. Os penodwyd yr ymchwilydd ar ôl i'r IOPC benderfynu ar y dull ymchwilio (neu ar ôl i'r IOPC gyfarwyddo bod cwyn yn cael ei hail-ymchwilio yn dilyn cais am adolygiad, gweler Pennod 18), rhaid i'r ymchwilydd anfon copi o'r dogfennau at yr IOPC.

**13.49** Mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd, os yw'r ymchwilydd yn credu y byddai'r awdurdod priodol yn debygol o ystyried yr amodau a ddisgrifir ym mharagraff 13.46 i fod wedi eu bodloni, rhaid i'r ymchwilydd gyflwyno'r dogfennau hyn i'r IOPC. Os yw'r IOPC yn cytuno â'r ymchwilydd, bydd yr IOPC yn cyflwyno'r dogfennau hyn i'r awdurdod priodol. Dylai'r ymchwilydd hefyd ymgynghori gyda'r IOPC cyn gwneud cyflwyniad o'r fath. Os mai'r IOPC sydd wedi penderfynu y byddai'r awdurdod priodol yn debygol o ystyried y bodlonwyd yr amodau, rhaid i'r IOPC gyflwyno'r dogfennau.

**13.50** Ar ôl cyflwyno'r dogfennau, rhaid i'r ymchwilydd barhau â'r ymchwiliad i'r graddau y mae ef (neu'r IOPC mewn ymchwiliad cyfeiriedig) yn ei ystyried yn briodol - yn benodol, efallai y bydd yr ymchwilydd am ystyried a oes materion eraill wedi'u cynnwys yn yr ymchwiliad na fydd yn cael eu cwmpasu gan y gweithdrefnau carlam.

**13.51** Ar ôl i'r dogfennau gael eu cyflwyno, rhaid i'r awdurdod priodol benderfynu a yw'r amodau a amlinellir ym mharagraff 13.46 wedi'u bodloni[88]. Pan wnaed y cyflwyniad gan yr IOPC, neu pan oedd yn ofynnol ei gopïo i'r IOPC, rhaid i'r awdurdod priodol hysbysu'r IOPC o'i benderfyniad.

**13.52** Os yw'r awdurdod priodol o'r farn bod yr amodau wedi'u bodloni, oni bai ei bod yn amhriodol gwneud hynny, dylid ardystio'r achos fel un sy'n cwrdd â'r amodau arbennig a'i drin o dan weithdrefnau Rheoliadau (Ymddygiad) 2020 yr Heddlu ar gyfer achosion carlam (gweler canllawiau'r Swyddfa Gartref, *Ymddygiad,*

---

[86] Rheoliad 24, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

[87] Pe bai person yn mynd yn groes i Adran 21A o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* (gweler yr eirfa) trwy gyflwyno adroddiad cyflawn, yn hytrach rhaid i'r unigolyn gyflwyno'r adroddiad ar ôl dileu neu guddio'r wybodaeth na ddylid ei datgelu.

[88] Rheoliad 25 a 26, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

*effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd: canllawiau statudol ar safonau proffesiynol, perfformiad ac uniondeb mewn plismona*).

**13.53** Os yw'r awdurdod priodol yn penderfynu nad yw'r amodau wedi'u bodloni, neu eu bod ond bod yr amgylchiadau'n golygu ei bod yn amhriodol dwyn achos disgyblu ar hyn o bryd, rhaid i'r awdurdod priodol hysbysu'r ymchwilydd.

**13.54** Pan fyddant yn penderfynu peidio ag ardystio'r mater, a bod yr ymchwiliad yn ymchwiliad cyfeiriedig, rhaid i'r awdurdod priodol gyflwyno memorandwm i'r IOPC yn egluro pam ei fod wedi gwneud y penderfyniad hwnnw[89]. Bydd yr IOPC yn ystyried y rhesymau a ddarperir gan yr awdurdod priodol ac yn penderfynu a fydd yn cyfarwyddo'r awdurdod priodol i ardystio'r achos.

**13.55** Os bydd yr IOPC yn penderfynu gwneud cyfarwyddyd o'r fath, bydd yn darparu datganiad i'r awdurdod priodol yn amlinellu ei resymau. Rhaid i'r awdurdod priodol ardystio'r achos, bwrw ymlaen yn unol â hynny, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r IOPC am gamau dilynol mewn ymateb i'r cyfarwyddyd. Gall yr IOPC dynnu cyfarwyddyd yn ôl o dan y rheoliad hwn[90].

**13.56** Os bydd yr IOPC yn penderfynu peidio â chyfarwyddo, bydd yn hysbysu'r awdurdod priodol a'r ymchwilydd o'r penderfyniad hwnnw.

**13.57** Gellir gwneud cyflwyniad pellach, ar ôl i'r awdurdod priodol wrthod ardystio'r ymddygiad fel un sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau carlam, fodd bynnag, rhaid i'r sawl sy'n gwneud y cyflwyniad (yr ymchwilydd neu'r IOPC) fod â sail i gredu y bydd yr awdurdod priodol yn dod i benderfyniad gwahanol. Gall yr awdurdod priodol hefyd wneud penderfyniad bod yr amodau arbennig wedi'u bodloni ar ôl cwblhau'r ymchwiliad; gweler paragraff 17.XX.

## Gwahardd swyddogion yr heddlu a chwnstabliaid rhan amser

| | |
|---|---|
| 13.XX | Mae Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 yn caniatáu i, neu yn rhoi dyletswydd ar, yr awdurdod priodol wahardd swyddog yr heddlu neu gwnstabl gwirfoddol dan amgylchiadau penodol. |
| 13.XX | Maent yn nodi'r amod atal dros dro ar gyfer swyddogion heddlu neu gwnstabliaid arbennig. Pan fydd yr awdurdod priodol yn fodlon bod yr amod atal dros dro wedi'i fodloni, ac nad yw'r swyddog eisoes wedi'i atal dros dro, rhaid iddo atal y swyddog dros dro. Bodlonir yr amod atal dros dro pan fo naill ai'r canlynol yn gymwys[91]: |

[89] Rheoliad 26, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020
[90] Rheoliad 26, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020
[91] Rheoliad 11, Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.

- bydd ymchwiliad effeithiol o'r achos wedi ei beryglu oni bai fod y swyddog dan sylw yn cael ei wahardd, neu
- bydd budd y cyhoedd fel arall yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog gael ei atal dros dro.

13.XX Mae Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 hefyd yn nodi ar wahân yr amgylchiadau pan fydd swyddog heddlu neu gwnstabl arbennig yn destun atal dros dro awtomatig neu orfodol[92].

13.XX Ceir rhagor o ganllawiau ar atal dros dro yng nghanllawiau'r Swyddfa Gartref, *Ymddygiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd: canllawiau statudol ar safonau proffesiynol, perfformiad ac uniondeb ym maes plismona*.

13.XX Rhaid i'r ymchwilydd ddarparu unrhyw wybodaeth i'r awdurdod priodol y mae'r awdurdod priodol yn gofyn amdani yn rhesymol er mwyn cynorthwyo gyda'r penderfyniad a ddylai swyddog gael ei atal, neu a ddylai aros wedi'i atal o'i waith[93].

**13.58** Mewn ymchwiliad annibynnol neu ymchwiliad cyfarwyddedig, rhaid i'r awdurdod priodol:

- ymgynghori â'r IOPC cyn penderfynu bod yr amod atal rhag dyletswydd wedi'i fodloni[94].
- hysbysu'r IOPC o unrhyw atal rhag dyletswydd, neu barhad atal rhag dyletswydd, sy'n awtomatig neu'n orfodol, yn ddi-oed ac, beth bynnag, cyn diwedd y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r swyddog gael ei atal rhag dyletswydd neu i'w atal rhag dyletswydd barhau[95]
- ymgynghori â'r IOPC cyn gwneud, cynnal neu dynnu'n ôl asesiad cam-drin domestig[96]

13.XX Lle mae'n ofynnol i'r awdurdod priodol ymgynghori â'r IOPC, dylai hysbysu'r IOPC o'i farn gychwynnol a'r rhesymeg dros y farn honno. Lle'n berthnasol, dylai hyn gynnwys a yw'r amodau atal rhag dyletswydd wedi'u bodloni ai peidio, a'r rhesymau dros hynny.

**13.59** Mae'r darpariaethau uchod yn berthnasol i swyddogion yr heddlu a chwnstabliaid rhan amser yn unig. Ble fo'r sawl sy'n destun ymchwiliad yn aelod o staff yr heddlu, bydd angen i ymchwilwyr ddilyn unrhyw weithdrefnau ar gyfer gwahardd a sefydlir ym mholisïau'r heddlu perthnasol. Fodd bynnag, mewn ymchwiliad annibynnol neu

[92] Rheoliadau 11A i 11G, Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.
[93] Rheoliad 22, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020
[94] Rheoliadau 11 ac 11A, Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.
[95] Rheoliad 11F, Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.
[96] Rheoliadau 11G ac 11H, Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020. Gweler rheoliadau 2 ac 11E o Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 am y diffiniad o "asesiad cam-drin domestig"

dan gyfarwyddyd, mae'r IOPC yn disgwyl y bydd yn cael hysbysiad o unrhyw benderfyniad parthed gwaharddiad aelod o staff yr heddlu.

## Cynnal ymchwiliad

**13.60** Gall ymchwiliadau amrywio'n sylweddol o ran sgôp, pwrpas a chymhlethdod, yn ddibynnol ar natur y gŵyn a'r mater a ymchwilir. Dylai'r ymchwilydd gymryd y camau rhesymol sydd ar gael iddo i sicrhau'r dystiolaeth sy'n ymwneud â'r digwyddiad, gan gynnwys datganiadau tystion a thystiolaeth fforensig. Efallai y bydd ymchwiliadau'n gofyn am ymholiadau cyfyngedig yn unig neu weithgaredd mwy sylweddol i gasglu a dadansoddi ystod eang o dystiolaeth.

**13.61** Dylai'r ymchwilydd geisio cael cyfrif gan yr achwynydd (os oes un). Mewn ymchwiliadau i DSI, dylai'r ymchwilydd ystyried a ddylid ymgysylltu ag unrhyw berson anafedig yn ystod yr ymchwiliad, fel tyst. Yn aml bydd gan bobl anafedig dystiolaeth i'w chynnig ynghylch sut y gwnaethant ddioddef eu hanaf.

**13.62** Yn ogystal, pan fydd gweithredoedd unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu yn destun ymchwiliad, fel rheol bydd yn rhesymol ac yn gymesur cael cyfrif ganddynt. Er bod yn rhaid i'r cyfrif gael ei gofnodi yn y fath fodd fel y gellir ei adolygu, nid yw bob amser yn rhesymol ac yn gymesur i'r cyfrif hwnnw gael ei gymryd trwy gyfweliad. Er enghraifft, gall datganiad ysgrifenedig a ddarperir gan y person dan sylw fod yn ddigonol.

**13.63** Pan wneir penderfyniad i beidio â chael gwybodaeth neu ddeunydd sydd wedi'i nodi, dylid gwneud cofnod o pam nad yw'n cael ei ystyried yn rhesymol ac yn gymesur i wneud hynny.

### Cyfweliadau

**13.64** Pan fo ymchwiliad yn destun gweithdrefnau arbennig, mae rhai prosesau, a amlinellir isod, y mae'n rhaid eu defnyddio pan fydd swyddog heddlu neu gwnstabl rhan amser y mae ei weithredoedd yn destun ymchwiliad yn mynd i gael ei gyfweld. Gellir hefyd cyfweld aelodau o staff yr heddlu y mae eu gweithredoedd yn destun ymchwiliad. Dylai'r ymchwilydd ddilyn y gweithdrefnau ar gyfer trefnu cyfweliad gydag aelod o staff yr heddlu a sefydlir ym mholisïau'r heddlu perthnasol. Rhaid i'r ymchwilydd ystyried a yw'r unigolyn sydd i'w gyfweld yn rhesymol yn gofyn am unrhyw addasiadau er mwyn sicrhau tegwch gweithdrefnol - er enghraifft, mae'r prosesau a nodir isod yn caniatáu i'r amserlenni a bennir ar gyfer y cyfweliad fod yn rhesymol, a all, felly, gynnwys oedi os yw'n cael ei ystyried yn rhesymol i'r cyfwelai drefnu mynediad i'r cyfweliad.

**13.65** Mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol i gyfweliadau a gyflawnir dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Rhaid i gyfweliadau troseddol a gyflawnwyd dan *Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984* gydymffurfio gyda'r Ddeddf honno a'r gyfraith achos a chodau ymarfer perthnasol.

**13.66** Yn ystod ymchwiliad sy'n destun gweithdrefnau arbennig, os bydd ymchwilydd yn cynnig cyfweld y person dan sylw (y cyfwelai), rhaid iddo gytuno, os yw'n rhesymol ymarferol, ar ddyddiad ac amser ar gyfer y cyfweliad gyda'r cyfwelai[97].

**13.67** Os na chytunir ar ddyddiad ac amser, rhaid i'r ymchwilydd ddynodi dyddiad ac amser. Os nad yw'r cyfwelai neu ei gyfaill heddlu ar gael i fynychu ar yr amser penodedig, ond mae'n cynnig dewis arall sy'n rhesymol ac sy'n dod o fewn pum diwrnod gwaith (gan ddechrau gyda'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl y diwrnod a nodwyd gan yr ymchwilydd), yna bydd y cyfweliad yn cael ei ohirio tan yr amser a gynigir.

**13.68** Rhaid i gyfwelai fynychu'r cyfweliad. Gallai methiant i fynychu cyfweliad ynddo'i hun fod yn groes i'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol.

**13.69** Rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r cyfwelai o ddyddiad, amser a lleoliad y cyfweliad[98]. Dylai hyn ddigwydd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol wedi cytuno ar y rhain neu, yn absenoldeb cytundeb, eu pennu gan yr ymchwilydd.

**13.70** O flaen llaw i gyfweliad, rhaid i'r ymchwilydd ddarparu gwybodaeth i'r cyfwelai y mae'r ymchwilydd yn ystyried i fod yn briodol dan amgylchiadau'r achos er mwyn galluogi'r cyfwelai i baratoi ar gyfer y cyfweliad.

**13.71** Dylid dogfennu penderfyniadau am beth ddylid ei ddatgelu a'u gwneud dan ystyried amgylchiadau'r achos. Diben datgeliad yw rhoi dealltwriaeth glir i'r cyfwelai o'r honiadau ac i'w alluogi i ymateb yn llawn. Nid yw'n ofynnol fod gan y cyfwelai hawl i ddatgeliad o bob dogfen, dim ond y rhai mae'r ymchwilydd yn ystyried i fod yn briodol dan amgylchiadau'r achos i'w alluogi i baratoi ar gyfer y cyfweliad[99].

**13.72** Mewn rhai sefyllfaoedd - er enghraifft, lle mae'r honiadau ar ben mwy difrifol y sbectrwm - efallai y bydd y cyfwelydd am ystyried defnyddio dulliau i gynorthwyo cofnodi cywir, megis cyfweliadau fideo, neu dechnegau i gynorthwyo galw i gof yn gywir, fel cyfweld gwybyddol. Dim ond ymchwilwyr sydd wedi eu hyfforddi'n briodol ddylai gynnal cyfweliadau o'r fath.

**13.73** Ar ddechrau'r cyfweliad, dylid atgoffa'r cyfwelai o gynnwys unrhyw hysbysiad ysgrifenedig o ymchwiliad o roddwyd iddo a'i atgoffa o'r rhybuddion a gynhwysir yno.

[97] Rheoliad 21, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.
[98] Rheoliad 21, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.
[99] Rheoliad 21, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

## Atgyfeiriadau cynnar at Wasanaeth Erlyn y Goron

**13.74** Pan fo arwydd cynnar y gallai unigolyn (os o gwbl) y mae ei ymddygiad yn destun ymchwiliad fod wedi cyflawni trosedd, mae'r IOPC yn annog yr awdurdod priodol i gael sgyrsiau cynnar gyda'r CPS.

13.XX Gellir atgyfeirio mater at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i wneud penderfyniad ynghylch dwyn cyhuddiad cyn i adroddiad ymchwilio gael ei gwblhau ar gyfer cwyn neu fater ymddygiad cofnodadwy os bodlonir yr amodau canlynol[100]

- bod y trothwy tystiolaethol wedi'i gyrraedd, sy'n golygu bod yr adroddiad yn dangos bod digon o dystiolaeth i ddarparu rhagolwg realistig o euogfarn am drosedd yn erbyn person (os oes un) y mae'r ymchwiliad yn ymwneud â'i ymddygiad; ac
- bod yr amgylchiadau yn golygu, ym marn yr awdurdod priodol, neu'r IOPC yn achos ymchwiliadau cyfarwyddedig, ei fod yn briodol i'r CPS ystyried y materion a nodir yn yr adroddiad.

13.XX Yr amgylchiadau y gall yr awdurdod priodol ffurfio'r farn nad yw'n briodol i'r CPS ystyried y materion sy'n destun yr ymchwiliad, yn cynnwys amgylchiadau lle, ym marn yr awdurdod priodol, nad yw er budd y cyhoedd i'r CPS ystyried y materion sy'n destun yr ymchwiliad (a elwir hefyd yn brawf budd y cyhoedd). Rhaid bodloni'r amod tystiolaethol a'r amod priodoldeb ill dau cyn y gellir cyfeirio mater at y CPS.

13.XX Gellir hefyd atyfeirio mater at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i wneud penderfyniad ynghylch dwyn cyhuddiad os yw'r trothwy tystiolaethol wedi'i gyrraedd a bod y materion yr ymdrinnir â hwy yn yr adroddiad yn dod o fewn unrhyw gategori rhagnodedig o faterion.

13.XX Wrth benderfynu a ddylid atyfeirio achos at y CPS cyn cwblhau adroddiad terfynol, rhaid i'r penderfynwr roi sylw i'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron (*Code for Crown Prosecutors*), i'r graddau y mae'n ei ystyried yn berthnasol. Ceir rhagor o wybodaeth am gymhwyso'r *Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron* a'r amodau y cyfeirir atynt uchod ym mharagraffau 17.XX-17.XX.

13.XX Mae'n bwysig cofio bod yn rhaid, ar gyfer y rhan fwyaf o droseddau troseddol y gellir ymdrin â hwy drwy dreial cryno yn unig, osod gwybodaeth o fewn chwe mis i ddyddiad cyflawni honedig y drosedd[101]. Felly, dylai'r awdurdod perthnasol sicrhau bod unrhyw benderfyniad neu hysbysiad a wna yn cael ei wneud mewn pryd er mwyn osgoi i unrhyw achos a gymerir mewn perthynas â'r drosedd honedig gael ei rwystro gan gyfyngiad amser. Mae hyn yn bwysig hefyd er mwyn caniatáu digon o amser i gynnal y broses Hawl y Dioddefwr i Adolygiad pe bai dioddefwr yn cyflwyno cais am adolygiad.

13.77 Hyd yn oed pan fydd atgyfeiriad cynnar wedi'i wneud a chyhuddiad yn cael ei ystyried, dylai'r ymchwilydd barhau â'r ymchwiliad i'w gwblhau. Os na wnaed penderfyniad i ddwyn

[100] Paragraff 20ZA, Atodlen 3, Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.
[101] Adran 127, Deddf Llysoedd Ynadon 1980.

cyhuddiad o fewn yr amserlen hon, dylid cyflwyno adroddiad yr ymchwiliad yn y ffordd arferol.

13.XX Pan wneir penderfyniad i atgyfeirio'r mater at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS), rhaid i'r awdurdod priodol, neu IOPC mewn ymchwiliad a gyfarwyddwyd, hysbysu'r bobl ganlynol o'i benderfyniad:

- y person y mae'r mater yn ymwneud â'i ymddygiad
- unrhyw achwynydd
- unrhyw berson â buddiant, ac
- yr awdurdod priodol (pan fo'r penderfyniad yn cael ei wneud gan IOPC)

**13.75** Pan nad yw cyhuddiad yn cael ei ddwyn yn dilyn atgyfeiriad cynnar, dylai'r person sy'n ymchwilio barhau, cwblhau'r ymchwiliad a chyflwyno adroddiad terfynol yn y ffordd arferol.

**13.76** Pan mae cyhuddiad yn cael ei ddwyn, cyn cwblhau'r ymchwiliad, dylid ystyried y materion ym Mhennod 15. Pan fo'r ymchwiliad yn ymwneud â mwy nag un honiad, neu pan fo ymchwiliad i ymddygiad sawl person, efallai y bydd yr ymchwilydd (mewn ymchwiliad lleol) neu'r IOPC (mewn ymchwiliad cyfeiriedig) hefyd eisiau ystyried a fyddai'n fwy effeithlon ac effeithiol, neu fel arall er budd y cyhoedd, i rannu'r ymchwiliad o dan reoliad 14, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddwyn) yr Heddlu 2020.

## Prydlondeb ymchwiliadau

**13.80** Mae'n bwysig y cynhelir ymchwiliadau mewn modd amserol. Gall hyn effeithio ar pa ganlyniadau sydd ar gael ac felly ar y gallu i sicrhau canlyniad teg. Gall hefyd helpu i sicrhau hyder yn y system gwynion a lleihau effaith ymchwiliad ar bawb dan sylw. Fodd bynnag, ni ddylai gweithredu'n brydlon fod ar draul diwydrwydd gofynnol.

Pan na chwblheir ymchwiliad lleol cyn pen 12 mis, rhaid i'r awdurdod priodol ddarparu'r wybodaeth ganlynol, yn ysgrifenedig, i'r corff plismona lleol (lle mai'r awdurdod priodol yw'r prif swyddog) a'r IOPC:

- y dyddiad y:
  - gwnaed y gŵyn; neu
  - daeth y mater ymddygiad neu'r mater DSI y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef i sylw'r awdurdod priodol
- y dyddiad pan roddwyd unrhyw hysbysiad o asesiad difrifoldeb;
- cynnydd yr ymchwiliad;
- amcangyfrif o pryd fydd yr adroddiad ar yr ymchwiliad yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod priodol neu'r IOPC fel fo'n briodol;
- y rheswm dros yr hyd o amser a gymer i gwblhau'r ymchwiliad; a
- crynodeb o'r camau arfaethedig i symud yr ymchwiliad yn ei flaen ac i'w gwblhau.

Mae'r 12 mis yn dechrau o:

- y diwrnod y gwnaed y gŵyn; neu
- y diwrnod y daeth y mater ymddygiad neu'r mater DSI y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef i sylw'r awdurdod priodol

Rheoliad 13, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

**13.81** At ddibenion y ddarpariaeth hon, cwblheir ymchwiliad ar ôl i'r adroddiad gael ei gwblhau a'i gyflwyno i'r person priodol (gweler paragraffau 14.19 - 14.21).

**13.82** Mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd neu ymchwiliad annibynnol, rhaid i'r IOPC ddarparu'r wybodaeth hon i'r corff plismona lleol ar gyfer yr heddlu perthnasol ac, oni bai mai ymddygiad y prif swyddog sydd dan ymchwiliad, prif swyddog yr heddlu perthnasol.

**13.83** Dylai'r wybodaeth a ddarperir fod yn ddigonol i alluogi pob parti i ddeall yn glir y rheswm nad yw'r ymchwiliad wedi'i gwblhau o fewn 12 mis, a beth yw'r camau nesaf. Dylid darparu amserlenni clir, rhesymol ar gyfer pryd y bydd yr ymchwiliad yn cael ei gwblhau.

**13.84** Dylid darparu copi o'r wybodaeth i'r achwynwr, unrhyw rai sydd â diddordeb a'r sawl y mae'r ymchwiliad yn ymwneud â'i ymddygiad (os o gwbl).

**13.85** Nid oes yn rhaid darparu'r wybodaeth i'r corff plismona lleol, prif swyddog na pherson y mae'r ymchwiliad yn ymwneud â'i ymddygiad os yw'r awdurdod priodol (neu'r IOPC mewn ymchwiliad annibynnol neu ymchwiliad dan gyfarwyddyd) yn ystyried y byddai gwneud hynny yn peryglu'r ymchwiliad neu unrhyw ymchwiliad arall. Nid oes ychwaith angen ei ddarparu i'r achwynwr neu unrhyw rai sydd â diddordeb os yw'r awdurdod priodol (neu'r IOPC mewn ymchwiliad annibynnol neu ymchwiliad dan gyfarwyddyd) yn ystyried bod y

OFFICIAL SENSITIVE

cafeatau ym mharagraffau 11.16 i 11.20 (dyletswydd i ddarparu gwybodaeth) yn berthnasol. Fodd bynnag, rhaid darparu'r wybodaeth i'r IOPC.

**13.86** Rhaid ailadrodd y broses hon pob 6 mis dilynol, os nad yw'r ymchwiliad wedi ei gwblhau. Fodd bynnag, dylid ymdrechu i sicrhau bod yr amserlenni arfaethedig yn cael eu cadw, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

OFFICIAL SENSITIVE

# Pennod 14

## Cwblhau Ymchwiliad

**14.1** Mae'r bennod hon yn egluro'r canlynol:

- pwy sy'n berchen yr adroddiad
- cynnwys adroddiad ymchwiliad
- cyflwyniad yr adroddiad

### Adroddiad yr ymchwiliad

**14.2** Ar ddiwedd ymchwiliad, rhaid cwblhau adroddiad ymchwiliad[102]. Mae adroddiad yr ymchwiliad yn ddogfen bwysig gan mai dyma'r prif gofnod o'r ymchwiliad, y dystiolaeth a dadansoddiad yr ymchwilydd o'r dystiolaeth.

**14.3** Yn ddarostyngedig i rai eithriadau (gweler paragraffau 11.16 - 11.20) fel rheol anfonir yr adroddiad at yr achwynydd, unrhyw berson y mae ei weithredoedd yn destun ymchwiliad ac unrhyw bersonau â diddordeb, felly mae angen ei ysgrifennu mewn termau clir a diamwys. Felly, dylai'r person sy'n ysgrifennu'r adroddiad gofio am y canllawiau a ddarperir ym mharagraffau 17.67 - 17.74.

**14.4** Bydd yr awdurdod priodol yn dibynnu ar yr adroddiad i'w tywys trwy'r dystiolaeth, fel y bydd nifer o rai eraill yn cynnwys yr IOPC, y corff adolygu perthnasol, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), crwner, llys ac/neu'r rhai sy'n cynnal gweithrediadau disgyblu. Felly, mae'n bwysig ei fod yn ffeithiol gywir a bod unrhyw farnau a fynegir yn ddealladwy ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd yn yr ymchwiliad.

### Pwy sy'n berchen yr adroddiad

**14.5** Mewn ymchwiliad lleol, cyflwynir yr adroddiad terfynol i'r awdurdod priodol gan yr ymchwilydd penodedig. Rhaid i unrhyw farn a fynegir yn yr adroddiad fod yn farn yr ymchwilydd ac nid barn yr awdurdod priodol. Dim ond ar ôl cyflwyno'r adroddiad y gall yr awdurdod priodol wneud ei benderfyniadau ei hun.

---

[102] Paragraff 22, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

**14.6** Mewn ymchwiliad cyfeiriedig, cyflwynir yr adroddiad i'r IOPC gan yr ymchwilydd. Fodd bynnag, mae gan yr IOPC gyfarwyddyd a rheolaeth ar yr ymchwiliad a dylid ymgynghori â'r IOPC ynghylch cynnwys yr adroddiad cyn iddo gael ei gwblhau. Os oes unrhyw anghydfod rhwng yr IOPC a'r ymchwilydd ar unrhyw fater yn yr adroddiad, gall yr IOPC ddarparu atodiad i'r adroddiad yn sefydlu ei farn.

## Cynnwys adroddiad ymchwiliad

### Ymchwiliadau nad ydynt yn destun gweithdrefnau arbennig

**14.7** Dylai'r adroddiad gynnwys crynodeb a dadansoddiad cywir o'r dystiolaeth a dylid atodi neu gyfeirio at unrhyw ddogfennau perthnasol.

**14.8** Ble fo'n berthnasol, gall hefyd fod yn briodol i esbonio yn yr adroddiad pam nad oedd yr ymchwiliad yn destun mesurau arbennig (er enghraifft, nad oedd unrhyw awgrym o dramgwydd troseddol neu ymddygiad a fyddai'n cyfiawnhau gweithdrefnau disgyblu). Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol lle, er enghraifft, bod yr ymchwiliad i gŵyn a bod yr achwynydd wedi gwneud honiadau o gamymddwyn yn y gŵyn wreiddiol.

**14.9** Mewn adroddiad ar gyfer ymchwiliad nad yw wedi bod yn destun gweithdrefnau arbennig, ni ddylai'r ymchwilydd fynegi barn yn yr adroddiad ynghylch a oes achos i'w ateb am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol. Fodd bynnag, dylai'r ymchwilydd amlygu unrhyw feysydd dysgu maent wedi eu nodi. Wrth ymchwilio i gŵyn, dylai'r adroddiad ddelio â phob un o'r cyhuddiadau a wnaethpwyd a datgan os, ym marn yr ymchwilydd, mae unrhyw un o'r penderfyniadau ym mharagraff 17.4 yn briodol. Dylai fod rhesymeg glir gyda barn yr ymchwilydd, er budd yr awdurdod priodol a'r achwynydd (gweler paragraffau 17.67 - 17.74 ynghylch cyfleu'r canlyniad i'r achwynydd). Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydyn nhw wedi ymchwilio i'r gŵyn, ond heb allu penderfynu a oedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn dderbyniol.

**14.10** Lle mae'r ymchwiliad wedi ystyried gweithredoedd swyddogion neu gwnstabliaid rhan amser, dylai'r ymchwilydd hefyd dynnu sylw at faterion a fyddai'n helpu'r awdurdod priodol, neu'r IOPC mewn ymchwiliad cyfeiriedig, i benderfynu a allai fod perfformiad anfoddhaol, ymarfer sy'n gofyn am welliant neu waith dysgu.

**14.11** Pan fo'r ymchwiliad wedi ystyried gweithredoedd aelodau staff yr heddlu neu wirfoddolwyr yr heddlu, dylai'r ymchwilydd ystyried gweithdrefnau'r llu heddlu perthnasol ar gyfer staff a/neu wirfoddolwyr a sicrhau bod yr adroddiad yn cynnwys digon o wybodaeth i'r awdurdod priodol (neu'r IOPC mewn ymchwiliad cyfeiriedig) i wneud unrhyw benderfyniadau perthnasol ar ôl derbyn yr adroddiad.

**14.12** Yn ychwanegol, mewn ymchwiliad DSI dylai'r adroddiad gynnwys dadansoddiad o'r dystiolaeth ynghylch sut, ac i ba raddau, os o gwbl, y cafodd y person a fu farw neu a anafwyd yn ddifrifol gysylltiad â'r heddlu, ac i ba raddau y gallai hyn fod wedi achosi neu wedi cyfrannu at y farwolaeth neu'r anaf. Dylai geisio cynnwys cwestiynau neu bryderon

a godwyd gan rai â diddordeb, fel y sawl sydd wedi ei anafu neu'r perthynas agosaf, neu unrhyw un arall a nodwyd gan yr ymchwilydd. Dylai hefyd amlygu unrhyw feysydd dysgu a nodwyd.

## Ymchwiliadau sy'n destun gweithdrefnau arbennig

Ar gyfer ymchwiliadau i faterion ymddygiad cofnodadwy a chwynion oedd yn destun gweithdrefnau arbennig, rhaid i adroddiad yr ymchwilydd ddarparu crynodeb gywir o'r dystiolaeth ac atodi neu gyfeirio at unrhyw ddogfennau perthnasol.

Mewn ymchwiliad lleol sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig rhaid i'r adroddiad hefyd nodi barn yr ymchwilydd ynghylch:

- a oes gan unrhyw berson y mae'r ymchwiliad wedi ymwneud â'i ymddygiad achos i'w ateb mewn perthynas â chamymddwyn, camymddwyn difrifol neu nad oes ganddo achos i'w ateb;
- a oedd perfformiad unrhyw berson o'r fath yn anfoddhaol neu beidio
- a ddylid cyfeirio unrhyw fater a oedd yn destun yr ymchwiliad i ddelio ag ef o dan y Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol ai peidio

Mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd, yr IOPC, wedi derbyn adroddiad yr ymchwilydd, ddylai roi ei farn ar y materion hyn (gweler paragraffau 17.54-17.58).

Rheoliad 27, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

**14.13** Mewn ymchwiliad lleol, wedi dadansoddi'r adroddiad, rhaid i'r ymchwilydd roi ei farn ar y cwestiynau yn y blwch uchod. Wrth wneud hynny, dylent nodi pa Safon(au) Ymddygiad Proffesiynol, yn eu barn hwy, y mae unrhyw achos i'w ateb yn ymwneud ag ef. Mae canllawiau ar gymhwyso'r prawf 'achos i'w ateb', ac a ddylid dwyn achos disgyblu, wedi'u cynnwys yng nghanllawiau'r Swyddfa Gartref ar *Ymddygiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd: canllawiau statudol ar safonau proffesiynol, perfformiad ac uniondeb mewn plismona*, y mae'n rhaid i ymchwilwyr eu hystyried. Rhaid darllen y canllawiau hyn ar y cyd ag unrhyw ganllawiau gan y Coleg Plismona ar ganlyniadau.

**14.14** Mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd, rôl yr ymchwilydd yw crynhoi'r dystiolaeth berthnasol a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad. Dylent hefyd ddarparu dadansoddiad o'r dystiolaeth honno.

**14.15** Ni ddylid gwneud y penderfyniadau ym mharagraff 17.4 ynghylch cwyn yr ymchwiliwyd iddi yn ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig ar unrhyw adeg (gan gynnwys ar ôl i unrhyw achos disgyblu ddod i ben).

OFFICIAL SENSITIVE

**14.16** Dylai ymchwilwyr gymryd gofal arbennig i beidio â chyrraedd canfyddiadau ffeithiol a allai benderfynu a fu camymddwyn ai peidio. Mae'n ddiangen ac yn anghyfreithlon. Dylid gadael y casgliadau hyn ar gyfer unrhyw wrandawiad neu gyfarfod camymddwyn dilynol.

### Cwynion cymysg

**14.17** Yn aml bydd cwyn yn cynnwys sawl cyhuddiad gwahanol. Mewn achosion o'r fath, hyd yn oed os nad yw achwynwyr wedi eitemeiddio'r gwahanol elfennau, dylai’r ymchwilydd edrych ar unigol honiadau'r cwyn i'r diben o ddadansoddi yn yr adroddiad hwn. Gall rhai ohonynt fod yn destun gweithdrefnau arbennig ac eraill ddim.

**14.18** Er ei bod yn bosibl rhannu'r ymchwiliad yn ffurfiol[103], mae hefyd yn bosibl delio â phob honiad yn yr un adroddiad a rhoi barn ar benderfyniadau (gweler paragraff 17.4) ar gyfer yr honiadau nad oeddent yn destun gweithdrefnau arbennig. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn bod yr adroddiad yn amlinellu'r honiadau yn glir ac yn nodi'r rhai sy'n destun gweithdrefnau arbennig a'r rhai nad ydynt, a bod yr adroddiad wedi'i strwythuro fel ei bod yn amlwg pa honiadau sy'n cael sylw. Dim ond pan fo gwahaniaeth clir rhwng elfennau'r gŵyn y dylid gwneud hyn, fel nad yw gwneud penderfyniadau ar honiadau gweithdrefnau an-arbennig yn pennu'r materion sydd hefyd yn ddarostyngedig i achos yr ymchwilydd i ateb barn.

## Cyflwyno’r adroddiad

Rhaid cyflwyno'r adroddiad mewn ymchwiliad lleol i gŵyn neu fater ymddygiad cofnodadwy (pa un a yw'n ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig ai peidio) i'r awdurdod priodol.

Rhaid cyflwyno'r adroddiad mewn ymchwiliad cyfeiriedig i gŵyn neu fater ymddygiad cofnodadwy (pa un a yw'n ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig ai peidio) i'r IOPC ac anfon copi at yr awdurdod priodol.

Paragraff 22, Atodlen 3, *Deddf Diwygio’r Heddlu 2002*

Rhaid cyflwyno'r adroddiad mewn ymchwiliad DSI, ble na chafwyd mater ymddygiad cofnodadwy cysylltiedig, i’r IOPC ac anfon copi at yr awdurdod priodol.

Paragraff 24A, Atodlen 3, *Deddf Diwygio’r Heddlu 2002*

103 Rheoliad 14, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

OFFICIAL SENSITIVE

**14.19** Rhaid i adroddiad ymchwiliad a oedd yn destun gweithdrefnau arbennig gynnwys unrhyw ddogfennau perthnasol, neu gyfeirio atynt[104]. Mae'r IOPC yn disgwyl i'r dogfennau hyn gael eu cyflenwi hefyd lle nad oedd yr ymchwiliad yn ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig, gan gynnwys lle mae'r adroddiad mewn ymchwiliad DSI yn cael ei gyflwyno i'r IOPC.

**14.20** Yn ogystal, pan gyflwynwyd adroddiad ymchwiliad a oedd yn ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig i'r awdurdod priodol, rhaid i'r ymchwilydd gyflwyno i'r awdurdod priodol unrhyw ddogfennau pellach (neu eitemau eraill) y mae'r awdurdod priodol yn gofyn amdanynt y mae'n ystyried eu bod yn berthnasol i'r ymchwiliad, ac mae eu hangen er mwyn i'r awdurdod priodol gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 a Rheoliadau (Perfformiad) yr Heddlu 2020, ac i sicrhau bod unrhyw berson y mae ei ymddygiad yn ddarostyngedig i'r ymchwiliad yn cael gwrandawiad teg mewn unrhyw achos disgyblu[105].

**14.21** Mae cyflwyno'r adroddiad a darparu dogfennau yn ddarostyngedig i Adran 21A o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Pan fo Adran 21A yn berthnasol, dylid ystyried yn ofalus ar sail achos unigol y deunyddiau sy'n cael eu datgelu, yn yr adroddiad ac fel arall.

[104] Rheoliad 27, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

[105] Paragraff 22, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Gweler yr eirfa am ddiffiniad o gamau disgyblu - o dan yr amgylchiadau hyn, mae'r diffiniad, ar gyfer aelodau'r heddlu neu gwnstabliaid rhan amser, yn cynnwys achos o dan Reoliadau (Perfformiad) yr Heddlu 2020, yn ogystal ag unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 (ar wahân i'r Broses Adolygu Arfer Myfyriol, yn unol â Rhan 6 o'r rheoliadau hynny).

# Pennod 15

## Atal ac ail-ddechrau ymdrin ag achos

**15.1** Mae’r bennod hon yn egluro'r canlynol:

- y grym i ohirio ymchwiliad neu ymdriniaeth arall
- ailgydio mewn ymchwiliad i gŵyn ar ôl achos troseddol

### Grym i ohirio ymchwiliad neu ymdriniaeth arall

> Gall awdurdod priodol ohirio ymchwiliad neu weithdrefn arall a fyddai yn ei farn ef, pe byddai’n parhau, yn peryglu unrhyw ymchwiliad neu weithdrefn droseddol.
>
> Rheoliad 40, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

**15.2** Mae'r pŵer i atal delio â mater yn codi dim ond pan fyddai parhau â'r ymchwiliad neu ymdriniaeth arall, ym marn yr awdurdod priodol, yn rhagfarnu ymchwiliad troseddol neu achos troseddol. Dylid bod yna niwed penodol, nodedig a dylai'r niwed hwnnw fod yn arwyddocaol. Er mwyn pennu a yw niwed o’r fath yn codi, bydd yn angenrheidiol ystyried:

- i ba raddau mae’r mater yn codi materion sydd yr un fath, neu â chysylltiad agos, â’r materion yn yr ymchwiliad neu gamau troseddol sy’n parhau, a
- pa niwed penodol (os o gwbl) fyddai’n cael ei achosi i’r ymchwiliad troseddol parhaus neu’r achos llys gan ymchwiliad neu unrhyw ymdriniaeth arall.

**15.3** Os bydd y pŵer i atal yn codi, dylai'r awdurdod priodol ystyried a yw'n briodol i arfer y pŵer hwnnw, neu a ellir rhoi mesurau ar waith i leihau neu ddileu'r risg o ragfarn. Wrth benderfynu a ddylid arfer y pŵer i atal dros dro, dylai'r awdurdod priodol ystyried a fyddai, hyd yn oed pe cymerid mesurau priodol, ragfarn sylweddol i'r ymchwiliad troseddol neu'r achos troseddol, nad yw budd y cyhoedd yn ei wrthbwyso wrth sicrhau:

- ystyriaeth brydlon o'r mater, a

- chyflwyno gweithdrefnau troseddol neu ddisgyblu[106] yn erbyn unigolion sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu yn brydlon ble mae galw amdanynt.

**15.4** Mewn geiriau eraill, dylid cynnal ymarfer cydbwyso. Dylid ystyried y ffactorau canlynol:

- difrifoldeb cymharol yr honiad yn erbyn yr unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu a'r honiad yn erbyn y sawl a ddrwgdybir yn yr ymchwiliad neu achos troseddol
- cryfder cymharol y dystiolaeth i gefnogi pob honiad
- os byddai oedi yn arwain at lesteirio unrhyw weithdrefnau troseddol neu ddisgyblu posibl yn erbyn unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu
- yn benodol, os byddai gohirio'r ymchwiliad neu ymdriniaeth arall yn peryglu terfyniad y terfyn amser statudol o chwe mis ar gyfer erlyn tramgwydd diannod yn unig cyn cwblhau unrhyw ymchwiliad neu ymdriniaeth arall
- a fyddai oedi yn arwain at anghyfiawnder i'r achwynydd, sawl sydd â diddordeb neu destun y gŵyn

**15.5** Ymhlith y camau y gellir eu cymryd i leihau neu ddileu'r risg o ragfarn i ymchwiliad troseddol neu achos troseddol, gan barhau i ganiatáu i'r ymchwiliad neu ymdriniaeth arall o'r mater fynd rhagddo, mae:

- cyflawni cyfweliad unigol gyda phob tyst perthnasol yn cwmpasu'r pwnc dan sylw yn yr achos troseddol a'r mater sydd dan ymchwiliad
- cyfweld â thystion i'r mater ym mhresenoldeb cyfreithiwr y diffynnydd yn yr achosion troseddol

**15.6** Bydd nifer o achosion ble daw'r ymarfer cydbwyso i lawr o blaid parhau gyda'r ymchwiliad neu ymdriniaeth arall er bod y materion a godwyd gan yr ymchwiliad neu weithdrefnau troseddol a gan yr achwynwr yn gysylltiedig iawn. Gallai hynny fod yn wir, er enghraifft, os honnir fod unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu wedi cyflawni trosedd fwy difrifol na'r hyn y mae'r diffynnydd i'r ymchwiliad troseddol cysylltiedig wedi ei gyhuddo (Oherwydd gallai wedyn fod er lles y cyhoedd i flaenoriaethu ymchwiliad ac erlyniad y drosedd fwy difrifol er gwaethaf y risg o niwed i'r erlyniad sy'n parhau o'r drosedd lai).

**15.7** Cyn arfer y pŵer i atal, dylai'r awdurdod priodol ystyried ceisio barn y CPS, neu ei adran gyfreithiol ei hun, ynghylch a fyddai parhau â'r ymchwiliad neu ymdriniaeth arall yn rhagfarnu unrhyw ymchwiliad troseddol neu achos troseddol, ac, os felly,

---

[106] Gweler yr eirfa am y diffiniad o achos disgyblu - yn yr achos hwn, ar gyfer aelodau'r heddlu neu gwnstabliaid rhan amser, mae achos disgyblu yn golygu unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol (yn unol â Rhan 6 o'r rheoliadau hynny). Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol. Ar gyfer unrhyw berson arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, golyga unrhyw achosion neu broses rheoli ble ystyrir ymddygiad yr unigolyn hwnnw, yn hytrach na'i berfformiad, at ddibenion penderfynu a ddylid cyflwyno unrhyw sancsiwn neu fesur cosbol yn ei erbyn oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

a oes unrhyw gamau sydd ddim yn mynd mor bell ag atal y gellir eu cymryd i liniaru'r risg o ragfarn.

**15.8** Pan fydd ymchwiliad neu ymdriniaeth arall yn cael ei atal, efallai y bydd camau y gellir eu cymryd heb ragfarnu'r ymchwiliad troseddol neu'r achos troseddol. Gallai ymgynghori gyda'r CPS helpu i adnabod y rhain. Er enghraifft, dylid cymryd camau i sicrhau tystiolaeth, fel teledu cylch cyfyng, a allai fel arall gael ei golli. Efallai y bydd cyfleoedd o hyd i gaffael tystiolaeth arall - er enghraifft, datganiadau tystion gan rai nad ydynt yn ymwneud â'r ymchwiliad neu dreial troseddol. Efallai y bydd hefyd yn wir y bydd yr achwynydd, wedi derbyn cyngor cyfreithiol, yn penderfynu ei fod dal eisiau darparu datganiad o gŵyn. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw reswm pam, os yw fel arall yn briodol i wneud hynny (gweler Pennod 13), na ellir, neu na ddylid, rhoi rhybudd ysgrifenedig o'r ymchwiliad i'r unigolion perthnasol.

**15.9** Mewn unrhyw achos ble mae ymchwiliad neu ymdriniaeth arall o gŵyn yn cael ei atal, dylid hysbysu'r achwynydd yn ysgrifenedig a darparu rhesymeg dros y penderfyniad. Pan fydd achwynydd yn gwrthwynebu atal yr ymchwiliad neu ymdriniaeth arall, dylid ei hysbysu hefyd y gallant ofyn i'r IOPC ystyried a ddylid cyfarwyddo bod yr ymchwiliad neu ymdriniaeth arall yn parhau.

> Ar ôl ymgynghori â'r awdurdod priodol, gall yr IOPC gyfarwyddo y bydd yr ymchwiliad neu'r weithdrefn yn parhau, neu'n ailddechrau, os yw'r IOPC o'r farn ei fod er budd y cyhoedd.
>
> Rheoliad 40, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

## Ailddechrau ar ôl achos troseddol

**15.10** Pan fydd amgylchiadau'n newid ac nad oes angen parhau i atal y broses o ymdrin â chŵyn a oedd yn cael ei thrin heblaw trwy ymchwiliad, dylai'r awdurdod priodol gysylltu â'r achwynydd ac ailafael yn y gwaith o ymdrin â'r gŵyn (gweler Pennod 12). Pan fo'r gŵyn yn cael ei hymchwilio cyn yr atal, rhaid dilyn y prosesau canlynol.

> Ble fo ymchwiliad lleol cyfan neu rannol i gŵyn wedi ei ohirio tan cwblhau'r achosion troseddol, oni bai fod yr achwynydd wedi dynodi ei fod eisiau i'r ymchwiliad gychwyn neu gael ei ailgydio, rhaid i'r awdurdod priodol ysgrifennu ato (neu at ei gyfreithiwr neu gynrychiolydd arall os yn berthnasol), i benderfynu a ydyn nhw'n dymuno i'r ymchwiliad gael ei ddechrau neu ei ailddechrau.
>
> Rhaid cychwyn neu ailgydio yn yr ymchwiliad os yw'r achwynydd yn dynodi ei fod eisiau hyn.

> Os yw'r achwynydd yn dynodi nad yw eisiau i'r ymchwiliad gael ei gychwyn neu ailgydio, neu os nad yw'n ymateb o fewn 28 niwrnod yn dechrau ar y diwrnod wedi'r dyddiad pan anfonwyd y llythyr ato, yna rhaid i'r awdurdod priodol bennu os yw er lles y cyhoedd i'r gŵyn gael ei thrin fel mater ymddygiad cofnodadwy.
>
> Rheoliad 41, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

**15.11** Os yw'r awdurdod priodol yn penderfynu ei bod er lles y cyhoedd i drin y gŵyn fel mater ymddygiad cofnodadwy, yna rhaid ei thrin fel mater ymddygiad cofnodadwy. Os yw'n penderfynu nad yw er lles y cyhoedd, ni all yr awdurdod priodol gymryd unrhyw gamau pellach dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* a dylai hysbysu'r achwynydd o hynny. Rhaid i'r awdurdod priodol hefyd hysbysu unrhyw berson y mae ei weithredoedd yn destun ymchwiliad neu a oedd yn destun ymchwiliad a fydd yn trin y mater fel mater ymddygiad cofnodadwy, oni bai y gallai gwneud hynny ragfarnu unrhyw ymchwiliad troseddol neu achos sydd ar ddod, neu na fyddai er budd y cyhoedd.

**15.12** Mae'r IOPC yn disgwyl i'r awdurdod priodol gymryd pob cam rhesymol i gysylltu â'r achwynydd, ac i sicrhau bod ganddo'r manylion cyswllt cywir ar gyfer yr achwynydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o dan yr amgylchiadau hyn oherwydd, o ystyried y posibilrwydd o dreigl amser, gall amgylchiadau'r achwynydd fod wedi newid ac efallai na fydd diffyg ateb oherwydd amharodrwydd i gydweithredu.

**15.13** Mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd, bydd yr IOPC yn gyfrifol am ysgrifennu at yr achwynydd (neu ei gyfreithiwr neu gynrychiolydd arall) yn dilyn cwblhau achosion troseddol ac am bennu os yw er lles y cyhoedd i'r gŵyn gael ei thrin fel mater ymddygiad cofnodadwy.

# Pennod 16

## Delio gyda chwynion sydd wedi eu tynnu'n ôl

**16.1** Mae'r bennod hon yn egluro'r canlynol:

- yr hysbysiad gofynnol
- os dylid trin y gŵyn fel mater ymddygiad cofnodadwy

### Hysbysiad gofynnol

**16.2** Gall yr achwynydd, neu rywun sy'n gweithredu ar ran yr achwynydd, ysgrifennu at yr awdurdod priodol gan anfon hysbysiad wedi ei lofnodi fod yr achwynydd eisiau tynnu ei

gŵyn yn ôl, neu nad yw eisiau unrhyw weithredu pellach ynghylch hyn. Rhaid i'r awdurdod priodol gofnodi hyn[107].

**16.3** Pan fydd yr achwynydd wedi dynodi dymuniad ond heb ddarparu cadarnhad ysgrifenedig wedi'i lofnodi (naill ai ganddo ei hun neu rywun yn gweithredu ar ei ran) rhaid i'r awdurdod priodol ysgrifennu at yr achwynydd i bennu sut mae eisiau bwrw ymlaen[108]. Os yw'r achwynydd yn ateb gan gadarnhau ei fod eisiau tynnu ei gŵyn yn ôl neu nad yw eisiau unrhyw gamau pellach parthed hyn, neu os nad yw'n ymateb o fewn 28 niwrnod (gan gychwyn gyda'r diwrnod wedi'r diwrnod pan anfonodd yr awdurdod priodol y llythyr), yna rhaid i'r awdurdod priodol barhau fel pe bai wedi derbyn hysbysiad wedi'i lofnodi fod yr achwynydd wedi tynnu ei gŵyn yn ôl. Rhaid anfon y llythyr at yr achwynydd mewn ffordd y gellir ei harchwilio - mae'r IOPC yn annog awdurdodau priodol i ddefnyddio danfoniad wedi'i gofnodi, oni bai bod hyn yn groes i'r dull cyswllt a ffafrir gan yr achwynydd.

## Os dylid trin y gŵyn fel mater ymddygiad cofnodadwy

**16.4** Os yw'r gŵyn wedi ei chyfeirio at IOPC fel atgyfeiriad gorfodol[109] (neu os yw'r IOPC yn trin y gŵyn fel wedi ei gyfeirio), ac mae'r IOPC wedi penderfynu y dylid ymchwilio i'r gŵyn, rhaid i'r awdurdod priodol hysbysu'r IOPC ei fod wedi cofnodi hysbysiad yr achwynydd. Yna rhaid i'r IOPC ystyried os yw er lles y cyhoedd i'r gŵyn gael ei thrin fel mater ymddygiad cofnodadwy a hysbysu'r awdurdod priodol o'i benderfyniad.

**16.5** Os nad yw'r gŵyn wedi ei hatgyfeirio fel atgyfeiriad gorfodol (neu os yw wedi ei hatgyfeirio ac mae'r IOPC wedi ei hatgyfeirio yn ôl at yr awdurdod priodol), rhaid i'r awdurdod priodol wneud penderfyniad ynghylch a yw er lles y cyhoedd i'r gŵyn gael ei thrin fel mater ymddygiad cofnodadwy.

**16.6** Pan wneir penderfyniad (naill ai gan yr IOPC neu'r awdurdod priodol) y bydd y gŵyn yn cael ei thrin fel mater ymddygiad cofnodadwy, rhaid ei thrin felly.

**16.7** Os yw'r achwynydd yn destun adolygiad parhaus, rhaid i'r awdurdod priodol hysbysu'r corff adolygu perthnasol ei fod wedi cofnodi y'i tynnwyd hi yn ôl neu'r ffaith nad yw'r achwynydd eisiau cymryd unrhyw gamau pellach. Rhaid i'r awdurdod priodol hefyd hysbysu'r corff adolygu perthnasol o'i benderfyniad ynghylch a ddylid trin y gŵyn fel mater ymddygiad cofnodadwy, a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. Pan mai'r corff adolygu perthnasol yw'r IOPC, a bod yr adolygiad yn edrych ar ganlyniad cwyn yr ymdriniwyd â hi gan ymchwiliad, caiff yr IOPC gyfarwyddo'r awdurdod priodol i wyrdroi'r

[107] Rheoliad 38, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020
[108] Rheoliad 39, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020
[109] Gweler Pennod 9, 'Cwynion y mae'n rhaid eu atgyfeirio at IOPC'.

penderfyniad i beidio â thrin y gŵyn fel mater ymddygiad cofnodadwy os nad yw'n cytuno ag ef.

**16.8** Oni bai bod yr awdurdod priodol yn credu y gallai gwneud hynny ragfarnu unrhyw ymchwiliad troseddol neu achos sydd ar ddod, neu y byddai fel arall yn groes i fudd y cyhoedd, rhaid i'r awdurdod priodol, cyn gynted ag sy'n ymarferol, hysbysu'r person y cwynir yn ei erbyn (os oes un):

- ei fod yn cofnodi bod y gŵyn wedi ei thynnu yn ôl neu'r ffaith nad yw'r achwynydd eisiau cymryd unrhyw gamau pellach
- mae darpariaethau Rhan 2 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* yn peidio â bod yn berthnasol i'r gŵyn
- y gwnaethpwyd penderfyniad ei bod er lles y cyhoedd i drin y gŵyn fel mater ymddygiad cofnodadwy
- mae'r IOPC wedi gwrthdroi penderfyniad yr awdurdod priodol (o dan reoliad 38, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddwyn) yr Heddlu 2020 i beidio â thrin y gŵyn fel mater ymddygiad cofnodadwy a bydd yn cael ei drin felly

**16.9** Pan wneir penderfyniad na fydd y gŵyn yn cael ei thrin fel mater ymddygiad cofnodadwy, nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach parthed y gŵyn. Ni fydd unrhyw hawl i wneud cais am adolygiad o'r penderfyniad hwn.

OFFICIAL SENSITIVE

# Deilliannau ymdrin â chwynion

OFFICIAL SENSITIVE

# Pennod 17

## Canlyniadau yn dilyn ymchwiliad neu ymdriniaeth arall o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*

**17.1** Mae'r bennod hon yn cynnwys:

- canlyniadau rhesymol a chymesur
- gweithredu ar ôl derbyn adroddiad ymchwiliad o fater marwolaeth neu anaf difrifol (DSI)
- gweithredu ar dderbyn adroddiad ymchwiliad ar gŵyn neu fater ymddygiad cofnodadwy – ymchwiliadau lleol
- gweithredu ar dderbyn adroddiad ymchwiliad ar gŵyn neu fater ymddygiad cofnodadwy – ymchwiliadau cyfeiriedig • cyfathrebu'r canlyniad

### Canlyniadau rhesymol a chymesur

**17.2** Dylai canlyniad yr ymdriniaeth fod yn rhesymol ac yn gymesur â'r mater dan sylw. Dylid gwneud penderfyniadau wedi ystyried y dystiolaeth berthnasol a gasglwyd, y cyddestun ehangach a safbwyntiau unrhyw achwynwyr, rhai â diddordeb a phersonau yr achwynwyd amdanynt neu y mae'r mater yn ymwneud â'u hymddygiad.

**17.3** Dylai'r casgliadau a wneir fod yn ddiduedd a rhesymegol, yn seiliedig ar ffeithiau'r achos ac yn talu sylw priodol i dystiolaeth berthnasol. Dylid defnyddio rhesymeg gadarn i'w cefnogi. Dylai'r canlyniad geisio delio gydag ac unioni unrhyw faterion a nodwyd yn ystod yr ymdriniaeth.

#### Penderfyniadau ar gŵyn

**17.4** Pan ymchwiliwyd i gŵyn ond na fu'r ymchwiliad yn destun gweithdrefnau arbennig, neu pan ymdriniwyd â chwyn heblaw trwy ymchwiliad, dylai canlyniad y gŵyn gynnwys penderfynu a:

- oedd y gwasanaeth a ddarparwyd gan yr heddlu yn dderbyniol
- nad oedd y gwasanaeth a ddarparwyd gan yr heddlu yn dderbyniol
- rydym wedi ymchwilio i'r gŵyn, ond heb allu penderfynu a oedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn dderbyniol

**17.5** Mewn ymchwiliad nad yw'n ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig, bydd yr ymchwilydd yn cynnig barn ar hyn yn yr adroddiad (gweler paragraff 14.9). Fodd bynnag, yr awdurdod priodol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Mewn cwyn

yr ymdriniwyd â hi heblaw trwy ymchwiliad, dylai'r sawl sy'n trin y gŵyn wneud y penderfyniad hwn.

**17.6** Dylid penderfynu nad oedd y gwasanaeth a ddarparwyd gan yr heddlu yn dderbyniol lle mae trin y cwyn wedi dangos nad oedd y gwasanaeth a ddarparwyd (pa un ai oherwydd gweithredoedd unigolyn, neu fethiannau sefydliadol) wedi cyrraedd y safon y gallai rhywun rhesymol ei disgwyl. Dylai'r person sy'n gwneud y penderfyniad gymhwyso prawf gwrthrychol: prawf rhywun rhesymol sydd â'r ffeithiau sydd ar gael. Dylent roi sylw i unrhyw safonau y cytunwyd arnynt neu ganllawiau cenedlaethol sy'n berthnasol i'r mater.

**17.7** Wrth wneud y penderfyniad hwn dylai'r sawl sy'n trin cwynion adlewyrchu'r angen i ddangos atebolrwydd sefydliadol yn barod lle bo hynny'n briodol (gweler paragraff 3.10). Lle bynnag y bo modd, dylai'r person sy'n gwneud y penderfyniad geisio dod i gasgliad o ran a oedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn dderbyniol ai peidio (gweler paragraff 17.4). Ni ddylid ond penderfynu 'nid ydym wedi gallu penderfynu a oedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn dderbyniol' mewn sefyllfaoedd lle, er enghraifft, er bod y gŵyn wedi'i thrin mewn modd rhesymol a chymesur, nad oes digon o wybodaeth ar gael i wneud y penderfyniad, ar ôl cymhwyso'r prawf gwrthrychol y cyfeirir ato ym mharagraff 17.6.

**17.8** Mae'n hanfodol, waeth pa benderfyniad a wneir, bod yr achwynydd yn cael digon o wybodaeth i allu deall y rhesymeg (gweler paragraffau 17.67 - 17.74 ynghylch cyfleu'r canlyniad i'r achwynydd).

## Unioni anfodlonrwydd

**17.9** Ar dderbyn adroddiad ymchwiliad, neu gasgliadau ymdriniaeth ar wahân i ymchwiliad, dylai'r awdurdod priodol ystyried pa gamau a ddylid eu cymryd fel rhan o'r canlyniad i ddarparu unioniad pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le.

**17.10** Wrth ystyried unioniad posibl, dylai'r awdurdod priodol roi ystyriaeth i egwyddorion ymdriniaeth resymol a chymesur a sefydlir ym Mhennod 3.

**17.11** Ar wahân i unrhyw unioniadau eraill, mae'r IOPC yn disgwyl i awdurdodau priodol ymddiheuro os yw methiant wedi digwydd, neu os yw'r gwasanaeth wedi bod yn annerbyniol (os nad ydynt eisoes wedi gwneud hyn yn gynharach yn ystod yr ymdriniaeth o'r mater). Mae ymddiheuriad didwyll ac amserol yn arddangos atebolrwydd. Gall hefyd helpu ailadeiladu ymddiriedaeth yn yr heddlu a sicrhau hyder yn y system gwynion.

**17.12** Dylai'r awdurdod priodol ystyried pwy yw'r person mwyaf priodol i ddarparu ymddiheuriad. Mae'r IOPC yn disgwyl i brif swyddog fynegi unrhyw ymddiheuriad gan heddlu yng nghyswllt y materion mwyaf difrifol, gan gynnwys lle mae methiannau (pa un ai gan unigolion, neu, er enghraifft, mewn polisïau a gweithdrefnau) wedi achosi neu gyfrannu at farwolaeth unigolyn.

**17.13** Pan fo'r ymddiheuriad yn ymwneud â gweithredoedd unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, a'i fod yn barod i ymddiheuro'n bersonol, dylai'r awdurdodau priodol hwyluso hyn a chefnogi'r unigolyn dan sylw i ymddiheuro. Neu, efallai y byddai'n briodol i reolwr neu oruchwyliwr gyfleu ymddiheuriad personol ar ran yr unigolyn. Ni ddylid cynnig ymddiheuriad ar ran rhywun, oni bai ei fod wedi cytuno i'r ymddiheuriad.

**17.14** Gall opsiynau eraill gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Esboniad o'r amgylchiadau o amgylch y digwyddiad a arweiniodd at y gŵyn neu agweddau eraill yn ymwneud â'r gŵyn.
- Dychwelyd eiddo a atafaelwyd, lle mae'n briodol, yn angenrheidiol ac yn gyfreithlon i wneud hynny.
- Adolygu gwybodaeth ar gofnodion neu gronfeydd data yr heddlu. Gall hyn fod yn briodol lle mae tystiolaeth y gallai manylion achwynydd fod wedi cael eu cadw ar gofnodion yr heddlu neu gronfeydd data eraill yn anghywir neu'n amhriodol.
- Cael gwared ar rybuddion yr heddlu. Gall hyn fod yn briodol pan fydd tystiolaeth yn dangos y gallai rhybudd fod wedi'i gyhoeddi y tu allan i unrhyw ganllawiau.
- Darparu cyfryngu, neu unrhyw gyfarfod adferol arall. Gall hyn fod yn briodol lle gellir sefydlu bod partïon yn agored i gyfryngu neu fath arall o gyfarfod adferol, yn enwedig lle mae'n debygol iawn y bydd yr achwynydd yn dod ar draws yr un swyddog (swyddogion) eto.
- Rhannu tystiolaeth o ddysg neu wella gwasanaeth.
- Cynnal cyfarfod gwella gwasanaeth rhwng yr awdurdod priodol, yr achwynydd/ unigolion â diddordeb a mynychwyr addas eraill - er enghraifft, arweinwyr newid a gwella, neu arbenigwyr pwnc.
- Ymrwymo i adolygu polisi neu weithdrefn i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben.

**17.15** Dan baragraff 28ZA Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, gall yr IOPC a chyrff plismona lleol hefyd wneud argymhellion gyda'r bwriad o unioni anfodlonrwydd achwynydd. Gellir gwneud argymhellion o dan baragraff 28ZA o Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*:

- gan yr IOPC a chyrff plismona lleol, i'r awdurdod priodol, pan fydd yr IOPC neu'r corff plismona lleol yn cynnal adolygiad (gweler Pennod 18)
- gan yr IOPC, i'r awdurdod priodol, ar ddiwedd ymchwiliad annibynnol neu gyfeiriedig i gŵyn
- gan gorff plismona lleol, yn dilyn ymchwiliad lleol i gŵyn y maent yn awdurdod priodol ar ei chyfer. Yn yr achos hwn, byddai'r argymhelliad i'r prif swyddog y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef

**17.16** Gall y camau unioni a argymhellir i'r awdurdod/prif swyddog priodol o dan y pŵer hwn fod yn unrhyw beth y mae'r IOPC neu'r corff plismona lleol yn ei ystyried yn briodol i unioni'r anfodlonrwydd a fynegir gan yr achwynydd (gweler yr enghreifftiau ym mharagraffau 17.9 - 17.14 uchod). Gall hefyd gynnwys argymhelliad y dylid

OFFICIAL SENSITIVE

cyfeirio mater i'w ymdrin o dan y Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol. Ni chaniateir argymell y dylid talu iawndal[110].

**17.17** Mae'n bwysig nodi na all argymhelliad a wneir o dan baragraff 28ZA bennu cyfreithlondeb gweithredoedd yr heddlu (gweler hefyd baragraffau 17.38 a 17.39) ac, felly, ni ddylai nodi na awgrymu bod camau wedi'u cymryd yn anghyfreithlon. Dim ond pan fydd yr ymchwiliad i neu ymdriniaeth â'r gŵyn wedi sefydlu'n iawn y byddai'r cam adfer yn briodol, yn rhesymol ac yn gyfreithlon y dylid cyhoeddi argymhelliad. Dylid cymryd gofal arbennig o ran, er enghraifft, unrhyw argymhelliad ynghylch cael gwared â rhybudd gan yr heddlu - ni ddylai argymhellion paragraff 28ZA ymyrryd â materion sydd eto i'w penderfynu yn briodol gan lys neu gorff arall. Dylai'r person sy'n gwneud yr argymhelliad fod yn ymwybodol a oes, neu'n debygol o fod, unrhyw achos parhaus a allai wneud argymhelliad yn amhriodol.

**17.18** Efallai y bydd y sawl sy'n gwneud yr argymhelliad yn dymuno argymell y dylid gweithredu o fewn amserlen benodol, lle bo hynny'n briodol.

**17.19** Rhaid i'r person y gwneir yr argymhelliad iddo ymateb i'r IOPC neu'r corff plismona lleol cyn pen 28 diwrnod (gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod y gwneir yr argymhelliad)[111]. Rhaid i'r ymateb gynnwys:

- a ydynt yn derbyn yr argymhelliad;
- os felly, y camau maent yn awgrymu eu cymryd i weithredu'r argymhelliad;
- os nad ydynt, pam.

**17.20** Rhaid i'r sawl sy'n gwneud yr argymhelliad anfon copi ohono a'r ymateb i:

- yr achwynydd
- unrhyw un sydd â diddordeb; a'r
- sawl mae'r gŵyn yn ei erbyn (os oes), oni bai bod y sawl sy'n gwneud yr argymhelliad yn ystyried y gallai gwneud hynny niweidio unrhyw ymchwiliad.

**17.21** Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gall yr IOPC neu gorff plismona lleol hefyd ymestyn y terfyn amser ar gyfer ymateb.

### Proses adolygu ymarfer myfyriol

**17.22** Mae yna nifer o lwybrau i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Sef:

- fel canlyniad cwyn yr ymdrinnir â hi heblaw trwy ymchwiliad
- fel canlyniad ymchwiliad i gŵyn neu fater ymddygiad cofnodadwy (gweler paragraffau 17.44, 17.57 neu 17.66). Os, yn dilyn ymchwiliad, mae mater yn cael ei asesu fel un

[110] Rheoliad 30, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020
[111] Rheoliad 30, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

OFFICIAL SENSITIVE

sy'n cyfateb i ymarfer sydd angen gwelliant, rhaid ei gyfeirio at y Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol.

- o ganlyniad i argymhelliad o dan baragraff 28ZA (gweler paragraffau 17.15 - 17.20)

**17.23** Pan fydd y camau a gynigir o ganlyniad i gŵyn yn cynnwys atgyfeirio swyddog i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol, bydd yr ymdriniaeth sydd wedi digwydd er mwyn dod i'r casgliad hwnnw yn rhan o'r cam canfod ffeithiau. Gweler Cyfarwyddyd y Swyddfa Gartref *Ymddygiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd: cyfarwyddyd statudol ar safonau proffesiynol, perfformiad ac uniondeb plismona* i gael canllawiau pellach ar y Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol. Cyn y cynigir atgyfeirio i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol, dylai'r person sy'n trin y gŵyn gael trafodaeth gyda'r rheolwr llinell (gweler hefyd, paragraff 17.58).

**17.24** Nid yw'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol yn broses ddisgyblu na'n ganlyniad disgyblu. Y bwriad yw darparu amgylchedd agored i annog pawb sy'n rhan o'r broses i fyfyrio, dysgu a, lle bo angen, unioni pethau ac atal unrhyw faterion a nodwyd rhag digwydd eto. Mae'n bwysig bod hyn, a'r camau sy'n gysylltiedig â'r broses, yn cael eu hegluro i achwynwyr ac unrhyw bobl â diddordeb (gweler paragraffau 17.67 - 17.74 ynghylch cyfleu'r canlyniad).

## Gweithdrefnau ar gyfer perfformiad anfoddhaol (UPP)

**17.25** Diben UPP yw gwella perfformiad unigolion a pherfformiad cyffredinol yr heddlu. Mae yna nifer o lwybrau i'r broses UPP o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Sef:

- pan fydd yr awdurdod priodol yn penderfynu, o ganlyniad i gyflwyno adroddiad o ymchwiliad lleol i gŵyn, mater ymddygiad cofnodadwy neu DSI, bod perfformiad aelod o'r heddlu neu gwnstabl rhan amser yn anfoddhaol
- yn unol â chyfarwyddyd yr IOPC yn dilyn ymchwiliad cyfeiriedig neu annibynnol i gŵyn neu fater ymddygiad cofnodadwy
- fel yr argymhellwyd neu y cyfarwyddwyd gan yr IOPC ar ôl ystyried adroddiad ymchwiliad i DSI
- argymhelliad neu gyfarwyddyd o ganlyniad i adolygiad o ganlyniad cwyn yr ymdriniwyd â hi trwy ymchwiliad lleol

**17.26** Mae Rheoliadau (Perfformiad) yr Heddlu 2020 yn berthnasol i aelodau o'r heddlu (o safle prif uwch-arolygydd neu is) a chwnstabliaid rhan amser (sydd wedi cwblhau eu cyfnod prawf). Nid ydynt yn berthnasol i uwch swyddogion, aelodau o staff yr heddlu, gwirfoddolwyr yr heddlu na staff dan gontract. Yn achos aelodau o staff yr heddlu neu staff ar gontract, mae'r gweithdrefnau a pholisïau disgyblu a galluedd perthnasol ar gyfer personau o'r fath yn berthnasol.

**17.27** Mae perfformiad neu bresenoldeb anfoddhaol yn wahanol i gamymddwyn a chamymddwyn difrifol. Bydd camymddwyn a chamymddwyn difrifol bob amser yn golygu torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol tra bo perfformiad neu bresenoldeb anfoddhaol yn ymwneud ag anallu neu fethiant aelod o'r heddlu neu gwnstabl rhan

amser i gyflawni ei rôl i lefel foddhaol. Gallai ei berfformiad fod yn anfoddhaol, ond heb dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol.

**17.28** Os yw'r awdurdod priodol yn pennu bod cyfiawnhad dros gamau disgyblu neu fod achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol, yna ni ddylid delio â'r achos dan Reoliadau'r Heddlu (Perfformiad) 2020.

**17.29** Gall fod yn anodd gwahaniaethu'n fanwl rhwng perfformiad anfoddhaol a chamymddygiad. Fodd bynnag, dylid ystyried yr egwyddorion canlynol:

- ni fyddai methiant bwriadol i gyflawni dyletswyddau swyddog yr heddlu neu gwnstabl gwirfoddol fel arfer yn berfformiad anfoddhaol
- yn gyffredinol dylid delio gyda methiant i gyflawni rôl yn foddhaol oherwydd diffyg cymhwyster neu alluedd ar ran y swyddog neu gwnstabl gwirfoddol fel perfformiad anfoddhaol
- gellir nodi perfformiad anfoddhaol yn haws trwy edrych ar batrwm ymddygiad, yn hytrach nag un digwyddiad (er y gallai un digwyddiad unigol fod yn ddigon)

## Dysgu a gwelliannau eraill

**17.30** Ar dderbyn adroddiad yr ymchwiliad, neu gwblhau ar wahân i gan ymchwiliad, dylai'r awdurdod priodol ystyried ar bob adeg os oes unrhyw gyfleoedd ar gyfer dysgu unigol neu sefydliadol, ar lefel leol neu genedlaethol, a gweithredu ar hyn (gweler Pennod 4). Er bod rhai llwybrau rhagnodedig i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol (gweler paragraff 17.22), gellir cymhwyso egwyddorion ymarfer myfyriol ar unrhyw adeg.

**17.31** Gall yr IOPC hefyd wneud argymhellion ble mae'n nodi maes posibl ar gyfer dysgu sefydliadol ar gyfer heddlu, gwasanaeth yr heddlu neu gorff arall. Fe all, er enghraifft, argymell newid i bolisi, cyfarwyddyd, hyfforddiant neu arfer lleol neu genedlaethol pan fydd yn credu y gall wella arferion plismona neu atal i rywbeth aeth o'i le ddigwydd eto.

**17.32** Mae gan yr IOPC y pŵer i wneud argymhellion o'r fath dan Adran 10 *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* a pharagraff 28A Atodlen 3 y Ddeddf. Mae yna wahaniaethau yng nghwmpas y pwerau hyn. Gellir gwneud argymhellion Adran 10 i brif swyddogion, cyrff plismona lleol a chontractwyr. Gellir eu gwneud yn dilyn neu cyn cwblhau ymchwiliad neu adolygiad, ac felly gellir eu defnyddio ar gyfer 'dysgu cyflym'. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gellir gwneud argymhellion paragraff 28A i brif swyddogion, cyrff plismona lleol, contractwyr neu unrhyw sefydliad arall. Dim ond ar ôl ymchwiliad neu adolygiad y gellir eu gwneud.

**17.33** Pan fydd yr IOPC yn gwneud argymhelliad dan baragraff 28A, rhaid i'r derbynnydd ddarparu ymateb ysgrifenedig o fewn 56 niwrnod i wneud yr argymhelliad (oni bai naill ai bod yr IOPC yn caniatáu estyniad ar y terfyn amser hwn neu y cynhelir adolygiad barnwrol i herio penderfyniad yr IOPC i wneud argymhelliad)[112]. Os yw'r derbynnydd angen amser ychwanegol i ddarparu ymateb, rhaid gofyn am estyniad yn ysgrifenedig gan yr IOPC o

[112] Paragraff 28B, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

flaen llaw i'r dyddiad cau. Rhaid i'r cais nodi pam mae angen yr estyniad a nodi pryd y darperir ymateb.

**17.34** Rhaid i'r ymateb sefydlu:

- pa gamau mae'r derbynnydd wedi cymryd neu'n bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion, neu
- pam nad yw wedi cymryd, neu nad yw'n bwriadu cymryd, unrhyw gamau mewn ymateb

**17.35** Bydd yr IOPC yn cyhoeddi argymhellion a wnaed dan baragraff 28A. Rhaid i'r IOPC a'r derbynnydd hefyd gyhoeddi copi o'r ymateb o fewn 21 niwrnod i'w dderbyn gan yr IOPC. Rhaid i'r IOPC gyhoeddi'r argymhelliad gwreiddiol ar yr un pryd. Bydd yr IOPC yn cynghori'r derbynnydd o flaen llaw pryd fydd yn cyhoeddi'r ymateb.

**17.36** Os yw'r derbynnydd yn credu na ddylid cyhoeddi'r cyfan neu unrhyw ran o'r ymateb, rhaid cysylltu â'r IOPC yn ysgrifenedig, gan amlinellu'r rhesymau. Bydd yr IOPC yn gwneud y penderfyniad terfynol ar gyhoeddi, gan ystyried unrhyw sylwadau a dderbyniwyd.

**17.37** Dylai prif swyddogion a chyrff plismona lleol gyhoeddi argymhellion paragraff 28A a wnaed iddynt a'u hymateb ar eu gwefannau mewn modd sy'n glir ac yn hawdd i'r cyhoedd ddod o hyd iddynt.

### Cwynion am gyfreithlondeb

**17.38** Gall cwyn fod yn gyfreithlondeb ymddygiad unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu (er enghraifft, gellir honni fod arést yn anghyfreithlon). Ni ddylid gwneud penderfyniad, naill ai wrth drin y gŵyn neu yn y canlyniad, o ran a oedd achos o ymddygiad troseddol neu anghyfreithlondeb sifil. Y llysoedd troseddol a sifil sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar y materion hyn ac/neu gynnal gweithdrefnau disgyblu.

**17.39** Os oes angen critigol i gynnig barn er mwyn delio â chŵyn a wnaethpwyd, rhaid ei fynegi i gyfleu awgrym o farn ar y mater. Er enghraifft: "*Wedi ystyried y dystiolaeth a'r gyfraith berthnasol, yn fy marn i, gallai tribiwnlys disgyblu ganfod nad oedd rheswm cyfreithlon dros yr arést a'i fod yn gamddefnydd o awdurdod y swyddog*".

## Camau gweithredu ar ôl derbyn adroddiad ymchwiliad ar fater DSI - ymchwiliadau lleol, cyfeiriedig ac annibynnol

**17.40** Ar dderbyn adroddiad ymchwiliad i fater DSI, rhaid i'r IOPC yn pennu os yw'r adroddiad yn dynodi fod person sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu efallai wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd fyddai'n cyfiawnhau dwyn camau disgyblu[113]. Gall yr IOPC hefyd

[113] Gweler yr eirfa am ddiffiniad o gamau disgyblu. Yn yr achos hwn, ar gyfer aelodau'r heddlu neu gwnstabliaid rhan amser, mae achos disgyblu yn golygu unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, ar wahân

wneud penderfyniad ar unrhyw fater arall y deliwyd ag o yn yr adroddiad, ar wahân i os oedd perfformiad person yn anfoddhaol neu beidio (gan y bydd yr awdurdod priodol yn penderfynu ar hyn yn nes ymlaen os bydd yr IOPC yn ei gwneud yn ofynnol iddo - gweler paragraff 17.42)[114].

**17.41** Pan fydd yr IOPC yn pennu fod yr adroddiad yn dynodi bod rhywun sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu: wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau cyflwyno gweithdrefnau disgyblu, bydd yn hysbysu'r awdurdod priodol. Yna rhaid i'r awdurdod priodol gofnodi'r mater fel mater ymddygiad cofnodadwy. Rhaid i'r person a oedd yn ymchwilio i'r mater DSI ymchwilio i'r mater fel mater ymddygiad (oni bai bod yr IOPC yn penderfynu ail-bennu'r dull ymchwilio). Yn yr un modd â phob mater ymddygiad cofnodadwy, rhaid i'r awdurdod priodol ystyried a ddylid ei gyfeirio at yr IOPC[115].

**17.42** Pan fydd yr IOPC yn pennu fod yr adroddiad yn dynodi bod rhywun sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu: wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau cyflwyno gweithdrefnau disgyblu, gall hysbysu'r awdurdod priodol bod yn rhaid iddo nawr bennu os oedd perfformiad unrhyw berson yn anfoddhaol ac, os felly, pa gamau (os o gwbl) fydd yn cymryd[116]. Ar dderbyn hysbysiad o'r fath, rhaid i'r awdurdod priodol wneud y penderfyniadau gofynnol a chyflwyno memorandwm i'r IOPC yn sefydlu'r rheiny. Mae'r IOPC yn disgwyl i hyn gael ei gyflwyno cyn pen 28 diwrnod, gan ddechrau'r diwrnod ar ôl i'r awdurdod priodol gael ei hysbysu.

**17.43** Ar dderbyn y memorandwm hwnnw, bydd yr IOPC yn ystyried os yw'r penderfyniadau a wnaethpwyd yn briodol. Lle mae'n anghytuno gyda'r penderfyniadau, gall argymell ac, os oes angen, gyfarwyddo nad oedd y perfformiad yn foddhaol a pha gamau i'w cymryd parthed hynny[117]. Rhaid i'r awdurdod priodol hysbysu'r IOPC o ba gamau bynnag y mae'n eu cymryd mewn ymateb i argymhelliad neu gyfarwyddyd yr IOPC.

## Gweithredu ar dderbyn adroddiad ymchwiliad ar gŵyn neu fater

i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol (yn unol â Rhan 6 o'r rheoliadau hynny). Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol. Ar gyfer unrhyw berson arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, golyga unrhyw achosion neu broses rheoli ble ystyrir ymddygiad yr unigolyn hwnnw, yn hytrach na'i berfformiad, at ddibenion penderfynu a ddylid cyflwyno unrhyw sancsiwn neu fesur cosbol yn ei erbyn oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

[114] Paragraff 24A, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

[115] Paragraff 24B, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* Rhaid cyfeirio mater ymddygiad cofnodadwy at yr IOPC os yw'n ymwneud ag unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiadau lle mae unrhyw berson wedi marw neu wedi dioddef anaf difrifol (gweler pennod 9 a pharagraff 13, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*).

[116] Paragraff 24C, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

[117] Paragraff 27, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

## ymddygiad cofnodadwy – ymchwiliadau lleol

Ar dderbyn adroddiad o ymchwiliad lleol i gŵyn neu fater ymddygiad cofnodadwy, rhaid i'r awdurdod priodol benderfynu os yw’r amodau canlynol wedi cael eu bodloni:

- mae’r trothwy tystiolaethol wedi’i fodloni, sy’n golygu bod yr adroddiad yn dangos bod digon o dystiolaeth i ddarparu gobaith realistig o euogfarn am drosedd droseddol yn erbyn person (os oes un) y mae’r ymchwiliad yn ymwneud â’i ymddygiad, ac
- mae’r amgylchiadau yn gyfryw fel ei bod, ym marn yr awdurdod priodol, yn briodol i’r materion a nodir yn yr adroddiad gael eu hystyried gan Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

Mae’r amgylchiadau lle y gall yr awdurdod priodol ddod i’r casgliad nad yw’n briodol i’r materion sy’n destun yr ymchwiliad gael eu hystyried gan Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn cynnwys amgylchiadau lle mae’r awdurdod priodol o’r farn nad yw er budd y cyhoedd i’r materion sy’n destun yr ymchwiliad gael eu hystyried gan Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (a elwir hefyd yn brawf budd y cyhoedd).

Wrth wneud y penderfyniad hwn, rhaid i’r awdurdod priodol roi sylw i’r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron i’r graddau y mae’n ystyried ei fod yn berthnasol.

Rhaid hefyd atgyfeirio achos at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i wneud penderfyniad ynghylch cyhuddo os yw’r trothwy tystiolaethol wedi’i fodloni a bod y materion yr ymdrinnir â hwy yn yr adroddiad yn disgyn o fewn unrhyw gategori rhagnodedig o faterion.

Gellir ffeindio mwy o fanylion ar wneud y penderfyniad hwn ym mharagraffau 17.XX-17.XX.

Rhaid i’r awdurdod priodol hefyd benderfynu, o ran unrhyw aelod o’r heddlu neu gwnstabl rhan amser y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef:

- os oes gan unrhyw berson achos i’w ateb neu beidio parthed camymddwyn, camymddwyn difrifol neu ddim achos i’w ateb
- a oedd ei berfformiad yn anfoddhaol ai peidio
- pa gamau, os o gwbl, ddylai'r awdurdod priodol gymryd neu y bydd yn cymryd parthed materion y deliwyd â nhw yn yr adroddiad

Paragraff 24, Atodlen 3, *Deddf Diwygio’r Heddlu 2002*

Rhaid i'r awdurdod priodol hefyd:

- os yw'n ystyried ei fod yn briodol, gwneud penderfyniad ynghylch unrhyw fater arall yr ymdriniwyd ag ef yn yr adroddiad (ar wahân i'r un sydd eisoes yn ofynnol uchod)
- penderfynu pa gamau eraill y bydd yn eu cymryd, os o gwbl

Paragraff 24, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

**17.44** Mae'r penderfyniadau hyn ar gyfer yr awdurdod priodol, nid yr ymchwilydd. Rhaid eu gwneud ym mhob ymchwiliad, pa un a yw'r ymchwiliad yn ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig ai peidio, ac a oes unrhyw bersonau yr ymchwiliwyd i'w gweithredoedd ai peidio. Gallant gynnwys penderfyniad i gyfeirio mater at y Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol, lle bo hynny'n briodol (gweler paragraffau 17.57 - 17.60).

**17.45** Mae'r penderfyniadau yn yr ail flwch uchod yn cynnwys penderfyniadau am unrhyw weithdrefnau i'w dilyn mewn perthynas â gweithredoedd unrhyw berson sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu fel aelod o staff yr heddlu neu wirfoddolwr. Wrth wneud penderfyniadau o'r fath ynghylch gweithredoedd unigolyn nad yw'n aelod o'r heddlu neu'n gwnstabl rhan amser, dylai'r awdurdod priodol roi sylw i'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â disgyblaeth a pherfformiad staff a gwirfoddolwyr.

17.XX Gall yr awdurdod priodol hefyd, ar yr adeg hon, benderfynu bod[118]:

- digon o dystiolaeth, ar ffurf datganiadau ysgrifenedig neu ddogfennau eraill, i sefydlu, ar sail tebygolrwydd, fod yr ymddygiad y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol; ac
- ei bod er budd y cyhoedd i'r person y mae'r ymddygiad yn perthyn iddo roi'r gorau i fod yn aelod o heddlu neu'n gwnstabl gwirfoddol arbennig heb oedi.

17.XX Os bydd yr awdurdod priodol yn penderfynu bod yr amodau wedi'u bodloni, dylid ardystio'r achos fel un sy'n bodloni'r amodau arbennig a'i drin o dan weithdrefnau Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 ar gyfer achosion carlam, oni ystyrir bod yr amgylchiadau yn rhai sy'n ei gwneud yn amhriodol gwneud hynny (gweler canllawiau'r Swyddfa Gartref, *Ymddygiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd: canllawiau statudol ar safonau proffesiynol, perfformiad ac uniondeb mewn plismona*).

**17.46** Yn dilyn y penderfyniadau hyn, rhaid i'r awdurdod priodol ystyried paragraffau 17.67 i 17.80 ynghylch cyfleu canlyniad yr ymchwiliad. Pan fydd yr ymchwiliad i gŵyn, mae hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth i'r achwynydd am yr hawl i wneud cais am adolygiad o ganlyniad y gŵyn.

---

[118] Rheoliad 26, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020.

## Gwneud penderfyniad ynghylch atgyfeirio at y CPS

**17.47** Os yw adroddiad yn dangos bod yna ddigon o dystiolaeth i ddarparu gobaith realistig o euogfarn am drosedd droseddol yn erbyn person y mae'r ymchwiliad yn ymwneud â'i ymddygiad, ac mae'r awdurdod priodol yn ystyried ei bod yn briodol i'r materion y deliwyd â nhw yn yr adroddiad gael eu hystyried gan y CPS, rhaid cyfeirio'r adroddiad at y CPS. Dylai'r rheswm/rhesymau dros atgyfeirio neu beidio atgyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron gael eu cofnodi yn glir, ac mae'n rhaid iddo roi sylw i'r *Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron* i'r graddau y mae'r awdurdod priodol yn ei ystyried yn berthnasol. Wrth wneud y penderfyniad, dylai'r awdurdod priodol hefyd roi sylw i ganllawiau eraill Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), lle'n berthnasol, er enghraifft:

- *Canllaw'r Cyfarwyddwr ar Gyhuddo* y CPS (*Director's Guidance on Charging*)
- Canllawiau ar honiadau troseddol a wneir yn erbyn swyddogion yr heddlu[119], neu
- Ganllawiau mewn perthynas â'r drosedd o Gamymddwyn mewn Swydd Gyhoeddus[120]

17.XX Gellir atgyfeirio achos at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i wneud penderfyniad ynghylch cyhuddo os bodlonir yr amodau canlynol[121]:

- mae'r trothwy tystiolaethol wedi'i fodloni, sy'n golygu bod yr adroddiad yn dangos bod digon o dystiolaeth i ddarparu gobaith realistig o euogfarn am drosedd droseddol yn erbyn person (os oes un) y mae'r ymchwiliad yn ymwneud â'i ymddygiad; ac
- mae'r amgylchiadau fel ei bod, ym marn yr awdurdod priodol, neu IOPC mewn ymchwiliadau a gyfarwyddwyd, yn briodol i'r materion a nodir yn yr adroddiad gael eu hystyried gan y CPS.

17.XX Mae'r amgylchiadau lle y gall yr awdurdod priodol ddod i'r casgliad nad yw'n briodol i'r materion sy'n destun yr ymchwiliad gael eu hystyried gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn cynnwys amgylchiadau lle mae'r awdurdod priodol o'r farn nad yw er budd y cyhoedd i'r materion sy'n destun yr ymchwiliad gael eu hystyried gan y CPS.

17.XX Rhaid hefyd atgyfeirio achos at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i wneud penderfyniad ynghylch cyhuddo os yw'r trothwy tystiolaethol wedi'i fodloni a bod y materion yr ymdrinnir â hwy yn yr adroddiad yn disgyn o fewn unrhyw gategori rhagnodedig o faterion.

17.XX Dylai'r awdurdod priodol nodi sut y mae'r amodau hyn wedi'u bodloni, neu heb eu bodloni. Rhaid bodloni'r ddau amod er mwyn i gyfeiriad gael ei wneud at y CPS.

17.XX Pan fydd y trothwy tystiolaethol wedi'i fodloni mewn perthynas â throseddau mwy difrifol (gweler paragraff 17.XX isod), dylid rhagdybio y bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at y CPS i wneud penderfyniad ynghylch cyhuddo (oni bai bod yr amgylchiadau yn golygu'n glir iawn

[119] Gwasanaeth Erlyn y Goron, *Criminal allegations made against the police*.
[120] Gwasanaeth Erlyn y Goron, *Misconduct in public office.*
[121] Paragraff 20ZA, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*.

 OFFICIAL SENSITIVE

nad yw er budd y cyhoedd i'w gyfeirio). Wrth wneud y penderfyniad hwn mewn perthynas â "throseddau lefel is", ni ddylid rhagdybio y dylid cyfeirio'r achos at y CPS dim ond oherwydd bod y trothwy tystiolaethol wedi'i fodloni. Mae hyn oherwydd, fel y nodir ym mharagraffau 17.XX-17.XX isod, bod yr amgylchiadau sy'n ymwneud â throseddau mwy difrifol yn fwy tebygol o fodloni'r ffactorau budd y cyhoedd.

17.XX Gall "troseddau difrifol" gynnwys unrhyw drosedd dditiadol yn unig[122], waeth beth fo'r plediad, neu unrhyw drosedd naill ai ffordd lle rhagwelir y bydd y person dan sylw yn pledio'n ddieuog a/neu lle mae'r achos yn addas i'w ddedfrydu yn Llys y Goron. Byddai unrhyw drosedd nad yw'n cyrraedd y trothwy difrifoldeb hwn yn cael ei hystyried yn drosedd "lefel is" at ddiben y penderfyniad hwn ynghylch cyfeirio.

17.XX Wrth ystyried budd y cyhoedd, bydd y ffactorau perthnasol (a'r pwysau i'w rhoi arnynt) yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos unigol. Yn ogystal â'r ffactorau a nodir yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, gall y ffactorau canlynol awgrymu ei bod er budd y cyhoedd i atgyfeirio'r achos:

- mae'r achos yn ymgysylltu ag Erthygl 2 neu Erthygl 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
- mae tystiolaeth o batrwm o ymddygiad tebyg
- mae'n debygol bod angen achos troseddol er mwyn sicrhau atebolrwydd digonol (gweler paragraff XX isod)
- yr angen i gynnal hyder y cyhoedd mewn plismona ac yn y system gwynion yn erbyn yr heddlu.

17.XX Gall ffactorau a allai awgrymu nad yw cyfeirio'r achos er budd y cyhoedd gynnwys:

- mae'r achos yn ymwneud â throseddau technegol a throseddau atebolrwydd llym (er enghraifft, defnydd technegol anghyfreithlon o rym sy'n deillio o gamgymeriad gonest mewn barn, yn hytrach nag unrhyw gamddefnydd bwriadol neu ddi-hid o bwerau'r heddlu)
- ystyrir bod yr atebolrwydd a ddarperir drwy achosion camymddwyn yn ddigonol o dan yr amgylchiadau (gweler paragraff XX isod). Gall argaeledd achosion camymddwyn fod yn ffactor perthnasol wrth ystyried cymesuredd cyfeirio achos at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS), ochr yn ochr â ffactorau eraill sy'n ymwneud â budd y cyhoedd.

17.XX Wrth bwyso a mesur a yw'r atebolrwydd a ddarperir drwy achosion camymddwyn yn ddigonol o dan yr amgylchiadau, neu a oes angen achos troseddol er mwyn darparu atebolrwydd priodol, dylai'r awdurdod priodol:

- ystyried swyddogaethau gwahanol achosion troseddol ac achosion camymddwyn. Mae achosion troseddol yn pennu a yw person yn euog o drosedd ac, os felly, yn gosod sancsiwn troseddol priodol. Mae achosion camymddwyn yn pennu a yw person wedi torri'r

---

122 Trosedd y gellir ei rhoi ar brawf yn Llys y Goron yn unig.

safonau ymddygiad proffesiynol ac, lle bo'n briodol, yn gosod sancsiwn camymddwyn, gan gynnwys rhoi'r unigolyn neu'r unigolion dan sylw ar restr waharddedig Coleg Plismona.

- cofio, os penderfynir y gellir diwallu'r budd cyhoeddus mewn cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn yr heddlu a diogelu'r cyhoedd drwy achosion camymddwyn yn unig, y gallai fod yn rhesymol penderfynu nad oes budd cyhoeddus mewn cyfeirio'r achos at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Fodd bynnag:
    - mae'n annhebygol y bydd argaeledd achosion camymddwyn, ynddo'i hun, yn cyfiawnhau penderfyniad i beidio â atgyfeirio'r achos;
    - mae achosion camymddwyn ac achosion troseddol yn cyflawni swyddogaethau gwahanol, a rhaid pwyso a mesur y rhain yn ofalus;
    - nid yw achosion camymddwyn yn cymryd lle craffu erlyniol annibynnol pan fo difrifoldeb yr achos yn mynnu hynny.
- bod yn ymwybodol, pan fo Erthygl 2 neu Erthygl 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn berthnasol, fod gofyn i'r Wladwriaeth gynnal "ymchwiliad trylwyr ac effeithiol sy'n gallu arwain at adnabod a chosbi'r rhai sy'n gyfrifol"[123]. Felly, mae'n annhebygol iawn, pan fo'r trothwy tystiolaethol wedi'i fodloni mewn achos sy'n ymwneud ag Erthygl 2 neu Erthygl 3, y byddai argaeledd achosion camymddwyn yn unig yn ddigonol i fodloni budd y cyhoedd a rhwymedigaethau'r Wladwriaeth.

**17.48** Os yw'r awdurdod priodol yn credu bod yr amodau wedi'u bodloni, a'i bod yn briodol cyfeirio achos at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i wneud penderfyniad ynghylch cyhuddo, rhaid iddo hysbysu'r bobl ganlynol o'i benderfyniad[124]:

- y person y mae'r mater yn ymwneud â'i ymddygiad;
- unrhyw achwynydd; ac
- unrhyw berson â buddiant.

17.XX Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud i beidio â atyfeirio'r achos at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS), dylid ystyried a yw Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad yn gymwys.

**17.49** Mae'n bwysig cofio, ar gyfer y rhan fwyaf o droseddau diannod yn unig, rhaid cyflwyno gwybodaeth o fewn chwe mis i ddyddiad cyflawniad honedig y drosedd[125]. Felly dylai'r awdurdod priodol sicrhau bod unrhyw benderfyniad neu hysbysiad a wna yn cael ei wneud yn brydlon er mwyn osgoi gwaharddiad amser ar unrhyw weithdrefnau i'w cymryd parthed y drosedd honedig. Mae hyn yn bwysig hefyd er mwyn caniatáu digon o amser i gynnal proses Hawl y Dioddefwr i Adolygiad pe bai dioddefwr yn cyflwyno cais am adolygiad.

---

[123] Paragraff 152, Llys Hawliau Dynol Ewrop, Canllaw ar Erthygl 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol – Gwahardd artaith (Guide on Article 3 of the European Convention on Human Rights – Prohibition of torture) (2025).
[124] Paragraff 20ZA, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*.
[125] Adran 127, *Deddf Llys Ynadon 1980.*

**17.50** Pan fydd achos yn cael ei atgyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron, dylai'r unigolyn sy'n atgyfeirio'r mater sicrhau bod y Gwasanaeth Erlyn yn cael gwybodaeth berthnasol i'w galluogi i gychwyn cyswllt effeithiol gyda'r achwynydd ac/neu berson â diddordeb.

**17.51** Dylai awdurdodau priodol ac ymchwilwyr sicrhau perthynas weithredol effeithiol gyda'r CPS. Os bydd unrhyw amheuaeth ynghylch eu rolau a chyfrifoldebau, dylai'r ymchwilydd ymgynghori gyda'r CPS.

### Gwneud penderfyniad ynghylch a oes achos i'w ateb am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol neu ddim achos i'w ateb

**17.52** Fel y nodwyd yn y blychau uwchben paragraff 17.44, rhaid i'r awdurdod priodol benderfynu a oes gan unrhyw aelod o'r heddlu neu gwnstabl rhan amser achos i'w ateb am gamymddwyn[126], camymddwyn difrifol, neu ddim achos i'w ateb. Mae canllawiau ar

wneud y penderfyniad hwn wedi'i gynnwys yng nghanllawiau'r Swyddfa Gartref *Ymddygiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd: canllawiau statudol ar safonau proffesiynol, perfformiad ac uniondeb mewn plismona*, y mae'n rhaid i'r awdurdod priodol eu hystyried. Rhaid darllen y canllawiau hyn ar y cyd ag unrhyw ganllawiau gan y Coleg Plismona ar ganlyniadau.

**17.53** Pan fydd yr awdurdod priodol yn penderfynu bod achos i'w ateb am gamymddwyn (yn hytrach na chamymddwyn difrifol), rhaid iddo wedyn, cyn gynted ag sy'n ymarferol, benderfynu[127]:

- os yw'r toriad o'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau camau disgyblu
- os ydyw, a ddylid dwyn achos camymddwyn yn erbyn y swyddog dan sylw ai peidio, ac
- os felly, ar ba ffurf y dylai'r achos camymddwyn fod

**17.54** Ble mae'r awdurdod priodol yn pennu bod achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol, rhaid iddo, cyn gynted â phosibl, bennu os ddylid dwyn gweithdrefnau camymddygiad ac, os felly ffurf y gweithdrefnau hyn[128].

**17.55** Ble mae'r awdurdod priodol yn penderfynu cyfeirio'r achos at weithdrefnau camymddygiad, rhaid i'r gweithdrefnau hynny fod yn wrandawiad camymddygiad ble mae achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol neu roedd y swyddog dan sylw[129]:

- wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig terfynol yn weithredol ar ddyddiad yr asesiad difrifoldeb a wnaethpwyd parthed yr ymddygiad, neu

[126] Gan fod y penderfyniad hwn yn cael ei wneud o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, y diffiniad o 'gamymddwyn' i'w gymhwyso ar y cam hwn yw 'torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol'.
[127] Rheoliadau 23, Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020.
[128] Rheoliadau 23, Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020.
[129] Rheoliadau 23, Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020.

- wedi cael lleihau ei reng dan Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2004 neu Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 lai na dwy flynedd cyn gwneud yr asesiad difrifoldeb parthed yr ymddygiad.

**17.56** Ble mae ymchwiliad yn datgelu dysgu sefydliadol a chamymddwyn, camymddwyn difrifol neu berfformiad anfoddhaol, mae'n bwysig asesu yn yr achos i'w ateb benderfyniad o i ba raddau wnaeth neu na wnaeth y methiant sefydliadol effeithio ar ymddygiad y swyddog unigol.

**17.57** Pan fydd awdurdod priodol yn pennu nad oes achos i'w ateb, neu nad yw'r toriad o'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol yn ddigon difrifol i gyfiawnhau camau disgyblu neu na ddylid dwyn gweithdrefnau camymddygiad, rhaid asesu os:

- dylid delio gyda'r mater yn defnyddio gweithdrefnau ar gyfer perfformiad anfoddhaol dan Reoliadau'r Heddlu (Perfformiad) 2020 neu ei atgyfeirio i gael ei drin o dan Reoliadau Fetio 2025.
- yw'r mater yn cyfateb i ymarfer sy'n galw am welliant, neu
- ni ddylai gymryd camau pellach

**17.58** Cyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid delio â mater o dan y Rheoliadau Fetio, neu trwy weithdrefnau perfformiad anfoddhaol, neu ei fod yn gyfystyr ag ymarfer sydd angen ei wella, rhaid i'r awdurdod priodol ymgynghori â rheolwr llinell y swyddog dan sylw[130]. Bydd y sgwrs hon yn cynorthwyo'r awdurdod priodol i benderfynu ai hwn yw'r penderfyniad cywir. Dylid gwneud cofnod o'r ymgynghoriad hwn.

**17.59** Dylai'r swyddog dan sylw gael ei hysbysu o ganlyniad yr asesiad ym mharagraff 17.57 cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Yn ddarostyngedig i'r prawf niwed, rhaid darparu copi o'r adroddiad neu'r rhan o adroddiad yr ymchwiliad sy'n ymwneud â hwy[131].

**17.60** O ran y penderfyniadau a wnaed ym mharagraff 17.57:

- os yw'r awdurdod priodol yn pennu y dylid delio â'r mater dan weithdrefnau perfformiad anfoddhaol, rhaid cyfarwyddo y delir â'r mater dan y gweithdrefnau hynny
- os yw'r awdurdod priodol yn pennu fod y mater yn cyfateb i ymarfer sy'n galw am welliant, rhaid cyfarwyddo y delir â'r mater dan y Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol

**<u>Penderfyniadau ynghylch achos i'w ateb mewn perthynas â thorri'r safon ymddygiad proffesiynol ar ddefnyddio grym</u>**

[130] Rheoliadau 23, Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020.

[131] Mae'r prawf niwed yn berthnasol yn y cyd-destun hwn oherwydd bod y penderfyniadau datgelu hyn yn cael eu gwneud gan yr awdurdod priodol o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 yn hytrach na *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* a Rheoliadau (Cwynion a Chamymddwyn) yr Heddlu 2020.

Ar 30 Mehefin 2026, diwygiwyd y safon ymddygiad proffesiynol ar ddefnyddio grym yn y gwasanaeth heddlu fel bod y "prawf cyfraith droseddol" yn cael ei gymhwyso yn lle'r "prawf cyfraith sifil" wrth benderfynu a oes gan swyddog heddlu achos i'w ateb am dorri'r safon honno[132].

O dan y prawf cyfraith sifil, byddai swyddog yn torri'r safon pe bai ganddo gred onest ond afresymol ynghylch yr amgylchiadau, ac yn defnyddio grym a oedd yn ddiangen, yn afresymol a/neu'n anghymesur o dan yr amgylchiadau gwirioneddol. O dan y prawf cyfraith droseddol, ni fyddai'r swyddog yn torri'r safon.

O dan ddarpariaethau trosiannol Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) (Diwygio) 2026[133], bydd y prawf cyfraith sifil yn parhau i fod yn gymwys i achosion lle dechreuodd ymchwiliad cyn 30 Mehefin 2026. Mae hyn yn cynnwys achosion lle mae achosion disgyblu wedi'u cyfarwyddo ond nad ydynt wedi'u cwblhau eto ("achosion trosiannol").

Os bydd achosion trosiannol yn mynd ymlaen i achosion disgyblu lle ceir achos i'w ateb dim ond wrth gymhwyso'r prawf cyfraith sifil, gall swyddogion wynebu diswyddo am ymddygiad na allai, pe bai'n cael ei ailadrodd ar adeg yr achosion disgyblu, gyfystyr â chamymddwyn o gwbl.

Barn IOPC yw bod hyn yn codi problemau o ran cysondeb a thegwch.

Safbwynt yr IOPC yw, pan fo achos i'w ateb mewn achosion trosiannol dim ond wrth gymhwyso'r prawf cyfraith sifil, na fydd hynny'n cyfiawnhau cymryd camau disgyblu, ac na ddylid cyfarwyddo achosion disgyblu, neu, os ydynt eisoes wedi'u cyfarwyddo ond heb eu cwblhau, dylid eu tynnu'n ôl.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu, wrth wneud penderfyniad mewn achosion trosiannol ynghylch a oes achos i'w ateb (gweler paragraff 17.52), bod yn rhaid i'r penderfynwr barhau i gymhwyso'r prawf cyfraith sifil. Fodd bynnag, wrth wneud y penderfyniad dilynol ynghylch a yw'r mater yn cyfiawnhau camau disgyblu ai peidio (gweler paragraff 17.53), ni fydd yn cyfiawnhau camau disgyblu oni bai y byddai achos i'w ateb hefyd wrth gymhwyso'r prawf cyfraith droseddol.

Os oes ffactorau eithriadol sy'n benodol i'r achos ac sy'n cyfiawnhau peidio â dilyn y canllawiau hyn, bydd angen i'r penderfynwr nodi ac egluro ei resymau yn ysgrifenedig.

Am ragor o wybodaeth, canllawiau a chefndir, gweler dogfen yr IOPC, Polisi ar gymhwyso'r safon ymddygiad proffesiynol ddiwygiedig ar ddefnyddio grym i achosion trosiannol.

[132] Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) (Diwygio) 2026.
[133] Rheoliad 3, Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) (Diwygio) 2026.

### Ymchwiliadau nad ydynt yn destun gweithdrefnau arbennig

**17.61** Yn ogystal â'r ystyriaethau uchod, ar ôl derbyn adroddiad o ymchwiliad cwyn nad oedd yn ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig, wrth ystyried pa benderfyniadau i'w gwneud ar faterion yr ymdriniwyd â hwy yn yr adroddiad dylai'r awdurdod priodol hefyd gyfeirio at baragraffau 17.4 - 17.8.

## Gweithredu ar dderbyn adroddiad ymchwiliad ar gŵyn neu fater ymddygiad cofnodadwy – ymchwiliadau dan gyfarwyddyd

**17.62** Ar ôl derbyn adroddiad o ymchwiliad cyfeiriedig, bydd yr IOPC yn penderfynu a yw'r adroddiad yn nodi bod yna dystiolaeth ddigonol i ddarparu gobaith realistig o gael euogfarn am drosedd droseddol yn erbyn person yr oedd ei ymddygiad yn destun yr ymchwiliad, ac a yw'r amgylchiadau yn golygu ei bod yn briodol i'r CPS ei ystyried, neu a yw'n dod o fewn categori rhagnodedig[134]. Bydd IOPC yn hysbysu'r awdurdod priodol am y penderfyniad hwn.

17.XX Bydd IOPC hefyd yn ceisio barnau'r awdurdod priodol ar:

- os oes gan unrhyw berson a ymchwiliwyd iddo achos i'w ateb parthed camymddwyn, camymddwyn difrifol neu ddim achos i'w ateb
- os yw perfformiad unrhyw berson yn anfoddhaol neu beidio
- unrhyw faterion eraill sy'n cael sylw yn yr adroddiad

17.XX Pan:

- mae person y mae'r ymchwiliad yn ymwneud â'i ymddygiad wedi cael ei hysbysu, yn ystod yr ymchwiliad, fod yr ymchwiliad yn cael ei drin fel un sy'n ymwneud ag ymddygiad y gallai gael ei erlyn amdano am drosedd, a
- Mae IOPC yn bwriadu penderfynu na fydd yn cyfeirio'r mater at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS),

gall dioddefwr, neu berson sy'n gweithredu ar ei ran, gael y cyfle i ofyn i'r IOPC adolygu'r penderfyniad arfaethedig hwnnw[135].

[134] Paragraff 23, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*
[135] Paragraff 23A, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu* 2002.

**17.63** Pan fo'r ymchwiliad cyfeiriedig yn ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig, wrth geisio barn yr awdurdod priodol ar y materion uchod, bydd yr IOPC yn hysbysu'r awdurdod priodol o'i farn ynghylch[136]:

- oes gan unrhyw berson y mae'r ymchwiliad wedi ymwneud â'i ymddygiad achos i'w ateb mewn perthynas â chamymddwyn neu gamymddwyn difrifol neu nad oes ganddo achos i'w ateb;
- a oedd perfformiad unrhyw berson o'r fath yn anfoddhaol neu beidio
- a ddylid dwyn achos disgyblu ai peidio, ac, os felly, ar ba ffurf ddylai'r gweithrediadau hyn fod (gan ystyried, yn benodol, difrifoldeb unrhyw doriad o'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol);
- a ddylid dwyn achos perfformiad ai peidio
- a ddylid cyfeirio unrhyw fater a oedd yn destun yr ymchwiliad i ddelio ag ef o dan y Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol ai peidio

**17.64** Mae'r IOPC yn disgwyl derbyn barn yr awdurdod priodol (os oes un) ar y materion a amlinellir ym mharagraff 17.62 cyn gynted ag sy'n ymarferol. Rhaid derbyn y rhain cyn pen 28 diwrnod, gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl y cais, oni bai bod y terfyn amser hwn yn cael ei ymestyn gan yr IOPC[137]. Mae'r IOPC hefyd yn disgwyl i'r awdurdod priodol roi ei farn (os oes un) ar unrhyw faterion ychwanegol y mae'r IOPC wedi mynegi barn arnynt (h.y. y materion ychwanegol o dan baragraff 17.63). Dylai'r barnau a ddarperir fod yn glir a chynnwys rhesymeg gadarn.

17.XX Ar yr adeg hon hefyd, gall yr awdurdod cymwys benderfynu a yw'r canlynol yn wir[138]

- bod tystiolaeth ddigonol, ar ffurf datganiadau ysgrifenedig neu ddogfennau eraill, i sefydlu, ar sail tebygolrwydd, fod yr ymddygiad y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol, a
- ei bod er budd y cyhoedd i'r person y mae'r ymddygiad yn perthyn iddo beidio â bod yn aelod o heddlu neu'n gwnstabl arbennig mwyach heb oedi.

17.XX Os bydd yr awdurdod cymwys yn penderfynu bod yr amodau hyn wedi'u bodloni, dylid ardystio'r achos fel un sy'n bodloni'r 'amodau arbennig' a dylid ei drin o dan weithdrefnau'r Rheoliadau Heddlu (Ymddygiad) 2020 ar gyfer achosion carlam, oni ystyrir bod yr amgylchiadau yn golygu y byddai'n amhriodol gwneud hynny (gweler canllawiau'r Swyddfa Gartref, *Ymddygiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd: canllawiau statudol ar safonau proffesiynol, perfformiad ac uniondeb mewn plismona*).

17.XX Rhaid i'r awdurdod cymwys beidio ag ardystio'r achos fel un sy'n bodloni'r amodau arbennig oni bai:

[136] Rheoliad 27, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.
[137] Rheoliad 27, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.
[138] Rheoliad 26, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020.

- ei fod yn cyflwyno memorandwm i'r IOPC yn rhoi gwybod iddo am ei benderfyniad bod yr amodau arbennig wedi'u bodloni, a'r rhesymau dros hynny, a
- bod IOPC yn hysbysu'r awdurdod cymwys nad yw'n gwrthwynebu'r ardystio.

17.XX Wedi ystyried unrhyw farnau gan yr awdurdod priodol, fel y'i gofynnir ym mharagraffau XX a XX, bydd IOPC yn pennu[139]:

- os oes gan unrhyw berson achos i'w ateb parthed camymddwyn[140], camymddwyn difrifol neu ddim achos i'w ateb
- os yw perfformiad unrhyw berson yn anfoddhaol neu beidio

**17.65** Yna bydd yr IOPC yn penderfynu a ddylid dwyn achos disgyblu[141] yn erbyn unrhyw berson ac, os felly, ar ba ffurf y dylai'r achos hwnnw fod. Os yw'n penderfynu y dylid cynnal achos disgyblu, bydd yr IOPC, ar yr un pryd, yn cyfarwyddo'r awdurdod priodol i ddwyn yr achos hwnnw. Rhaid i'r awdurdod priodol gydymffurfio gyda chyfarwyddyd yr IOPC a hysbysu'r IOPC am gynnydd y gweithdrefnau a sicrhau eu bod yn dod i gasgliad cywir.

**17.66** Gall yr IOPC hefyd, ar ôl ystyried barn (os oes un) yr awdurdod priodol, wneud penderfyniad ynghylch unrhyw fater yr ymdrinnir ag ef yn yr adroddiad[134]. Gall hyn gynnwys penderfyniad bod mater yn gyfystyr ag arfer sydd angen ei wella. Bydd yr IOPC yn cyfarwyddo'r awdurdod priodol i benderfynu pa gamau, os o gwbl, fydd yr awdurdod priodol yn cymryd parthed unrhyw fater arall a godwyd yn yr adroddiad, gan ystyried penderfyniadau'r IOPC. Rhaid i'r awdurdod priodol hysbysu'r IOPC o unrhyw benderfyniad a wna.

17.XX Bydd IOPC yn gwneud y penderfyniadau hyn p'un a yw'r awdurdod cymwys wedi hysbysu'r IOPC ei fod yn credu bod yr amodau arbennig wedi'u bodloni ai peidio (gweler paragraff XX). Pan fydd yr awdurdod cymwys wedi hysbysu'r IOPC ei fod yn credu bod yr amodau arbennig wedi'u bodloni, bydd yr IOPC hefyd yn hysbysu'r awdurdod cymwys a yw'n gwrthwynebu hynny ac, os felly, pam. Bydd yn gwneud hyn o fewn 10 diwrnod gwaith (gan ddechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl derbyn y memorandwm). Pan fydd yr IOPC yn cytuno bod yr amodau arbennig wedi'u bodloni, ni fydd yr IOPC yn cyfarwyddo y dylid dwyn achos disgyblu wrth wneud ei phenderfyniadau terfynol, ar y sail bod y mater eisoes wedi'i gyfeirio at weithdrefnau carlam[142].

---

[139] Paragraff 23, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

[140] Gan fod y penderfyniad hwn yn cael ei wneud o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, y diffiniad o 'gamymddwyn' i'w gymhwyso ar y cam hwn yw 'torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol'.

[141] Gweler yr eirfa am ddiffiniad o gamau disgyblu - o dan yr amgylchiadau hyn, mae'r diffiniad, ar gyfer aelodau'r heddlu neu gwnstabliaid rhan amser, yn cynnwys achos o dan Reoliadau (Perfformiad) yr Heddlu 2020, yn ogystal ag unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 (ar wahân i'r Broses Adolygu Arfer Myfyriol, yn unol â Rhan 6 o'r rheoliadau hynny). Ar gyfer unrhyw berson arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, mae'n cynnwys unrhyw achos neu broses reoli pan ystyrir bod ymddygiad yr unigolyn hwnnw ac unrhyw achos neu broses reoli pan ystyrir perfformiad yr unigolyn hwnnw.

[142] Rheoliad 26, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020.

17.XX Unwaith y bydd IOPC wedi cyfarwyddo'r awdurdod cymwys i gynnal achos camymddwyn (gweler paragraffau XX–XX), ni all yr awdurdod cymwys benderfynu bod yr amodau arbennig wedi'u bodloni.

17.XX Pan fydd IOPC wedi penderfynu nad oes achos i'w ateb, dylai'r awdurdod cymwys ystyried a ddylid ymdrin â'r mater o dan y Rheoliadau Fetio (2025) ai peidio.

## Achosion troseddol

Pan fydd yr awdurdod priodol, ar ddiwedd ymchwiliad lleol, yn penderfynu bod yn rhaid cyfeirio achos at y CPS, rhaid i'r awdurdod priodol hefyd benderfynu ar y materion eraill - gan gynnwys a oes gan unrhyw berson achos i'w ateb; os gwnânt, a yw'r toriad mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau camau disgyblu; os felly, a ddylid dwyn achos camymddwyn ai peidio; ac, os felly, ar ba ffurf.

Mae'n bwysig bod y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud cyn gynted â phosibl fel bod materion yn cael eu symud ymlaen i'w casgliadau priodol yn ddi-oed. Ym marn yr IOPC, dylid hysbysu swyddogion o benderfyniad ynghylch a oes achos i'w ateb (yn ddarostyngedig i baragraffau 17.59 a 17.75 - 17.80) cyn gynted â phosibl fel eu bod yn ymwybodol o ba gamau sy'n debygol o gael eu cymryd, yn hytrach nag wynebu'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag oedi diangen y gellir ei osgoi. Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r awdurdod priodol ohirio'r atgyfeiriad gwirioneddol i achos camymddwyn os yw o'r farn y byddai atgyfeirio yn rhagfarnu unrhyw achos troseddol[135].

Unwaith y bydd yr achos troseddol wedi'i gwblhau, yna mae'r ddeddfwriaeth yn ei wneud yn angenrheidiol i benderfyniad pellach gael ei wneud ar y materion a amlinellir ym mharagraff 17.53 uchod (oni bai bod yr achos wedi'i gyfarwyddo gan IOPC) [136]. Dylid gwneud y penderfyniad hwn gan roi ystyriaeth i ganllawiau'r Swyddfa Gartref, *Ymddygiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd: canllawiau statudol ar safonau proffesiynol, perfformiad ac uniondeb mewn plismona*.

134 Ar wahân i benderfyniad a yw'r adroddiad yn awgrymu y gallai trosedd fod wedi'i chyflawni, a yw'r amgylchiadau yn golygu ei bod yn briodol i'r CPS ei hystyried (neu ei bod yn dod o fewn categori rhagnodedig) a'r penderfyniadau hynny a wnaed eisoes ym mharagraffau 17.62 a 17.64.

135 Rheoliadau 10, Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020.

136 Rheoliadau 23, Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020.

### Achosion cwest

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd ymchwiliad yn cael ei gwblhau yn llawn cyn y cynhelir y cwest. Os felly, yna rhaid i'r awdurdod priodol wneud ei benderfyniadau parthed yr adroddiad terfynol unwaith y bydd yn ymarferol wedi ei dderbyn. Pan gynhelir ymchwiliad mewn perthynas â marwolaeth person a bod cwest yn debygol neu wedi'i agor eisoes, efallai y bydd achosion lle bydd cadeirydd panel y gwrandawiad camymddwyn yn penderfynu bod angen gohirio unrhyw achos tan ar ôl i'r cwest ddod i ben. Fodd bynnag, nid yw oedi yn ganlyniad angenrheidiol i'r ffaith bod cwest a dylai awdurdodau priodol ystyried a yw'n bosibl cwblhau unrhyw achos o gamymddwyn neu weithdrefnau perfformiad anfoddhaol.
Mae gwneud hynny yn debygol o fod er budd pawb sy'n gysylltiedig.

Os bydd achos yn cael ei gynnal cyn y cwest, dylid hysbysu'r crwner o'r dyddiad ar gyfer unrhyw gyfarfod neu wrandawiad a'i ganlyniad oni bai bod yna resymau da dros beidio darparu'r wybodaeth hon.

Pan fydd cwest yn dilyn ymchwiliad cyfeiriedig i amgylchiadau'r farwolaeth, yr IOPC sy'n bennaf gyfrifol am gysylltu â'r crwner. O ystyried bod yr ymchwilydd yn cynhyrchu'r adroddiad terfynol o dan arweiniad yr IOPC, gallai fod yn fwy priodol i berson sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu fynychu'r llys os bydd y crwner angen i rywun fynychu'r gwrandawiad i gynorthwyo gyda datganiadau, dogfennau neu dystiolaeth arall, neu i roi tystiolaeth ynghylch yr ymchwiliad.

## Cyfathrebu'r canlyniad

### Achwynwyr a rhai â diddordeb

**17.67** Rhaid i'r awdurdod priodol hysbysu'r achwynydd ac/neu berson(au) â diddordeb o ganlyniad i'r ymdriniaeth â chwyn, materion ymddygiad cofnodadwy neu fater DSI[143]. Rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig o fewn pum niwrnod gwaith i bennu'r canlyniad[144]. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y corff plismona lleol yw hyn os yw'r mater yn gŵyn a bod y corff plismona lleol wedi dewis cymryd cyfrifoldeb am ddiweddaru achwynwyr a phobl â diddordeb am gwynion neu, mewn ymchwiliad cyfeiriedig neu annibynnol, mae'n gyfrifoldeb yr IOPC.

[143] Adrannau 20 a 21, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*; Rheoliad 34, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020
[144] Yn amodol ar eithriadau yn Rheoliad 35, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 (gweler yr eirfa).

**17.68** Rhaid darparu'r achwynwr ac/neu person(au) sydd â diddordeb gyda digon o wybodaeth i sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n briodol. Dylai hyn gynnwys esboniad ysgrifenedig o sut yr ymdriniwyd â'r mater, y camau a gymerwyd neu sydd i'w cymryd, y casgliadau a'r canlyniad. Ble fo'n briodol, dylai gynnwys y rhesymau dros beidio cymryd camau penodol ble roedd hyn yn unol ag ymdriniaeth resymol neu gymesur.

**17.69** Ble ystyrir ei bod yn rhesymol neu gymesur i beidio cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â mater, dylid esbonio'r rhesymau dros hyn yn glir.

**17.70** Yn ogystal â darparu'r wybodaeth yn ysgrifenedig, gallai hefyd fod yn briodol cyfathrebu hyn trwy sianeli eraill a allai fodloni unrhyw anghenion unigol atodol yn well, h.y. i sicrhau bod yr achwynydd neu sawl sydd â diddordeb yn deall y penderfyniadau a wnaethpwyd.

**17.71** Yn amodol ar eithriadau penodol (gweler paragraffau 11.16 i 11.20), pan ymchwiliwyd i fater dylid darparu adroddiad yr ymchwiliad i'r achwynydd a'r unigolion â diddordeb. Fodd bynnag, dylai'r corff sy'n darparu'r wybodaeth ystyried os yw adroddiad yr ymchwiliad yn ddigonol i sicrhau bod gan yr achwynwyr a rhai â diddordeb yr holl wybodaeth maent angen ac y gallant ddeall beth mae'n ei olygu. Gallai fod yn ddefnyddiol darparu esboniad ategol o'r deilliannau ac unrhyw gamau nesaf.

**17.72** P'un a yw'r canlyniad yn cael ei gyfathrebu trwy adroddiad ymchwiliad neu beidio, dylid ei gyfathrebu mewn ffordd glir a hygyrch. Dylai:

- ddarparu'r derbynnydd gyda digon o wybodaeth i ddeall ac archwilio'r ymdriniaeth o'r mater yn gywir, ynghyd â'r penderfyniadau a'r casgliadau a wnaethpwyd
- ddelio'n uniongyrchol gyda'r materion a godwyd
- ddangos fod yr amcanion a osodwyd - er enghraifft, yn y cylch gorchwyl neu yn ystod trafodaethau gydag achwynydd neu sawl sydd â diddordeb - wedi eu bodloni
- gael ei ysgrifennu mewn iaith glir heb jargon technegol ble bynnag fo'n bosibl
- fod yn ddiduedd gyda rhesymeg seiliedig ar dystiolaeth i'w gefnogi
- ddarparu esboniad clir o'r wybodaeth/tystiolaeth a gasglwyd a sut y'i gwerthuswyd
- lle bo'n briodol, esbonio pam nad aethpwyd ar drywydd gwybodaeth neu weithred/llinellau ymholiad
- beidio bod â thinc amddiffynnol
- gydnabod unrhyw bryderon a niwed a achoswyd, ac effaith hyn
- arddangos atebolrwydd sefydliadol o wirfodd, ble fo'n briodol
- nodi unrhyw gyfleoedd dysgu i unigolyn neu sefydliad, a sut y gweithredir ar y rhain

**17.73** Pan fo cwyn wedi bod yn destun ymchwiliad lleol, neu wedi cael ei thrin heblaw trwy ymchwiliad, rhaid i'r awdurdod priodol (neu'r corff plismona lleol lle maent wedi cymryd cyfrifoldeb am ddiweddaru achwynwyr a phersonau â diddordeb) hefyd hysbysu'r achwynydd am[145]:

[145] Adran 20, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*; Rheoliad 33, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

- ei hawl i wneud cais am adolygiad o ganlyniad ei gŵyn
- at bwy y dylid gwneud y cais am adolygiad (gweler paragraffau 18.5 - 18.9)
- os mai’r corff adolygu perthnasol yw’r IOPC, y rheswm pam
- y ffaith nad oes unrhyw hawl i adolygiad i'r IOPC os mai’r corff plismona lleol yw’r corff adolygu perthnasol
- y terfyn amser ar gyfer ymgeisio am adolygiad, a
- beth ddylid ei gynnwys yn y cais (gweler y blwch uwchben paragraff 18.20)

Rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig, yn ddi-oed, o fewn pum niwrnod gwaith i bennu’r canlyniad[146].

**17.74** Mae'r IOPC yn disgwyl i'r achwynydd gael gwybod am yr union ddyddiad y mae'n rhaid derbyn cais am adolygiad - sef 28 diwrnod ar ôl y diwrnod ar ôl y diwrnod yr anfonir yr wybodaeth at yr achwynydd ym mharagraff 17.73. Mae hefyd yn disgwyl y bydd cyfathrebiad ysgrifenedig i’r achwynydd yn cael ei anfon ar y diwrnod mae wedi ei ddyddio.

### Y person(au) y cwynwyd amdanynt neu y mae eu hymddygiad yn ymwneud â'r mater (os o gwbl).

**17.75** Mae'n bwysig bod unrhyw berson y mae ei weithredoedd yn cael eu hystyried yn cael esboniad clir o ganlyniad ymdrin â'r mater, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

**17.76** Yn dilyn ymchwiliad, lle mae'r awdurdod priodol (neu'r IOPC mewn ymchwiliad cyfeiriedig neu annibynnol) wedi penderfynu na fydd achos disgyblu nac achos perfformiad yn cael ei ddwyn yn erbyn unigolyn, rhaid iddo ddarparu copi o'r adroddiad ar yr ymchwiliad i'r unigolyn hwnnw, neu unrhyw rannau ohono sy'n ymwneud â'r person hwnnw[147].

**17.77** Ni ddylid darparu'r wybodaeth os yw'r awdurdod priodol (neu'r IOPC mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd neu annibynnol) yn credu y byddai gwneud hynny yn:

- gallu niweidio ymchwiliad neu weithdrefnau (troseddol neu fel arall)
- gallu niweidio unrhyw adolygiad dilynol o’r ymchwiliad, neu
- yn mynd yn groes i Adran 21A o *Ddeddf Diwygio’r Heddlu 2002* (gweler yr eirfa) - yn yr achos hwn mae'n rhaid iddynt ddarparu'r copi ar ôl dileu neu guddio'r wybodaeth na ddylid, yn rhinwedd Adran 21A, ei datgelu

**17.78** Gellir darparu unrhyw ddogfen, neu ran o ddogfen, ar ffurf sy'n cadw hunaniaeth yr achwynydd (os oes un) neu unrhyw bersonau eraill yn ddienw.

**17.79** Yn dilyn ymchwiliad, os yw'r awdurdod priodol (neu’r IOPC mewn ymchwiliad dan gyfarwyddyd neu annibynnol) wedi pennu y dygir gweithdrefnau disgyblu yn erbyn

[146] Rheoliad 34, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.
[147] Rheoliad 28, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

unigolyn, rhaid iddo gydymffurfio gyda'i ddyletswyddau dan Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 i ddarparu gwybodaeth i'r unigolyn hwnnw (gweler paragraff 17.59).

**17.80** Ble derbyniwyd cwyn sydd wedi bod yn destun ymchwiliad lleol, neu wedi cael ei thrin heblaw trwy ymchwiliad, mae yna bosibiliad y gall yr achwynydd ymgeisio am adolygiad o'r canlyniad, a allai arwain at newid y casgliadau gwreiddiol. Dylid tynnu sylw unrhyw berson y cwynir amdano at hyn.

### Cyhoeddiad

**17.81** Mae'r IOPC yn gyfrifol am gyhoeddi adroddiadau neu grynodebau ymchwiliadau yn dilyn ymchwiliadau dan gyfarwyddyd neu annibynnol. Ym mwyafrif yr achosion, bydd yn gwneud hyn er lles tryloywder.

**17.82** Dylai awdurdodau priodol ystyried os yw'n briodol cyhoeddi adroddiadau, crynodebau neu wybodaeth arall yn dilyn ymchwiliadau lleol neu ymdriniaeth arall. Gall hyn fod yn briodol er budd tryloywder. Rhaid talu sylw dyledus i faterion diogelu data ac efallai y bydd angen rhywfaint o olygu ar adroddiadau.

# Pennod 18

## Adolygiadau

**18.1** Mae'r bennod hon yn egluro'r canlynol:

- yr hawl i adolygiad
- pwy yw'r corff adolygu perthnasol
- dirprwyo gan y corff plismona lleol ar gyfer ystyried adolygiadau
- derbyn cais am adolygiad
- dilysrwydd
- cynnal yr adolygiad
- canlyniad yr adolygiad

### Yr hawl i adolygiad

**18.2** Pan gofnodwyd cwyn o dan Atodlen 3 i *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002,* mae gan yr achwynydd hawl i wneud cais am adolygiad o ganlyniad y gŵyn. Mae hyn yn berthnasol pa un a yw'r gŵyn wedi cael ei hymchwilio gan yr awdurdod priodol neu wedi'i thrin heblaw trwy ymchwiliad[148]. Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw canlyniad ymdrin â'r gŵyn yn rhesymol ac yn gymesur. Pan fydd y corff adolygu perthnasol yn canfod nad yw canlyniad y gŵyn yn rhesymol ac yn gymesur, bydd yn cynnal yr adolygiad.

**18.3** Nid oes hawl i ymgeisio am adolygiad o ganlyniad ymchwiliad dan gyfarwyddyd neu annibynnol.

**18.4** Nid oes unrhyw hawl i wneud cais am adolygiad o ganlyniad cwyn yr ymdriniwyd â hi y tu allan i Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*[149], neu le nad yw'r gŵyn wedi'i chofnodi oherwydd bod y sawl sy'n gwneud y gŵyn ddim yn gymwys i fod yn achwynydd.

### Pwy yw'r 'corff adolygu perthnasol'?

**18.5** Dylai'r awdurdod priodol benderfynu pwy yw'r corff adolygu perthnasol, a rhaid cyfleu hyn i'r achwynydd (gweler paragraff 17.73). Yn ddibynnol ar amgylchiadau'r gŵyn, bydd y cais am adolygiad yn cael ei ystyried naill ai gan y corff plismona lleol neu'r IOPC.

---

[148] Paragraff 6A, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*; Paragraff 25, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.*
[149] Fodd bynnag, gweler paragraff 6.25 ynghylch y camau i'w cymryd os yw achwynydd yn anfodlon â chanlyniad cwyn yr ymdriniwyd â hi y tu allan i Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002.*

**18.6** Yr IOPC yw'r corff adolygu perthnasol ble[150]:

i. corff plismona lleol yw'r awdurdod priodol
ii. fod y gŵyn ynghylch ymddygiad swyddog uwch (swyddog sydd â rheng uwch na phrif uwch-arolygydd)
iii. nid yw'r awdurdod priodol yn gallu bodloni ei hun, o'r gŵyn yn unig, na fyddai'r ymddygiad yr achwynwyd amdano (pe byddai'n cael ei brofi) yn cyfiawnhau dwyn achos troseddol neu weithdrefnau disgyblu[151] neu na fyddai'n cynnwys amharu ar hawliau person dan Erthygl 2 neu 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (gweler yr eirfa) iv. mae'r gŵyn wedi ei hatgyfeirio at yr IOPC yn y gorffennol, neu mae'n un y mae'n rhaid gwneud hynny iddi
v. mae'r IOPC yn trin y gŵyn fel un sydd wedi ei hatgyfeirio (a elwir hefyd yn 'bŵer menter', gweler paragraffau 9.36 - 9.39)
vi. mae'r gŵyn yn deillio o'r un digwyddiad â chwyn sy'n bodloni ii- v vii. mae unrhyw ran o'r gŵyn o fewn ii-vi

**18.7** Mewn unrhyw achos arall, y corff adolygu perthnasol yw'r corff plismona lleol.

**18.8** Rhaid asesu'r prawf ar baragraff 18.6 iii ar sylwedd y gŵyn yn unig, nid ar rinwedd ymddangosiadol y cyhuddiadau neu trwy edrych yn ôl wedi delio gyda'r gŵyn.

**18.9** Wedi ystyried y prawf a restrir ym mharagraff 18.6 vi, dylai awdurdodau priodol ystyried os yw'r cwynion yn deillio o'r un cyfnod a lle ac yn cynnwys yr un bobl neu bobl sylweddol debyg sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu. Mae hyn yn cynnwys lle mae'r cwynion yn cael eu gwneud gan wahanol achwynwyr. Ni ddylid ystyried bod nifer o gwynion unigol sydd fel arall ddim yn gysylltiedig ond sy'n deillio o'r un digwyddiad ar raddfa fawr fel rhai sydd wedi deillio o'r un digwyddiad.

## Dirprwyo gan y corff plismona lleol ar gyfer ystyried adolygiadau

**18.10** Gall corff plismona lleol ddirprwyo ei gyfrifoldebau ar gyfer ystyried adolygiadau (gweler paragraff 1.28).

**18.11** Wrth ddirprwyo eu cyfrifoldebau dylai cyrff plismona lleol gofio bod angen i'r trefniadau ddangos lefel briodol o annibyniaeth oddi wrth eu heddlu er mwyn i'w penderfyniadau adolygu fod yn gredadwy, a chael eu gweld fel hynny.

---

[150] Paragraff 30, Atodlen 3, Deddf Diwygio'r Heddlu 2002; Rheoliad 32, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

[151] Gweler yr eirfa am y diffiniad o achos disgyblu - yn yr achos hwn, ar gyfer aelodau'r heddlu neu gwnstabliaid rhan amser, mae achos disgyblu yn golygu unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol (yn unol â Rhan 6 o'r rheoliadau hynny). Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol. Ar gyfer unrhyw berson arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, golyga unrhyw achosion neu broses rheoli ble ystyrir ymddygiad yr unigolyn hwnnw, yn hytrach na'i berfformiad, at ddibenion penderfynu a ddylid cyflwyno unrhyw sancsiwn neu fesur cosbol yn ei erbyn oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

**18.12** Rhaid i gyrff plismona lleol sicrhau bod unrhyw un sy'n ystyried ceisiadau am adolygiadau yn cael digon o hyfforddiant.

**18.13** Mae'r IOPC yn ystyried na ddylai cyrff plismona lleol ddirprwyo ystyriaeth o adolygiad i:

- unrhyw un oedd yn gysylltiedig gydag ymdrin â'r gŵyn, yn cynnwys unrhyw un oedd yn gyfrifol am benderfynu a ddylid cofnodi'r gŵyn, penderfynu sut ddylid ymdrin â'r gŵyn neu ddarparu diweddariadau
- unrhyw un sydd â chysylltiad personol agos ag unrhyw berson y cwynir am ei ymddygiad, i'r achwynydd neu'r digwyddiad y cwynir amdano

## Derbyn cais am adolygiad

> Ble mae'r IOPC yn derbyn cais am adolygiad, ond y corff plismona lleol yw'r corff adolygu perthnasol, bydd yr IOPC yn ei anfon ymlaen at y corff plismona lleol. Bydd yr IOPC yn hysbysu'r achwynydd ei bod wedi ei anfon ymlaen ac mai'r corff plismona lleol yw'r corff adolygu perthnasol.
>
> Ble mae'r corff plismona lleol yn derbyn cais am adolygiad, ond yr IOPC yw'r corff adolygu perthnasol, rhaid ei anfon ymlaen at yr IOPC. Rhaid i'r corff plismona lleol hysbysu'r achwynydd ei fod wedi ei anfon ymlaen ac mai'r IOPC yw'r corff adolygu perthnasol.
>
> Paragraffau 31 a 32, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

**18.14** Dylid anfon y cais at y corff adolygu cywir cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a, ble fo'n bosibl, yn ddigidol.

**18.15** Pan dderbynnir cais am adolygiad gan y corff adolygu perthnasol, dylid anfon cydnabyddiaeth at yr achwynydd. Dylai hyn hysbysu'r achwynydd beth y gallant ddisgwyl i ddigwydd nesaf a phryd y gallant ddisgwyl clywed am y canlyniad. Dylai hefyd roi pwynt cyswllt i'r achwynydd os bydd ganddo unrhyw ymholiadau.

**18.16** Rhaid i'r corff adolygu perthnasol hefyd hysbysu'r awdurdod priodol, unrhyw un sydd â diddordeb a'r sawl yr achwynwyd amdano (os oes). Gellir hysbysu'r sawl yr achwynwyd amdano trwy'r awdurdod priodol. Unwaith y bydd wedi ei hysbysu y derbyniwyd cais am adolygiad, ni ddylai'r awdurdod priodol gymryd unrhyw gamau a fyddai'n peryglu'r adolygiad nac unrhyw gamau y gellir eu cymryd o ganlyniad.

> Rhaid i'r corff adolygu perthnasol ofyn am unrhyw wybodaeth gan unrhyw berson y mae'n ei ystyried yn angenrheidiol i ddelio ag adolygiad (yn ddarostyngedig i'r

cyfyngiadau yr amlinellir yn is-baragraffau (2) i (3A) o baragraff 19ZA, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*).

Rheoliad 29, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

Pan fydd y corff adolygu perthnasol yn gofyn, rhaid i'r awdurdod priodol ddarparu copi o adroddiad yr ymchwiliad iddo, ac unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani ynghylch penderfyniadau'r awdurdod priodol ar ddiwedd yr ymchwiliad (h.y. y rhai ym mharagraffau 17.44 - 17.60).

Paragraff 25, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

**18.17** Fel y nodwyd ym mharagraffau 11.21 - 11.22, dylid darparu'r holl ddogfennau neu dystiolaeth a grëwyd neu a gafwyd wrth drin cwyn i'r corff adolygu perthnasol. Wrth ystyried a ddylid gofyn am wybodaeth bellach, rhaid i'r corff plismona lleol ystyried a yw'r wybodaeth yn angenrheidiol i gynnal yr adolygiad. Dylid darparu wybodaeth y gofynnwyd amdani cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

## Dilysrwydd

**18.18** Mae nifer o resymau pam y gallai cais am adolygiad fod yn annilys. Os yw'n annilys, dylid hysbysu'r achwynydd o hyn ac esbonio'r rheswm yn glir.

**18.19** Wrth benderfynu a yw'r cais am adolygiad yn ddilys, bydd angen i'r corff adolygu perthnasol ystyried y pwyntiau canlynol.

### A yw'r cais yn gyflawn?

Rhaid i gais am adolygiad fod yn ysgrifenedig a datgan:

i. manylion y gŵyn; ii. y dyddiad y gwnaed y gŵyn;

iii. e nw'r heddlu neu gorff plismona lleol y mae ei benderfyniad yn destun y cais; a'r

iv. y dyddiad pan ddarparwyd manylion i'r achwynydd ynghylch ei hawl i adolygiad wedi cwblhau'r ymchwiliad neu ymdriniaeth arall o'i gŵyn.

Fodd bynnag, efallai y bydd y corff adolygu perthnasol yn penderfynu ystyried adolygiad er nad yw'n cydymffurfio gydag un neu fwy o'r gofynion hyn.

Rheoliad 29, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

18.20 Er bod gan y ddeddfwriaeth rai amodau ynghylch cynnwys cais am adolygiad, mae hefyd yn cydnabod y gall y corff adolygu perthnasol benderfynu ystyried yr adolygiad heb i'r gofynion hynny gael eu bodloni. Mae'r IOPC o'r farn y dylai'r corff adolygu perthnasol ystyried adolygiad yn absenoldeb unrhyw ran o'r wybodaeth uchod (neu le na all yr achwynydd wneud ei gais yn ysgrifenedig) oni bai bod y diffyg gwybodaeth yn ei gwneud yn amhosibl adnabod yr achos y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod yn briodol cysylltu â'r achwynydd i gadarnhau pa gŵyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef, neu unrhyw bwyntiau y maent wedi'u codi. Os, wedi cymryd camau rhesymol i gysylltu â'r achwynydd, nad yw wedi bod yn bosibl cysylltu â nhw, neu nad yw wedi bod yn bosibl casglu gwybodaeth ddigonol i gyflawni'r adolygiad, gellir ystyried fod y cais yn annilys.

### A oes hawl i wneud cais am adolygiad?

18.21 Dim ond achwynydd neu rywun yn gweithredu ar ei ran (gweler paragraff 5.11) all wneud cais am adolygiad parthed cwyn. Os bydd rhywun ar wahân i'r achwynydd neu rywun yn gweithredu ar ei ran yn ceisio gwneud cais, byddai'r cais yn annilys.

18.22 Cyn y gellir gwneud cais, rhaid cael hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad y gŵyn.

### A yw'r cais wedi ei wneud mewn pryd?

> Rhaid gwneud ceisiadau am adolygiadau cyn pen 28 diwrnod, gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod y darparwyd y wybodaeth a amlinellir ym mharagraff 17.73 i'r achwynydd, ar ddiwedd yr ymchwiliad neu ymdriniaeth arall â'i gŵyn.
>
> Rheoliad 29, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

18.23 Os gwnaethpwyd y cais i'r corff adolygu anghywir, ni fydd unrhyw amser sydd wedi mynd heibio rhwng derbyn y cais gan y corff plismona lleol neu'r IOPC, a'i anfon ymlaen at y corff adolygu perthnasol yn cael ei ystyried i ddibenion y cyfnod o 28 niwrnod[152].

18.24 Ni all achwynydd arfer ei hawl i wneud cais am adolygiad cyn cwblhau'r broses o ymdrin â'r gŵyn. Fodd bynnag, os yw'r ymdriniaeth wedi ei gwblhau ond bod unrhyw faint o'r wybodaeth ynghylch hawl yr achwynydd i wneud cais am adolygiad yr oedd gofyn i'r awdurdod priodol ei darparu heb ei rhoi, ni ddylid ystyried fod y cais yn hwyr.

18.25 Gall y corff adolygu perthnasol ymestyn y cyfnod i wneud cais am adolygiad ble mae'n fodlon oherwydd amgylchiadau arbennig achos ei bod yn gyfiawn gwneud hynny[153]. Dylid ystyried hyn ar sail fesul achos. Dylid ystyried y materion canlynol (er nad yw hon yn rhestr hollgynhwysol):

[152] Rheoliad 29, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

[153] Rheoliad 29, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

- unrhyw resymau dros yr oedi – dylai hyn gynnwys os yw’r oedi tu hwnt i reolaeth yr achwynydd, os yw wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i gyflwyno ei adolygiad yn brydlon, ac ystyriaeth o unrhyw fregusrwydd neu anghenion ar gyfer yr achwynydd Pan fydd cais wedi ei wneud tu hwnt i amser, dylid gofyn i'r achwynydd ddarparu unrhyw resymau am hynny, os nad yw hynny eisoes yn amlwg. Rhaid ystyried unrhyw resymau a roddwyd wrth benderfynu a ddylid ystyried cais am adolygiad.
- testun y gŵyn – os yw'n achos arbennig o ddifrifol neu yn un y byddai er lles y cyhoedd i'w ystyried
- cysylltiadau â chwynion eraill sy'n cael eu trin neu adolygu
- hyd yr oedi – dylai'r prawf ddod yn anoddach i’w basio po hiraf tu hwnt i'r 28 niwrnod y derbynnir y cais
- tegwch – er enghraifft, yr effaith bosibl ar yr achwynydd neu unrhyw aelodau eraill o'r cyhoedd ac ar unrhyw berson yr achwynwyd amdano

**18.26** Nid yw'r ffaith bod person y cwynir amdano wedi cael gwybod am gasgliad ymchwiliad neu ymdriniaeth arall cyn y gwneir cais am adolygiad yn atal cyflawni adolygiad, a gallai gweithdrefnau disgyblu neu ddeilliannau eraill ddal i ddilyn wedi adolygiad.

**18.27** Os, wedi ystyried unrhyw amgylchiadau arbennig, y bernir bod y cais am adolygiad allan o amser ac nad yw’r corff adolygu perthnasol yn fodlon ei fod er mwyn ymestyn y cyfnod amser yn unig, dylid trin y cais fel un annilys a pheidio ei ystyried ymhellach.

### Hysbysu'r achwynydd pan fydd y cais yn annilys

**18.28** Dylid hysbysu’r achwynydd o’r penderfyniad i drin y cais fel annilys. Dylid gwneud yr hysbysiad yn ysgrifenedig (a thrwy ddulliau eraill ble fo'n briodol, gan ystyried unrhyw anghenion neu geisiadau penodol) cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Dylid esbonio'r rhesymau dros benderfynu bod y cais yn annilys yn glir i'r achwynydd.

## Cynnal yr adolygiad

**18.29** Mae cais am adolygiad yn gyfle i ystyried os yw canlyniad cwyn yn rhesymol a chymesur ac, os nad, i unioni pethau. Ni ddylai cynnal adolygiad fod yn ddim mwy na gwiriad ansawdd o'r hyn sydd eisoes wedi ei wneud. Dylai'r adolygwr wneud ei gasgliadau ei hun ynghylch a yw’r canlyniad yn rhesymol a chymesur.

**18.30** Er bod yn rhaid ystyried pob adolygiad ar sail fesul achos, dylid dilyn ymagwedd gyson i ystyried adolygiadau yn gyffredinol. Dylid cwblhau ystyriaeth o unrhyw adolygiad yn deg ac yn ddidwyll. Rhaid gwneud penderfyniadau cyn gynted â phosibl.

**18.31** Dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i unrhyw sylwadau a wneir gan yr achwynydd, yr unigolyn y cwynir amdano (os oes un) a'r awdurdod priodol.

**18.32** Rhaid i adolygiad ystyried os yw canlyniad yr ymchwiliad neu ymdriniaeth arall yn rhesymol a chymesur. Os yw'r adolygwr yn casglu nad oedd y canlyniad yn rhesymol a

chymesur, dylid cadarnhau'r adolygiad. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, dylai'r adolygydd ystyried y materion a amlinellir isod.

**18.33** Wrth benderfynu os yw'r canlyniad yn rhesymol a chymesur, dylid canolbwyntio ar os yw'n briodol i amgylchiadau'r achwynydd unigol, yn hytrach na'r broses a ddilynir i gyrraedd y canlyniad hwnnw. Fodd bynnag, pan ddarganfyddir bod y broses o drin cwyn yn ddiffygiol yn gyfreithiol mewn modd a allai fod wedi effeithio ar y canlyniad, dylid cadarnhau'r adolygiad oni bai bod yr adolygydd yn canfod y byddai'r un canlyniad yn debygol o fod wedi'i gyrraedd hyd yn oed heb y diffygion hynny. Er enghraifft, pan fo'r adolygydd o'r farn bod canlyniad y modd yr ymdriniwyd â'r gŵyn yn rhesymol ac yn gymesur, nid yw'n berthnasol y dylai'r gŵyn fod wedi'i chyfeirio at yr IOPC ond na chafodd ei chyfeirio, hyd yn oed pe bai'r IOPC o bosibl wedi penderfynu ar ddull ymchwilio gwahanol pe bai'r gŵyn wedi cael ei chyfeirio ati.

### Penderfyniad i beidio cymryd unrhyw gamau pellach

**18.34** Mae 'dim camau pellach' parthed cwyn yn rhywbeth sydd wedi ei ganiatáu'n benodol dan y ddeddfwriaeth. Mae yna amrywiol resymau pam y bydd rhywun sy'n delio â chwynion wedi penderfynu'n gyfreithlon na ddylid cymryd camau pellach parthed agweddau o hyn. Dylai'r adolygydd ystyried y pwyntiau ym mharagraffau 12.10 - 12.13, ac a oedd camau y gellid neu y dylid fod wedi'u cymryd i ddarparu canlyniad rhesymol a chymesur.

**18.35** Er enghraifft, lle na chymerwyd unrhyw gamau pellach oherwydd bod y sawl sy'n trin y gŵyn yn credu bod angen mwy o wybodaeth gan yr achwynydd, dylai'r adolygydd ystyried pa ymdrechion a wnaed i gyfathrebu â'r achwynydd, unrhyw ddewisiadau cyfathrebu neu anghenion yr achwynydd, unrhyw ymdrechion i gyfathrebu trwy ei gynrychiolydd (os oes un) ac a yw o'r farn bod angen gwybodaeth bellach gan yr achwynydd.

### Gwybodaeth a ddarparwyd i'r achwynydd

**18.36** Dylai'r adolygydd ystyried a yw'r canlyniad a roddir i'r achwynydd yn darparu digon o wybodaeth i egluro unrhyw ganfyddiadau, penderfyniadau a chamau a gymerwyd neu a gynigiwyd o ganlyniad. Mewn rhai sefyllfaoedd, bydd canlyniad y gŵyn yn cynnwys yr esboniad a ddarperir yn y llythyr canlyniad at yr achwynydd yn unig. Lle na wnaed hyn, gall hyn olygu nad yw'r canlyniad yn rhesymol ac yn gymesur. Fodd bynnag, dim ond pan fo'r diffygion yn golygu nad yw'n bosibl deall y canlyniad y byddai'n briodol cynnal yr adolygiad. Nid yw'n ddigonol i'r wybodaeth a ddarparwyd fod yn colli rhywbeth y gellid fod wedi'i ddarparu yn unig, neu ddim wedi cael ei hysgrifennu yn y ffordd y byddai'r adolygydd wedi'i hysgrifennu.

**18.37** Os mai'r wybodaeth nad yw wedi ei darparu i'r achwynydd yw'r unig reswm pam mae'r adolygwr yn ystyried nad yw'r canlyniad yn rhesymol a chymesur, a bod yr adolygwr yn gallu darparu'r wybodaeth sydd ar goll o'r dystiolaeth a adolygodd, dylid darparu hyn i'r achwynydd gan yr adolygwr. Er y gellir cynnal yr adolygiad ar y sail yma, ni fydd yr adolygwr angen gwneud unrhyw argymhellion pellach i daclo'r mater hwn.

## Casgliadau a phenderfyniadau

18.38 Wrth benderfynu os yw unrhyw gasgliadau neu benderfyniadau yn rhesymol a chymesur, dylai'r adolygwr yn gyntaf ystyried a wnaethpwyd unrhyw gasgliadau a phenderfyniadau parthed yr holl faterion gofynnol. Yna dylai'r adolygydd ystyried a oedd y canfyddiadau a'r penderfyniadau hynny'n rhesymol ac yn gymesur. Wrth wneud hyn, dylent ystyried, er enghraifft:

- A oedd y gŵyn wedi ei deall yn llwyr ac a ddeliwyd â'r holl honiadau neu bryderon?
- A gyflawnwyd ymholiadau rhesymol i allu darparu canlyniad rhesymol a chymesur?
- A roddwyd sylw dyledus i'r canllaw perthnasol? (er enghraifft, canllaw gweithredol, dogfen yr IOPC ar *Ganllawiau i ddelio â honiadau o wahaniaethu*, canllaw statudol yr IOPC, canllaw'r Swyddfa Gartref, canllaw'r Coleg Plismona)
- Os na ddeliwyd ag unrhyw agwedd o'r gŵyn, neu nad aethpwyd ar drywydd unrhyw linellau ymholiad, a oedd yna resymau cadarn dros hyn?
- A gafodd gwybodaeth a thystiolaeth ei bwyso a mesur yn briodol a theg?
- A yw'r casgliadau neu benderfyniadau a wnaethpwyd yn dilyn yn rhesymegol o'r wybodaeth neu dystiolaeth a gasglwyd?

## Camau a argymhellir

18.39 Wrth benderfynu a yw unrhyw gamau a argymhellir yn rhesymol a chymesur, dylai'r adolygwr ystyried:

- Pa un a roddwyd ystyriaeth ddyledus i'r profion a'r canllawiau cyfreithiol perthnasol (er enghraifft, canllawiau'r Swyddfa Gartref a'r Coleg Plismona).
- A wnaeth y sawl oedd yn delio â'r cwynion geisio deall pa ganlyniad oedd yr achwynydd yn gobeithio ei weld a rhoi ystyriaeth i hynny
- A yw'r camau arfaethedig wedi ceisio unioni'r materion a godwyd gan yr achwynydd, cyn belled â'i bod yn rhesymol bosibl
- A yw'r camau arfaethedig yn rhesymol ac yn gymesur, gan ystyried yr holl amgylchiadau.
- A yw'r camau a gynigiwyd neu a gymerwyd parthed unrhyw ddysgu neu faterion eraill a nodwyd trwy'r ymdriniaeth â'r gŵyn.

## Materion eraill a nodwyd wrth gynnal adolygiad

18.40 Weithiau wrth ystyried adolygiad, gellir nodi problemau gyda'r modd y deliwyd â chŵyn nad ydynt wedi atal canlyniad rhesymol a chymesur. Ni fyddai'r rhain yn rheswm i gynnal yr adolygiad. Fodd bynnag, dylid rhoi adborth ar faterion o'r fath i'r awdurdod priodol, yn rhan o rôl goruchwylio'r corff adolygu perthnasol. Dylai cyrff plismona lleol hefyd sicrhau bod prosesau ar waith i goladu unrhyw faterion a nodwyd wrth drin cwynion, er mwyn adnabod unrhyw dueddiadau y gellir mynd i'r afael â hwy gyda'r awdurdod priodol. Dylid nodi unrhyw faterion fel hyn i'r achwynydd fel rhan o'r penderfyniad a gânt.

## Canlyniad yr adolygiad

**18.41** Os mai corff plismona lleol yw'r corff adolygu perthnasol a'i fod yn canfod nad yw'r canlyniad yn rhesymol ac yn gymesur, gall wneud rhai argymhellion, yn dibynnu ar a yw'r gŵyn wedi'i hymchwilio neu wedi'i thrin heblaw trwy ymchwiliad. Amlinellir y rhain yn y blychau isod. Os mai'r IOPC yw'r corff adolygu perthnasol, yn ogystal â'r gallu i wneud argymhellion, mae'r IOPC yn gallu gwneud cyfarwyddiadau penodol lle mae'n canfod nad yw'r canlyniad yn rhesymol ac yn gymesur (gweler isod).

### Adolygiadau o ganlyniad cwynion yr ymdriniwyd â hwy heblaw trwy ymchwiliad

Os mai'r corff plismona lleol yw'r corff adolygu perthnasol ac mae'n canfod nad yw'r canlyniad yn rhesymol a chymesur, gall:

- argymell fod yr awdurdod priodol yn ei gyfeirio at yr IOPC, os nad yw'r gŵyn wedi ei chyfeirio'n flaenorol
- argymell fod yr awdurdod priodol yn ymchwilio i'r gŵyn
- wneud argymhelliad dan baragraff 28ZA, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* (argymhelliad gyda'r bwriad o unioni anfodlonrwydd achwynydd, gweler paragraffau 17.15-17.20)

Os mai'r IOPC yw'r corff adolygu perthnasol ac mae'n canfod nad yw'r canlyniad yn rhesymol a chymesur, gall:

- bennu ei bod yn angenrheidiol ymchwilio i'r gŵyn
- wneud argymhelliad dan baragraff 28ZA, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* (argymhelliad gyda'r bwriad o unioni anfodlonrwydd achwynydd, gweler paragraffau 17.15-17.20)

Paragraff 6A, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

## Adolygiadau o ganlyniad cwynion yr ymchwiliwyd iddynt

Pan, yn dilyn ymchwiliad lleol, os mai'r corff plismona lleol yw'r corff adolygu perthnasol ac mae'n canfod nad yw'r canlyniad yn rhesymol, gan ddilyn, a chymesur, gall:

- argymell fod yr awdurdod priodol yn ail-ymchwilio i'r gŵyn
- os nad yw'r gŵyn wedi ei chyfeirio'n flaenorol i'r IOPC, argymell fod yr awdurdod priodol yn ei chyfeirio at yr IOPC
- wneud argymhelliad i'r awdurdod priodol parthed unrhyw berson sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu: o fod gan y person achos i'w ateb parthed camymddygiad neu gamymddygiad difrifol, neu ddim achos i'w ateb parthed ymddygiad y person y mae'r ymchwiliad yn gysylltiedig iddo
    - fod perfformiad y person yn, neu nad yw'n, foddhaol
    - y dylid dwyn gweithdrefnau disgyblu o'r math a ddynodir yn yr argymhelliad yn erbyn y person mewn perthynas ag ymddygiad, effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd y person y mae'r ymchwiliad yn berthnasol iddo
    - y dylid addasu unrhyw weithdrefnau disgyblu yn erbyn y person hwnnw er mwyn delio gydag agweddau o'r ymddygiad, effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd hwnnw fel y dynodir
- wneud argymhelliad dan baragraff 28ZA, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* (argymhelliad gyda'r bwriad o unioni anfodlonrwydd achwynydd, gweler paragraffau 17.15-17.20)
- gwneud argymhelliad y dylai'r awdurdod priodol ddarparu copi o'r adroddiad i'r CPS a'u hysbysu bod y corff plismona lleol o'r farn bod yr adroddiad yn awgrymu bod digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn am drosedd droseddol yn erbyn person y mae'r ymchwiliad wedi ymwneud â'i ymddygiad, ac maent yn ystyried ei fod yn briodol i'r materion gael eu hystyried gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Wrth wneud y penderfyniad i wneud yr argymhelliad hwn, rhaid rhoi ystyriaeth i'r *Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron* (gweler paragraffau XX.XX-XX.XX am ragor o wybodaeth ynghylch gwneud yr argymhelliad hwn), i'r graddau y bernir ei fod yn berthnasol. Rhaid hefyd gyfeirio'r mater at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i gael penderfyniad ynghylch cyhuddo os yw'r materion yr ymdrinnir â hwy yn yr adroddiad yn dod o fewn unrhyw gategori rhagnodedig o faterion.

Paragraff 25, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

Os, yn dilyn ymchwiliad, mai'r IOPC yw'r corff adolygu perthnasol ac mae'n canfod nad yw'r canlyniad yn ganlyniad rhesymol a chymesur, gall:

- wneud ei gasgliadau ei hun (yn lle, neu yn atodol i, gasgliadau'r ymchwiliad)
- cyfarwyddo bod y gŵyn yn cael ei hail-ymchwilio, a phennu'r dull ymchwilio (gweler paragraff 9.49)
- wneud argymhelliad (ac os yn angenrheidiol, cyfarwyddyd) i'r awdurdod priodol parthed unrhyw berson sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu:
    - fod gan y person achos i'w ateb parthed camymddygiad neu gamymddygiad difrifol, neu ddim achos i'w ateb parthed ymddygiad y person y mae'r ymchwiliad yn gysylltiedig iddo
    - fod perfformiad y person yn, neu nad yw'n, foddhaol
    - y dylid dwyn gweithdrefnau disgyblu o'r math a ddynodir yn yr argymhelliad yn erbyn y person mewn perthynas ag ymddygiad, effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd y person y mae'r ymchwiliad yn berthnasol iddo
    - y dylid addasu unrhyw weithdrefnau disgyblu yn erbyn y person hwnnw er mwyn delio gydag agweddau o'r ymddygiad, effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd hwnnw fel y dynodir
- wneud argymhelliad dan baragraff 28ZA, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* (argymhelliad gyda'r bwriad o unioni anfodlonrwydd achwynydd, gweler paragraffau 17.15-17.20)
- hysbysu'r CPS ei fod o'r farn bod yr adroddiad yn dangos bod digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn am drosedd droseddol yn erbyn person y mae'r ymchwiliad wedi ymwneud â'i ymddygiad, a'i fod yn ystyried ei bod yn briodol i'r materion gael eu hystyried gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Rhaid i'r penderfyniad hwn roi ystyriaeth i'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, i'r graddau y bernir ei fod yn berthnasol. Bydd IOPC hefyd yn darparu copi o'r adroddiad. Rhaid hefyd gyfeirio'r mater at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i gael penderfyniad ynghylch cyhuddo os yw'r materion yr ymdrinnir â hwy yn yr adroddiad yn dod o fewn unrhyw gategori rhagnodedig o faterion.

Paragraffau 25 a 26, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

**18.42** Ar gyfer y penderfyniadau hyn, mae'r term 'achos disgyblu' yn cynnwys, ar gyfer aelodau'r heddlu neu gwnstabliaid rhan amser, achos o dan Reoliadau (Perfformiad) yr Heddlu 2020, yn ogystal ag unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 (ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol, yn unol â Rhan 6 o'r rheoliadau hynny). Ar gyfer unrhyw berson arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, mae'n cynnwys unrhyw achos neu broses reoli pan ystyrir bod ymddygiad yr unigolyn hwnnw ac unrhyw achos neu broses reoli pan ystyrir perfformiad yr unigolyn hwnnw.

**18.43** Wrth ystyried gwneud argymhellion mewn perthynas ag ymddygiad, perfformiad neu gyfeirio'r mater yr ymdrinnir ag ef o dan y Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol, dylai'r corff adolygu perthnasol roi sylw i ganllawiau'r Swyddfa Gartref a'r Coleg Plismona.

**18.44** Dylai unrhyw benderfyniad gan gorff adolygu perthnasol ynghylch a ddylid argymell bod y CPS yn cael ei hysbysu gael ei wneud yng ngoleuni canfyddiadau'r adolygiad a'r dystiolaeth a gasglwyd wrth ymdrin â'r gŵyn. Dylid hefyd ystyried y rhesymau a roddwyd gan yr awdurdod priodol am beidio cyfeirio'r adroddiad i'r CPS i ystyriaeth. Bydd angen rhesymeg lawn gan y corff adolygu perthnasol os bydd yn penderfynu peidio argymell gwneud atgyfeiriad i'r CPS, er bod yr adroddiad yn awgrymu bod digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn am drosedd droseddol yn erbyn person y mae'r ymchwiliad wedi ymwneud â'i ymddygiad.

## Hysbysiadau o'r canlyniad

**18.45** Wedi ystyried adolygiad, rhaid i'r corff adolygu perthnasol hysbysu'r canlynol o ganlyniad yr adolygiad, a'r rhesymau dros ei benderfyniad[154]:

- yr awdurdod priodol
- yr achwynydd
- unrhyw un sydd â diddordeb
- y sawl yr achwynwyd yn ei erbyn (os oes), oni bai y byddai'n niweidio ymchwiliad neu ail ymchwiliad i'r gŵyn (gellir gwneud hysbysiad trwy'r awdurdod priodol)

**18.46** Dylid cyfathrebu'r canlyniad yn ysgrifenedig (a thrwy ddulliau eraill ble fo'n briodol, gan ystyried unrhyw anghenion neu geisiadau penodol) a dylid defnyddio iaith glir, gan osgoi defnyddio jargon ble bynnag fo'n bosibl. Dylid darparu digon o wybodaeth i alluogi derbynwyr i ddeall pa benderfyniadau ac argymhellion a wnaed, a pham.

**18.47** Pan fydd y corff adolygu perthnasol yn argymell (neu yn achos yr IOPC, yn cyfarwyddo) ymchwilio neu ail-ymchwilio, mae'n arfer da amlinellu'r hyn y mae'r adolygydd yn ystyried y dylid rhoi sylw iddo. Mae hyn yn egluro i'r achwynydd a'r sawl sy'n delio â'r gŵyn beth i'w ddisgwyl gan yr ymchwiliad neu ail ymchwiliad.

## Ymatebion awdurdod priodol i ganlyniadau adolygiad

**18.48** Pan fo'r IOPC wedi gwneud cyfarwyddiadau, rhaid i'r awdurdod priodol gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hynny.

**18.49** Lle mae argymhellion wedi'u gwneud gan y corff plismona lleol (neu gan yr IOPC o dan baragraff 28ZA), rhaid i'r awdurdod priodol ystyried yr argymhelliad ac ymateb yn

[154] Paragraff 6A, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*; Paragraff 25, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*.

ysgrifenedig cyn pen 28 diwrnod (gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod y gwnaed yr argymhelliad)[155]. Rhaid i'r ymateb gan yr awdurdod priodol gynnwys[156]:

- a ydynt yn derbyn yr argymhelliad;
- os felly, y camau maent yn awgrymu eu cymryd i weithredu'r argymhelliad;
- os nad ydynt, pam.

**18.50** Os nad yw'r awdurdod priodol yn cytuno â'r argymhelliad rhaid iddo ddarparu rhesymeg glir pam na fydd yn cael ei ddilyn. Felly mae'n bwysig bod y rhesymau dros unrhyw argymhellion a wneir yn cael eu hamlinellu'n glir gan y corff adolygu perthnasol. Efallai y bydd yr awdurdod priodol am drafod unrhyw argymhellion a wneir gyda'r adolygydd cyn penderfynu a ddylid eu derbyn. Hyd yn oed pan anghytunir â'r argymhelliad fel y'i gwnaed, gall yr awdurdod priodol, ar ôl ystyried y rhesymeg, gynnig dewis arall. Y disgwyl yw y cydymffurfir ag argymhellion, oni bai bod rheswm da.

**18.51** Rhaid i'r sawl sy'n gwneud yr argymhelliad anfon copi ohono a'r ymateb at:

- yr achwynydd
- unrhyw un sydd â diddordeb; a'r
- y person y cwynwyd yn ei erbyn (os oes), oni bai bod y person sy'n gwneud yr argymhelliad o'r farn y gallai gwneud hynny niweidio unrhyw ymchwiliad (gan gynnwys unrhyw ymchwiliad troseddol)

**18.52** Gall yr IOPC neu gorff plismona lleol hefyd ymestyn y terfyn amser ar gyfer ymateb.

**18.53** Ar gyfer canllaw ar ymateb i argymhellion dysgu sefydliadol a wnaed gan yr IOPC, gweler paragraffau 17.33 i 17.37. Pan fo argymhelliad wedi'i wneud gan yr IOPC, ac eithrio argymhelliad o dan baragraff 28ZA, rhaid i'r awdurdod priodol hysbysu'r IOPC a yw'n derbyn yr argymhelliad ac (os yw'n gwneud hynny) nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i roi grym iddo[157]. Mae'r IOPC yn disgwyl ymateb cyn pen 28 diwrnod (gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod y gwnaed yr argymhelliad). Os na fydd yr awdurdod priodol yn derbyn yr argymhelliad (neu'n derbyn yr argymhelliad ond yn methu â chymryd camau priodol), gall yr IOPC wneud cyfarwyddyd[158]. Rhaid i'r awdurdod priodol hysbysu'r IOPC o ba gamau bynnag y mae'n eu cymryd mewn ymateb i argymhelliad neu gyfarwyddyd.

[155]Rheoliad 30, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020
[156]Rheoliad 30, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020
[157] Paragraff 25, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*
[158] Paragraff 27, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

# Atodiadau

# Atodiad A

## Canllawiau atodol ar drin materion yn ymwneud â gweithredoedd prif swyddogion

**A.1** Mae'r atodiad hwn yn nodi:

- yr awdurdod priodol
- cofnodi ac ymdrin â chwynion ar y dechrau
- cofnodi materion ymddygiad
- atgyfeiriadau
- ymdrin â materion o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*
- adolygiadau a'r corff adolygu perthnasol

**A.2** Mae'r atodiad hwn yn amlinellu rhai ystyriaethau penodol ar gyfer delio â mater sy'n ymwneud â gweithredoedd prif swyddog[153] (neu brif swyddogion dros dro, mewn rhai achosion), yn hytrach na mater sy'n ymwneud ag ymddygiad person arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu. Ni fwriedir iddo fod yn rhestr gynhwysfawr o bopeth y bydd angen i awdurdod priodol ei ystyried. Yn ychwanegol at yr atodiad hwn, rhaid i'r awdurdod priodol roi sylw i brif gorff y canllaw hwn.

### Awdurdod priodol

**A.3** Yr awdurdod priodol ar gyfer cwyn neu fater ymddygiad cofnodadwy sy'n ymwneud ag ymddygiad prif swyddog neu brif swyddog dros dro yw'r corff plismona lleol sydd â chyfrifoldeb am yr ardal heddlu honno. Ar gyfer y rhan fwyaf o ardaloedd, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu lleol yw hwnnw[154].

**A.4** Y corff plismona lleol hefyd yw'r awdurdod priodol ar gyfer mater DSI lle mai'r prif swyddog neu'r prif swyddog dros dro yw'r swyddog perthnasol[155]. Ystyr y 'swyddog perthnasol' mewn perthynas â mater DSI yw'r person sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu:

- a arestiodd y person sydd wedi marw neu a gafodd anaf difrifol
- pwy oedd yn dal y person hwnnw adeg y farwolaeth neu'r anaf difrifol, neu
- gyda phwy gafodd y person sydd wedi marw neu a gafodd anaf difrifol gysylltiad[156]

Os oes mwy nag un swyddog o'r fath, mae 'swyddog perthnasol' yn cyfeirio at yr un a ddeliodd â'r person ddiwethaf, cyn i'r farwolaeth neu anaf difrifol ddigwydd. Lle na ellir penderfynu pa un o ddau neu fwy o bobl sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu a ddeliodd â pherson ddiwethaf cyn i farwolaeth neu anaf difrifol ddigwydd, y swyddog perthnasol yw'r uchaf ohonynt[159].

---

[159]Adran 29, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*.

## Cofnodi ac ymdrin â chwynion ar y dechrau

**A.5** Nid yw delio â chwynion am weithredoedd prif swyddog neu brif swyddog dros dro yn cael ei effeithio gan y model ar gyfer trin cyfranogiad posib gan bersonél eraill yn eu llu y mae'r corff heddlu lleol wedi'i ddewis (gweler paragraff 1.27). Rhaid i'r corff plismona lleol ddilyn y prosesau a nodir ym Mhennod 6.

**A.6** Weithiau gall mater gynnwys mwy nag un awdurdod priodol er ei fod yn ymwneud â phobl sydd i gyd yn yr un llu heddlu. Er enghraifft, gall y mater gynnwys honiadau a gyfeiriwyd at y prif swyddog a safleoedd neu bersonél eraill. Yr awdurdod priodol ar gyfer y prif swyddog yw'r corff plismona lleol, a'r awdurdod priodol ar gyfer y safleoedd neu'r personél eraill yw'r prif swyddog. Yn yr amgylchiadau hyn, rhaid trosglwyddo rhannau perthnasol y gŵyn rhwng y llu heddlu a'r corff plismona lleol fel bod y corff cywir yn delio â nhw.

**A.7** Weithiau bydd achwynydd yn enwi'r prif swyddog neu'r prif swyddog dros dro, ond mae'r gŵyn mewn gwirionedd yn ymwneud â rhywbeth lle mae awdurdod wedi'i ddirprwyo i swyddog neu aelod o staff arall yn yr heddlu. Pan fydd y corff plismona lleol yn cael cwyn ac nad ef yw'r awdurdod priodol ar ei chyfer, rhaid iddynt anfon y gŵyn ymlaen at yr awdurdod priodol[160]. Felly, lle mae'n amlwg ar unwaith nad yw'r prif swyddog neu'r prif swyddog dros dro wedi cael unrhyw gysylltiad, rhaid i'r corff plismona lleol ddilyn y camau a amlinellir ym mharagraffau 6.5 - 6.7. Dylent esbonio'r rhesymau am hyn i'r achwynydd.

## Cofnodi materion ymddygiad

**A.8** Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 8, rhaid i'r awdurdod priodol gofnodi'r holl faterion ymddygiad sy'n ymwneud ag ymddygiad prif swyddog (neu Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu Metropolitan)[161]. Y diffiniad o fater ymddygiad yw unrhyw fater nad yw, ac na fu, yn destun cwyn, lle mae arwydd (boed o'r amgylchiadau neu fel arall) y gall unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu fod wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau camau disgyblu[162]. Gweler paragraffau 10.7 - 10.8 i gael arweiniad

ar benderfynu a oes arwydd. Gellir gofyn am gyngor ynghylch a yw mater yn cwrdd â'r diffiniad o fater ymddygiad gan yr IOPC.

## Atgyfeiriadau

**A.9** Rhaid i'r awdurdod priodol gyfeirio at yr IOPC unrhyw gwynion sy'n ymwneud â phrif swyddog (neu Ddirprwy Gomisiynydd y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan) lle nad yw'r awdurdod priodol yn gallu bodloni ei hun, na fyddai'r ymddygiad y cwynwyd amdano, pe

---

160 Paragraff 2, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

161 Paragraffau 10, 11 ac 13, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*; Rheoliad 7, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

162 Adran 12, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* Yn yr achos hwn, mae achos disgyblu yn golygu unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol. Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol.

bai'n cael ei brofi, yn cyfiawnhau dwyn achos troseddol neu gamau disgyblu[163]. Dylai'r prawf hwn fod yn seiliedig ar sylwedd y gŵyn yn unig, nid ar deilyngdod ymddangosiadol yr honiadau ac ni ddylai'r awdurdod priodol gymryd unrhyw gamau ymchwilio rhagarweiniol[164]. Dylai'r awdurdod priodol roi sylw i ganllawiau'r Coleg Plismona ar ganlyniadau wrth wneud yr asesiad hwn.

**A.10** Rhaid i'r awdurdod priodol gyfeirio at yr IOPC unrhyw fater ymddygiad sy'n ymwneud â phrif swyddog (neu Ddirprwy Gomisiynydd y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan) (gweler paragraff A.8). Rhaid cyfeirio pob mater DSI at yr IOPC.

**A.11** Pan gyfeirir mater ymddygiad at yr IOPC sy'n ymwneud â phrif swyddog (neu Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu Metropolitan) neu fater DSI lle mai'r prif swyddog (neu Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu Metropolitan) yw'r swyddog perthnasol, bydd yr IOPC yn penderfynu ai ymchwiliad dan gyfarwyddyd neu annibynnol yw'r mwyaf priodol [165].

**A.12** Pan gyfeirir cwyn ynghylch prif swyddog (neu Ddirprwy Gomisiynydd y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan) ati, bydd yr IOPC yn penderfynu yn gyntaf a oes arwydd y gallai'r prif swyddog (neu Ddirprwy Gomisiynydd y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan) fod wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n cyfiawnhau dwyn achos disgyblu. Os oes, mae'n ofynnol i'r IOPC benderfynu ar ymchwiliad cyfeiriedig neu annibynnol[166].

**A.13** Yn yr un modd â phob atgyfeiriad, gall yr awdurdod priodol ofyn am gyngor yr IOPC ynghylch a yw mater yn cwrdd â'r trothwy ar gyfer atgyfeirio.

**A.14** Pan fydd mater yn ymwneud â gweithredoedd prif swyddog ac unigolion eraill sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, bydd angen i bob awdurdod priodol (lle bo hynny'n briodol) wneud atgyfeiriadau ar wahân. Nid yw'r ffaith bod rhan o fater yn ymwneud

â gweithredoedd prif swyddog yn golygu bod gweithredoedd unigolion cysylltiedig eraill sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu yn gyfeiriadwy. Efallai na fydd gweithredoedd y personél hynny yn gyfeiriadwy yn orfodol ar unrhyw sail arall. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mharagraff 9.32, lle mae'r amgylchiadau'n annatod yn gysylltiedig, ar gyfer y rhan o'r mater nad yw'n gyfeiriadwy yn orfodol, caiff yr awdurdod priodol benderfynu cyfeirio'r mater yn wirfoddol at yr IOPC. Bydd hyn yn cefnogi'r IOPC i ystyried yr amgylchiadau llawn.

## Ymdrin â materion o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*

**A.15** Fel gydag unrhyw fater, os nad yw'r IOPC yn cynnal ymchwiliad, rhaid i'r awdurdod priodol ystyried beth yw'r ffordd resymol a chymesur i ymdrin ag ef. Pan fo mwy nag un awdurdod

---

[163] Rheoliad 4, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 Yn yr achos hwn, mae achos disgyblu yn golygu unrhyw achos o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol. Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol.

[164] Fodd bynnag, rhaid i'r corff heddlu lleol fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau i gadw tystiolaeth a nodir ym Mharagraffau 1, 12 a 14B, o Atodlen 3 o, *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, a *chanllawiau statudol i'r heddlu ar gyflawni'r dystiolaeth orau mewn materion o farwolaeth neu anaf difrifol* yr IOPC.

[165] Rheoliad 8 a 10 Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

[166] Rheoliad 5, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

OFFICIAL SENSITIVE

priodol yn gysylltiedig, dylid ystyried y cymhlethdodau ychwanegol y mae hyn yn eu hachosi. Dylai'r awdurdodau priodol sicrhau bod cyfathrebiadau ag unrhyw achwynydd neu bobl â diddordeb yn gydlynol ac wedi'u gosod allan yn glir.

**A.16** Pan fydd yr awdurdodau priodol yn penderfynu mai un ymchwiliad i'r mater yw'r dull gweithredu mwyaf priodol, gallant benderfynu bod llu heddlu gwahanol yn cynnal yr ymchwiliad. Er bod un ymchwiliad yn cael ei gynnal, bydd yn rhaid i'r penderfyniadau sydd angen i'r awdurdod priodol eu gwneud, gael eu gwneud o hyd gan yr awdurdodau priodol priod - h.y. y corff plismona lleol ar gyfer y prif swyddog neu'r prif swyddog dros dro, a'r prif swyddog ar gyfer safleoedd neu bersonél eraill.

**A.17** Ar ddiwedd ymdrin â'r mater cyffredinol, dylid ystyried y ffordd orau o gyfleu'r canlyniad i'r rhai dan sylw - er enghraifft, yn achos cwyn, gallai fod yn briodol cyfuno'r penderfyniadau a gymerir gan bob awdurdod priodol yn un llythyr penderfyniad at yr achwynydd.

**A.18** Mae ymchwiliad i brif swyddog yn cynnwys gofynion penodol, yn ychwanegol at y rhai y mae'r blwch ar dudalen 83 yn eu hamlinellu, ynghylch pwy y gellir ei benodi'n ymchwilydd. Y gofynion hyn yw[167]:

- pan fo ymchwiliad yn ymwneud ag ymddygiad prif swyddog neu fater DSI y maent yn swyddog perthnasol ynddo, rhaid i'r ymchwilydd beidio â bod o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y prif swyddog hwnnw

- pan fo ymchwiliad yn ymwneud ag ymddygiad Comisiynydd neu Ddirprwy Gomisiynydd y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan neu â mater DSI y maent yn swyddog perthnasol ynddo, rhaid i'r ymchwilydd gael ei enwebu gan yr Ysgrifennydd Cartref.

**A.19** Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 17 paragraffau 17.15 - 17.20, mae gan y corff plismona lleol bwerau ychwanegol hefyd i argymell datrysiad ar ddiwedd ymchwiliad y mae wedi'i gynnal fel awdurdod priodol.

## Adolygiadau a'r corff adolygu perthnasol

**A.20** Pan fo'r awdurdod priodol yn gorff plismona lleol, neu lle mae unrhyw ran o'r gŵyn sy'n ddarostyngedig i'r cais am adolygiad yn ymwneud ag ymddygiad uwch swyddog, yr IOPC fydd y corff adolygu perthnasol.

[167] Paragraff 16 ac 18, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*; Rheoliad 12, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

OFFICIAL SENSITIVE

# Atodiad B

## Canllawiau atodol ar ymdrin â materion sy'n ymwneud ag unigolion nad ydynt bellach yn gwasanaethu gyda'r heddlu

**B.1** Mae'r atodiad hwn yn nodi:

- Ymdrin â materion lle mae'r unigolyn wedi rhoi'r gorau i wasanaethu ar neu ar ôl 15 Rhagfyr 2017. Yn benodol:
  - yr awdurdod priodol o cofnodi ac ymdrin â chwynion ar y dechrau o cofnodi materion ymddygiad o atgyfeiriadau o ymdrin â materion o dan Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 o pan fydd unigolyn yn rhoi'r gorau i wasanaethu yn ystod y broses o ymdrin â'r mater
  - gweithdrefnau disgyblu ar gyfer cyn-swyddogion
- Ymdrin â materion lle mae'r unigolyn wedi rhoi'r gorau i wasanaethu cyn 15 Rhagfyr 2017.

**B.2** Mae'r atodiad hwn yn amlinellu lle mae ystyriaethau ychwanegol ar gyfer trin mater sy'n ymwneud ag unigolyn nad yw'n gwasanaethu gyda'r heddlu mwyach, yn hytrach na mater sy'n ymwneud ag ymddygiad person sy'n dal i wasanaethu gyda'r heddlu.

**B.3** Rhaid i awdurdodau priodol roi sylw i'r canllaw hwn, ac i ganllawiau'r Swyddfa Gartref, *Ymddygiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd: canllawiau statudol ar safonau proffesiynol, perfformiad ac uniondeb mewn plismona*. Dylid ymdrin â phob mater yn rhesymol ac yn gymesur, ni waeth a yw unrhyw unigolyn dan sylw bellach yn gwasanaethu gyda'r heddlu.

### Ymdrin â materion lle mae'r unigolyn wedi rhoi'r gorau i wasanaethu ar neu ar ôl 15 Rhagfyr 2017

**B.4** Mae Atodlen 2 i Reoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020 yn addasu *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*, a Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020. Mae Atodlen 1 i Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu yn addasu Rheoliadau (Ymddygiad) yr

Heddlu 2020[168]. Pwrpas yr addasiadau hyn yw caniatáu i broses ddisgyblu ddigwydd lle mae swyddog heddlu neu gwnstabl rhan amser wedi rhoi'r gorau i wasanaethu gyda'r heddlu, ond mae ganddo achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol. Mae'r newidiadau hyn yn

[168] Gellir dod o hyd i ganllawiau ar drin materion o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 yng nghanllawiau'r Swyddfa Gartref Ymddygiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd: cyfarwyddyd statudol ar safonau proffesiynol, perfformiad ac uniondeb mewn plismona.

berthnasol i swyddogion a chwnstabliaid rhan amser a orffennodd gweithio ar neu ar ôl 15 Rhagfyr 2017 yn unig.

**B.5** Gan mai dim ond pan all y mater fod yn gamymddwyn difrifol y gellir dwyn achos disgyblu, yr unig achosion disgyblu y gellir eu dwyn i gyn-swyddog yw gwrandawiad camymddwyn neu wrandawiad carlam ar gyfer camymddwyn (“achos disgyblu perthnasol”). Wrth ystyried a oes arwydd o ymddygiad sy’n 'cyfiawnhau achos disgyblu' ar gyfer cyn-swyddog, mae angen ystyried felly a yw'r ymddygiad, os yw’n cael ei brofi, yn ddigon difrifol i fod wedi cyfiawnhau diswyddo (pe na bai'r unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o’r heddlu neu’n gwnstabl rhan amser). Mae hyn yn effeithio ar rai o'r penderfyniadau sydd i'w gwneud o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Mae yna hefyd rai newidiadau i'r weithdrefn ar gyfer ymchwiliad sy'n ymwneud â chyn-swyddog, a newidiadau i'r farn y dylid ei rhoi yn yr adroddiad terfynol.

**B.6** Mae’r addasiadau a restrir uchod yn cael yr effaith bod yr holl gyfeiriadau at ‘camymddwyn’, yn hytrach na ‘camymddwyn difrifol’ yn cael eu hepgor, ynghyd â chyfeiriadau at ‘cyfarfodydd camymddwyn’. Er enghraifft, ar gyfer swyddogion a orffenodd gwasanaethu ar neu ar ôl 15 Rhagfyr 2017, mae’r diffiniad o ‘achos disgyblu’ yn cael ei newid i gyfeirio at wrandawiadau camymddwyn yn unig, neu wrandawiadau camymddwyn carlam[169].

**B.7** Yn ogystal, dylid darllen *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* a Rheoliadau (Cwynion a Chamymddwyn) yr Heddlu 2020 fel pe bai'r person nad yw'n gwasanaethu mwyach yn dal yn y swydd y buont yn gwasanaethu ynddi ddiwethaf[170]. Er enghraifft, wrth ystyried pwy y gellir ei benodi'n ymchwilydd (gweler y blwch uwchben paragraff 13.5).

### Awdurdod priodol

**B.8** Yr awdurdod priodol i berson nad yw'n gwasanaethu gyda'r heddlu mwyach yw prif swyddog y llu heddlu yr oedd y person yn aelod ohono yn union cyn gorffen gwasanaethu[171]. Os oedd y cyn-swyddog yn brif swyddog, yr awdurdod priodol yw'r corff plismona lleol ar gyfer yr ardal heddlu yr oeddent yn brif swyddog arni yn union cyn iddynt orffen gwasanaethu.

### Cofnodi ac ymdrin â chwynion ar y dechrau

**B.9** Os yw cwyn yn gysylltiedig â gweithredoedd unigolyn nad yw'n gwasanaethu gyda'r heddlu mwyach, nid yw hyn yn golygu na ddylid ei drin yn yr un modd ag unrhyw gŵyn

arall i ddechrau. Wrth ystyried a yw’r gŵyn yn un y mae’n rhaid ei chofnodi, rhaid i’r awdurdod priodol ystyried ystyr addasedig ‘achos disgyblu’ ac a yw’r gŵyn yn honni ymddygiad gan y cyn-swyddog a fyddai’n cyfiawnhau gwrandawiad camymddwyn.

**B.10** Fodd bynnag, mae'r IOPC o'r farn y byddai hefyd yn briodol cofnodi materion a fyddai fel arall wedi cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cofnodi pe bai'r unigolyn wedi bod yn

---

169 Rheoliad 2, Rheoliadau’r Heddlu (Ymddygiad) 2020 fel y’i diwygiwyd gan Atodlen 1, Rheoliadau’r Heddlu (Ymddygiad) 2020.

170 Rheoliad 42, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

171 Rheoliad 42, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

gwasanaethu o hyd - h.y. lle mae'r honiad yn un a allai, pe bai'n cael ei brofi, fod yn camymddwyn pe bai'r unigolyn yn dal i fod yn gwasanaethu gyda'r heddlu.

### Cofnodi materion ymddygiad

**B.11** Gan mai dim ond ar gyfer materion camymddwyn difrifol y gellir cynnal achos disgyblu, mae hyn yn effeithio ar yr hyn a fydd yn cael ei nodi fel mater ymddygiad. Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ar hyn yng Nghanllawiau'r Swyddfa Gartref *Ymddygiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd: cyfarwyddyd statudol ar safonau proffesiynol, perfformiad ac uniondeb mewn plismona*.

**B.12** Ar ôl i fater ymddygiad gael ei adnabod, rhaid i'r awdurdod priodol ystyried a yw'n fater ymddygiad cofnodadwy. I berson nad yw'n gwasanaethu gyda'r heddlu mwyach, mae'r broses hon yn wahanol mewn un ffordd:

- trosedd neu ymddygiad a fyddai'n debygol o arwain at achos disgyblu ac sydd, yn y naill achos, yn cael ei waethygu gan ymddygiad gwahaniaethol ar sail hil, rhyw, crefydd neu statws arall unigolyn yn unol â pharagraff 9.24 o'r canllaw hwn

Bydd angen i'r awdurdod priodol ystyried a fyddai'r ymddygiad yn debygol o arwain at wrandawiad camymddwyn.

**B.13** Fodd bynnag, lle byddai mater ymddygiad wedi cwrdd â'r maen prawf hwn ar gyfer cofnodi pe bai'r swyddog wedi bod yn gwasanaethu o hyd, dylai'r awdurdod priodol ystyried a yw'n dod o fewn y categori 'ymddygiad y mae ei ddifrifoldeb neu amgylchiadau eithriadol eraill yn ei gwneud hi'n briodol cofnodi'r mater y mae'r ymddygiad yn gysylltiedig ag ef'.

### Atgyfeiriadau

**B.14** Yr unig faen prawf atgyfeirio gorfodol sy'n cael ei effeithio gan y ffaith nad yw person yn gwasanaethu mwyach yw:

- trosedd neu ymddygiad a fyddai'n debygol o arwain at achos disgyblu ac sydd, yn y naill achos, yn cael ei waethygu gan ymddygiad gwahaniaethol ar sail hil, rhyw, crefydd neu statws arall unigolyn yn unol â pharagraff 9.24 o'r canllaw hwn

Bydd angen i'r awdurdod priodol ystyried a fyddai'r ymddygiad honedig yn debygol o arwain at wrandawiad camymddwyn.

**B.15** Fodd bynnag, lle byddai cwyn neu fater ymddygiad cofnodadwy wedi cwrdd â'r maen prawf atgyfeirio hwn pe bai'r unigolyn wedi bod yn gwasanaethu o hyd, dylai'r awdurdod priodol ystyried a yw atgyfeiriad gwirfoddol i'r IOPC yn briodol.

### Ymdrin â materion o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*

**B.16** Yr unig faen prawf ar gyfer penderfynu a oes rhaid ymchwilio i fater (gweler paragraffau 10.5 - 10.6), yr effeithir arno gan yr ystyr ddiwygiedig o 'achos disgyblu' yw:

- Unrhyw gŵyn lle mae arwydd, naill ai o'r gŵyn ei hun neu o ymdrin â'r gŵyn hyd yn hyn y gallai unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu fod wedi cyflawni trosedd neu wedi ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau dwyn achos disgyblu

Fodd bynnag, gall yr awdurdod priodol benderfynu o hyd, lle byddai cwyn wedi cwrdd â'r diffiniad heb ei addasu pe bai'r unigolyn yn dal i wasanaethu, ei bod yn rhesymol ac yn gymesur ymchwilio i'r gŵyn.

**B.17** Dylai'r person sy'n trin y mater ystyried yr egwyddorion a amlinellir ym mharagraffau 11.26 - 11.27. Pan na fydd y mater yn cael ei ymchwilio o dan weithdrefnau arbennig, gellid gwahodd y cyn-swyddog i ddod i gyfweliad o'i wirfodd, neu ymateb i restr o gwestiynau ysgrifenedig.

### Ymchwiliadau

**B.18** Wrth ystyried a ddylai ymchwiliad i DSI ddod yn fater ymddygiad, mae'r prawf i'w gymhwyso gan yr ymchwilydd, ac wedi hynny'r awdurdod priodol, yn cael ei effeithio gan y newid i'r diffiniad o achos disgyblu, h.y. mae angen ystyried a fyddai'r ymddygiad yn debygol o arwain at wrandawiad camymddwyn.

**B.19** Wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn o dan weithdrefnau arbennig (gweler paragraffau 13.20 - 13.24), rhaid i'r ymchwilydd gymhwyso'r diffiniad diwygiedig o 'achos disgyblu'.

**B.20** Wrth ymchwilio i gŵyn neu fater ymddygiad cofnodadwy, sy'n gysylltiedig â chynswyddog, o dan weithdrefnau arbennig mae'r asesiad difrifoldeb i'w gymhwyso yn cael ei ddiwygio fel yr isod.

Mae asesiad difrifoldeb yn asesiad o:

- a fyddai ymddygiad y person dan sylw, pe bai'n cael ei brofi, yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol.

Rheoliad 1, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 fel y'i haddaswyd gan Atodlen 2, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

**B.21** Lle nad yw mater yn cael ei ymchwilio o dan weithdrefnau arbennig oherwydd na fyddai'r ymddygiad, os yw'n cael ei brofi, yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol, bydd fel arfer yn briodol rhoi rhyw fath o hysbysiad i'r unigolyn dan sylw i'w hysbysu, er nad yw ar hyn o bryd yn ystyried y byddai'r ymddygiad, os yw'n cael ei brofi, yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol, y bydd hynny'n cael ei adolygu'n gyson.

**B.22** Ble mae cyn swyddog dan ymchwiliad am gamymddwyn difrifol, dylid ei ddarparu â chopi o gylch gorchwyl yr ymchwiliad a hysbysiad ysgrifenedig yn yr un modd, ac yn ddarostyngedig i'r un eithriadau, â swyddog sy'n gwasanaethu. Fodd bynnag, mae'r gofynion ar gyfer cynnwys yr hysbysiad ysgrifenedig ychydig yn wahanol.

Rhaid i'r hysbysiad ddatgan:

- yr ymddygiad sy'n destun y cyhuddiad a sut yr honnir i'r ymddygiad hwnnw fod islaw'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol;
- y bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r mater a phwy yw'r sawl sy'n ymchwilio;
- canlyniad yr asesiad difrifoldeb;
- os profir yr honiad o gamymddwyn difrifol, gall y person dan sylw fod yn destun canfyddiad y byddai'r unigolyn wedi'i ddiswyddo pe na bai'r person wedi peidio â bod yn aelod o'r heddlu neu'n gwnstabl rhan amser;
- os yw'r person dan sylw yn ddarostyngedig i ganfyddiad o'r fath, bydd gwybodaeth gan gynnwys enw llawn y person a disgrifiad o'r ymddygiad a fyddai wedi arwain at ddiswyddo'r unigolyn yn cael ei hychwanegu at restr waharddedig yr heddlu (y cyfeirir ati yn adran 88B(2) o Ddeddf yr Heddlu 1996) a gall fod yn destun cyhoeddi am gyfnod o hyd at bum mlynedd;
- fod gan y person dan sylw hawl i ofyn am gyngor gan gymdeithas staff yr unigolyn, cyfaill yr heddlu neu unrhyw gorff arall;
- effaith rheoleiddiad 18 - Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 (gweithdrefn arbennig: cyfaill i'r heddlu);
- effaith rheoleiddiad 20 Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 (gweithdrefn arbennig: sylwadau i'r sawl sy'n ymchwilio) a rheoleiddiad 8 Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 (cynrychiolaeth gyfreithiol ac arall);
- y gallai niweidio achos yr unigolyn os yw'r person yn methu â mynd i gyfweliad y mae'r person wedi cael rhybudd ohono, a
- tra nad oes rhaid i'r person dan sylw ddweud unrhyw beth, fe allai niweidio achos yr unigolyn os nad yw'n crybwyll wrth ei gyfweld neu wrth ddarparu unrhyw wybodaeth dan reoliad 20 Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddygiad) 2020, rheoliad 21A o'r rheoliadau hynny (gweithdrefn arbennig: rhybudd o ymholiad) neu reoliad 31 Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 (gweithdrefn ar dderbyn hysbysiad) rhywbeth ac mae'n dibynnu arno'n ddiweddarach mewn unrhyw weithdrefnau disgyblu (neu apêl yn erbyn canlyniad gweithrediadau o'r fath).

Rheoliad 17, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 fel y'i haddaswyd gan Atodlen 2, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

**B.23** Os bydd ymchwilydd yn cynnig cyfweld y cyn-swyddog, rhaid iddo gytuno, os yw'n rhesymol ymarferol, ar ddyddiad ac amser ar gyfer y cyfweliad gyda'r cyn-swyddog. Os na chytunir ar ddyddiad ac amser, rhaid i'r ymchwilydd ddynodi dyddiad ac amser. Os nad yw'r cyn-swyddog neu ei gyfaill heddlu ar gael i fynychu ar yr amser penodedig ond yn cynnig amser amgen sy'n rhesymol, yna bydd y cyfweliad yn cael ei ohirio tan yr amser a gynigiwyd[172].

**B.24** Mewn ymchwiliad lleol, pan fydd ymchwilydd yn fodlon, wedi ystyried amgylchiadau'r cyn-swyddog dan sylw, y byddai'n rhesymol i ofyn iddo fynychu cyfweliad, gall ymchwilydd yn hytrach roi hysbysiad ysgrifenedig o ymholiad i'r cyn-

[172] Rheoliad 21, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 fel y'i haddaswyd gan Atodlen 2, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

swyddog. Mewn ymchwiliad cyfeiriedig, yr IOPC sy'n penderfynu a ddylid rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r cyn-swyddog (yn hytrach na mynnu ei fod yn mynd i gyfweliad). Rhaid i'r hysbysiad hwn gynnwys unrhyw gwestiynau y mae'r ymchwilydd (neu'r IOPC, yn achos ymchwiliad cyfeiriedig) yn dymuno eu gofyn a rhaid iddo ofyn am ymateb o fewn cyfnod amser penodol. Rhaid i'r ymchwilydd gadw cofnod o unrhyw hysbysiad o ymholiad a'r atebion a dderbyniwyd[173].

**B.25** Ni ellir defnyddio gweithdrefnau carlam pan fydd cyn-swyddog sy'n destun ymchwiliad yn dod o dan amod C (gweler paragraff B.37). Wrth ystyried gweithdrefnau carlam, diwygir yr ystyriaethau ym mharagraff 13.45 i ddarllen fel a ganlyn[174]:

- bod yna ddigon o dystiolaeth, ar ffurf datganiadau ysgrifenedig neu ddogfennau eraill, i sefydlu yn ôl pwysau tebygolrwydd fod yr ymddygiad y mae'r ymchwiliad yn edrych arno yn cyfateb i gamymddwyn difrifol; ac

- mae er budd y cyhoedd i'r unigolyn y mae ei ymddygiad i'w gynnwys ar restr waharddedig yr heddlu yn ddi-oed

## Cwblhau Ymchwiliad

**B.26** Wrth gwblhau adroddiad ar ymchwiliad sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig, mewn perthynas â'r person sydd wedi peidio â gwasanaethu gyda'r heddlu, yn hytrach na'r wybodaeth a amlinellir yn y blwch ar dudalen 102, rhaid dod i'r casgliadau canlynol.

Ar gyfer ymchwiliadau i faterion ymddygiad cofnodadwy a chwynion oedd yn destun gweithdrefnau arbennig, rhaid i adroddiad yr ymchwilydd ddarparu crynodeb gywir o'r dystiolaeth ac atodi neu gyfeirio at unrhyw ddogfennau perthnasol.

Mewn ymchwiliad lleol sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig, mewn perthynas ag unrhyw berson sy'n dod o dan amod A neu B (gweler paragraff B.37), rhaid i'r adroddiad hefyd nodi barn yr ymchwilydd ynghylch:

i. a oes achos i'w ateb o ran camymddygiad difrifol neu nad oes yna achos i'w ateb;
ii. os mai'r farn yw nad oes achos o'r fath i'w ateb, serch hynny, efallai y torrwyd y Safonau Ymddygiad Proffesiynol a fyddai wedi cyfiawnhau dwyn achos disgyblu pe na bai'r unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o'r heddlu neu'n gwnstabl rhan amser.

Mewn ymchwiliad lleol sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig, mewn perthynas ag unrhyw berson sy'n dod o dan amod C (gweler paragraff B.37), rhaid i'r adroddiad hefyd nodi barn yr ymchwilydd ynghylch:

[173] Rheoliad 21A, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 fel y'i haddaswyd gan Atodlen 2, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.
[174] Paragraff 20A, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 2, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddygiad) 2020.

i. a dorrwyd y Safonau Ymddygiad Proffesiynol a fyddai wedi cyfiawnhau dwyn achos disgyblu pe na bai'r unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o'r heddlu neu'n gwnstabl rhan amser;
ii. os mai'r farn yw y bu toriad o'r fath, a bod y toriad mor ddifrifol, pe na bai'r unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o'r heddlu neu'n gwnstabl rhan amser, y byddai wedi cyfiawnhau ei ddiswyddo.

Mewn ymchwiliad cyfeiriedig, sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig, mater i'r IOPC, ar ôl derbyn adroddiad yr ymchwilydd, yw rhoi ei farn ar y materion hyn (gweler paragraffau B.30 - B.33 a B.34 - B.36).

Rheoliad 27, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 fel y'i haddaswyd gan Atodlen 2, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

### Argymhellion Paragraff 28ZA

**B.27** Pan wneir argymhelliad paragraff 28ZA (gweler paragraffau 17.15 - 17.20), ni all fod yn argymhelliad y dylid cyfeirio mater ynghylch unigolyn nad yw'n gwasanaethu gyda'r heddlu mwyach at y Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol, gan nad yw'r broses honno ar gael.

### Canlyniadau yn dilyn ymchwiliad lleol - personau Amodau A a B[175]

**B.28** Mae'r penderfyniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod priodol eu gwneud ar ôl cael adroddiad o ymchwiliad lleol i gŵyn neu fater ymddygiad cofnodadwy, fel yr amlinellir yn y blychau ar dudalen 121, yn cael eu diwygio ar gyfer cyn-swyddogion - gweler y blwch isod.

Ar dderbyn adroddiad o ymchwiliad lleol i gŵyn neu fater ymddygiad cofnodadwy, rhaid i'r awdurdod priodol benderfynu:

- os yw'r adroddiad yn dangos bod digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn am drosedd droseddol yn erbyn person y mae'r ymchwiliad wedi ymwneud â'i ymddygiad, a'i fod yn ystyried ei bod yn briodol i'r materion gael eu hystyried gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Rhaid i'r penderfyniad hwn roi ystyriaeth i'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, i'r graddau y bernir ei fod yn berthnasol. Gweler paragraffau XX.XX-XX.XX am ragor o wybodaeth. Rhaid hefyd gyfeirio'r mater at y CPS i gael penderfyniad ynghylch cyhuddo os yw'r materion yr ymdrinnir â hwy yn yr adroddiad yn dod o fewn unrhyw gategori rhagnodedig o faterion.
- pa un a oes gan y cyn-swyddog y mae ei ymddygiad yn destun ymchwiliad achos i'w ateb mewn perthynas â chamymddwyn difrifol neu nad oes ganddo achos i'w ateb
- lle mae'r awdurdod priodol yn penderfynu nad oes achos o'r fath i'w ateb, pa un a allai fod wedi torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol serch hynny a fyddai wedi cyfiawnhau dwyn achos disgyblu pe na bai'r unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o'r heddlu neu'n gwnstabl rhan amser
- pa gamau, os o gwbl, ddylai'r awdurdod priodol gymryd neu y bydd yn cymryd parthed materion y deliwyd â nhw yn yr adroddiad

[175] Gweler paragraff B.37 am ddiffiniad o berson Amod A a pherson Amod B.

- os yw'n ystyried ei bod yn briodol, unrhyw fater arall a gafodd sylw yn yr adroddiad a pha gamau, os o gwbl, y bydd yn cymryd ynghylch hyn

Paragraff 24, Atodlen 3, Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 2, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddygiad) 2020

Rheoliad 21B o Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, fel y'i haddaswyd gan Atodlen 1 i Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020

**B.29** Ble mae'r awdurdod priodol yn pennu bod achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol, rhaid iddo, cyn gynted â phosibl, bennu a ddylid dwyn achos disgyblu[176] yn erbyn y swyddog dan sylw[177].

B.XX Os bydd yr awdurdod cymwys yn penderfynu y dylid dwyn achos disgyblu perthnasol, rhaid iddynt[178]:

- benderfynu a oes angen gwrandawiad camymddwyn
- os felly, gyfeirio'r achos at wrandawiad camymddwyn
- os na, gyfeirio'r mater at wrandawiad carlam ar gyfer camymddwyn.

B.XX Pan fydd yr awdurdod cymwys yn penderfynu nad oes angen gwrandawiad camymddwyn, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i'r swyddog yn datgan y bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at wrandawiad carlam ar gyfer camymddwyn oni bai bod y swyddog yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod cymwys ei fod yn dymuno i'r achos gael ei gyfeirio at wrandawiad camymddwyn. Rhaid i'r swyddog roi unrhyw hysbysiad o'r fath o fewn 10 diwrnod gwaith, gan ddechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl iddo gael ei hysbysu[179].

B.XX Os hysbysir yr awdurdod cymwys fod y swyddog dan sylw yn dymuno i'r achos gael ei gyfeirio at wrandawiad camymddwyn, rhaid iddo gyfeirio'r achos at wrandawiad camymddwyn. Os na chaiff ei hysbysu fod y swyddog yn dymuno i'r achos gael ei gyfeirio at wrandawiad camymddwyn, rhaid iddo gyfeirio'r achos at wrandawiad carlam ar gyfer camymddwyn[180].

[176] Yn achos cyn-swyddogion, diffinnir achos disgyblu perthnasol fel gwrandawiad camymddwyn neu wrandawiad carlam ar gyfer camymddwyn. Rheoliad 2 o Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, fel y'i haddaswyd gan Atodlen 1 i Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.

[177] Rheoliad 23, Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 1, Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020

[178] Rheoliad 21D o Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, fel y'i haddaswyd gan Atodlen 1 i Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.

[179] Rheoliad 21D o Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, fel y'i haddaswyd gan Atodlen 1 i Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.

[180] Rheoliad 21D o Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, fel y'i haddaswyd gan Atodlen 1 i Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.

B.XX Os na fydd y swyddog yn rhoi hysbysiad o fewn 10 diwrnod gwaith, gall barhau i wneud cais i'r awdurdod cymwys gyfeirio'r achos at wrandawiad camymddwyn. Er mwyn i'r cais fod yn ddilys, rhaid iddo[181]:

- fod yn ysgrifenedig
- egluro:
- pam nad oedd yn rhesymol ymarferol i'r swyddog hysbysu'r awdurdod cymwys o fewn 10 diwrnod gwaith
- y rhesymau dros unrhyw oedi dilynol
- gael ei dderbyn cyn dyddiad y gwrandawiad carlam ar gyfer camymddwyn.

B.XX Rhaid i'r awdurdod cymwys anfon cais dilys ymlaen at y person sy'n cadeirio'r gwrandawiad carlam ar gyfer camymddwyn (y penderfynwr). Dim ond os yw'r penderfynwr yn fodlon:

- nad oedd yn rhesymol ymarferol i'r swyddog dan sylw hysbysu'r awdurdod cymwys o fewn 10 diwrnod gwaith ei fod yn dymuno i'r achos gael ei gyfeirio at wrandawiad camymddwyn; a
- bod y swyddog wedi cyflwyno ei gais o fewn cyfnod rhesymol,

Rhaid i'r penderfynwr, cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl, roi hysbysiad ysgrifenedig o'i benderfyniad i'r swyddog ac, os bydd yn caniatáu'r cais, gyfarwyddo'r awdurdod cymwys i gyfeirio'r achos at wrandawiad camymddwyn.

B.XX Rhaid i hysbysiad neu gais y swyddog (o dan baragraffau B.X neu B.X) fod[182]:

- wedi'i gyflwyno'n bersonol i'r awdurdod cymwys gan y swyddog neu, os cytunwyd â'r swyddog, gan gyfaill heddlu'r swyddog
- wedi'i anfon i gyfeiriad yr awdurdod cymwys drwy bost dosbarth cyntaf gyda chyflenwi cofrestredig (neu wasanaeth arall sy'n darparu ar gyfer cyflenwi ar y diwrnod gwaith nesaf), neu
- wedi'i anfon at yr awdurdod cymwys drwy e-bost neu ddull arall o gyfathrebu electronig.

B.XX Pan anfonir hysbysiad neu gais y swyddog drwy e-bost neu ddull electronig arall, ystyrir ei fod wedi'i roi neu'i ddarparu i'r awdurdod priodol[183]:

- ar y diwrnod hwnnw, os anfonir yr e-bost neu'r trosglwyddiad electronig arall ar ddiwrnod gwaith cyn 4.30pm, neu
- mewn unrhyw achos arall, ar y diwrnod gwaith nesaf ar ôl y diwrnod y'i hanfonwyd.

[181] Rheoliad 21E o Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, fel y'i haddaswyd gan Atodlen 1 i Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.
[182] Rheoliad 21F o Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, fel y'i haddaswyd gan Atodlen 1 i Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.
[183] Rheoliad 21F o Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, fel y'i haddaswyd gan Atodlen 1 i Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.

B.XX Pan anfonir hysbysiad neu gais y swyddog drwy'r post, ystyrir ei fod wedi'i roi neu'i ddarparu i'r awdurdod priodol[184]:

- ar yr ail ddiwrnod ar ôl iddo gael ei bostio, ei adael gyda, ei ddanfon i neu ei gasglu gan y darparwr gwasanaeth perthnasol, ar yr amod bod y diwrnod hwnnw'n ddiwrnod gwaith, neu
- mewn unrhyw achos arall, ar y diwrnod gwaith nesaf ar ôl y diwrnod y'i postiwyd, y'i gadawyd gyda, y'i danfonwyd i neu y'i casglwyd gan y darparwr gwasanaeth perthnasol.

## Canlyniadau yn dilyn ymchwiliad a gyfarwyddwyd – Personau amod A ac amod B[185]

**B.30** Pan fydd yr ymchwiliad yn ymchwiliad cyfeiriedig, a phan gyflwynir yr adroddiad i'r IOPC, mae amryw o newidiadau i'r hyn y gellir ei bennu. Bydd yr IOPC yn dal i benderfynu a yw'r adroddiad yn dangos bod digon o dystiolaeth i roi posibilrwydd realistig o euogfarn am drosedd droseddol yn erbyn person y mae'r ymchwiliad wedi ymwneud â'i ymddygiad, ac os yw'r amgylchiadau yn golygu ei bod yn briodol i'r CPS ei ystyried neu os yw o fewn categori rhagnodedig. Fodd bynnag, mae'r materion y mae'n rhaid i'r IOPC ofyn am farn yr awdurdod priodol arnynt (gweler paragraff 17.62) wedi'u haddasu i[186]:

- a oes gan unrhyw gyn-aelod o'r heddlu neu gwnstabl rhan amser y mae ei ymddygiad yn destun ymchwiliad achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol neu nad oes ganddo achos i'w ateb
- pa un a, os nad oes achos o'r fath i'w ateb, serch hynny, efallai y torrwyd y Safonau Ymddygiad Proffesiynol a fyddai wedi cyfiawnhau dwyn achos disgyblu pe na bai'r unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o'r heddlu neu'n gwnstabl rhan amser, ac
- unrhyw faterion eraill sy'n cael sylw yn yr adroddiad

**B.31** Mewn ymchwiliadau cyfeiriedig sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig, bydd yr IOPC, wrth geisio barn yr awdurdod priodol ar y materion uchod, yn cynnig eu barn ynghylch a yw[187]:

- mae achos i'w ateb mewn perthynas â chamymddwyn difrifol neu ddim achos i'w ateb
- dylid dwyn achos disgyblu
- os mai'r farn yw nad oes achos o'r fath i'w ateb, serch hynny, efallai y torrwyd y Safonau Ymddygiad Proffesiynol a fyddai wedi cyfiawnhau dwyn achos disgyblu, pe na bai'r unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o'r heddlu neu'n gwnstabl rhan amser

---

[184] Rheoliad 21F o Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, fel y'i haddaswyd gan Atodlen 1 i Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.

[185] Gweler paragraff B.37 am y diffiniad o bersonau amod A a phersonau amod B.

[186] Paragraff 23, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 2, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddygiad) 2020

[187] Rheoliad 27, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 fel y'i haddaswyd gan Atodlen 2, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020

B.XX Fel mewn unrhyw ymchwiliad a gyfarwyddwyd, gall yr awdurdod cymwys hefyd, ar yr adeg hon, benderfynu a yw'r canlynol yn wir[188]:

- bod tystiolaeth ddigonol, ar ffurf datganiadau ysgrifenedig neu ddogfennau eraill, i sefydlu, ar sail tebygolrwydd, fod yr ymddygiad y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol, a
- ei fod er budd y cyhoedd i'r person y mae'r ymddygiad yn perthyn iddo gael ei gynnwys ar restr waharddedig yr heddlu heb oedi.

Gweler paragraffau XX-XX.

**B.32** Ar ôl ystyried barn yr awdurdod priodol (os oes un), bydd yr IOPC wedyn yn gwneud penderfyniad ynghylch:

- a oes gan unrhyw gyn-aelod o'r heddlu neu gwnstabl rhan amser y mae ei ymddygiad yn destun ymchwiliad achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol neu nad oes ganddo achos i'w ateb
- pa un ai, os nad oes achos o'r fath i'w ateb, serch hynny, efallai y torrwyd y Safonau Ymddygiad Proffesiynol a fyddai wedi cyfiawnhau dwyn achos disgyblu pe na bai'r unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o'r heddlu neu'n gwnstabl rhan amser
- a ddylid dwyn achos disgyblu yn erbyn unrhyw gyn-aelod o'r heddlu neu gwnstabl rhan amser yr oedd yr ymchwiliad yn gysylltiedig â'i ymddygiad • unrhyw fater arall sy'n cael sylw yn yr adroddiad

Unwaith bydd IOPC wedi gwneud ei phenderfyniadau, mae'r weithdrefn sydd i'w dilyn yn adlewyrchu'r weithdrefn sy'n berthnasol i swyddogion heddlu sy'n gwasanaethu (gweler rheoliad 23 o Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, fel y'i haddaswyd gan Atodlen 1 i Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020).

### Canlyniadau yn dilyn ymchwiliad lleol - Amod C personau[189]

**B.33** Mae'r penderfyniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod priodol eu gwneud ar ôl derbyn adroddiad o ymchwiliad lleol i gŵyn neu fater ymddygiad cofnodadwy, fel yr amlinellir yn y blychau ar dudalen 121, yn cael eu diwygio ar gyfer cyn-swyddogion i'r hyn sydd yn y blwch isod.

Ar dderbyn adroddiad o ymchwiliad lleol i gŵyn neu fater ymddygiad cofnodadwy, rhaid i'r awdurdod priodol benderfynu:

- os yw'r adroddiad yn dangos bod digon o dystiolaeth i roi posibilrwydd realistig o euogfarn am drosedd droseddol yn erbyn person y mae'r ymchwiliad wedi ymwneud â'i ymddygiad, a'i fod yn ystyried ei bod yn briodol i'r materion gael eu hystyried gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Rhaid i'r penderfyniad hwn roi ystyriaeth i'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, i'r graddau y bernir ei fod yn berthnasol. Gweler baragraffau XX.XX-XX.XX am ragor o wybodaeth. Rhaid hefyd gyfeirio'r mater at y CPS i gael penderfyniad ynghylch cyhuddo os yw'r materion yr ymdrinnir â hwy yn yr adroddiad yn dod o fewn unrhyw gategori rhagnodedig o faterion

[188] Rheoliad 26, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020.
[189] Gweler paragraff B.37 am ddiffiniad o amod C - personau.

- pa un a allai fod wedi torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol a fyddai wedi cyfiawnhau dwyn achos disgyblu pe na bai'r unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o’r heddlu neu'n gwnstabl rhan amser
- pan fo'r awdurdod priodol yn penderfynu y gallai toriad o'r fath fod wedi digwydd, pa un a yw'r toriad mor ddifrifol, pe na bai'r unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o’r heddlu neu'n gwnstabl rhan amser, y byddai wedi cyfiawnhau ei ddiswyddo
- os yw'n ystyried ei bod yn briodol, unrhyw fater arall a gafodd sylw yn yr adroddiad a pha gamau, os o gwbl, y bydd yn cymryd ynghylch hyn

Paragraff 24, Atodlen 3, *Deddf Diwygio’r Heddlu 2002* fel y’i diwygiwyd gan Atodlen 2, Rheoliadau’r Heddlu (Cwynion a Chamymddygiad) 2020

## Canlyniadau yn dilyn ymchwiliad a gyfarwyddwyd – Personau amod C[190]

**B.34** Pan fydd yr ymchwiliad yn ymchwiliad cyfeiriedig, a phan gyflwynir yr adroddiad i'r IOPC, mae amryw o newidiadau i'r hyn y gellir ei bennu. Bydd yr IOPC yn dal i benderfynu a yw'r adroddiad yn dangos bod digon o dystiolaeth i roi posibilrwydd realistig o euogfarn am drosedd droseddol yn erbyn person y mae’r ymchwiliad wedi ymwneud â’i ymddygiad, ac os yw’r amgylchiadau yn golygu ei bod yn briodol i'r CPS ei ystyried neu os yw o fewn categori rhagnodedig. Fodd bynnag, mae'r materion y mae'n rhaid i'r IOPC ofyn am farn yr awdurdod priodol arnynt (gweler paragraff 17.62) wedi'u haddasu i[191]:

- a oes gan unrhyw gyn-aelod o’r heddlu neu gwnstabl rhan amser y mae’r ymchwiliad yn gysylltiedig â’i ymddygiad achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol neu nad oes ganddo achos i'w ateb
- pa un ai, os nad oes achos o'r fath i'w ateb, serch hynny, efallai y torrwyd y Safonau Ymddygiad Proffesiynol a fyddai wedi cyfiawnhau dwyn achos disgyblu pe na bai'r unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o’r heddlu neu'n gwnstabl rhan amser, ac •
unrhyw faterion eraill sy'n cael sylw yn yr adroddiad

**B.35** Mewn ymchwiliadau cyfeiriedig sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig, bydd yr IOPC, wrth geisio barn yr awdurdod priodol ar y materion uchod, yn cynnig eu barn ynghylch a yw[179]:

- mae achos i'w ateb mewn perthynas â chamymddwyn difrifol neu ddim achos i'w ateb
- dylid dwyn achos disgyblu
- os mai'r farn yw nad oes achos o'r fath i'w ateb, serch hynny, efallai y torrwyd y Safonau Ymddygiad Proffesiynol a fyddai wedi cyfiawnhau dwyn achos disgyblu, pe na bai'r unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o’r heddlu neu’n gwnstabl rhan amser

**B.36** Ar ôl ystyried barn yr awdurdod priodol (os oes un), bydd yr IOPC wedyn yn gwneud penderfyniad ynghylch:

- a oes gan unrhyw gyn-aelod o’r heddlu neu gwnstabl rhan amser y mae ei ymddygiad yn destun ymchwiliad achos i’w ateb am gamymddwyn difrifol neu nad oes ganddo achos i'w ateb

---

190 Gweler paragraff B.37 am y diffiniad o bersonau amod C.

191 Paragraff 23, Atodlen 3, *Deddf Diwygio’r Heddlu 2002* fel y’i diwygiwyd gan Atodlen 2, Rheoliadau’r Heddlu (Cwynion a Chamymddygiad) 2020

- pa un ai, os nad oes achos o'r fath i'w ateb, serch hynny, efallai y torrwyd y Safonau Ymddygiad Proffesiynol a fyddai wedi cyfiawnhau dwyn achos disgyblu pe na bai'r unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o’r heddlu neu'n gwnstabl arbennig.
- pan fo'r IOPC yn penderfynu bod gan yr unigolyn achos i'w ateb mewn perthynas â chamymddwyn difrifol, gwnewch benderfyniad Amod C arbennig (gweler paragraff B.39)
- unrhyw fater arall sy'n cael sylw yn yr adroddiad

## Gweithdrefnau disgyblu ar gyfer cyn-swyddogion

**B.37** Gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn unigolyn nad yw bellach yn gwasanaethu gyda’r heddlu os peidiodd yr unigolyn â bod yn swyddog heddlu ar neu ar ôl 15 Rhagfyr 2017, a oedd yn swyddog heddlu ar adeg yr ymddygiad honedig a lle gallai’r honiad fod yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol. Yn ogystal, rhaid i un o'r amodau canlynol fod yn berthnasol[180]:

- peidiodd y person â bod yn swyddog heddlu ar ôl i'r honiad ddod i sylw'r corff perthnasol gyntaf (amod A)
- fe beidiodd yr unigolyn fod yn swyddog yr heddlu ddim mwy na 12 mis wedi i'r cyhuddiad ddod i sylw’r corff perthnasol am y tro cyntaf (Amod B), neu
- daeth y cyhuddiad i sylw’r corff perthnasol fwy na 12 mis wedi i’r unigolyn y mae ei ymddygiad yn berthnasol i'r cyhuddiad roi’r gorau i fod yn swyddog heddlu (amod C) ac mae’r IOPC wedi gwneud penderfyniad arbennig y byddai gweithdrefnau disgyblu yn rhesymol a chymesur (amod C penderfyniad, gweler paragraff B.X isod)

**B.38** Nid yw'r amodau ym mharagraff B.37 yn berthnasol lle nad yr achos disgyblu fyddai'r achos disgyblu cyntaf i gael ei gymryd yn erbyn yr unigolyn mewn perthynas â'r camymddwyn difrifol honedig, oni bai eu bod yn deillio o ail-ymchwiliad i'r honiad sy'n dechrau heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl y dyddiad y gwnaethon nhw roi'r gorau i fod yn swyddog heddlu.

**B.39** Mae penderfyniad amod C yn benderfyniad a wneir gan yr IOPC ar ddiwedd ymchwiliadau cyfeiriedig ac annibynnol i benderfynu a yw'n rhesymol ac yn gymesur i ddwyn achos disgyblu yn erbyn person Amod C. Mae Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 wedi'u haddasu yn nodi'r ffactorau y mae'n rhaid i'r IOPC eu hystyried, a'r weithdrefn y mae'n rhaid ei dilyn. Dim ond ar ôl ymchwiliad cyfeiriedig neu annibynnol y gellir gwneud penderfyniadau Amod C.

**B.40** Os oes gan swyddog amod A neu B achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol, gall yr achos fynd ymlaen i wrandawiad camymddwyn neu wrandawiad carlam ar gyfer camymddwyn. Os gwneir penderfyniad arbennig o blaid dwyn achos yn erbyn swyddog amod C, gall yr achos fynd ymlaen i wrandawiad camymddwyn.

## Adolygiadau a’r corff adolygu perthnasol

**B.41** Nid yw'r ffaith nad yw unrhyw berson sy'n ymwneud â chwyn yn gwasanaethu gyda'r heddlu mwyach yn newid sut y bydd cais am adolygiad yn cael ei ystyried. Nid yw'r penderfyniadau y gellir eu gwneud yn dilyn adolygiad o ganlyniad cwyn yr ymdriniwyd â hi heblaw trwy ymchwiliad yn newid. Fodd bynnag, os yw adolygiad o ganlyniad cwyn yr ymchwiliwyd iddi yn penderfynu nad oedd y canlyniad yn rhesymol ac yn gymesur, mae'r penderfyniadau y gall y corff adolygu perthnasol eu gwneud yn newid.

Pan, yn dilyn ymchwiliad, os mai'r corff plismona lleol yw'r corff adolygu perthnasol ac mae'n canfod nad yw'r canlyniad yn rhesymol, gan ddilyn, a chymesur, gall:

- argymell fod yr awdurdod priodol yn ail-ymchwilio i'r gŵyn
- os nad yw'r gŵyn wedi ei chyfeirio'n flaenorol i'r IOPC, argymell fod yr awdurdod priodol yn ei chyfeirio at yr IOPC
- pan fo'r person nad yw'n gwasanaethu gyda'r heddlu mwyach yn dod o dan amod A neu B (gweler paragraff B.37), gwnewch argymhelliad i'r awdurdod priodol mewn perthynas ag unrhyw berson sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu: o fod gan y person achos i'w ateb parthed camymddygiad difrifol, neu ddim achos i'w ateb, parthed ymddygiad y person y mae'r ymchwiliad yn gysylltiedig iddo
    - bod achos disgyblu yn cael ei ddwyn yn erbyn y person mewn perthynas ag ymddygiad y person yr oedd yr ymchwiliad yn ymwneud ag ef
    - y dylid addasu unrhyw weithdrefnau disgyblu yn erbyn y person hwnnw er mwyn delio gydag agweddau o'r ymddygiad hwnnw, fel y dynodir

- pan fo'r person nad yw'n gwasanaethu gyda'r heddlu mwyach yn dod o dan amod C, (gweler paragraff B.37), gwnewch benderfyniad (yn lle penderfyniad yr awdurdod priodol) ynghylch: o pa un a dorrwyd y Safonau Ymddygiad Proffesiynol y byddai hynny wedi cyfiawnhau dwyn achos disgyblu pe na bai'r unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o'r heddlu, neu'n gwnstabl rhan amser, a
    - os felly, pa un a yw'r toriad mor ddifrifol, pe na bai'r unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o'r heddlu neu'n gwnstabl arbennig, y byddai wedi cyfiawnhau ei ddiswyddo

- wneud argymhelliad dan baragraff 28ZA, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* (argymhelliad gyda'r bwriad o unioni anfodlonrwydd achwynydd, gweler paragraffau B.27 a 17.15-17.20)
- gwneud argymhelliad y dylai'r awdurdod cymwys ddarparu copi o'r adroddiad i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a'i hysbysu bod y corff plismona lleol o'r farn bod yr adroddiad yn dangos bod digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn am drosedd droseddol yn erbyn person y mae'r ymchwiliad wedi ymwneud â'i ymddygiad, a'i fod yn ystyried ei bod yn briodol i'r materion gael eu hystyried gan y CPS. Rhaid i'r penderfyniad i wneud yr argymhelliad hwn roi ystyriaeth i'r *Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron* (gweler paragraffau XX.XX-XX.XX am ragor o wybodaeth ynghylch gwneud yr argymhelliad hwn), i'r graddau y bernir ei fod yn berthnasol. Rhaid hefyd gyfeirio'r mater at y CPS i gael penderfyniad ynghylch cyhuddo os yw'r materion yr ymdrinnir â hwy yn yr adroddiad yn dod o fewn unrhyw gategori rhagnodedig o faterion.

Paragraff 25, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 2, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddygiad) 2020

Os, yn dilyn ymchwiliad, mai'r IOPC yw'r corff adolygu perthnasol ac mae'n canfod nad yw'r canlyniad yn ganlyniad rhesymol a chymesur, gall:

- wneud ei gasgliadau ei hun (yn lle, neu yn atodol i, gasgliadau'r ymchwiliad)
- cyfarwyddo bod y gŵyn yn cael ei hail-ymchwilio, a phennu'r dull ymchwilio (gweler paragraff 9.49)
- os yw'r person nad yw'n gwasanaethu gyda'r heddlu mwyach yn dod o dan amod A neu B (gweler paragraff B.37), gwnewch argymhelliad i'r awdurdod priodol mewn perthynas ag unrhyw berson sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu: o fod gan y person achos i'w ateb parthed camymddygiad difrifol, neu ddim achos i'w ateb, parthed ymddygiad y person y mae'r ymchwiliad yn gysylltiedig iddo
  - bod achos disgyblu yn cael ei ddwyn yn erbyn y person mewn perthynas ag ymddygiad y person yr oedd yr ymchwiliad yn ymwneud ag ef
  - y dylid addasu unrhyw weithdrefnau disgyblu yn erbyn y person hwnnw er mwyn delio gydag agweddau o'r ymddygiad hwnnw, fel y dynodir

- pan fo'r person nad yw'n gwasanaethu gyda'r heddlu mwyach yn dod o dan amod C, (gweler paragraff B.37), gwnewch benderfyniad (yn lle penderfyniad yr awdurdod priodol) ynghylch: o pa un a allai'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol wedi cael eu torri a fyddai wedi cyfiawnhau dwyn achos disgyblu pe na bai'r unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o'r heddlu, neu'n gwnstabl rhan amser, ac
  - os felly, a yw'r toriad mor ddifrifol, pe na bai'r unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o'r heddlu neu'n gwnstabl arbennig, y byddai wedi cyfiawnhau ei ddiswyddo

- wneud argymhelliad dan baragraff 28ZA, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* (argymhelliad gyda'r bwriad o unioni anfodlonrwydd achwynydd, gweler paragraffau B.27 a 17.15-17.20)
- hysbysu'r CPS ei fod o'r farn bod yr adroddiad yn dangos bod digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn am drosedd droseddol yn erbyn person y mae'r ymchwiliad wedi ymwneud â'i ymddygiad, a'i fod yn ystyried ei bod yn briodol i'r materion gael eu hystyried gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Rhaid i'r penderfyniad hwn roi ystyriaeth i'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, i'r graddau y bernir ei fod yn berthnasol. Bydd yr IOPC hefyd yn darparu copi o'r adroddiad. Rhaid hefyd gyfeirio'r mater at y CPS i gael penderfyniad ynghylch cyhuddo os yw'r materion yr ymdrinnir â hwy yn yr adroddiad yn dod o fewn unrhyw gategori rhagnodedig o faterion.

Paragraffau 25 a 26, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 2, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddygiad) 2020

## Ymdrin â materion lle mae'r unigolyn wedi rhoi'r gorau i wasanaethu cyn 15 Rhagfyr 2017

**B.42** Dylai materion sy'n ymwneud â gweithredoedd unigolyn a beidiodd â gwasanaethu cyn 15 Rhagfyr 2017 gael eu trin yn rhesymol ac yn gymesur yn unol â'r canllaw hwn. Dylid nodi dysgu ar gyfer yr heddlu, lle bo hynny'n briodol. Pan fo'r mater yn gŵyn sydd wedi'i

chofnodi, rhaid darparu canlyniad rhesymol a chymesur i'r achwynydd yn yr un modd ag unrhyw gŵyn arall a gofnodwyd.

**B.43** Wrth benderfynu a ddylid cofnodi neu ymchwilio i gŵyn, neu a ddylid cyfeirio unrhyw fater, dylai'r awdurdod priodol ystyried a yw'n briodol gwneud hynny er efallai na fydd yn orfodol (oherwydd na all unrhyw achos disgyblu ddilyn).

**B.44** Dylai'r person sy'n ymdrin â'r mater ystyried yr egwyddorion a nodir ym mharagraffau 11.26 - 11.27. Gellid gwahodd y person dan sylw o hyd i fynychu cyfweliad o'i wirfodd, neu ymateb i restr o gwestiynau ysgrifenedig.

**B.45** Ar ddiwedd yr ymdriniaeth, ni ellir gwneud unrhyw benderfyniadau ar faterion disgyblu (na pherfformiad) gan na ellir cymryd unrhyw gamau. Fodd bynnag, er tryloywder, gellir cynnig barn ynghylch a fyddai achos i'w ateb am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol pe bai'r unigolyn wedi bod yn gwasanaethu o hyd.

## Pan fydd unigolyn yn rhoi’r gorau i wasanaethu yn ystod y broses o ymdrin â’r mater

**B.46** Ar gyfer cwynion nad ydynt yn cynnwys ymddygiad a allai fod yn camymddwyn difrifol, a materion DSI, os bydd person yn peidio â gwasanaethu yn ystod yr ymdriniaeth, rhaid i'r mater mewn perthynas â'r person hwnnw barhau i gael ei drin mewn modd rhesymol a chymesur. Fodd bynnag, ni ellir dwyn achos disgyblu.


**B.47** Pan fydd yn ymchwiliad i fater ymddygiad cofnodadwy, os nad yw'r mater yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol nid oes unrhyw awdurdodaeth bellach o dan *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* i barhau i ymchwilio i'r mater.

**B.48** Pan ystyrir bod y mater o bosibl yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol, dylai'r canlynol ddigwydd:


- dylid rhoi rhybudd newydd i'r swyddog o dan y rheoliadau wedi'u haddasu (gweler paragraff B.22)
- os na chynhaliwyd y cyfweliad eto, dylid dilyn y weithdrefn o dan y rheoliadau wedi'u haddasu (gweler paragraffau B.23 - B.24)
- os adolygir yr asesiad difrifoldeb yn ystod yr ymchwiliad dylid hysbysu'r swyddog o'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau wedi'u haddasu (gweler paragraff B.22)
- bydd angen i'r adroddiad terfynol gydymffurfio â'r gofynion wedi'u haddasu a amlinellir uchod (gweler paragraff B.26)

# Siartiau llif

## Cwynion




# Mater ymddygiad cofnodadwy




# Materion DSI



# Prawf y corff adolygu perthnasol



## Adolygiadau gan gyrff plismona lleol




Pennod 18

# Geirfa

### Prif swyddog dros dro

Rhywun sy’n arfer neu gyflawni swyddogaethau a dyletswyddau prif swyddog yn unol â naill ai Adrannau 41, 44, 45(4) y *Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* neu Adran 25 y *Ddeddf Heddlu Dinas Llundain 1839*[181].

### Effeithir yn andwyol

Fe effeithir yn andwyol ar rywun os bydd yn dioddef unrhyw fath o golled neu niwed, trallod neu anghyfleuster, neu os yw mewn perygl neu dan risg ormodol o effeithio yn andwyol arno[182].

Pan fo'r gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad person sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, ni all person fod yn achwynydd trwy honni iddo gael ei effeithio'n andwyol os yw wedi gweld neu glywed yr ymddygiad yn unig, neu ei effeithiau honedig, oni bai:

- ei fod yn gorfforol bresennol neu'n ddigonol agos pan ddigwyddodd yr ymddygiad neu digwyddodd effeithiau ble gallai weld neu glywed yr ymddygiad neu effeithiau; neu
- roedd wedi ei effeithio'n andwyol oherwydd (neu roedd wedi ei waethygu gan y ffaith) ei fod eisoes yn adnabod yr unigolyn y digwyddodd yr ymddygiad mewn cysylltiad ag o/hi.[183]

**Awdurdod priodol**

Yr awdurdod priodol ar gyfer unigolyn yn gwasanaethu gyda'r heddlu yw[184]:

- ar gyfer prif swyddog neu brif swyddog dros dro, y corff plismona lleol ar gyfer ardal yr heddlu y mae'r swyddog yn aelod ohono; neu
- mewn unrhyw achos arall, y prif swyddog sydd ag awdurdod a rheolaeth dros y sawl sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu

Mewn perthynas â chwynion nad ydynt yn ymwneud ag ymddygiad unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, yr awdurdod priodol yw prif swyddog yr heddlu y mynegir anfodlonrwydd ag ef gan yr achwynydd.

**Erthygl 2**

Mae Erthygl 2 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn nodi y bydd bywyd pawb yn cael ei ddiogelu gan y gyfraith.

Mae hyn yn cynnwys gwaharddiad ar y wladwriaeth yn cymryd bywyd (yn amodol ar eithriadau cyfyngedig iawn) ac, mewn rhai amgylchiadau, dyletswydd bositif ar y wladwriaeth i ddiogelu bywyd. Weithiau bydd yn glir iawn bod honiad yn effeithio ar hawliau unigolyn dan Erthygl 2 – er enghraifft, pan fydd unigolyn yn marw yn y ddalfa gan yr heddlu. Mewn achosion eraill gall fod yn llai amlwg os yw Erthygl 2 yn weithredol – er enghraifft, pan honnir fod yr heddlu'n ymwybodol o fygythiad i fywyd rhywun a heb gymryd camau priodol i ddiogelu'r bywyd hwnnw.

I gael cyngor ac arweiniad pellach ar gymhwyso Erthygl 2, gweler y canllawiau cyfraith achosion a luniwyd gan Lys Hawliau Dynol Ewrop, sydd ar gael ar ei wefan. Os nad yw awdurdodau priodol yn sicr os yw mater yn gysylltiedig i Erthygl 2, dylent gymryd cyngor cyfreithiol.

**Erthygl 3**

Mae Erthygl 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn nodi na fydd unrhyw un yn ddarostyngedig i artaith neu driniaeth neu gosb annynol neu israddol. Mae'n hawl absoliwt – sy'n golygu nad yw artaith, na thriniaeth annynol neu israddol fyth yn cael ei ganiatáu, dan unrhyw amgylchiadau.

Rhaid i gamdriniaeth o'r unigolyn gyrraedd isafswm lefel difrifoldeb cyn y gellir ei ystyried i fod yn artaith, triniaeth neu gosb annynol neu israddol. Bydd os fydd camdriniaeth yn gysylltiedig i Erthygl 3 yn ddibynnol ar amgylchiadau'r achos, yn cynnwys hyd y driniaeth, yr effeithiau corfforol a meddyliol ar y dioddefwr, gan ystyried ei oed, rhyw a chyflwr iechyd.

Gellir defnyddio Erthygl 3 hefyd pan fo honiad bod yr heddlu, neu asiantaeth arall, wedi methu ag amddiffyn rhywun rhag artaith, neu wedi methu ag ymchwilio yn briodol i artaith, neu driniaeth neu gosb annynol neu ddiraddiol.

Os nad yw awdurdodau priodol yn sicr os yw mater yn gysylltiedig i Erthygl 3, dylent gymryd cyngor cyfreithiol.

**Prif swyddog**

Mae prif swyddog yn golygu prif swyddog yr heddlu mewn llu heddlu[192]. I'r rhan fwyaf o heddluoedd, y Prif Gwnstabl fydd hwn, ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan a Heddlu Dinas Llundain y comisiynwyr priodol ydyw.

**Cod Moeseg**

Mae'r 'Cod Moeseg' a gynhyrchwyd yn 2024 gan y Coleg Plismona yn cynnwys dwy ran: 'Egwyddorion plismona moesegol' a 'Chanllawiau ar gyfer ymddygiad moesegol a phroffesiynol mewn plismona'. Nid yw'n Gòd Ymarfer statudol, er ei fod yn cael ei ategu gan y 'Cod Ymarfer ar gyfer Plismona Moesegol', a gyhoeddwyd gan y Coleg Plismona o dan adran 39A o Ddeddf yr Heddlu 1996, ac sy'n darparu cyfarwyddyd i brif swyddogion ar hyrwyddo a chefnogi ymddygiad moesegol a phroffesiynol o fewn eu heddluoedd.

**Triniwr cwynion**

Triniwr cwynion yw unrhyw berson sydd wedi'i benodi i ddelio â chwynion. Mae hyn yn cynnwys, pan fydd cwyn yn cael ei hymchwilio, yr ymchwilydd.

**Ymddygiad**

Mae ymddygiad yn cynnwys gweithredoedd, esgeulustod, datganiadau a phenderfyniadau (p'un ai'n wir, honedig neu ymhlyg)[193].

**Achosion troseddol**

Mae achosion troseddol yn cynnwys[187]:

- Unrhyw ddarpar achosion troseddol, neu
- Pob achos troseddol a ddygwyd nad yw wedi ei gwblhau (ar wahân i gyflwyno a phenderfynu ar apêl ar wahân i apêl yn erbyn collfarn i Lys y Goron).

**Ymchwiliad dan Gyfarwyddyd**

Ymchwiliad a gyflawnir gan yr awdurdod priodol ond dan gyfarwyddyd a rheolaeth yr IOPC[188].

Mae'r IOPC yn cyfarwyddo'r ymchwiliad o ran ei gwmpas, strategaeth ymchwilio a chasgliadau'r adroddiad.

Bydd tasgau fel llenwi'r log polisi ac ysgrifennu'r adroddiad terfynol yn cael eu gwneud gan ymchwilydd yr heddlu dan gyfarwyddyd yr IOPC. Bydd yr IOPC yn adolygu llyfrau polisi ac yn cadarnhau bod yr ymchwiliad wedi bodloni'r cylch gorchwyl.

**Camau disgyblu**

Camau disgyblu yw[189]:

- rybudd ysgrifenedig
- rhybudd ysgrifenedig terfynol
- gostyngiad mewn rheng, neu
- ddiswyddo heb rybudd

**Gweithdrefnau disgyblu**

Mae ystyr achos disgyblu at ddibenion *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* yn wahanol ar wahanol bwyntiau yn y ddeddfwriaeth.

---

[192] Adran 29, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.*
[193] Adran 29, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.*

Ar gyfer aelod o'r heddlu neu gwnstabl rhan amser golyga gweithdrefnau disgyblu unrhyw weithdrefnau dan Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Arfer Myfyriol.

Bydd y term 'achos disgyblu' hefyd yn cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol o dan Reoliadau (Perfformiad) yr Heddlu 2020, lle bynnag y defnyddir y term hwnnw yn adran 22 (8), a pharagraffau 2 (6B), 6(2E), 6A(10), 19ZG(2), 19ZH(6), 20(1), 22(10), 23(5A), 24(6B), 25(4C), 25(4E), 25(14) a 27 (2), Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*.

Ar gyfer unrhyw berson sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu

, golyga gweithdrefnau disgyblu unrhyw weithdrefnau neu broses rheoli ble ystyrir ymddygiad yr unigolyn hwnnw, yn hytrach na'i berfformiad, i ddibenion penderfynu os dylid cyflwyno unrhyw sancsiwn neu fesur cosbol yn ei erbyn oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

Bydd y term 'achos disgyblu' hefyd yn cynnwys unrhyw achos neu broses reoli pan ystyrir bod perfformiad yr unigolyn hwnnw'n penderfynu a yw'n foddhaol ac a ddylid cymryd unrhyw gamau mewn perthynas ag ef lle bynnag y defnyddir y term hwnnw yn adran 22 (8) a pharagraffau 2 (6B), 6(2E), 6A(10), 19ZG(2), 19ZH(6), 20(1), 22(10), 23(5A), 24(6B), 25(4C), 25(4E), 25(14) a 27 (2) o Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*[194].

**Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol**

Mae hyn yn golygu'r Confensiwn dros Ddiogelu Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol a gytunwyd gan Gyngor Ewrop yn Rhufain ar 4 Tachwedd 1950.

**Camymddwyn difrifol**

Gweithredu'n groes i'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol sydd mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau diswyddiad[195].

Fodd bynnag, pan fo mater yn cael ei ymdrin ag ef o dan Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, mae'r diffiniad canlynol yn gymwys:

"tor safonau ymddygiad proffesiynol sydd mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau diswyddo, ac at ddibenion y rheoliadau hyn, bernir bod ymddygiad sydd wedi arwain at euogfarn am drosedd y gellir ei dwyn ar dditiad yn unig yn gyfystyr â thor o'r fath"[196]

**Prawf niwed**

Ni ddylid cyflenwi gwybodaeth mewn dogfennau a ddatgenir i fod yn destun y prawf niwed dan Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 i'r swyddog dan sylw i'r graddau y mae'r awdurdod priodol yn ystyried y bydd atal datgeliad i'r swydd yn[192]:

- angenrheidiol i ddibenion atal datgelu cynamserol neu amhriodol ar wybodaeth sy'n berthnasol i, neu y gellid ei defnyddio mewn, unrhyw achosion troseddol
- angenrheidiol er budd diogelwch cenedlaethol
- angenrheidiol i ddibenion atal neu ddatgelu trosedd, neu arestio neu erlyn troseddwyr
- angenrheidiol ar gyfer atal neu ddatgelu camymddygiad gan swyddogion eraill o'r heddlu neu aelodau o staff yr heddlu neu eu dal am faterion o'r fath

[194] Adran 29, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*; Rheoliadau 1 a 47, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddwyn) yr Heddlu 2020; Rheoliad 2, Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020; Rheoliad 4, Rheoliadau (Perfformiad) yr Heddlu 2020.

[195] Paragraff 29, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* 192
Rheoliad 6, Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.

[196] Rheoliad 2, Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.

- cael ei gyfiawnhau ar y sail y byddai darparu'r wybodaeth yn golygu ymdrech anghymesur o'i chymharu â difrifoldeb yr honiadau yn erbyn y swyddog dan sylw
- angenrheidiol a chymesur ar gyfer diogelu lles a diogelwch unrhyw hysbysydd neu dyst, neu
- fel arall er budd y cyhoedd

**Ymchwiliad annibynnol**

Ymchwiliad a gyflawnir gan yr IOPC ei hun[197].

Yn aml fe ddefnyddir ymchwiliad annibynnol ar gyfer y digwyddiadau mwyaf difrifol ac/ neu rai sydd fwyaf er lles y cyhoedd. Er enghraifft, y rhai sy'n achosi'r mwyaf o bryder cyhoeddus, sydd â'r potensial mwyaf i gael effaith ar gymunedau, neu sydd ag oblygiadau difrifol i enw da'r gwasanaeth heddlu.

**Y rhai â diddordeb**

Rhywun sydd â diddordeb mewn cael ei hysbysu'n briodol am ymdriniaeth o gŵyn, mater ymddygiad cofnodadwy neu fater DSI. Nid yw sawl sydd â diddordeb yn achwynwr.
Yn achos cwyn neu fater ymddygiad cofnodadwy, bydd gan rywun ddiddordeb mewn cael ei hysbysu'n briodol os yw'n ymddangos i'r IOPC neu awdurdod priodol fod y person hwnnw:

- yn berthynas i'r unigolyn yr honnir bod ei farwolaeth o ganlyniad i'r ymddygiad yr achwynir amdano neu y mae'r ymddygiad cofnodadwy yn berthnasol iddo
- yn berthynas i'r unigolyn yr honnir bod ei anaf difrifol o ganlyniad i'r ymddygiad yr achwynir amdano neu y mae'r ymddygiad cofnodadwy yn berthnasol iddo ac na all y person hwnnw wneud cwyn; neu
- yn unigolyn sydd wedi dioddef anaf difrifol yr honnir i fod o ganlyniad i'r ymddygiad yr achwynir amdano neu y mae'r ymddygiad cofnodadwy yn berthnasol iddo[198]

Yn achos mater DSI, bydd gan rywun ddiddordeb mewn cael ei hysbysu'n briodol os yw'n ymddangos i'r IOPC neu awdurdod priodol fod y person hwnnw:

- yn berthynas i'r ymadawedig;
- yn berthynas i'r sawl sydd wedi dioddef anaf difrifol ac na all yr unigolyn hwnnw wneud cwyn; neu
- yn unigolyn sydd wedi dioddef anaf difrifol.[199]

Diffinnir perthynas fel unrhyw gymar, partner, rhiant neu blentyn sy'n oedolyn[200].

Gall unigolyn nad yw o fewn unrhyw un o'r categorïau uchod ddal i fod yn berson â diddordeb os yw'r IOPC neu awdurdod priodol yn ystyried fod gan yr unigolyn hwnnw ddiddordeb yn yr ymdriniaeth o'r gŵyn, materion ymddygiad neu fater DSI sy'n ddigonol i'w gwneud yn briodol i ddarparu gwybodaeth iddo yn unol â'r adran hon. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys crwneriaid.

Er mwyn trin unigolyn fel rhywun â diddordeb dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* rhaid ei fod wedi cydsynio i ddarparu gwybodaeth iddo[201].

---

[197] Paragraff 19, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*
[198] Adran 21, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*
[199] Adran 21, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*
[200] Rheoliad 36, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020
[201] Adran 21, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

**Corff plismona lleol**

Mae hyn yn derm ar y cyd am:

- comisiynwyr yr heddlu a throseddu
- Swyddfa'r Maer dros Blismona a Throseddau (parthed dosbarth Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitan)
- y Cyngor Cyffredinol (parthed ardal heddlu Dinas Llundain)[202]

Yn ogystal, caiff yr Ysgrifennydd Cartref wneud gorchymyn yn unol ag Adran 107F o *Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009* bod maer awdurdod cyfun i arfer swyddogaethau comisiynydd heddlu a throseddu mewn perthynas ag ardal benodol.

**Ymchwiliad lleol**

Ymchwiliad a gyflawnir gan yr awdurdod priodol ar ei ran ei hun[203].

**Atgyfeirio gorfodol**

Cwyn, mater ymddygiad neu fater DSI y mae'n rhaid ei atgyfeirio at yr IOPC.

**Aelod o'r heddlu**

Yn y canllaw hwn mae 'aelod o'r heddlu' yn golygu unrhyw un sy'n ymuno â'r heddlu fel cwnstabl h.y. nid fel staff sifil, gwirfoddolwr, neu gwnstabl rhan amser.

**Camymddygiad**

Y diffiniad o gamymddwyn yn *Neddf Diwygio'r Heddlu 2002* yw 'torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol'[204].

Fodd bynnag, pan ymdrinnir â mater o dan Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, mae'r diffiniad canlynol yn berthnasol:

Gweithredu'n groes i'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol sydd mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau achos disgyblu[201].

**Gweithdrefnau camymddygiad**

Ar gyfer aelod o heddlu neu gwnstabl gwirfoddol, mae gweithdrefnau camymddygiad yn golygu cyfarfod camymddygiad neu wrandawiad camymddygiad[205].

**Person dan sylw**

Mae person dan sylw yn golygu:

- yn achos ymchwiliad i gŵyn, yr unigolyn y mae awgrym yn ei gylch y gallai fod wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n cyfiawnhau cyflwyno gweithdrefnau disgyblu
- yn achos ymchwiliad i fater ymddygiad cofnodadwy, y sawl y mae'r ymchwiliad yn ymwneud â'i ymddygiad

**Person sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu** Mae

hyn yn cynnwys:

- aelod o heddlu

[202] Adran 101, *Deddf yr Heddlu 1996*
[203] Paragraff 16, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*
[204] Paragraff 29, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* 201 Rheoliad 2, Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.
[205] Rheoliad 2, Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.

- cyflogai sifil llu heddlu (y cyfeirir ato yn y canllaw hwn fel aelod o staff yr heddlu)
- cyflogai i Gyngor Cyffredin Dinas Llundain sydd dan gyfarwyddyd a rheolaeth prif swyddog
- cwnstabl gwirfoddol sydd dan gyfarwyddyd a rheolaeth prif swyddog
- unigolyn wedi ei ddynodi yn wirfoddolwr cefnogaeth gymunedol neu wirfoddolwr cefnogaeth plismona dan Adran 38 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*[206]

**Rhestr wahardd yr heddlu**

Y rhestr y cyfeirir ati yn adran 88B(2) *Deddf yr Heddlu 1996*. Rhestr o'r holl swyddogion, cwnstabliaid rhan amser ac aelodau staff sydd wedi'u diswyddo o blismona trwy Reoliadau Ymddygiad a Pherfformiad yr Heddlu a gweithdrefnau'r heddlu lleol ar gyfer delio ag ymddygiad a pherfformiad ar gyfer staff yr heddlu.

**Cyfaill yr heddlu**

Unigolyn y mae'r swyddog wedi ei ddewis. Pan

fo'r person dan sylw yn aelod o'r heddlu Gall yr

unigolyn dan sylw ddewis:

- swyddog yr heddlu;
- aelod o staff yr heddlu;
- person a enwebwyd gan gymdeithas staff y swyddog

nad yw fel arall yn gysylltiedig â'r mater, i weithredu fel cyfaill yr heddlu[207].

Pan fo'r person dan sylw yn gyn-aelod o'r heddlu

Mae'r diffiniad o 'gyfaill yr heddlu' yn wahanol parthed cyn swyddogion[208]. Gall cyn swyddogion ddewis:

- swyddog yr heddlu;
- aelod o staff yr heddlu;
- unrhyw berson arall a enwebir gan yr unigolyn dan sylw ac sydd wedi ei gymeradwyo gan brif swyddog yr heddlu mae'r unigolyn yn gwasanaethu ynddo

Pan fo'r person dan sylw yn aelod o staff yr heddlu neu'n wirfoddolwr dynodedig Gall yr

unigolyn dan sylw ddewis:

- person a gyflogir gan undeb llafur sy'n swyddog i'r undeb hwnnw
- swyddog undeb llafur a ardystiwyd gan yr undeb hwnnw fel un sydd â phrofiad neu hyfforddiant mewn gweithredu fel cydymaith i aelodau staff yr heddlu neu wirfoddolwyr mewn achosion disgyblu
- swyddog yr heddlu;
- aelod o staff yr heddlu; neu
- unrhyw berson arall a enwebir gan y person dan sylw ac a gymeradwywyd gan brif swyddog yr heddlu y mae aelod o staff yr heddlu neu wirfoddolwr dynodedig yr heddlu yn gwasanaethu ynddo nad yw fel arall yn gysylltiedig â'r mater, i weithredu fel cyfaill yr heddlu[209].

**Swyddog yr Heddlu**

[206] Adran 12, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*
[207] Rheoliad 18, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020
[208] Rheoliad 18, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 fel y'i haddaswyd gan Atodlen 2, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020
[209] Rheoliad 23, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

Aelod o heddlu neu gwnstabl gwirfoddol[210].

**Aelod o staff yr heddlu**

Naill ai:

- gweithiwr sifil i lu heddlu, neu
- un o weithwyr y Cyngor Cyffredin sydd o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y prif swyddog[211].

**Ymarfer sydd angen gwelliant**

Tanberfformio neu ymddygiad nad yw'n cyfateb i gamymddygiad neu gamymddygiad difrifol, sy'n brin o ddisgwyliadau'r cyhoedd a gwasanaeth yr heddlu. Wrth asesu a yw perfformiad neu ymddygiad swyddog yn gyfystyr ag arfer sy'n gofyn am welliant, rhaid i'r person wneud hynny gan roi sylw i'r Cod Moeseg, a gyhoeddir gan Goleg yr Heddlu, fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd[212].

**Cofnodi**

Mae cofnodi cwyn, mater ymddygiad neu fater DSI yn golygu bod statws ffurfiol iddi dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*.

**Mater ymddygiad cofnodadwy**

Mae mater ymddygiad cofnodadwy yn fater ymddygiad sydd wedi'i gofnodi o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Mae 'cofnodi' yn y cyd-destun hwn yn golygu bod y mater ymddygiad yn cael statws ffurfiol a bod yn rhaid ei drin o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*.

**Proses adolygu ymarfer myfyriol**

Y gweithdrefnau a sefydlir yn Rhan 6 o Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, ar gyfer delio ag ymarfer sydd angen gwelliant.

**Rheoliad 35, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020**

Mae Rheoliad 35 Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddygiad) 2020 yn dynodi'r eithriadau o'r dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth a gyflwynir ar yr IOPC, awdurdod priodol neu gorff plismona lleol (beth bynnag fo'r achos) gan adrannau 20 (5) a 21 (10) o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*.

Mae'r eithriadau hyn yn codi pan, ym marn yr IOPC, awdurdod priodol neu gorff plismona lleol, mae peidio datgelu gwybodaeth yn angenrheidiol er mwyn:

a) atal datgelu cynamserol neu amhriodol ar wybodaeth sy'n berthnasol i gamau troseddol gwirioneddol neu arfaethedig neu y gellid eu defnyddio mewn achos o'r fath
b) atal datgelu gwybodaeth dan unrhyw amgylchiadau os bydd peidio ei ddatgelu:
i. er budd diogelwch cenedlaethol
ii. i ddibenion atal neu ddatgelu trosedd, neu arestio neu erlyn troseddwyr; iii. yn ofynnol ar sail cymesuredd, neu iv. yn angenrheidiol fel arall er budd y cyhoedd.

Rhaid i'r IOPC/awdurdod priodol/corff plismona lleol ystyried a oes cyfiawnhad dros beidio â datgelu gwybodaeth o dan unrhyw un o'r seiliau uchod:

a) os yw'r wybodaeth honno yn berthnasol i, neu y gellid ei defnyddio mewn, unrhyw wir neu ddarpar weithdrefnau disgyblu (neu apêl yn erbyn canlyniad gweithdrefn o'r fath)
b) os gallai datgelu'r wybodaeth honno arwain at lygru tystiolaeth tystion yn ystod gweithdrefn o'r fath (neu apêl)

[210] Rheoliad 2, Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.
[211] Rheoliad 1, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.
[212] Rheoliad 2, Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.

c) gallai datgelu'r wybodaeth honno beryglu lles neu ddiogelwch unrhyw drydydd parti
d) os yw'r wybodaeth honno yn cyfateb i gudd-wybodaeth droseddol

Ni ddylid dal gwybodaeth yn ôl ar un o'r seiliau hyn oni bai bod yr awdurdod priodol yn dod i'r casgliad bod risg gwirioneddol wrth ddatgelu'r wybodaeth gan achosi effaith niweidiol sylweddol. Wrth ystyried a all darparu gwybodaeth gael effaith niweidiol sylweddol, rhaid cadw mewn cof y gall y risg beidio bod yn amlwg wrth edrych ar un ddogfen, ond gallai gael ei hawgrymu pan gymerir sawl dogfen gyda'i gilydd. Er enghraifft, efallai na fydd hysbysydd yn cael ei enwi yn glir, ond fe all fod yn bosibl ei adnabod o'r cyd-destun pan ystyrir sawl dogfen gyda'i gilydd.

**Dogfen berthnasol**

Pan y'i defnyddir ym mharagraffau 13.43 i 13.45, dogfen yn ymwneud ag unrhyw gŵyn neu fater dan ymchwiliad (ac yn cynnwys dogfen gydag awgrymiadau o ran trywydd ymholiad i'w dilyn neu dystion i'w cyfweld)[213].

**Corff adolygu perthnasol (RRB)**

Y corff perthnasol i ystyried adolygiad a wnaed dan Baragraff 6A neu 25, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*.

Yr IOPC yw'r corff adolygu perthnasol ble:

i. corff plismona lleol yw'r awdurdod priodol
ii. fod y gŵyn ynghylch ymddygiad swyddog uwch (swyddog sydd â rheng uwch na phrif uwch-arolygydd)
iii. nid yw'r awdurdod priodol yn gallu bodloni ei hun, o'r gŵyn yn unig, na fyddai'r ymddygiad yr achwynwyd amdano (pe byddai'n cael ei brofi) yn cyfiawnhau dwyn achos troseddol neu weithdrefnau disgyblu[214] neu na fyddai'n cynnwys amharu ar hawliau person dan Erthygl 2 neu 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
iv. mae'r gŵyn wedi ei hatgyfeirio at yr IOPC yn y gorffennol, neu mae'n un y mae'n rhaid gwneud hynny iddi
v. mae'r IOPC yn trin y gŵyn fel un sydd wedi ei hatgyfeirio (a elwir hefyd yn 'bŵer menter')
vi. mae'r gŵyn yn deillio o'r un digwyddiad â chwyn sy'n bodloni ii- v vii. mae unrhyw ran o'r gŵyn o fewn ii-vi[215]

Mewn unrhyw achos arall, y corff adolygu perthnasol yw'r corff plismona lleol.

**Datganiad perthnasol**

Datganiad llafar neu ysgrifenedig yn ymwneud ag unrhyw gŵyn neu fater dan ymchwiliad[216].

[213] Rheoliad 1, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

[214] Yn yr achos hwn, ar gyfer aelodau o'r heddlu neu gwnstabl rhan amser, golyga gweithdrefnau disgyblu unrhyw weithdrefnau dan Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol. Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol. Ar gyfer unrhyw berson arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, golyga unrhyw achosion neu broses rheoli ble ystyrir ymddygiad yr unigolyn hwnnw, yn hytrach na'i berfformiad, at ddibenion penderfynu a ddylid cyflwyno unrhyw sancsiwn neu fesur cosbol yn ei erbyn oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

[215] Paragraff 30, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*; Rheoliad 32, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

[216] Rheoliad 1, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020. 214
Adran 21A, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.*

**Adran 21A, Deddf Diwygio'r Heddlu 2002**

Ni ddylai'r IOPC ddatgelu gwybodaeth benodol, na'r ffaith y'i derbyniwyd, oni bai fod yr awdurdod priodol yn cydsynio i'w datgelu.

Ni ddylai'r ymchwilydd mewn ymchwiliad cyfeiriedig ddatgelu gwybodaeth benodol, na'r ffaith y derbyniwyd gwybodaeth o'r fath, i unrhyw un ar wahân i Gyfarwyddwr Cyffredinol yr IOPC, oni bai fod yr awdurdod priodol yn cydsynio i'w datgelu. Mae'r wybodaeth dan sylw yn:

- wybodaeth gwasanaeth cudd-wybodaeth
- gwybodaeth ynghylch warant a gyhoeddwyd dan ran dau neu ran chwech o *Ddeddf Grymoedd Ymchwilio 2016*
- gwybodaeth gan adran o'r llywodraeth sydd wedi ei nodi gan yr adran honno fel gwybodaeth y gallai ei datgeliad, achosi niwed i ddiogelwch, buddiannau economaidd neu gysylltiadau rhyngwladol y Deyrnas Unedig neu beryglu diogelwch unrhyw un[214] **Uwch swyddog**

Aelod o heddlu sydd â rheng uwch na prif uwch-arolygydd[217].

**Anaf difrifol**

Torri asgwrn, toriad dwfn, rhwygiad neu anaf sy'n achosi difrod i organ fewnol neu atal unrhyw swyddogaeth gorfforol[218].

**Asesiad difrifoldeb** Asesiad

o ran:

- a fyddai'r ymddygiad, pe bai'n cael ei brofi, yn gyfystyr â chamymddwyn sydd mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau camau disgyblu neu gamymddwyn difrifol; a
- os byddai'r ymddygiad yn dod yn destun gweithdrefnau disgyblu, ar ba ffurf fyddai'r gweithrediadau hynny yn debygol o fod[219]**Gweithdrefnau arbennig**

Mae gweithdrefnau arbennig yn berthnasol i ymchwiliadau sy'n ymwneud â chwyn yn erbyn, neu ymddygiad, aelod o heddlu neu gwnstabl gwirfoddol. Yn achos unrhyw berson arall, rhaid i ymchwilydd gadw at y polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar gyfer ymchwilio i honiadau o unrhyw fath o gamymddwyn.

Rhaid i ymchwilwyr gymhwyso gweithdrefnau arbennig:

- mewn ymchwiliad i gŵyn, os yw'n ymddangos i'r ymchwilydd bod arwydd bod unigolyn y mae'r ymchwiliad yn ymchwilio iddo efallai wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd fyddai'n cyfiawnhau dwyn camau disgyblu
- ym mhob ymchwiliad i faterion ymddygiad cofnodadwy[220]

---

[217] Rheoliad 1, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

[218] Adran 29, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.*

[219] Rheoliad 1, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020. Yn yr achos hwn, ar gyfer aelodau o'r heddlu neu gwnstabl rhan amser, golyga gweithdrefnau disgyblu unrhyw weithdrefnau dan Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol. Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol. Ar gyfer unrhyw berson arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, golyga unrhyw achosion neu broses rheoli ble ystyrir ymddygiad yr unigolyn hwnnw, yn hytrach na'i berfformiad, at ddibenion penderfynu a ddylid cyflwyno unrhyw sancsiwn neu fesur cosbol yn ei erbyn oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

[220] Paragraff 19A, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* Yn yr achos hwn, ar gyfer aelodau o'r heddlu neu gwnstabl rhan amser, golyga gweithdrefnau disgyblu unrhyw weithdrefnau dan Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol. Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol. Ar gyfer unrhyw berson arall sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, golyga unrhyw achosion neu broses rheoli ble ystyrir ymddygiad yr unigolyn hwnnw, yn hytrach na'i berfformiad, at

Trwy gydol yr ymchwiliad, rhaid i'r ymchwilydd ystyried os oes awgrym o'r fath yn bodoli hyd yn oed os penderfynodd yn wreiddiol nad oedd.

**Safonau ymddygiad proffesiynol**

Safonau a sefydlwyd yn Atodlen 2, rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.

**Gweithdrefnau ar gyfer perfformiad anfoddhaol (UPP)**

Sefydlir y gweithdrefnau yn Rheoliadau'r Heddlu (Perfformiad) 2020.

**Atgyfeirio gwirfoddol**

Cwyn neu fater ymddygiad cofnodadwy nad oes yn rhaid ei atgyfeirio at yr IOPC, ond ble mae difrifoldeb y mater dan sylw neu unrhyw amgylchiadau eithriadol yn cyfiawnhau atgyfeirio[221].

**Cwynion sydd wedi eu tynnu'n ôl**

Cwyn sydd wedi ei thynnu yn ôl yn unol â rheoliadau 38 a 39, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020 yn dilyn mynegiad neu hysbysiad gan yr achwynydd[222].

**Tyst i'r ymddygiad**

I ddibenion gwneud cwyn dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, er mwyn gallu dweud iddo fod yn 'dyst yr ymddygiad' (ac felly'n gallu bod yn achwynwr) rhaid i'r unigolyn fod wedi caffael ei wybodaeth o'r ymddygiad hwnnw mewn modd a fyddai'n ei wneud yn dyst cymwys sy'n gallu cyflwyno tystiolaeth dderbyniadwy o'r ymddygiad hwnnw mewn achosion troseddol neu sy'n meddu ar neu'n rheoli unrhyw beth a fyddai'n dystiolaeth dderbyniadwy mewn achosion troseddol o'r ymddygiad[223].

ddibenion penderfynu a ddylid cyflwyno unrhyw sancsiwn neu fesur cosbol yn ei erbyn oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

[221] Paragraffau 4 a 13, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

[222] Rheoliadau 38 a 39, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020.

[223] Adran 12, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

## Cysylltwch

Cysylltwch â'r IOPC i gael cyngor pellach, neu os oes angen copi o'r cyhoeddiad hwn arnoch mewn iaith neu fformat arall.

Cyhoeddwyd y canllaw hwn gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) ym mis Chwefror 2020, ac roedd yn gywir adeg ei gyhoeddi.

030 0020 0096

enquiries@policeconduct.gov.uk

policeconduct.gov.uk

@policeconduct @IOPC_Help

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg. This document is also available in English.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg. Mae’r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg hefyd.